

CYFRES BEIRDD YR UCHELWYR

Gwaith Dafydd Bach ap Madog Wladaidd

‘Sypyn Cyfeiliog’

a

Llywelyn ab y Moel

CANOLFAN UWCHEFRYDIAU
CYMREIG A CHELTAIDD
PRIFYSGOL CYMRU

CYFRES BEIRDD YR UCHELWYR

Cyfarwyddwr

Yr Athro Geraint H. Jenkins, BA, PHD, DLITT

Golygydd y Gyfres

Ann Parry Owen, BA, PHD

Cymrodyr Ymchwil

M. Paul Bryant-Quinn, STB, BA

R. Iestyn Daniel, BA, PHD

Rhiannon Ifans, BA, PHD

Owen Thomas, BA, LLB

Golygyddion Ymgynghorol

Yr Athro Emeritws J.E. Caerwyn Williams,

MA, BD, DLITT, DLITT CELT, FSA, MRIA, FBA

Yr Athro Emeritws R. Geraint Gruffydd, BA, DPHIL, DLITT, FBA

Bwrdd Golygyddol

Gareth A. Bevan, MA

Yr Athro Dafydd Johnston, BA, PHD

A. Cynfael Lake, MA, PHD

Peredur Lynch, BA, PHD

Swyddog Golygyddol

Glenys Howells, MA, ALA

GWAITH
DAFYDD BACH AP MADOG
WLADAIDD 'SYPYN CYFEILIOG'
A LLYWELYN AB Y MOEL

golygwyd gan

R. IESTYN DANIEL



ABERYSTWYTH
CANOLFAN UWCHEFRYDIAU CYMREIG A CHELTAIDD
PRIFYSGOL CYMRU

1998

Prifysgol Cymru ©, 1998.

Adargraffiad PDF gyda mân gywiriadau, 2023.

Cyhoeddir y gwaith hwn dan drwydded [CC BY-NC-SA 4.0](https://creativecommons.org/licenses/by-nc-sa/4.0/).



Am ymholiadau ynglŷn â hawliau atgynhyrchu eraill, cysyllter â'r Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3HH.

Y mae cofnod catalogio'r llyfr hwn ar gael gan y Llyfrgell Brydeinig.

ISBN 0 947531 50 5

Cysodwyd gan staff Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru.

Cydnabyddir yn ddiolchgar gefnogaeth ariannol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant tuag at baratoi'r adargraffiad digidol hwn. Am wybodaeth bellach cysyllter ag Ann Parry Owen, apo@cymru.ac.uk.

Dull y golygu

Lluniwyd testunau cyfansawdd o'r cerddi gan ddangos y darlenniadau amrywiol (ond nid rhai orgraffyddol pur) yn yr 'Amrywiadau' ar waelod y testun. Os yw darlenniad amrywiol yn digwydd mewn grŵp o lawysgrifau, cofnodir ef yn orgraff y llawysgrif hynaf yn y grŵp hwnnw. Os oes gair neu ran o linell yn eisiau mewn llawysgrif, nodir hynny drwy roi'r gair neu'r geiriau (yn orgraff y testun golygedig) mewn bachau petryal. Os oes llinell neu linellau yn eisiau mewn llawysgrif, nodir y rheini mewn bachau petryal wrth drafod trefn y llinellau. Fodd bynnag, os yw'r gair neu'r geiriau'n annarllenadwy neu wedi cael eu dileu oherwydd staen, twll, &c., dynodir hynny â bachau petryal gwag. Defnyddir yr arwydd | yn achlysurol i ddangos diwedd llinell wrth drafod yr amrywiadau llawysgrifol.

Cyflwynir y testun mewn orgraff Cymraeg Diweddar ac wedi ei briflythrennu a'i atalnodi. Diweddarwyd orgraff a sain geiriau, oni bai fod y gynghanedd yn gofyn am sain Gymraeg Canol (gw. GDG³ xlvi); er eng-hraifft, diweddarwyd *-aw-*, *-aw* yn *o* pan oedd angen (oni bai fod yr odl yn hawlio cadw'r *aw*) ac *-ei-*, *-ei* yn *ai*. Ond ni ddiweddarwyd geiriau Cymraeg Canol dilys megis *fal*, *no(g)*, *gwedy*, *uddun* (sef 'iddynt'), *ymy*, *yty* (sef 'imi', 'iti'), *wyd* (sef 'wyt'), *carud*, *cery*, &c.

Yn yr Eirfa ar ddiwedd gwaith y ddau fardd rhestrir y geiriau a drafodir yn y nodiadau (nodir hynny ag 'n'). Rhestrir hefyd eiriau dieithr neu eiriau sy'n digwydd mewn ystyr wahanol i'r arfer, gan gynnig aralleiriad ar eu cyfer. Yn y mynegeion i enwau priod rhestrir pob enw person a phob enw lle sy'n digwydd yn y cerddi.

Diolchiadau

Cydnabyddir yn ddiolchgar gymorth y canlynol: Golygyddion a staff Geiriadur Prifysgol Cymru; staff Adran y Llawysgrifau a'r Cofysgrifau yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth; Golygydd, Bwrdd Golygyddol a Golygyddion Ymgynghorol y gyfres hon; Dr A.D. Carr, Mr Cledwyn Fychan, Mr Daniel Huws, Mr Richard H. Morgan, Mrs Hilary Peters, Yr Athro John Rowlands, Dr Enid Roberts, Mr Tomos Roberts a Mr Graham C.G. Thomas.

Cynnwys

DULL Y GOLYGU	v
DIOLCHIADAU	vi
BYRFODDAU	
Llyfryddol	ix
Termau a Geiriau	xvii

GWAITH DAFYDD BACH ‘SYPYN CYFEILIOG’

RHAGYMDRODD	3
-------------------	---

TESTUN AC ARALLEIRIAD

1. Moliant Dafydd ap Cadwaladr o Fachelltref	13
2. Moliant Harri Salsbri ac Annes Cwrtes o Leweni	21
3. Cywydd serch	23
4. Cywydd serch	26
5. Cywydd serch	29
6. Cywydd serch	32
7. Englyn	34

ATODIAD

i. Cywydd serch	35
ii. Englyn gan Ruffudd Unbais	37
iii. Englyn gan Ruffudd Unbais i Ddafydd	38

NODIADAU	39
----------------	----

GEIRFA	63
--------------	----

Enwau personau	70
----------------------	----

Enwau lleoedd	70
---------------------	----

GWAITH LLYWELYN AB Y MOEL

RHAGYMDRODD	75
-------------------	----

TESTUN AC ARALLEIRIAD

8. I'r bedlwyn	91
9. I frwydr Waun Gaseg	94
10. I Goed y Graig Lwyd	96
11. I'r pwrs	100
12. I'r tafod	104

13.	I'r farf.....	109
14.	Ateb cyntaf Llywelyn ab y Moel i Rys Goch Eryri.....	114
15.	Ail ateb Llywelyn ab y Moel i Rys Goch Eryri.....	119
16.	Trydydd ateb Llywelyn ab y Moel i Rys Goch Eryri.....	125
17.	I Fair ac Iesu.....	130
ATODIAD		
	Moliant Huw Sae o'r Trallwng.....	131
NODIADAU		135
GEIRFA		197
Enwau personau		209
Enwau lleoedd.....		210
LLAWYSGRIFAU		211
MYNEGAI I'R LLINELLAU CYNTAF		221
MYNEGAI I'R NODDWYR A'R GWRTHRYCHAU		223

Byrfoddau

Llyfryddol

- AP *Yr Areithiau Pros*, gol. D. Gwenallt Jones (Caerdydd, 1934)
- Arch Camb *Archaeologia Cambrensis*, 1846–
- Arm P² *Armes Prydein ... from the Book of Taliesin*, edited and annotated by Ifor Williams, English version by Rachel Bromwich (Dublin, 1972)
- AWH *Aspects of Welsh History: Selected Papers of the late Glyn Roberts*, ed. A.H. Dodd and J.G. Williams (Cardiff, 1969)
- B *Bwletin y Bwrdd Gwybodau Celtaidd*, 1921–94
- Bangor Llawysgrif yng nghasgliad Prifysgol Cymru Bangor
- Bangor (Mos) Llawysgrif yng nghasgliad Bangor (Mostyn) ym Mhrifysgol Cymru Bangor
- P.C. Bartrum: WG1 *Welsh Genealogies AD 300–1400* (Cardiff, 1974)
- P.C. Bartrum: WG2 *Welsh Genealogies AD 1400–1500* (Aberystwyth, 1983)
- BaTh *Beirdd a Thywysogion: Barddoniaeth Llys yng Nghymru, Iwerddon a'r Alban*, gol. Morfydd E. Owen a Brynley F. Roberts (Caerdydd ac Aberystwyth, 1996)
- BD *Brut Dingestow*, gol. Henry Lewis (Caerdydd, 1942)
- Beirn *Y Beirniad*, 1911–20
- BL Add Llawysgrif Ychwanegol yng nghasgliad y Llyfrgell Brydeinig, Llundain

- Bl B XIV *Blodeugerdd Barddas o'r Bedwaredd Ganrif ar Ddeg*, gol. Dafydd Johnston (Llandybïe, 1989)
- BrM *Breuddwyd Maxen*, gol. Ifor Williams (Bangor, 1908)
- Brog Llawysgrif yng nghasgliad Brogyntyn, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- ByCy *Y Bywgraffiadur Cymreig hyd 1940* (Llundain, 1953)
- CA *Canu Aneirin*, gol. Ifor Williams (Caerdydd, 1938)
- CAMBM *Catalogue of Additions to the Manuscripts in the British Museum*
- Card Llawysgrif yn Llyfrgell Ganolog Caerdydd
- CH William Gwyn Lewis, 'Astudiaeth o ganu'r beirdd i'r Herbertiaid hyd ddechrau'r unfed ganrif ar bymtheg' (Ph.D., Cymru [Bangor], 1982)
- CLC² *Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru*, gol. Meic Stephens (ail arg., Caerdydd, 1997)
- CM Llawysgrif yng nghasgliad Cwrwmawr, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- CMCS *Cambridge Medieval Celtic Studies*, 1981–1993; *Cambrian Medieval Celtic Studies*, 1993–
- CMOC *Canu Maswedd yr Oesoedd Canol*, gol. D.R. Johnston (Caerdydd, 1991).
- CO *Culhwch ac Olwen*, gol. Rachel Bromwich a D. Simon Evans (Caerdydd, 1988)
- CSTB *Cerddi Serch y Tri Bedo*, gol. Patrick J. Donovan (Caerdydd, 1982)
- Cylchg CHSFeir *Cylchgrawn Cymdeithas Hanes a Chofnodion Sir Feirionnydd*, 1949–
- Cylchg LlGC *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, 1939–
- ChT Ifor Williams, *Chwedl Taliesin* (Caerdydd, 1957)
- D *Dictionarium Duplex*, ed. John Davies (Londinium, 1632)

- R.R. Davies: CCC R.R. Davies, *Conquest, Coexistence, and Change: Wales 1063–1415* (Oxford, 1987)
- D (Diar) ‘Y Diarhebbion Cymraeg’ yn D
- DE *Gwaith Dafydd ab Edmwnd*, gol. Thomas Roberts (Bangor, 1914)
- DGG *Cywyddau Dafydd ap Gwilym a’i Gyfoeswyr*, gol. Ifor Williams a T. Roberts (Bangor, 1914)
- DGG² *Cywyddau Dafydd ap Gwilym a’i Gyfoeswyr*, gol. Ifor Williams a T. Roberts (ail arg., Caerdydd, 1935)
- DNB *The Dictionary of National Biography*, ed. L. Stephen and S. Lee (Oxford, 1917)
- DWH Michael Powell Siddons, *The Development of Welsh Heraldry* (3 vols., Aberystwyth, 1991–3)
- L. Dwnn: HV *Heraldic Visitations of Wales*, gol. S.R. Meyrick (Llandovery, 1846)
- Études *Études celtiques*, 1936–
- EWGP *Early Welsh Gnostic Poems*, ed. Kenneth Jackson (Cardiff, 1935)
- G *Geirfa Barddoniaeth Gynnar Gymraeg*, gol. J. Lloyd-Jones (Caerdydd, 1931–63)
- GBDd *Gwaith Bleddyn Ddu*, gol. R. Iestyn Daniel (Aberystwyth, 1994)
- GBF *Gwaith Bleddyn Fardd ac Eraill o Feirdd Ail Hanner y Drydedd Ganrif ar Ddeg*, gol. Rhian Andrews *et al.* (Caerdydd, 1996)
- GCBM i *Gwaith Cynddelw Brydydd Mawr*, i, gol. Nerys Ann Jones ac Ann Parry Owen (Caerdydd, 1991)
- GCBM ii *Gwaith Cynddelw Brydydd Mawr*, ii, gol. Nerys Ann Jones ac Ann Parry Owen (Caerdydd, 1995)
- GDB *Gwaith Dafydd Benfras ac Eraill o Feirdd Hanner Cyntaf y Drydedd Ganrif ar Ddeg*, gol. N.G. Costigan (Bosco) *et al.* (Caerdydd, 1995)
- GDG *Gwaith Dafydd ap Gwilym*, gol. Thomas Parry (Caerdydd, 1952)

- GDG³ *Gwaith Dafydd ap Gwilym*, gol. Thomas Parry (trydydd arg., Caerdydd, 1979)
- GDGor *Gwaith Dafydd Gorlech*, gol. Erwain H. Rheinallt (Aberystwyth, 1997)
- GDID *Gwaith Deio ab Ieuan Du a Gwilym ab Ieuan Hen*, gol. A. Eleri Davies (Caerdydd, 1992)
- GDLI *Gwaith Dafydd Llwyd o Fathafarn*, gol. W. Leslie Richards (Caerdydd, 1964)
- GEO *Gwaith Einion Offeiriad a Dafydd Ddu o Hiraddug*, gol. R. Geraint Gruffydd a Rhiannon Ifans (Aberystwyth, 1997)
- GGI *Gwaith Guto'r Glyn*, gol. J. Llywelyn Williams ac Ifor Williams (Caerdydd, 1939)
- GGI² *Gwaith Guto'r Glyn*, gol. J. Llywelyn Williams ac Ifor Williams (ail arg., Caerdydd, 1961)
- GGrG *Gwaith Gronw Gyriog, Iorwerth ab y Cyriog, Mab Clochyddyn, Gruffudd ap Tudur Goch ac Ithel Ddu*, gol. Rhiannon Ifans, Ann Parry Owen, W. Dyfed Rowlands ac Erwain H. Rheinallt (Aberystwyth, 1997)
- GHC *Gwaith Hywel Cilan*, gol. Islwyn Jones (Caerdydd, 1963)
- GIG *Gwaith Iolo Goch*, gol. D.R. Johnston (Caerdydd, 1988)
- GIF *Gwaith Iorwerth Fynglwyd*, gol. H.Ll. Jones ac E.I. Rowlands (Caerdydd, 1975)
- GLGC *Gwaith Lewys Glyn Cothi*, gol. Dafydd Johnston (Caerdydd, 1995)
- GLM *Gwaith Lewys Môn*, gol. Eurys I. Rowlands (Caerdydd, 1975)
- GLIBH *Gwaith Llywelyn Brydydd Hoddnant, Dafydd ap Gwilym, Hillyn ac eraill*, gol. Ann Parry Owen a Dylan Foster Evans (Aberystwyth, 1996)
- GLIF *Gwaith Llywelyn Fardd I ac Eraill o Feirdd y Ddeuddegfed Ganrif*, gol. K.A. Bramley *et al.* (Caerdydd, 1994)

- GLIG *Gwaith Llywelyn Goch ap Meurig Hen*, gol. Dafydd Johnston (Aberystwyth, 1998)
- GLILI *Gwaith Llywarch ap Llywelyn ‘Prydydd y Moch’*, gol. Elin Jones (Caerdydd, 1989)
- GMB *Gwaith Meilyr Brydydd a’i Ddisgynyddion*, gol. J.E. Caerwyn Williams *et al.* (Caerdydd, 1994)
- GMW D. Simon Evans, *A Grammar of Middle Welsh* (Dublin, 1964)
- GO *L’œuvre poétique de Gutun Owain*, gol. E. Bachellery (Paris, 1950–1)
- GOLIM *Gwaith Owain ap Llywelyn ab y Moel*, gol. Eurys Rolant (Caerdydd, 1984)
- GP *Gramadegau’r Penceirddiaid*, gol. G.J. Williams ac E.J. Jones (Caerdydd, 1934)
- GPC *Geiriadur Prifysgol Cymru* (Caerdydd, 1950–)
- R.A. Griffiths: PW i R.A. Griffiths, *The Principality of Wales in the Later Middle Ages: i. South Wales 1277–1536* (Cardiff, 1972)
- O. Gruffydd: Gw *Gwaith Owen Gruffydd* (Llanuwchllyn, 1904)
- GSCMB ‘Guide to the Special Collections of Manuscripts in the Library of the University College of North Wales Bangor’ (cyfrol anghyhoeddedig, Prifysgol Cymru Bangor, 1962)
- GSRh *Gwaith Sefnyn, Rhisieryd, Gruffudd Fychan ap Gruffudd ab Ednyfed a Llywarch Bentwrch*, gol. Nerys Ann Jones ac Erwain Haf Rheinallt (Aberystwyth, 1995)
- GST *Gwaith Siôn Tudur*, gol. Enid Roberts (Caerdydd, 1980)
- GTP *Gwaith Tudur Penllyn ac Ieuan ap Tudur Penllyn*, gol. Thomas Roberts (Caerdydd, 1958)
- Gwyn Llawysgrif yng nghasgliad J. Gwyneddon Davies yn Llyfrgell Prifysgol Cymru Bangor
- HCLI *Gwaith Huw Cae Llwyd ac Eraill*, gol. Leslie Harries (Caerdydd, 1953)

- HG Cref *Hen Gerddi Crefyddol*, gol. Henry Lewis (Caerdydd, 1931)
- HGK *Historia Gruffud vab Kenan*, gol. D. Simon Evans (Caerdydd, 1977)
- HMNLW *Handlist of Manuscripts in the National Library of Wales* (Aberystwyth, 1943–)
- HPF J.Y.W. Lloyd, *The History of Powys Fadog*, 6 vols. (London, 1881–7)
- IGE *Cywyddau Iolo Goch ac Eraill*, gol. Henry Lewis, Thomas Roberts ac Ifor Williams (Caerdydd, 1925)
- IGE² *Cywyddau Iolo Goch ac Eraill*, gol. Henry Lewis, Thomas Roberts ac Ifor Williams (ail arg., Caerdydd, 1937)
- J Llawysgrif yng nghasgliad Coleg Iesu, Rhydychen
- JGD Llawysgrif yng nghasgliad J. Glyn Davies yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- JGE Llawysgrif yng nghasgliad J. Gwenogvryn Evans yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- LBS S. Baring-Gould & J. Fisher, *The Lives of the British Saints*, 4 vols. (London, 1907–13)
- Llawdden, &c.: Gw M.G. Headley, 'Barddoniaeth Llawdden a Rhys Nanmor' (M.A., Cymru [Bangor], 1937)
- LIB *Cyfreithiau Hywel Dda yn ôl Llyfr Blegywryd*, gol. S.J. Williams a J.E. Powell (Caerdydd, 1942)
- LlCy *Llên Cymru*, 1950–
- LIDC *Llyfr Du Caerfyrddin*, gol. A.O.H. Jarman (Caerdydd, 1982)
- LIGC Llawysgrif yng nghasgliad Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- J.E. Lloyd: HW³ J.E. Lloyd, *A History of Wales* (third ed., London, 1939)
- Llst Llawysgrif yng nghasgliad Llansteffan, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth

- MA² *The Myvyrian Archaiology of Wales* (second ed., Denbigh, 1870)
- MED *Middle English Dictionary* (Michigan, 1963–)
- Mont Coll *Collections Historical and Archaeological ... by the Powysland Club, 1868–*
- J. Morris-Jones: WS John Morris-Jones, *Welsh Syntax* (Cardiff, 1931)
- Morus Dwyfech: Gw O. Owens, ‘Gweithiau Barddonol Morus Dwyfech’ (M.A., Cymru [Bangor], 1944).
- Mos Llawysgrif yng nghasgliad Mostyn, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- NCE *New Catholic Encyclopaedia* (New York, 1967)
- NLWCM J.H. Davies, *The National Library of Wales: Catalogue of Manuscripts*, i (Aberystwyth, 1921)
- ODCC² *The Oxford Dictionary of the Christian Church*, ed. F.L. Cross (second ed., London, 1958)
- OED² *The Oxford English Dictionary* (second ed., Oxford, 1989)
- PACF J.E. Griffith, *Pedigrees of Anglesey and Carnarvonshire Families* (Bangor, 1914)
- Pant Llawysgrif yng nghasgliad Panton, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- Pen Llawysgrif yng nghasgliad Peniarth, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- PKM *Pedeir Keinc y Mabinogi*, gol. Ifor Williams (Caerdydd, 1930)
- R *The Poetry in the Red Book of Hergest*, ed. J. Gwenogvryn Evans (Llanbedrog, 1911)
- RB *The Text of the Bruts from the Red Book of Hergest*, ed. J. Rhŷs and J. Gwenogvryn Evans (Oxford, 1890)
- RWM *Report on Manuscripts in the Welsh Language*, ed. J. Gwenogvryn Evans (London, 1898–1910); fe’i defnyddir hefyd i ddynodi rhif llawysgrif yng nghatalog J.G.E.

- SCWMBLO F. Madan and H.H.E. Craster, *Summary Catalogue of Western Manuscripts in the Bodleian Library at Oxford* (Oxford, 1924)
- TA *Gwaith Tudur Aled*, gol. T. Gwynn Jones (Caerdydd, 1926)
- TCHSDd *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Ddinbych*, 1952–
- THSC *The Transactions of the Honourable Society of Cymmrodorion*, 1892/3–
- Traeth *Y Traethodydd*, 1845–
- Treigladau T.J. Morgan, *Y Treigladau a'u Cystrawen* (Caerdydd, 1952)
- TW Geiriadur Syr Thomas Wiliems, *Thesaurus Linguae Latinae et Cambrobritannicae* yn Pen 228
- TYP² *Trioedd Ynys Prydein*, ed. Rachel Bromwich (second ed., Cardiff, 1978)
- WG J. Morris Jones, *A Welsh Grammar* (Oxford, 1913)
- I. Williams: ELI Ifor Williams, *Enwau Lleoedd* (Lerpwl, 1945)
- WM *The White Book Mabinogion*, ed. J. Gwenogvryn Evans (Pwllheli, 1907; adargraffiad Caerdydd, 1973)
- WML *Welsh Medieval Law*, ed. A.W. Wade-Evans (Oxford, 1909)
- Wy Llawysgrif yng nghasgliad Wynnstay, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- YB *Ysgrifau Beirniadol*, gol. J.E. Caerwyn Williams (Dinbych, 1965–)
- YCM² *Ystorya de Carolo Magno*, gol. Stephen J. Williams (ail arg., Caerdydd, 1968)
- YE *Ymborth yr Enaid*, gol. R. Iestyn Daniel (Caerdydd, 1995)
- YEPWC *Ymryson Edmwnd Prys a Wiliam Cynwal*, gol. Gruffydd Aled Williams (Caerdydd, 1986)

Termau a geiriau

a.	ansoddair, -eiriol	gn.	geiryn
a.	<i>ante</i>	gol.	golygydd, golygwyd
adf.	adferf		gan
amhff.	amherffaith	grb.	gorberffaith
amhrs.	amheronol	grch.	gorchymnol
anh.	anhysbys	grff.	gorffennol
ardd.	arddodiad, -iaid	gthg.	gwrthgyferbynier, -iol
arg.	argraffiad	gw.	gweler
<i>art.cit.</i>	<i>articulo citato</i>	Gwydd.	Gwyddeleg
b.	benywaidd	H.	Hen
ba.	berf anghyflawn	<i>ib.</i>	<i>ibidem</i>
be.	berfenw	<i>id.</i>	<i>idem</i>
bf. (f.)	berf, -au	<i>l.c.</i>	<i>loco citato</i>
c.	<i>circa</i>	ll.	lluosog; llinell
c. (g.)	canrif	Llad.	Lladin
C.	Canol	llau.	llinellau
cf.	cymharer	llsgr.	llawysgrif
cfrt.	gradd gyfartal	llsgrau.	llawysgrifau
Cl.	Celteg, Celtaidd	m.	mewnol
cmhr.	gradd gymharol	myn.	mynegol
Cym.	Cymraeg	n.	nodyn
cys.	cysylltair, cysylltiad	neg.	negydd, -ol
d.g.	dan y gair	Nor.	Norseg
dib.	dibynnol	<i>ob.</i>	<i>obiit</i>
dyf.	dyfodol	<i>op.cit.</i>	<i>opere citato</i>
e.	enw	pres.	presennol
eb.	enw benywaidd	prff.	perffaith
e.c.	enw cyffredin	prs.	person, -ol
ed.	<i>edited by, edition</i>	pth.	perthynol
e.e.	er enghraifft	r	<i>recto</i>
eg.	enw gwrywaidd	rh.	rhagenw, -ol
e.p.	enw priod	S.	Saesneg
<i>ex inf.</i>	<i>ex informatione</i>	<i>sc.</i>	<i>scilicet</i>
f.	ffolio	<i>s.n.</i>	<i>sub nomine</i>
<i>fl.</i>	<i>floruit</i>	td.	tudalen
ff.	ffolios	un.	unigol
Ffr.	Ffrangeg	v	<i>verso</i>
g.	(c.) canrif	vols.	volumes
g.	gwrywaidd		

GWAITH SYPYN CYFEILIOG

Rhagymadrodd

Bywyd y bardd

Enw'r bardd

Y mae gan y bardd hwn ddau enw, yn ôl tystiolaeth y llawysgrifau, sef Dafydd Bach ap Madog Wladaidd a Sypyn Cyfeiliog.¹ Arwyddocâd yr enw *Sypyn*, yn ddiau, yw mai dyn bychan o gorff oedd y bardd, a cheir ateg i hyn yn y ffaith iddo gael ei uniaethu weithiau yn y llawysgrifau â bardd arall, cynharach, o gwmwd Gwerthrynion heb fod ymhell i'r de o Gyfeiliog, a llysenwid Cnepyn Gwerthrynion.² Wrth ei llysenw y cyfeirir ato gan amlaf yn y llawysgrifau, a dilynir yr arfer yn y golygiad hwn.

Ei achau a'i fro

Yr unig beth a wyddys i sicrwydd am achau Sypyn Cyfeiliog yw enw ei dad, Madog Wladaidd. Y mae'n rhesymol casglu hefyd oddi wrth ei llysenw mai un o gwmwd Cyfeiliog yn ne-orllewin Powys oedd Sypyn, ac yn y cyswllt hwn, diddorol sylwi i Lewys ab Ifan Llwyd o Fachynlleth, y profwyd ei ewylllys yn 1579, adael *tente* ('trigfan')³ o'r enw *llety Sypyn* i'w fab Rhys.⁴ Ac mewn arolwg o faenor Cyfeiliog yn llawysgrif 16562 o gasgliad Castell Powys yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, llawysgrif a ddyddir i flynyddoedd cynnar yr ail ganrif ar bymtheg,⁵ cyfeirir yn yr adran sy'n ymwneud â

¹ Yn olnodau llsgrau. FJ (dwy lsg. sy'n perthyn yn agos i'w gilydd) i gerdd 1 isod, gelwir ef yn Ddafydd Ddu ap Madog Wladaidd, ac yn yr olnod i englyn a gambriodolwyd iddo (gw. td. 11 isod) yn Ruffudd Ddu ap Madog Wladaidd; ond yma'n unig y digwydd y ffurfiau hyn, a chroes ydynt i dystiolaeth Llyfr Coch Hergest, y llsgr. gynharaf o lawer sy'n cynnwys gwaith gan y bardd.

² Gw. IGE² lxxx. Dywedir yno hefyd ddarfod cymysgu'r llysenw Bach Buddugre â'r rhain, ond o'r ffynonellau a nodir yno wrth droed y ddalen fel rhai sy'n cynnwys y tri llysenw, nid yw'r un ohonynt yn cynnwys y llysenw hwn ac nis gwelwyd mewn unrhyw lsg. arall o waith Dafydd Bach. Ar uniaethu Sypyn Cyfeiliog a Cnepyn Gwerthrynion, gw. olnodau cerdd 1 isod; cf. hefyd LIGC 872D [= Wrecsam 1], 267 a RWM ii, 352. Yn nhestun llsgr. d, uniaethir Sypyn Cyfeiliog / Dafydd Bach ap Madog Wladaidd â Bleddyn Was y Cwd hefyd!

³ Gw. OED² xvii, 784 lle y rhoddir yr ystyrion '*abode, residence*', &c. (d.g. *tent* (3)) a cf. MED rhan T.2, 222, d.g. *tente*.

⁴ Gw. 'Probate Records, St. Asaph Diocese: Copy Wills 1578-83', Llyfrgell Genedlaethol Cymru, f. 84'. Ni chafwyd hyd i'r gwreiddiol. Yn 'Cyfeiliog Pedigrees', Mont Coll xvii (1894), 62, dywedir i Rys ap Lewis etifeddu Llety Sypyn *in Penegoes*, ond ymddengys mai camgymeriad yw hyn. Diolchir i Mr Cledwyn Fychan am dynnu fy sylw at y cyfeiriadau hyn at Lety Sypyn.

⁵ B.G. Charles, 'A Schedule of Powis Castle Deeds and Documents Deposited by the Right Honourable George Charles Herbert 4th Earl of Powis' (cyfrol anghyhoeddedig, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, 1971), i, 124.

threfgordd (*villa*) Uwchgarreg ym mhlwyf Machynlleth (td. 16), at *parcella terrae* o'r enw *llety Suppyn*, ger llecyn o'r enw *allt y wrach*,⁶ a rentid gan Lewis ap Dafydd Goch ac yna Siôn Fychan ap Siencyn (*Johannes uaghan ap Jenkin*).

Ni welwyd yr enw Dafydd Bach ap Madog Wladaidd yn yr achau ond ceir ynddynt sawl Dafydd ap Madog a drigai mewn amrywiol rannau o Gymru. O'r gwŷr â'r enw hwn yn ne Powys, sylwyd yn arbennig ar Ddafydd ap Madog ap Gruffudd yr oedd ei daid yn orwyr i Owain Cyfeiliog (*ob.* 1197) ac yr oedd ei linach yn gysylltiedig â chymydau Cyfeiliog a Chaereinion.⁷ Ceir hefyd Ddafydd Madog ap Gruffudd Fyrgoch yr oedd ei daid yn fab i Einion o Gaereinion a oedd yn fyw yn 1278.⁸ Yn amseryddol ac yn diriogaethol, gallai'r naill neu'r llall o'r rhain gynrychioli Sypyn Cyfeiliog. Braf o beth fyddai, er hynny, pe gwyddem fod Sypyn Cyfeiliog yn ddisgynydd i Owain Cyfeiliog, tywysog nerthol de Powys a oedd hefyd, o bosibl, yn fardd.⁹ Fel cynifer o feirdd y cyfnod, uchelwr oedd Sypyn a chyfeiria ato'i hun fel *unben* (3.28)¹⁰ a *pendefig* (3.35). Ceir lledgyfeiriadau hefyd at gefndir amaethyddol y dosbarth hwn.¹¹

Ei yrfa

Tystia gwaith Sypyn Cyfeiliog iddo ganu i Ddafydd ap Cadwaladr o Fachelltref (cerdd 1), gŵr a drigai yn hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar ddeg, ac i Harri Salbri o Leweni (cerdd 2), a drigai yn ail hanner y ganrif.

Ceir darlun lliwgar o un o deithiau clera Sypyn Cyfeiliog mewn rhaglith hir yn llaw John Jones, Gellilyfdy, i'w gopi o'r awdl i Ddafydd ap Cadwaladr (cerdd 1); dadleuwyd mewn man arall fod y rhaglith hon yn wir yn ei hanfod.¹² Adroddir yno sut y bu i Sypyn ymweld â chartref Dafydd ap Cadwaladr ym Machelltref adeg y Nadolig i dreulio rhan o'r ŵyl yno, ond pan welodd fod gan y beirdd eraill yno gywyddau mawl i Ddafydd, cywilyddiodd a dweud wrth ei noddwr nad aros yn ei blas oedd ei fwriad ond taro i mewn ar ei ffordd i ymweld â Gruffudd Unbais o Ednob (sef Edenhope, bellach yn swydd Amwythig). Ar ôl cael sêl bendith Dafydd, felly, aeth ar ei ffordd ond cafodd ei ddal mewn lluwchwynt mor erwin fel y bu'n rhaid iddo droi yn ei ôl i Fachelltref. Yno, wedyn, cyflawnodd y gamp

⁶ Nodir tri lle o'r enw hwn yn yr Archif Enwau Lleoedd, Prifysgol Cymru Bangor, ond yn ardaloedd Cegidfa, Croesoswallt, a Llanfihangel-y-Creuddyn (*ex inf.* Tomos Roberts).

⁷ Gw. P.C. Bartrum: WG1 'Bleddyn ap Cynfyn' 33, 34.

⁸ *Ib.* 'Llawr Grach' 1 a 2.

⁹ Priodolir dwy gerdd i Owain Cyfeiliog yn y llsgrau., sef yr awdl enwog 'Hirlas Owain' ac 'Englynion Cylichu Cymru' (gw. GLIF cerddi 14 a 15); ond dadleuodd yr Athro G.A. Williams ei bod yn dra thebygol mai Cynddelw Brydydd Mawr yw gwir awdur y cerddi hyn, gw. 'Owain Cyfeiliog: Bardd-dywysog?' yn BaTh 180–201.

¹⁰ Ond gw. hefyd 3.25n.

¹¹ Gw. 4.26n.

¹² R.I. Daniel, 'Rhaglith i Gerdd gan Sypyn Cyfeiliog: Dogfen Hanesyddol?', *Dwned*, i (1995), 55–66. Dyfynnir y rhaglith yn llawn yn sylwadau rhagarweiniol cerdd 1.

hynod o gyfansoddi mewn un noson awdl wych a wnaeth fwy o argraff a chael mwy o wobr drannoeth na holl gywyddau'r beirdd eraill. Adwaenid y gerdd hon wedyn fel yr 'awdl unnos'.

Un o'r pethau mwyaf diddorol a grybwyllir yn y rhaglith hon yw'r cyswllt rhwng Sypyn Cyfeiliog a Gruffudd Unbais o Ednob. Dywedir bod Gruffudd yn *ysgwier o gorff* (S. 'squire of the body') i'r tywysog Llywelyn ap Gruffudd a cheir tystiolaeth debyg mewn ffynhonnell arall lle y dywedir ymhellach mai yn ystod rhyfeloedd Llywelyn yn erbyn Edward II (1277–82) yr oedd hynny.¹³ Priodolir dau englyn i Ruffudd yn y llawysgrifau, englyn moesegol ac englyn tra dwys (gw. At. iii) sy'n adrodd sut y bu i'r awdur ymgeleddu gŵr o'r enw Dafydd y trawsai arno yn rhywle yn ddiloches a hanner marw. Rhwng y rhan o raglith John Jones sy'n sôn am Sypyn yn cael ei ddal yn y storm a chyswllt y bardd â Gruffudd Unbais, anodd efallai beidio â gofyn ai Sypyn (Dafydd Bach) yw gwrthrych yr ail englyn. Ni ddywed y rhaglith ddim, wrth gwrs, fod Sypyn bron â threngi o ganlyniad i'r storm, chwaethach ei fod wedi ei ganfod gan Ruffudd; er hynny, gall mai at ryw achlysur arall tebyg, ond mwy difrifol, ym mywyd Sypyn y cyfeirir, ac yn y cyswllt hwn dylid sylwi ar gywydd cwrs clera gan Ddafydd Epynt lle y diolcha i'w noddwr, Dafydd ap Hywel, am ddod i'w gynorthwyo pan oedd yn clera ar droed trwy roi iddo ei farch ei hun ynghyd â'r ffrwyn, yr ysbardunau, a'r bwysgynau.¹⁴ Peth arall sydd o ddiddordeb yw'r tebygrwydd a welir rhwng englyn moesegol Gruffudd Unbais ac englyn o'r un anian a briodolir i Sypyn (At.ii); ond afraid dweud na ellir pwysu llawer ar hynny. Heblaw bod yn gyd-fardd (er yn llawer hŷn), y mae'n bosibl fod Gruffudd Unbais hefyd yn noddwr i Sypyn Cyfeiliog.

Ei ddyddiadau

Y dyddiad cynharaf, efallai, y gellir ei bennu ym mywyd Sypyn Cyfeiliog yw'r adeg y canodd ei awdl i Ddafydd ap Cadwaladr o Fachelltref, sef yn ail chwarter y bedwaredd ganrif ar ddeg, nid hwyrach yn y pedwardegau,¹⁵ ac y mae'n deg tybio bod y bardd tua'r ugain oed o leiaf y pryd hwnnw. Pwynt arall y dylid ei grybwyll yw cyfeiriad ato yn y parodi hwnnw ar chwedl 'Culhwch ac Olwen' a elwir 'Araith Iolo Goch' (gw. isod). Fel y dadleuodd Ifor Williams, cyfansoddwyd y gwaith hwn pan oedd Madog Gloddaith, Siryf Caernarfon yn 1325–6, yn ei fri,¹⁶ ac y mae'n bosibl fod y cyfeiriad at Sypyn yn perthyn i tua chanol y ganrif. Yn ddiweddarach, crybwyllir enw'r

¹³ *Ib.* 58.

¹⁴ Cf. D.J. Bowen, 'Two 'Cwrs Clera' Poems' yn 'News and Notes', Cylchgr LIGC vii (1951–2), 274–5.

¹⁵ Yn IGE² lxxxii rhydd I. Williams *floruit* Dafydd ap Cadwaladr tua 1390 am i Lewys Glyn Cothi, a oedd yn ei flodau tua 1450, ganu i'w ŵyr Gruffudd. Gw. ymhellach sylwadau rhagarweiniol cerdd 1.

¹⁶ *L.c.* Yn AP xvi nodir na ellir bod yn sicr mai yn ystod bywyd Madog Gloddaith y cyfansoddwyd yr arraith.

bardd, fel gŵr a oedd yn dal yn fyw, gan Ruffudd Llwyd yn ei ‘Gywydd y Cwest’ a ganwyd tua 1385. Gellir cynnig yn fras, felly, mai c. 1320–c. 1390 oedd ei flynyddoedd;¹⁷ os cywir hyn, cafodd oes gymharol hir.¹⁸

Cyfeiriadau ato

Sylwyd ar y cyfeiriadau canlynol at Ddafydd Bach / Sypyn Cyfeiliog.

1. Yn ‘Araith Iolo Goch’, a gyfansoddwyd efallai rywbryd yn ail chwarter y bedwaredd ganrif ar ddeg (gw. uchod), dywed y rhiain anserchog wrth y macwy serchog, ac yntau’n gofyn pa bryd y caiff ateb ganddi: *Pann vo kystal ieithydd Davydd bach ap Madoc wladaiidd ar ol* [darlleniad: *oll*] *llyn Gwerthrynion* [darlleniad: *gwerth yn y Deyrnion*], *ac Uriel wastadiaith y gwr ni chlybu iaith ai glustiau nas traethai ai davod kynn gyflymed ac y klywai*.¹⁹ Ergyd y geiriau yw fod cwrw Gwerthrynion mor gryf fel na fyddai Dafydd, ar ôl ei yfed, yn gallu cystadlu fel ieithydd â’r gŵr arall a oedd yn enwog yn y chwedlau fel meistr iaith; ond os felly, y mae’n oblygedig y *gallai* Dafydd gystadlu pe *na* bai dan effaith y cwrw, a dengys hynny ei fod yn ‘ieithydd’ hyfedr yng ngolwg awdur y parodi.

2. Llywelyn Goch ap Meurig Hen (*fl.* c. 1350–90). Mewn awdl foliant a ganodd yntau i Ddafydd ap Cadwaladr o Fachelltref dywed Llywelyn Goch:

Taladwy radd, Loegladd lyw,
Telaist Dafydd wawdrydd wiw.²⁰

Dibynna arwyddocâd y llinellau hyn ar union ystyr *telaist*, oherwydd gallai *tal* olygu ‘haeddu’ yn ogystal â ‘thalu’. Os yr ystyr gyntaf sydd yma, yna Dafydd ap Cadwaladr a olygir.²¹ Ond os yr ail, anodd fyddai peidio â gweld cyfeiriad at orchest Dafydd Bach yn cyfansoddi ei awdl i Ddafydd ap Cadwaladr mewn un noson a’r rhodd eithriadol a gafodd ganddo am wneud hynny. A byddai dull Llywelyn Goch o’i grybwyll yn awgrymu ei fod eisoes yn bur enwog ymysg beirdd y cyfnod.

3. Gruffudd Llwyd ap Dafydd ab Einion Llygliw (*fl.* c. 1380–c. 1420). Yng ‘Nghywydd y Cwest’, a gyfansoddodd tua 1385 ac sy’n enwi nifer o

¹⁷ Cf. y dyddiad 1400 a roddir iddo gan John Davies, Mallwyd, yn D.

¹⁸ Yr hyn sy’n taro dyn ynglŷn â dyddiadau beirdd y cyfnod, mewn gwrthygyferbyniad â’r sôn am fyrhoedledd bywyd yn gyffredinol yn yr Oesoedd Canol, yw hirhoedledd amryw ohonynt, ac efallai fod a wnelo moeth eu safle breintiedig (rhagor y lliaws cyffredin tlawd) rywbeth â hyn; cf. Iolo Goch a fu fyw dros 70 mlynedd, gw. GIG xx; Bleddyn Ddu ‘Was y Cwd’, c. 1310–c. 1390, gw. GBDd 4; Dafydd Llwyd o Fathafarn a fu farw tua 90 oed, gw. E.P. Roberts, *Dafydd Llwyd o Fathafarn* (Caernarfon, 1981), 7; Guto’r Glyn, o bosibl, tua 90, gw. GGI² xviii; a Llawdden y cyfeirir ato mewn rhai llsgrau. fel *Llawdden hen brydydd*, gw. Llawdden, &c.: Gw xvi.

¹⁹ AP 15 (llau. 12–15). Ar y diwygiad *Gwerthrynion*, gw. IGE² lxxxii.

²⁰ GLIG 1.9–10.

²¹ Os felly, ystyr *Dafydd wawdrydd* fyddai ‘Dafydd y cenir yn hael iddo’ yn hytrach na ‘Dafydd sy’n canu’n hael’.

feirdd cyfoes yr hoffai iddynt ffurfio cwest ar Forgan ap Dafydd o Rydodyn, dywed Gruffudd Llwyd:

Rhwydd ydyw'r gyfraith er hyn,
Rhifer ar swper Sypyn,
Gwas ni chêl ar uchelwr
Da na drwg er gwg un gŵr.²²

Yn ôl y llinellau hyn, y mae'r bardd yn ŵr na fyddai unrhyw fygythiad yn peri iddo atal y gwir am ddaioni na drygioni unrhyw uchelwr; ond gan y priodola Gruffudd Llwyd eirwiredd a gonestrwydd tebyg i amryw o'r beirdd eraill, hwythau, ni ddywed y geiriau hyn ddim newydd wrthym am Sypyn Cyfeiliog.

4. Hywel ap Dafydd ab Ieuan ap Rhys neu Hywel Dafî (*fl. c.* 1450–80).²³
Yn un o'i gywyddau y mae Hywel yn cyfarch noddwr ifanc o Lyn Nedd fel:

Jolo y tir ar wlad honn
heb vn well i bennillionn
Ni bydd kywydd mewn kawell
ni by sipyn englyn well
gair oth benn asgrivennwnn
awyr a thir oedd werth hwnn.²⁴

Y mae'n amlwg wrth y cyfeiriad at Sypyn Cyfeiliog yn y bedwaredd linell fod Hywel Dafî yn ei ystyried yn englynwr campus.

Ei waith

O gerddi Sypyn Cyfeiliog y bernir yma eu bod yn ddilys, ceir un awdl foliant (cerdd 1), un cywydd moliant (cerdd 2), pedwar cywydd serch (cerddi 3–6), ac un englyn moesegol (cerdd 7). Dylid crybwyll hefyd y llinell ganlynol o gerdd goll o'i eiddo a ddyfynnir yng Ngeirfa Wiliam Llŷn dan y gair *Marian* 'lliw gwyn': *deilw/r/ kann lliw marian maes*.²⁵ Nodwedd gyffredinol amlycaf y cerddi hyn, o'u cymharu â gwaith beirdd megis Dafydd ap Gwilym ac Iolo Goch, yw symlder eu harddull. Eithriadol o syml yw'r awdl—er y dichon fod a wnelo amgylchiadau ei chyfansoddi ryw beth â hyn (gw. sylwadau rhagarweiniol cerdd 1)—ac yn y cywyddau, hyd yn oed pan fo'r brawddegau yn hir, ni cheir ynddynt odid ddim astrusrwydd sangiadol. O ran eu cynganeddiad, y gynghanedd groes a'r draws, nid y gynghanedd sain, sydd flaenaf, yr hyn a ddisgwylid yng ngwaith bardd a oedd yn canu yn ail hanner y bedwaredd ganrif ar ddeg.²⁶ Ac eithrio yn yr

²² IGE² 117 (llau. 31–4).

²³ ByCy 380.

²⁴ *Peniarth MS. 67*, gol. E.S. Roberts (Cardiff, 1918), 52 (XXXV.21–6).

²⁵ Roy Stephens, 'Gwaith Wiliam Llŷn' (Ph.D., Cymru [Aberystwyth], 1983), yr Atodiad.

²⁶ Cf. GDG xcvi–xcviii.

awdl, prin iawn yw'r llinellau digynghanedd, ac ni cheir ond ychydig o gynganeddion pengoll. Y mae'r cerddi yn nwyfus a ffres eu delweddu, gyda llawer cyffyrddiad gwir farddonol a phrydferth, a'r gynghanedd yn feistraidd a chyhyrog. Afieithus a goddrychol yw'r cerddi serch, gyda llawer o ormodiaith fwriadol a doniol wrth i'r bardd sôn am ei fethiant a'i seithugrwydd fel carwr. Yng ngwaith Sypyn Cyfeiliog yn gyffredinol ymdeimlir â phersonoliaeth lawen, haelfrydig, a difalais. Dyma fardd da iawn, un o'r mwyaf hoffus ei gymeriad o'r Cywyddwyr, ac un y mae iddo le anrhydeddus yn eu mysg.

Y llawysgrifau

Y llawysgrif gynharaf o lawer sy'n cynnwys gwaith gan Sypyn Cyfeiliog, sef fersiwn anghyflawn o 'Moliant Dafydd ap Cadwaladr o Fachelltref' (cerdd 1), yw Llyfr Coch Hergest, a gopiwyd tua 1400. Perthyn y llawysgrifau eraill sy'n cynnwys ei waith i'r cyfnod o ail hanner yr unfed ganrif ar bymtheg ymlaen ac fe'u nodir yn y golygiadau o'r cerddi isod. Un yn unig o'r rhain sy'n gopi o destun y Llyfr Coch, gyda'r lleill yn tarddu o ffynonellau annibynnol.

Dilysrwydd y cerddi

Ceir enw Sypyn Cyfeiliog wrth ddeunaw o gerddi.²⁷ O'r rhain barnwyd bod chwech yn ddilys ac fe'u golygwyd isod fel cerddi 1–5, 7. Ceir hefyd gerdd a briodolir i fardd arall ond a ystyrir yn waith Sypyn, ac fe'i golygwyd fel cerdd 6. Am weddill y cerddi ar ei enw, barnwyd bod naw yn annilys ac un yn amheus a chynhwyswyd honno yn Atodiad i isod.

*Ar chwech ar hugein iach wydh (mawl trechaf)*²⁸

Englyn sy'n rhan o gyfres hir o englynion unodl union sy'n coffáu coroni pob brenin a brenhines yn Lloegr rhwng y blynyddoedd 1067 a 1558 ac sy'n cael eu priodoli i amrywiol awduron. Priodolir yr englyn hwn yn y chwe llawysgrif sy'n ei gynnwys i Ddafydd Bach (a uniaethir weithiau hefyd â Dafydd y Coed) / Sypyn Cyfeiliog, eithr mae'n amlwg i'r gadwyn gael ei chyfansoddi yn 1558 neu'n fuan wedyn.²⁹

²⁷ *Mynegai i Farddoniaeth Gaeth y Llawysgrifau* (Y Bwrdd Gwybodau Celtaidd, 1978) a 'Mynegai Cyfrifiadurol y Llyfrgell Genedlaethol i Farddoniaeth Gaeth y Llawysgrifau' yn bennaf a ddefnyddiwyd yn yr arolwg hwn. Wrth ddyfynnu ll. gyntaf cerdd, dyfynnir o'i ffurf olygedig os yw'r gerdd wedi ei golygu.

²⁸ Dyfynnir o BL Add 14979, 207^r.

²⁹ Gw. hefyd GBDd 11.

Bwriais serch heb ei erchi (cerdd 6)

IGE² 193–4 (LXIV). Cywydd a geir mewn tair llawysgrif a'i briodoli ym mhob un i Lywelyn ab y Moel; fe'i cynhwyswyd ymysg cerddi eraill Llywelyn gan Ifor Williams. Eto i gyd, mor debyg ydyw o ran arddull, naws, delweddaeth, a chynganeddiad i gerddi 3, 4, 5 gan Sypyn Cyfeiliog, ac mor wahanol i waith Llywelyn yn gyffredinol, fel na phetrusir rhag ei ystyried yma yn waith Sypyn Cyfeiliog (yn hytrach nag yn efelychiad gan Lywelyn). Ceir tebygrwydd agos iawn rhyngddi a cherdd 5; cymharer, er enghraifft, 5.7–8 a 6.7–8; 5.23–4 a 6.39–40; 5.25–6 a 6.29–30; 5.42–4 a 6.13–14.

Caru' dd wyf, caruaidd yw

GIG 101–2 (XXIV). Cywydd a geir mewn 14 o lawysgrifau. Mewn deuddeg ohonynt fe'i priodolir i Iolo Goch ac mewn dwy, sef Bangor (Mos) 5 a LlGC 3049D [= Mos 146] a ysgrifennwyd yn hwyr yn yr unfed ganrif ar bymtheg, i Ddafydd Bach / Sypyn Cyfeiliog. Fel y dywed yr Athro Dafydd Johnston, y ddafl gryfaf dros ystyried y gerdd yn waith Iolo yw ddarfod ei phriodoli iddo yn Llyfr Coch Hergest, y testun cynharaf o'r gerdd o lawer ac un sy'n cyffwrdd â chyfnod Iolo.

Cyfarfod, hir gydfod hwyr (Atodiad i)

Mewn dwy lawysgrif yn unig y ceir y gerdd hon a'i phriodoli ynddynt i Sypyn Cyfeiliog. O ran iaith a chynghanedd, gallai'n hawdd berthyn i gyfnod Sypyn, a byddai'r disgrifiad o'r gorchwylion fferm yn llinellau 17–26 yn berffaith gyson â bywyd mân uchelwr o'r cyfnod. Er hynny, ni theimlir mai'r un bardd sy'n siarad yma o gwbl a phrin y cyrraedd y gerdd yr un safon lenyddol uchel â'r lleill. Hefyd, nid yw'r cyfeiriad yn llinell 28 at genedl y bardd ym Môn yn gyson â'r dystiolaeth mai un o Gyfeiliog oedd Dafydd Bach—oni bai fod ganddo berthnasau ym Môn hefyd na wyddys dim amdanynt. Gellir tybio felly mai cerdd a gambriodolwyd i Sypyn Cyfeiliog yw hon neu a fwriadwyd fel math o barodi.

Eurwn gerdd gyda'r un gainc

Llawdden, &c.: Gw 51–6 (cerdd 17); GDID 55–7 (Atodiad A2). Cywydd a geir mewn 37 o lawysgrifau. Mewn 34 ohonynt fe'i priodolir i Lawdden, mewn dwy i Ddeio ab Ieuan Du, ac mewn un yn unig, a honno mor ddiweddar â'r ddeunawfed ganrif, i Sypyn Cyfeiliog. Y tebyg yw mai pwnc y gerdd, sef tri mab Owain Cyfeiliog, a barodd i rywun ei phriodoli i fardd o Gyfeiliog.

Gnawd yng Ngwynedd focsedd eiriau

Fe'i golygwyd gan Ddafydd Ifans yn 'Cyneddau Amryw Barthau Cymru', *Ysgrifau a Cherddi Cyflwynedig i Daniel Huws*, gol. Tegwyn Jones ac E.B.

Fryde (Aberystwyth, 1994), 81–2. Cerdd afreolaidd ei mydr a geir mewn 13 llawysgrif. Heblaw un llawysgrif lle y mae'n ddiennw, fe'i priodolir mewn 9 ohonynt i Aneirin Gwawdrydd, mewn un i Einion ap Gwawdrydd, ac mewn un i Sypyn Cyfeiliog ac Aneirin Gwawdrydd. Iolo Morganwg, yn y llawysgrif olaf, sy'n gyfrifol am briodoli'r gerdd i Sypyn Cyfeiliog, er na allai benderfynu erbyn diwedd y gerdd ai'r Sypyn ai Aneirin Gwawdrydd oedd y gwir awdur!

Gwrda gwych, llewych llawir

GTP 47–9 (cerdd 28). Cywydd a geir mewn 46 o lawysgrifau. Mewn 36 ohonynt fe'i priodolir i Dudur Penllyn, mewn 7 i Lewys Glyn Cothi, mewn un i Ieuan ap Tudur Penllyn, mewn un i Dudur Aled, ac mewn un i Ddafydd Bach. Cymharol gynnar yw'r llawysgrif sy'n ei phriodoli i Ddafydd Bach, sef BL Add 14998 [= RWM 33] a amserir i ddiwedd yr unfed ganrif ar bymtheg, ond y mae dwy lawysgrif sy'n ei phriodoli i Dudur Penllyn yn hŷn, sef LIGC 3051D [= Mos 148] a ysgrifennwyd cyn 1594, a Pen 78 a ysgrifennwyd cyn 1584. At hynny, fel y dywed Thomas Roberts,³⁰ y mae casgliadau pwysig megis Pen 112 yn llaw'r copiwr enwog, John Jones, Gellilyfdy, a LIGC 3044B [= Mos 136] yn llaw'r hynafiaethydd Robert Vaughan o'r Hengwrt yn ei dderbyn fel gwaith Tudur Penllyn.

Mis Ionawr, myglyd dyffryn

EWGP 37–42 (IX), GST i, 844–9 (cerdd 204), ii, 612–17. Y penillion enwog a elwir ar gam yn 'Englynion y Misoedd'.³¹ Digwydd y testun mewn 32 llawysgrif, ac o'r rheini y mae 12 yn ddiennw. Am y lleill, priodolir 7 i Aneirin Gwawdrydd, 4 i Ddafydd Bach / Sypyn Cyfeiliog, 4 i Fab Claf ap Llywarch, un i Lywarch Hen, un i Fyrddin Gwawdrydd, un i Ddafydd Nannor ac Aneirin Gwawdrydd, a dau i Aneirin Gwawdrydd a Mab Cloch / Claf ap Llywarch. Yn ôl K.H. Jackson, y mae'n debyg y cyfansoddwyd y y gerdd ar ei ffurf bresennol tua chanol, neu yn ail hanner, y bymthegfed ganrif.³²

Och, och y Ddôl Goch, ddaly gŵyl barchus

GDG³ 36 (13.77–80); IGE² 356–7. Englyn a briodolir yn Pen 81 i Sypyn Cyfeiliog; ond gan ei fod yn digwydd yn gynharach yn awdl farwnad Dafydd ap Gwilym i'w ewythr Llywelyn ap Gwilym, go brin fod y priodoliad yn gwir.

³⁰ GTP xxv.

³¹ Ni chynhwyswyd y llsgrau. sy'n cynnwys parodi Siôn Tudur arni, gw. EWGP 14 a GST ii, 612–13.

³² *L.c.*

Pe byw'r Moelfrych gwych, gwiw ddefawd—gynnydd

GIG 172–13. Englyn unodl union a geir yn LIGC 872D, 82. Y cyntaf ydyw o ddau englyn i Fadog Goch o Fochnant a allai'n hawdd fod yn waith Iolo Goch, ond dywedir yn y rhaglith ddarfod ei ganu ar ôl marwolaeth Gruffudd ab Adda ap Gruffudd o'r Ddôl Goch (yn Nhywyn, sir Feirionnydd)³³ a'i frawd Einion, archddiacon Tywyn. Fe'i priodolir i Sypyn Cyfeiliog, a elwir hefyd yn Ruffudd Ddu ap Madog Wladaidd. Ymddengys mai trwy golli'r ail englyn, lle y crybwyllir y gwrthrych, Madog Goch, y cysylltwyd y gerdd ar gam â Gruffudd ab Adda a'i frawd, ac mai dyfaliad yw'r priodoliad i Sypyn Cyfeiliog.

Y Dabler yn ei dyblig

Morus Dwyfech: Gw 166–71 (cerdd 30). Ceir testun y cywydd hwn mewn 41 llawysgrif, ac yn 38 o'r rheini fe'i priodolir i Forus Dwyfech, yn un i Domos Prys, Plas Iolyn, yn un i Sypyn Cyfeiliog, ac yn un i Forus Dwyfech a Humffrey ap Hughe. Gan fod mwyafrif llethol y llawysgrifau o blaid Morus Dwyfech, diau mai hynny sy'n gywir, ac er bod Llst 46 sy'n ei phriodoli i Ddafydd Bach yn gymharol gynnar, eto y mae rhai o'r llawysgrifau sy'n ei phriodoli i Forus Dwyfech yr un mor gynnar.

Y fun hoywddoeth fonheddig

CSTB 52–3 (XL). Ceir testun o'r cywydd hwn mewn 14 llawysgrif, ac fe'i priodolir yn 9 i Fedo Aerddrem, yn nwy i Ddafydd ap Gwilym,³⁴ yn un i Ieuan Dyfi, yn un i Robin Ddu, ac yn un i Sypyn Cyfeiliog. Oherwydd cryfder y traddodiad llawysgrifol, teg yw priodoli'r gerdd i Fedo Aerddrem.

Y lloer hael a lliw'r heli

GO 48–52 (III). Ceir testun o'r cywydd hwn mewn tair llawysgrif, ac fe'i priodolir mewn dwy i Sypyn Cyfeiliog ac mewn un i Utun Owain. Fodd bynnag, y mae dyddiad y llawysgrif olaf—Pen 64, a gopiwyd ar ôl 1577—yn llawer cynharach na'r ddwy arall. Odid nad oherwydd tebygrwydd llinell agoriadol y gerdd i eiddo cerdd 5—*Fy lloer a'i gwallt fal lliw'r gwin*—y priodolwyd hi i Sypyn Cyfeiliog.

³³ Arno, gw. DGG² xc–xci. Ceir ei ach yn P.C. Bartrum: WG1 'Genillin' 2.

³⁴ Gwrthodir y rhain yn GDG clxxxviii.

I
Moliant Dafydd ap Cadwaladr o Fachelltref

- 4 Mab cadr Cadwaladr, ceidw heolydd—hael,
Hil Elystan Glodrydd,
Ac yn ei lys, brys braswydd,
Meibion ufyddion a fydd,
- 8 A ched ac yfed ac ufydd—dylwyth,
A dilyn lluosydd,
A chadw wyneb ar rebydd,
A chyda llyth byth ni bydd.
- 12 Na wnaed dengyn ddyn ar ddydd—drycinog,
Dros amcanu dedwydd,
Myned, er ffoled ei ffydd,
Na dyfod heb lys Dafydd.
- 16 Mi a welais lys a dwy a deg llys,
Ac ni welais lys mor lwys edmyg;
A'r llys a hoffaf (er lles i'w phennaf
Nid laes y'i molaf) mel Celliwig:
Yn llwyr degwch nef yn llawr Bachelltref,
Y lle y bydd dolef bob Nadolig,
20 A llu o geraint a llyn tra meddwaint,
A llewychu braint bro hil Feurig,
A darllain llyfrau llin breninllwythau,
A chanmol achau ucheledig,
24 A gwybod teirraith a chlaws y gyfraith,
A growndwal pob iaith weithrededig,
A llef gan dannau a llif gwirodau,
A llafar gerddau gorddyfnedig,
28 Ac aml fwydau, melys gyweirdabau,
A thrymion seigiau siwgyredig,
A chynnal rhyddllys i'r holl Fêl Ynys,
Hysbys nad tybys fod llys tebyg
I'r llys gyfannedd o barch a mawredd,
32 A rhywiog fonedd diagwedd-dig,
A llwyddiant beunydd lluosog gynnydd,
A mawr lewenydd heb un dydd dig,

36 A phorthi brwysgfeirch ar wair a brasgeirch,
 A dofi ebolfeirch, meirch mynyddig,
 A milgwn hirion, cipiaid gafaelion,
 Huaid trwynfyrion, cigyddion cig,
 40 A chytgerdd peunod a grŵn clomennod,
 A gwg alarchod elyrchedig,
 A desgant adar tradoeth eu trydar,
 A gwiw iaith lafar ddiarfardig,
 44 A lliwgoch baladr gan llin Cadwaladr,
 A llafn gwaedraeadr coelfeingadr cig,
 A llawer cerddawr a llawen grythawr,
 A llewenydd mawr uwch llawr llithrig,
 A thro cerddorion a thrydar meibion,
 48 A thrabludd gweision gosymdeithig,
 A thrulliad trablin a thrallod cegin,
 A thrilliw ar win i wan blysig.

52 Tair cynneddf y sydd, tirion lewenydd,
 Ar briflys Dafydd, difefl ryfyg:
 By ddyn bynnag fych, by gerdd a fetrych,
 Gydag a nodych yn enwedig,
 56 Dyred pan fynnych, cymer a welych,
 A gwedy delych, tra fynnych trig.

Trig yn bendefig, Dafydd,—i'th lysoedd
 A'th luosog geirydd,
 Dy air a saif dair oes hydd,
 60 Dy glod aeth dros y gwledydd.

Ffynonellau

A—Bangor (Mos) 5, 34^r B—BL Add 12230, 15 C—BL Add 14875, 113^v
 D—BL Add 14964, 40^r E—BL Add 15040, 74^r F—Brog (y gyfres gyntaf)
 2, 356^v G—Card 3.2 [= RWM 27], 49 H—CM 5, 79 I—CM 114, 177 J—
 J 101, 468 K—J 111 [= RWM 1], 1255 L—LIGC 727D, 96 M—LIGC
 832E, 14 N—LIGC 1247D, 158 O—LIGC 3047C, 422 P—LIGC 3049D,
 24 Q—LIGC 3051D, 353 R—LIGC 3057D, 195 S—LIGC 4710B, 197
 T—LIGC 5474A, 633 U—LIGC 6209E, 310 V—LIGC 6681B, 77 W—
 LIGC 9166B, 280 X—LIGC 13167B, 88 Y—LIGC 17121D, 72 Z—Llst
 35, 9 a—Llst 53, 222 b¹—Llst 55, 22 b²—Llst 55, 265 c—Llst 123, 231
 d—Llst 133, 353 e—Pen 81, 146 f—Pen 86, 317 g—Pen 90, 81 h—Pen
 96, 325 i—Pen 108, 29 j—Pen 113, 16 k—Pen 118, 203 l—Stowe 959,
 79^r

Ymranna mwyafrif y testunau hyn yn saith prif grŵp, sef AELUV, BHOTYZdfgl, DIW, FJ, Kk, PR, SX, a pherthyn y rhelyw, rhai'n fwy na'i gilydd, i un o'r grwpiau hyn. Y mae testun b^1 yn unigryw gan mai talfyriad chwyrn a chymysglyd yw'r rhan ohono sy'n cyfateb i linellau 1–24 a gwelir ailadrodd, cwtogi, achub y blaen, a bylchau amrywiol eu maint yn y gweddill; ond, hyd y gellir barnu, perthyn yn agos iawn i BHOTYZdfgl. Bylchog iawn yw b^2 , ond efallai fod y testun hwn, yntau, yn perthyn i'r un teulu â b^1 . Gwelir arwyddion pendant o ddefnyddio mwy nag un gynsail gan rai o gopiŵyr y testunau hyn. Copïau annibynnol, fe ymddengys, yw'r mwyafrif mawr ohonynt, ond y mae k yn gopi o K , a dichon hefyd fod S yn gopi o X (neu fel arall). Gan fod mynych orgyffwrdd rhwng y testunau a'i gilydd, codwyd amrywiadau o bob un ac eithrio k . Yn achos y rhan o b^1 sy'n cyfateb i linellau 1–24 o'r gerdd, nodwyd amrywiadau yn unig lle y bo cyfatebiaeth eiriol agos rhyngddi a'r llawysgrifau eraill, a thriniwyd y gweddill cyn belled â phosibl yn y dull arferol. Dilynwyd darlleniadau K , y testun cynharaf o lawer, pan anghytuna â'r testunau eraill ond ni ddilynwyd trefn ei llinellau. Y mae rhai darlleniadau yn f yn anghyflawn oherwydd traul; ni nodwyd y rhain oni bai fod rhywbeth i awgrymu y byddai'r darlleniad yn wahanol i ddarlleniad y testun golygedig pe bai'n gyflawn. (Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 211–19.)

Amrywiadau

1 b^2 [Cadwaladr]; *ACNPRVc* kydwelydd, *BDEFHJLMOTWXZdg* keidw eilydd, *G* Cadw ailwydd, *I* keidiw eilydd, *Q* kedweilydd, *S* cud Ewilydd, *U* kydwedydh, *X* cyd Ewilydd, *Y* kadw eolydd, *a* keidw eolydd, *e* keidw helvdd, *i* cedwi lydd, *j* mab cydwelyd, *l* kadw ailwydd; *h* [ceidw heolydd hael]; *C* kydwelydd i hael, *N* cydwelydd wiw hael, *O* eilydd kall. 2 *ACNPRUVce* o hil; *E* glotvdd, *M* glodfrŷdd. 3 *Gl* dy Lys, *T* y llys; *d* brwys, *e* lwys; *F* baswydd, b^1 barswydh. 4 *Yl* y fvdd. 5 *S* Gan vfydd, *X* vfuddion. 6 *A–FHJLN–RT–WZacdghi* dilid; *I* llvosedd, *M* llawenŷdd, *U* luosydh; (b^1) ceincev a lhawenydh. 7 *h* [ar rebydd]; (*T*) Gwr llawen cellwairus yn *lòs* ar Arebydd. 8 *Gl* llydd, *I* glyth; *j* i. 9 *BHLOQTUVZadehij* na fid, *X* na wnad, *Y* na nael; *AP* tyn dengyn, *BGHOUV* tengyn dyn, *CE* dyn dengyn, *FJc* dyn dygyn, *Li* dengyn dyn, *M Dŷn* drengŷn, *N* synn ddengyn, *Q* drengyn dyn, *R* yn dyngyn, *SX* Deugyn Ddun, *Td* dengyn dyn, *Yaf* hengvn ddyngyn, *Z* hengyn dyn, *e* ddyngyn, *g* kengyn dyn, *h* dengwyn ddyngyn, *j* engyn dyn, *l* tengyn ddyngyn; (*A*) y *uwchben* e yn dengyn gan law *ddiweddarach* o bosibl; (*V*) naed dyn drengyn; (*U*) od yn drongyn; *h* [ar ddydd—drycinog]; *AN* y nydd, *BEFHJLMOQTUVcdgij* mewn dydd, *C* yn mor dydd, *P* yn awr dydd; *BJRe* drybinog, *C* dryghino[], *G* trycynol, *SX* Drycmol, *TVd* drykeinog, *U* drybeinog, *Y* drvkinol, b^1 drymmol, *f* dribinol, *l* trybinol. 10 *a* drwy, *e* I vab; *G* ymkanyay, *g* amkav. 11 *ABCEHNPQRUCi* vair ffydd, *G* f. orfydd, *L* fai ffydd, *MSXl* vor ffydd, *OYf* ywr ffydd, *V* vad r ffydd, *Zgj* fo i ffydd, *a* [ei]

ffydd, *h* fair [ffydd]. 12 *H* dofod; *EL* dy Dafydd, *d* dai Dafydd *ond a dotiau dileu dan dai*. 13 *a* ni; *IMNa* [a]; *GS* [lys]; *SX* [a] dwy; *T* day; *TZd* deglys. 14 *A-FHJL-XZab¹cg-j* [Ac]; *D* mi; *BCEFHJL-OQRUVchij* welais i lys; *g* tlys; *BFHJLMOQTU-WZace-j* lwysedig, *CEV* lwysenig, *D* lwysed, *P* lwysenig (*cywiriad: lwys edmic*), *R* lwys edmg. 15 *ACLNPQRUVi* y llys; *FJ* yw choffa; *Gyl* y; *DIMRWaceh* hoffa; *BGHOSTXYZaghjl* ir penaf, *M* ei phennaf. 16 *c* llaes (*cywiriad: llai*); *Mi* [y'i]; *Y* hoffaf; *Z* mab, *a* mal, *f* ail, *l* hil; *DI* kallewig, *E* kallewic, *G* Celli, *a* y gelli wig. 17 *G* Gerllaw, *U* y lhawr; *G* Marchelldref, *SX* Maer Vcheldref, *T* Bacheldref, *Y* bachellef, *hlj* machelldref. 18 *ANPRUVb²c* yn lle bydd, *Bd* yn lle y mae, *C* yn lle bydd yn, *DW* yn lle bÿd, *E* yn llei bydd, *FJQTgi* yn lle mae, *GXYl* lle bvdd y, *H* yn llei mae, *I* yn y lle bydd, *Lj* lle y byd, *M* yn llêf mae, *O* y lle i mae, *S* lle Bÿdd y, *Z* yn lle i mae, *aeh* lle bydd, *f* lle bydd yn; *Gl* doledd, *I* dole; *G* pob, *I* dydd, *SX* Nos; *MW* yndolig. 19 *D* lyn, *FJ* lly, *g* llin; *BHJZi* ai, *OSUYf* a, *Td* a'u, *g* ar; *BU* meddwant, *D* meddiant, *IW* meddwint, *S* Meddwaent, *g* meddw maint. 20 *AENRUVc* llawenhay, *BO* llywchu i, *CP* llawenha, *D* Llonyfu, *F* llowio, *Gyl* lliwio, *HZi* llowio i, *I* llyngchv, *J* lloivio, *Lah* llawenychv, *T* llowio ei, *W* llynrych, *d* llowio eu, *e* llywchy, *g* llvnio; (*d*) llewychu braint; *g* fimaint; *g* fro; *C* holl, *g* hyd; (*C*) hil; *K* meuric, *a* feuig, *g* Verwig. 21 *i* ddarllain; *H* llni, *M* hên, *UVb²* llif; *S* Brenhinlwythay, *b¹* lhwythav. 22 *eg* chynal; *BEILOQUVZb²gij* iachav; *Y* ywchedic. 23 *D* gwybad; *GMSTXadgl* tair iaith; *BДИOUWb²eg* chlawns, *MS* chwrs, *X* chws; (*j*) o *rhwng* a *ac* ỳ yn çlaus; *ah* o. 24 *T* Grownwal, *U* grownwal, *Y* grndwal, *g* growdwal, *i* grownd; *A* bob; *Gl* ieith, *SXej* gwaith; *ANah* weithredig, *DILMQW* wneythvredig, *SX* Gwaithededig, *b¹* gweithrededig, *e* gwerthvawredig, *g* yn weithredig, *j* gweiôredig. 25–6 (*d*) *A* llef gan danneu *A* llif gwirodeu *A* llafar gerddeu. 25 *b¹* [A]; *ACDFJLPQRWaceghij* llif gwiroday a, *BOT* llv ganiadav a, *Gl* llin gwniaday a, *H* lly ganiadav a, *IMNUV* llif gwirodav, *Sb¹* llif gwinadav a, *X* llif Gwniaday, *Y* llif gwmiadav, *Z* lly ganiadav, *d* llu ganiadaeu a, *f* llwyr ganiadav; (*H*) llif gwirodau; *A-DF-JL-TV-ab¹cdeg-jl* llef gan dannay, *U* llef gan donnau. 26 *b¹* [A]; *b¹* llafr o gerddau; *ABFGHJNOghj* gorddfwyledig, *DW* gerddfwyndedig, *I* gorddfwyndedig, *M* gordd-lawndedig, *RCc* gofynedic, *e* gorddfwyndedig, *i* gorddfwyndedig. 27 *AFJNQUVb²* aml bwydav, *DITW* amal fwvdav a, *E* amriw fwydav, *M* Aml bÿydau a, *Yf* aml o vwydav, *b¹* bwydav, *e* anial flwydav, *g* amllder fwydav; *M* a chynnal; *DIW* wirodav, *E* gweirav, *G* gwirdubay, *L* gwirodav, *M* dadlau, *S* Gnûr Bybay, *X* Gwyr Dybay, *g* gweiriadav, *h* gweirdiabav, *l* gwirdebay; (*W*) gowerdabav. 28 *b¹* [A thrymion]; *G* thrumon, *X* Thrmion, *l* thrymon; *H* sigiav; *DFHJLNSTYZb¹fh* sywgreddig, *Eg* yn swgreddig. 29 *b¹* [A]; *b¹* cynhal; *ALNUVb²* priflyys, *E* riflyys; *G* or, *S* yn, *X* yr; *N* [Fêl]. 30 *DIWhj* gwyddys, *b²* ysys, *i* Hybys; *GM* nyd, *T* Nod, *b¹* nac, *eh* na; *Y* vbvs, *e* fybys; *AENUVb²f* vn, *GQil* bod, *I* fod vn; *LTZd* neb, *N* llu; *L* hebig. 31 *AELMNSUVXi* a, *BFHJOQTYZd* ar, *b¹* [r]; *ANUVb¹b²* kyvanedd,

M danghnefydd, *SX* Gafanedd; *h* o bob parch; *h* [a]. 32 *E* rywaioc, *b*¹ [rhywiog], *g* chromg, *l* rywyog; *b*¹ [fonedd], *g* bonedd; *DW* diegrwedd dig, *I* diagrwedd dig, *X* Dragwedd dig, *b*¹ a diagwedh dig. 33 *b*¹ [A]; *Gl* llwythant, *b*¹ llwydhant; *DISWX* beynydd a, *g* bevydd, *h* [beunydd] a; *Gl* lleossawg, *L* llewassawc; *AELQUVWijl* kynydd, *f* cymydd, *FGJ* kvnydd. 34 *Ub*² [mawr]; *UXb*² llawenydd. 35 *b*¹ [A]; *b*¹*g* porthi; *D* Braisg-feirch, *E* brwysgferch, *G* brwysg mayrch, *Mb*² brwysfeirch, *W* braisgfeirch, *Y* brescfevrch, *hj* browysfeirch, *l* brwyscvayrch; *B* brasgerch, *G* brasgyrch, *U* braikgeirch a'r bedwaredd lythyren yn ansicr, *b*² braisgeirch. 36 *EHf* [A]; *AM* ebowlfeirch, *Gl* eboivayrch, *SX* Da Feirch. 37 *SXYb*¹*j* afavlion. 38 *E* fvaid, *I* a hvaid, *S* A Heiat, *X* A Heiait; *M* trw̄ynffyrffion; *BGHUVZI* kygyddyonn, *FJMqSb*¹*eh* kogyddion, *j* cynydion. 39 *AELMNQVi* thrydar, *Gl* chathlef, *U* thrydar, *aeh* chyfgerdd, *f* chydgerth; *X* grwm; *Q* kolombennod. 40 *SX* Gwrr; *D* alarchad, *G* Elayrchod, *SX* Elurchod, *Yb*¹ elerchod, *f* a lerchod, *l* elayrch; *ANQUVb*¹ elerchedig, *BO* eleirchedig, *Gl* elarchedig, *Y* elvchedic, *a* aleirchedig, *f* alarchedig, *gh* alarchedog. 41–2 *b*¹ Gwiwiaith lafar, tradoeth. trydar yr / adar. 41 *G* destant, *T* Desganu, *d* desganu (*cywiriad*: desg); *f* tadoeth; *e* [eu]. 42 *DIWaj* m̄yn, *X* Gwyw, *Y* gwi, *h* niwyn; *B* iath, *X* Iaeth ond a'r drydedd lythyren yn ansicr; *SX* llafar; *ABD–JLOQS–ad–il* diafar dig, *M* di-arfer dig, *N* tra afar tr̄ig, *j* diofar dig. 43 *ACDEILMNPRQURUVWacdeg–j* lin, *BFGHJ OSTXYZfl* hil; *ELSXYadfl* gvdwaladr. 44 *SXl* [A]; *T* lafn; *A–FHJLM–QTVWZadegi* gwaed rhayadr, *Gl* gwaed Readr, *SXYff* gwaed rrvadr, *U* gwaed kraiadr; *BHJQTYZcsgi* kochfeingadr, *C* kochfingadr, *E* kochfein kadr, *G* Coel Fingadr, *L* kyflymgadr, *M* coelfōngadr, *SX* colofn vngadr, *U* kelveingadr, *a* kofeingadr, *e* kochfeingar, *l* kelvingadr; *B* cid, *d* gig. 45 *ABDNPRVWachjl* llawen krythor, *BCFHJLMOQTZdgi* llawer krythawr, *E* llawer kythawr, *Gyf* llewvch grvthawr, *SUX* llawen Grythawr; *ABEILNPR UVWYcfil* llawer kerddor, *CDFGJQQTZadh* llawen kerddawr, *H* llawer gerddawr, *Mg* llawen gerddawr, *SX* llewych Gerddawr. 46 *B* llawenu; *AFJ* vwchlaw'r, *a* ywch y llawr; *AC–FGHIJLMO–UW–b*¹*cdfgil* lleithig, *B* thethig, *V* lleiddig. 47–60 [*h*] *gydag* a thrydar *ar waelod y ddalen yn cyfateb i ddechrau ll.* 47 *ac yn achub y blaen ar yr hyn oedd i fod ar ddechrau'r d. nesaf.* 47 *b*¹ [A]; *ABCEFHJLN–VXZacefi* thrydar meibion, *DW* thrydadar meibion, *Y* thrallod meibon, *b*¹ trydar meibion, *g* thydar meibion; *b*¹ [a thro cerddorion]; *A–JLN–acefgil* thro kerddorion, *d* thrydar (*cywiriad*: thrywyn). 48–9 *b*¹ tralhod gweisson. tralhod cegin. / tralhod gweisson gosmwythedig. / tralhod cegin a threilheid tra blin. 48 *BFGHJOX aefl* thrallod, *E* threblvdd, *I* thrabledd, *c* thrabydd, *d* thrallod (*cywiriad*: thrabludd), *g* thrillod; *BFG–JMOQTXZegil* gosmwythedig, *C* gosymddiedig, *D* groesmwythedig, *E* gosymllaith[], *S* Gosmnythedig, *W* goesmwythedig, *Y* gvssvdedic, *a* gorsmwythedig, *c* gosnnddeithic, *f* gossodedig, *j* goefm̄ytedig. 47–8 (*d*) recte Athrywyn meibion gyssymdeithig, *yna* A thrabludd Dr Davies. 49 *b*¹ [A]; *A–IL–TUVW–ac–gij* thrallod kegin, *b*¹ tralhod cegin; *ABCEFGIJL–RT–*

Zdgi thrylliad trablin, *DHYcl* thrilliaid trablin, *SXb¹f* threillheid trablin, *a* thulliad kog trablin, *e* thrilliad kogav blin, *j* ôreilliad trablin; + *b¹* difefl ryfig. llysoedh. / dy glod aeth dros y gwledydh. 50 *EI* or win, *G* [ar win], *SXYfl* o win; *Ee* [i], *G* ir, *Y* di, *l* yn; *e* iawan; *G* felysig. 51 *b¹* tair cynedhf dirion lywenydh | tair cynedhf y sydh dirion lywenydh; *GLel* Tri, *M* a thair; *A-DFHIJL-RVWZcgj* kynnydd, *Gl* chynevydd, *T* cynedd, *e* chywydd, *i* cywydd; *GHIUVZ* sydd, *M* irion, *Q* a sydd; *Gyaef* dirion, *M* llion, *X* Ryrion. 52 *SX* A; *SX* Brif llûs; *EPa* dd, *UV* Ddafydd; *Gjl* divevel, *M* difefledig, *Y* difeddl; *Gyl* rryfic, *J* ryddig. 53 *K* By; *G* yn, *J* dyn, *S* [ddyn], *l* vn; *G* benaag, *l* pynnag; *Ib¹* a pha, *Ke* by, *M* pa'r, *Y* nev pa; *G* benaag a fych, *SXa* Bynnag A Fûch; *b¹* y fedrych, *f* wpych; (*b¹*) a uwchben y. 54 *BFJOTYZb¹deg* i; *e* rodych; *U* adwedig, *g* arwedig. 55 *G* Dere, *l* dare; *A-JL-XZab¹c-gijl* kroeso, *Y* a gressa; *A-JL-b¹c-gijl* pan, *K* a; *A-FHIJL-b¹cdfgij* ddelych, *G* delech, *l* ddelech. 56 *eij* a chwedi i; *f* pa, *j* tre, *l* try; *j* mynnyç. 57 *e* tyrig; *I* pendefig; *EVYa* dd; *SX* lûs. 58 *L* levassawc, *S* lliossoedd; *ABE-HJLN-RUVZacegij* keyrydd, *DMSTWXb¹df* Geurydd, *I* gervdd, *Y* gvnvdd. 59 *X* De; *Yb¹* y; *IMOPRUVe* sai, *S* Saaf; *ABEHNOT-WZab¹egi* deiroes, *DFGJLMPQRSYdfjl* dair oes; *E* fydd. 60 *c* meibion vfyddion a fydd + finis; *e* Dy gfod; *BHOTZdg* vwch, *E* dros, *G* ath, *e* dras; *i* [aeth]; *BEHOTZdg* deg o wledydd; *Gl* a gwledydd; + *j* Mab cadr Cydwaladr ap cydwelyd hael o hil Elystan Glodryd ag yn ei lys etc.

Teitl / Rhaglith

B Cerdd Sypyn Cyfeiliog Owdwl y nos, *C* owdwl o waith deio ap Ifan dv, *D* Owdl Un. nos allan o L: Byrwyn ms Robin ddû 1768, *I* Owdwl vnos owaith Sypyn kyfeiliog, *J* owdle wnas Syppyn Cyfeiliog, *K* Dauyd bach uab madaóc wladeid ae cant, *M* Owdl unnos i Dafydd ap Cadwaladr, *N* Awdl Foliant, *R* Owdl fol: + Dafydd *mewn llaw wahanol*, *O* owdl yw hon a wnaed pan ddoeth prydydd i blas gwr bonheddig noswaith ag aeth i fynd ymeth ag i keisiodd y gwr gantho aros y noson ag ynte a ddowad nad i rae i blas gwr arall ag ir aeth yno ag i naghaed o lety ag i gorfy iddo ddowad yn i ôl ag i gwnaeth ynte yr owdl yma y noson ag am hynny i gelwir hon yr owdl vnos, *T* Owdl Foliant i Dafydd + Cadwaladr o Fachelldref o Waith Deio ab Ieuan Du. Gor Beirdd 168 *mewn llaw wahanol*, *V* Owdwl voliant i Dd ap kydwaladr o vachelltref / yr honn a elwir yr owdwl vnos / sef achaws y galwyt velly, i howdvr a ddoeth i llys Dd ap kydwaladr ar ddydd tymhestlog ag o achaws bod llawer o veirdd gwedi dyfod a moliant i Dd ap kydwaladr ag yntev heb ddim, ni thrigai er gwahodd or gwr ef eythr hevrv addaw bod gida gwr arall y nos honno / a mynet ymaith a orvg parth ai helynt, eisioes ef a golles i ffordd / ar drykin ai kymhelles ef yn i wrthgefn i lys Dd ap kydwaladr / ar nos honno ef a wnaeth yr owdwl honn, *W* owdl dd ap kadwaladr yw hon a elwir owdl vnnos, *X* Awdwl Mawl I owain ap Dafydd Abad Talylyche, *b¹* dd bach amhadog wladaidd, *c* owdl fol. Dafyd, *d* Owdl i Dafydd, *h* I bachelldref, *i* Awdl i Dafydd ap Cadwaladr o fachelldref, *j*

Gweler y sylwadau rhagarweiniol ar y gerdd.

Olnod

A Deio ap Ieing dv ai dd bach ap had wladaidd, *B* Hil Cadr Kadwaladr Etc. Syppun Kyfeiliog ai Cant, *C* Deio ap Ieuan dv ai kant Syppyn Cyfeiliog medd eraill, *E* Cneppyn Gwerthryniawn (*ac on uwchben -awn*) Vi. an Syp Kyf *a* Cnep- *a* Gwerth- *wedi eu tanlinellu a dilyn y frawddeg ar y ll. nesaf gan* S. Kyf, Syppyn Cyfeiliog 1400, *F* Davydd ddû amhadawg wladaidd ai kant, eraill ai galwai Sypyn kyveiliog, mewn modd arall knepyn gwrthryniion, ar vn gwr oedd y tri henw, *Gl* David nantmor, *HOQSWZf* Syppyn kyveiliog ai kant, *I* Sypvn kyfeiliog ai kant yr hwn a gyfieithir dafydd bach am hadog wladaidd, *J* Davydd ddû amhadawg wladaidd ai kant, eraill ai galwai sypyn kyfeiliog, mewn modd arall Cnepyn gwerthryniion, ar vn gwr oedd y tri henw AD 1400, *LTgi* Sypyn kyfeilioc, *M* Syppÿn Cyfeiliog a'i Cant 1400, *N* Deio ab Ieuan Du a'i Cant 1480, *P* Dio ap Ieian dv pan wrthododd wadd ar nos ynydolig ag i gorfv arno ddyvod i west gan vaint yr eira + nid gwir sypyn kyfeiliog nid Deio ap ifan dv *mewn llaw wahanol ar y tu chwith i'r geiriau hyn*, *R* deio ap Ieian dv ai kant pan wrthododd wadd ar nos nydolic ac i gorvy iddo ddyvod i west gan vaint yr eira, *U* Dabach ap Madog gwladaidd eraill ai geilw Sippin Kyfeiliog ai kant, *V* Dd bach ap madog gwladaidd eraill ai geilw Sippin kyfeliog ai kant, *X* Syppyn Cyfaiiog ae cant, *Y* Bach ymadoc Wladaidd, *a* davydd amhadog wladaidd yr hwnn a elwid sopyn kyfeiliog ai kant, *c* Dio ap Ifan Dû ai cant pan wrthododd wadd ar nos Nydolic. ac i gorfv iddo ddyfod i wêst gan faint yr eira. medd arall, Syppyn ai cant, *d* Syppyn Cyfeiliog a'i cant. Aliàs Dafydd bach ab Madog wladaidd, *e* Sypvn kyfeiliog ai kant Bleddyn was y kwd ne dd am hadog wladaidd ai kant ar vn gwr vwr tri hennw vchod, *j* Dafyd Baç ap Madog wladaid a elwid Supyn Cyfeliog : a.c.

Trefn y llinellau

AELUV 1–18, 21–4, 27–42, 19–20, 43–4, 25–6, 45–60.

BHOTYZdfgl 1–60.

C 1–20, [21–4], 43–4, 25–6, [27–42], 45–56, 57–60].

DIW 1–8, [9–12], 13–24, 27–8, 25–6, 29–60.

FJ 1–24, 27–44, 25–6, 45–60.

G 1–38, 45, 39, 40–4, 45 (*eilwaith*), 46–60.

Kk [1–12], 13–20, [21–4], 45–6, 25–6, [27–42], 43–4, 47–56, [57–60].

M 1–18, 21–4, 27–44, 19–20, 45–6, 25–6, 47–60.

N 1–18, 21–4, 27–32, [33–4], 35–42, 19–20, 43–4, 25–6, 45–60.

PR 1–20, [21–4], 43–4, 25–6, [27–42], 45–60 (*a* 57–60 *mewn llaw wahanol yng nghwr y ddalen yn y ddwy lawysgrif*).

Q 1–18, [19–20], 21–4, 27–44, 25–6, 45–60.

SX 1–58, 60, 59.

a 1–20, 25–6, [27–38], 21–4, 39–60.

*b*¹ 1–24 (*yn dra chymysglyd a diffygiol*), 25–40, 42, 41, [43–5], 46–9, [50], 52, 57, 60, 51–60 (52, 57, 60 *eilwaith*).

*b*² [1–16], 17–18, [19–20], 21–4, [25–6], 27–36, [37–60].

c 1–20, [21–4], 43–4, 25–6, [27–42], 45–59 (*a 57–9 mewn llaw wahanol yng nghwr y ddalen*), 4 (*eilwaith, ac mewn llaw wahanol yng nghwr y ddalen*).

e 1–44, [45–6], 47–60.

h 1–24, 27–8, 25–6, 29–46, [47–60].

i 1–24 (*a 19–20 mewn llaw wahanol yng nghwr y ddalen*), 27–44, 25–6, 45–60.

j 1–24, 27–8, 25–6, 29–60.

Moliant Harri Salsbri ac Annes Cwrtes o Leweni

- Hir hoedl i'm naf cadr afael
 Yn Lleweni, Harri hael
 Salsbri ni byddo dien,
 4 Y Mars a ddywaid 'Amen'.
 Mab Rawlyn, dilyn dilwfr,
 Ni châr byth na llyth na llwfr,
 8 Brëyr gwÿr, gweryl ymwan
 (A brehyres loywles lân,
 Cair Annes Cwrtes i'm cof)
 Edwyn Eingl, nid â'n angof.
- Encyd yn lle Iarll Lincol
 12 Yr â ei wlad ar ei ôl,
 Yswain aur adain ydyw,
 Câr i'r heniarrll a'r iarll yw.
 16 Llew'n lle'r hydd fydd i feddu
 Dyffryn Clwyd, llawn broffwyd llu.
 O Fôn hyd ar Drefynyw
 Golau gan leuadau yw,
 20 Syganwyd eu gwisg onnen,
 Salbwrch yn lle Holbwrch hen.
- Y gwaith gan y dreigiau gynt
 A syrthiai'r nos i wrthynt.
 Pared ef waith i sefyll,
 24 Pennawr mwy na chawr ni chyll.
 Gwnaed heddwch didrwhc didrais
 A serch rhwng Cymro a Sais.
- Mygr fydwaled, hedd hawddgar,
 28 Mabsant un dyfiant â dâr,
 Llew byw, rhyw rhiawdr bonedd,
 Llafnwyyar wanas, glas gledd.
 Ei farch yn ennill dau faes,
 32 A'i arlllost ni bu wyrllaes,
 Cristoffis hael dros Faelawr,
 Capten dan dorch felen fawr.

- 36 Manaw sy 'n llaw llew Prydain
Rhwng dygyfor môr a main,
Ceidw Ruddlan rhag pobl anos,
Caledfryn, Rhuthun a Rhos.
- 40 O'r tŷ i'r eglwys lwys liwdeg,
Ac i'r ddwydref, tangnef teg,
O'r ddwydref i'm cynefin,
I lys Salbri hael o'i win,
44 Digri' i mi yw fy myd,
I mi digri' yw 'mywyd.

Ffynonellau

A—Bodewryd 1, 172 B—LIGC 6496C, 247'

Tebyg iawn yw'r ddau destun hyn a dichon mai copi o A (cyn i rannau o'r testun ddirywio) neu o gynsail gyffelyb yw B. Y mae rhai darlenniadau yn A yn anghyflawn oherwydd traul; ni nodwyd y rhain oni bai fod rhywbeth i awgrymu y byddai'r darlenniad yn wahanol i ddarlenniad y testun golygedig pe bai'n gyflawn. (Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 211–19.)

Amrywiadau

1 *B* hiroed. 4 *A* ir mars; *A* ddywaid []. 5 *A* ddylyn dd[]fr. 9 *B* in. 10 (*A*) 4 penill yn eissiaf yma. 20 *A* salbriwch; (*A*) ag yma beth ne. 4. eissiaf. 22 *A* syrthiai'r nos o wrthynt, *B* syrthiaf y nos wrthynt. 26 (*A*) ag yma tri ffenill ar goll eto ne fwy. 27 *A* mydr, (*A*) Mygr (*mewn llaw wahanol*), *B* mvgr. 29 *A* rhiadr. 32 (*A*) Dav yma yn eissiaf eto. 38 *B* keidw'r kledfryn; (*A*) .3. etto yn eisse. 39 *B* eglwys lwys loywddeg. 43 *AB* [yw]. 44 (*A*) yma tri heb gael.

Teitl / Rhaglith

A kerdd voliant i harri salsbri aer llyweni esgwier, *B* kywydd ir hen hari Salbri ag annes kwrtes ond nad yw fo i gyd kans methv i gael nes i ymofyn eto.

Olnod

A []liog ai kant, *B* Sypyn kyfeilog.

Cywydd serch

- Coron owdl cywrain ydwyf,
 Caru, cyd bawn ddu, ydd wyf
 Morwyn wen fwyn firain falch,
 4 Radd llugyrn, ruddiau lliwgalch;
 Cyngan owdl cangen edlaes,
 Cofl aur modd, cyfliw eiry maes,
 8 Corff mwynaidd, ddwystraidd ddistrych,
 Cangen hoen ddŵr creigddwr crych.
 Aeth yn llwyr, fal haul dwyrain,
 Eneth falch wineubleth fain,
 Dy gariad fal dagerau
 12 (Och wawr fun!) yn yr ochr fau,
 Wyl gethlydd bropr ael goethloyw,
 Ail distrych o ddŵr crych croyw.
 A llygad fy nyn lliwgalch
 16 (Fo'm llas, forwyn fwynlas falch)
 Mal gloywder dau bederyn
 Muchudd goruwch deurudd dyn.
 Ac erioed ni las gŵr iach
 20 Digardd ag arfau degach.
 Pa les yw ym, gyflym gŵyn,
 Leferydd am loyw forwyn?
 Ni thry na'i meddwl na'i throed
 24 Na'i meingorff draw i'r mangoed.
 Ni rydd ar was ei thraserch,
 Ni châr fyth, ni chair y ferch.
 Ni fyn lliw'r calch, ryfalch rwysg,
 28 Gyfrwch ag unben gofrwysg,
 Na dwyn testun rhag wyneb
 Na husting yn ing â neb.
 Nid oes fodd, na dwys feddiant,
 32 Och wŷr, perhôn bod ei chwant,
 Y caid, perchen llygaid llus,
 Dwylllo fy nyn dyallus.
 Er cynnig, pendefig poen,
 36 Gwin ac aur, gwen ei goroen,
 A main a thlysau manawl
 A myrdd o gywyddau mawl

- 40 Yr haf, a gwneuthur hefyd
Pob rhyw braw, papur o bryd,
Nid nes, hanes ei hwyneb,
Yw cael bun yn un â neb
Nag ydoedd gael i'n ael ni
- 44 Ddwfr mewn gogr o Ddyfi.
Gwinfaeth elynes gwanfardd,
Gwylan hyf, gwialen hardd,
Dyn loywgach duon lygaid,
- 48 Dâl iesin ffrw, delw San Ffraid!

Ffynonellau

A—BL Add 14875, 83^r B—BL Add 14991, 291^v C—Card 4.10 [= RWM 84], 100 D—Gwyn 4, 123 E—LIGC 2025B [= Pant 58], 202^r F—Pen 76, 184 G—Wy 1, 210

Ymranna'r testunau yn bum dosbarth, gyda pherthynas nes na'i gilydd rhwng BEG. Ymddengys mai copïau annibynnol ydynt i gyd a chodwyd amrywiadau o bob un. (Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 211–19.)

Amrywiadau

2 *ABCEG* bwyf, *F* i bawn; *B* dda; *C* ddwyf. 3 *AD* forwyn; *C* wiw fwyn, *D* fewn fwyn; *A* vireinfalch, *BF* mirain balch, *CEG* mirain falch. 4 *BCEG* llugorn, *F* llygvon. 5 *D* Gangen; *DF* odlaes. 6 *D* Gofl; *BEFG* avr imodd; *D* gyfliw; *B* [eiry], *F* eira. 7 *AF* dwystraidd distrych, *C* weddusdraidd Ddistrych. 8 *A* kangen lyfr hoen ddwr kreigddwr krych, *BCEG* cangen lwvr hoen creicddwfr crych, *F* kangen lwvr hoen ddlos krych. 9 *D* [fal]; *D* haul y dwyrain. 10 *BE* winenbleth. 12 *D* ochrau (*cywiriad*: ochre) fau. 13 *F* wyth; *B* gothlydd. 14 *D* ar dhwfr. 15 *AF* llygad, *BEG* a llygad, *C* a llygaid, *D* llygaid; *A* fy ngwenddyn, *D* fy mun; *D* yn lliwgalch, *F* vn lliwgalch. 16 *F* las; *A* llas y forwyn; *D* feinlas. 17 *BE* dan. 18 *F* mycgwydd *ac* o *uwchben* g. 20 *AF* digardd ar, *BCEG* digardd ag, *D* Na dugied ag; *B* arfan. 21 *C* ym pa wael; *D* gystym, *F* gyvelyn; *C* swyn. 23 *D* i medhwyl. 24 *D* wenn ir. 26 *BG* fydd, *F* vi, *E* fudd. 27 *ABEG* lliwgalch, *C* lliw Calch. 28 *CD* Gyfrwng, *F* gyverwch; *G* [ag]; *A* vn pen; *A* gofrwyth, *F* goverwysk. 30 *BE* i neb. 32 *A* och wr, *D* Yw chael, *G* och v.y.; *ABCDEG* [ei]. 33 *A* fal i kaid, *D* Ni chaid; *A* [perchen], *F* pechen. 34 *D* mun. 36 *A* ac oroen. 37 *C* maynawl. 39 *ABCEG* i gwneler. 40 *AD* pybyr. 41 *D* hoewnes; *A* iw. 42 *A* i gael, *D* yw chael; *G* cael ovn yn. 44 *BEG* y dwfr, *F* dwfr; *ABCEG* deifi, *F* dyfi. 45 *ABCEFG* gylynes.

Teitl

B Cywydd Merch, *C* I Ferch, *E* Cy Merch.

Olnod

A Toppyn kyfeiliog (*a* Syppyn *mewn llaw wahanol uwchlaw* Toppyn), *B* Dafydd Bach ap Madog Wladaidd, *CD* Syppyn kyfeiliog, *E* Dafydd Bach ap Madog Wladaidd i.e. Syppyn Cyfeiliog ai cant, *F* Robin ddv ai kant, *G* David Fach ap Madoc wladaidd Syppyn Cyve[].

Trefn y llinellau

A 1–4, [5–6], 7–10, [11–12], 13–22, [23–4], 25–46, [47–8].

BEG 1–10, [11–12], 13–22, [23–4], 25–40, 45–6, 41–4, [47–8].

C 1–10, [11–12], 13–22, [23–4], 25–46, [47–8].

D 1–6, [7–8], 9–48.

F 1–10, [11–12], 13–46, [47–8].

Cywydd serch

Fy lloer a'i gwallt fal lliw'r gwin
 A'i phryd fal ffrwd y felin,
 A'r tâl a gynnal ei gwisg,
 4 Mold hyfryd, mal ôd difrisg,
 A'r ael uchel a welyn',
 Asgell mwyalch ar galch gwyn.
 Lliw ei grudd oll, fo'i graddiwyd,
 8 Wnâi i lwys fardd lysu'i fwyd;
 A'r parabl dwys glwys gloywber,
 Gwin o'r pint yw'r genau pêr.
 Gweled ail ei llun gwiwlwyr,
 12 Nid yw ar gorff ond ar gŵyr!
 Glân yw'r wedd a'r cyneddfau,
 Gelynes y fonwes fau.
 Fyfi a gwen fwyfwy a gaid
 16 Yn diwyno'n dau enaid,
 Y hi'n fy lladd, gradd groysserch,
 Minnau heb faddau i'r ferch:
 Gwyliwn fod yn ein golau
 20 A Duw'n ddig wrthym ein dau!
 Gwnaed iawn, y gannaid wenferch,
 I'r bardd ysydd brudd o'i serch,
 Heb gysgu, heb garu gwin,
 24 Ebwch wrthi, heb chwerthin,
 Heb ganu, heb ogoniant,
 Heb ysmonaith chwaith na chwant,
 Heb friw gan arf, darf derfyn,
 28 Ond cariad lladrad fellŷn,
 Heb gael ei werth a'm nerthai,
 Heb ddwedyd i'r byd mo'r bai,
 Heb latai a gludai glod,
 32 Di-uthr o doai athrod,
 Fy hun od af i'w hannerch,
 Mwy o gerydd fydd i'r ferch;
 Od awn ddwywaith, dyn dduael,
 36 Gyrrai chwech y gair o'i chael;
 Gwŷr ifainc mewn gwir ryfyg
 A'm gwelai, a ddaliai ddig.

- 40 Mawr yw'r dig a'r genfigen
Gan ferched, gweled ei gwên,
Na chawsent yn iachusawl
Roi yn eu mysg ran o'i mawl.
44 Enw o fawl fyth ni wnaf i,
Nid yw addas, ond iddi;
Disgwyl tâl am ofalglwyf,
Nes ei gael anwesog wyf.

Ffynonellau

A—CM 40, 19 B—CM 467, 32 C—LIGC 672D, 119 D—Llst 124, 555
E—Pen 124, 118

Ymranna'r testunau yn ddau ddosbarth, sef D ar y naill law, ac ABCE ar y llaw arall. Y prif wahaniaeth rhyngddynt yw fod D bedair llinell yn hwy na'r lleill. Copi yw B naill ai o E neu o gynsail gyffelyb; ond os copi o E ydyw, yna, gan fod llythrennau a geiriau o ymyl chwith hwnnw wedi mynd ar goll a bod B yn gyflawn, rhaid mai cyn i hynny ddigwydd y gwnaed y copi. Tipyn ymhellach oddi wrth yr ail fersiwn o'r gerdd yw AC ac ymddengys mai copi o A neu o gynsail gyffelyb yw C. Y mae rhai darlenniadau yn E yn anghyflawn oherwydd traul; ni nodwyd y rhain oni bai fod rhywbeth i awgrymu y byddai'r darlenniad yn wahanol i ddarlenniad y testun golygedig pe bai'n gyflawn. Codwyd amrywiadau o BDE. (Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 211–19.)

Amrywiadau

1 B un lliw'r, E un lliw ar a'r llythyren olaf wedi'i hychwanegu o bosibl. 3 BE mae'r; B fal; BE sy gynal. 4 B folf; D difrig, BE tewfrsig. 5 BE uchael welyn. 6 B mwualih; B gulith groyn. 7 B oll fai, D yn lle i. 8 D a wnai f'oes i fyw heb fwyd. 9 B parvbl. 10 D ar genav. 11 D ail llvn. 13 BE teg yw'r. 14 BE yw'r. 17 BE hi yn lladd. 18 BE finau; BDE heb ei faddau. 20 D [A]; D wrthen. 22 BE yw bardd; B bardd sudd. 23 D garv'r win. 24 BE wrthyd. 26 D heb chwant. 27 D [gan]; D tarf terfyn. 28 B carid. 32 D dieithr; BDE doe. 33 BE awn. 34 B fwyfwy cerydd, E []f[]y cerydd; B cerydd a fydd. 35 D ddiwael. 36 E []au chwech. 37 D gwawr. 38 BE pan welen; BE ddalien. 40 B ferihed weled dy wen, E [] weled dy wên. 41 B chowsan, E []wsen. 42 D yno roi; D rannv. 43 ACD fawl ni. 46 B anfoesgar.

Teitl

B Cywydd merch o waith Sypyn cyfeiliog, D Cyw. merch yn canmol ei glendyd sc., E -ydd merch owaith Sypyn Cyfeiliog.

Olnod

D Jeytyn Kyfeilioc aelwir dd bach amadd wledic ai cant.

Trefn y llinellau

B 1–10, [11–12], 13–28, [29–30], 31–46.

D 1–46.

E 1–10, [11–12], 13–28, [29–30], 31–45, [46].

Cywydd serch

Gwae, o hilion gwehelyth,
 Gwae roddo'i serch ar ferch fyth,
 Na bai'i wyneb heb 'i eni,
 4 Curiai sant lle cerais i!
 Clafychais pan welais wen,
 Penydiais er pan adwen.
 Gelyn ym oedd ei golwg
 8 A wnaeth i'r drem wneuthur drwg.
 Ni chaf hun gan y fun fach,
 Rhyw awr bwyll, rhywyr bellach.
 Codes olygon cydwedd,
 12 Gwâr ar bwyll a'm gyr i'r bedd.
 Troesont (rhy flin yw traserch!)
 Tan f'asau fal saethau serch.
 Chwai yw'r ael uwch yr olwg,
 16 Bwa'r drem a bair y drwg.
 Gallai'r ael heb drafael dro,
 Loywddu fain, ladd a fynno.
 A wnêl drugaredd, meddwn,
 20 A bod hir yn y byd hwn,
 Mae trugaredd yn addaw
 Bod i ddyn y byd a ddaw.
 Na nycha fardd, ddyn harddwaith,
 24 Ferch wen, n'ad fi i farw chwaith.
 Edrychais lle 'rwyf drachul
 Edrychiad a'm gad yn gul.
 Edrych hawdd yn y drych hwn:
 28 Edrychiad milgiad Maelgwn!
 A fu ar beth fawr ei bai,
 Lludd goel, yn lladd a'i gwelai?
 Dau eglurach yw'r glaerwen,
 32 Peryglodd a'i gwelodd gwen,
 Ac o raddau'r gweryddon
 Adwyth i wŷr y doeth hon.
 Santes ym mhryd hyfryd haf,
 36 Sioncwyh â'i gair, ni sinciaf;
 A'r gair yn gellwair i gyd,
 Somiant traserch ni symyd.

- 40 Ei hadlais mwyn, wrth gwyno,
 (Pa ryw gur!) a'm pair o go'!
 O siarad â'm bun siriol,
 Amhwyllo 'rwy' 'mhell ar ôl;
 44 O beidio mae'n enbydwaith,
 O Fair wen am farw un waith!
 Golwg gwalch neu fwyalchen
 O gil coed yw golwg gwen,
 A'i hwyneb ffres cynheswyn,
 48 Loer gall o liw eiry gwyn.
 Ni ddown o ben i'w henwi,
 Glain nod teg, ei glaned hi.
 Bun a edwyn benydiwr,
 52 Nid dull gwen yw twyllo'i gŵr;
 Meidr â'i gair cywair call,
 Dull eirian, dwyllo arall.
 Er da 'n maes, er dawn i mi,
 56 Ac o arian hyd Geri,
 Mwy carwn hon a'm curiawdd
 Yn ei gwrid teg nag aur tawdd.
 Ni ddown o ben â'r ddyn bach
 60 Bwyllog, rhaid yw marw bellach!

Ffynonellau

A—Bangor 1268, 94^v B—BL Add 14876, 68^r C—BL Add 14940, 73^r D—BL Add 14964, 39^r E—Card 2.68 [= RWM 19], 110 F—CM 10, 98 G—CM 27, 347 H—Llst 125, 134

Ymranna'r testunau yn ddau ddosbarth, sef AEFHG a BCD. Y mae perthynas agos rhwng EF, ond nid yw F yn gopi o E. Ceir perthynas agos iawn rhwng y tri thestun yn yr ail ddosbarth a dichon eu bod i gyd yn gopi o'r un gysail. Codwyd amrywiadau o'r holl destunau. (Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 211–19.)

Amrywiadau

2 *A* [gwae] a rotho, *BCH* gwae a rotho; *F* rotho serch. 3 *AEFH* bae; *A–FH* heb eni. 4 *D* curies, *E* cürio; *A* lle i. 5 *BCDH* cyflychais. 9 *BCD* chawn. 10 *ABCEH* rhwyn, *D* rhoyr. 11 *AE* kodes y olygon, *B* Codais i olygon, *CD* Codais olygon. 12 *A–DH* iawn bwill; *C* im Bedd. 13 *BCD* Troes am, *H* trosant; *BCD* ryflin. 14 *C* f'aesan, *D* f'aesau; *BD* yn saethau, *C* yn saethan. 15 *A–F* chwi; *A–D* yr ael, *H* ar ael. 16 *AEFH* yw bwa'r drem a bair drwg, *BCD* Jw bowar drem (*C* drwm) bair y drwg. 17 *BCD* Gall yr. 19 *GH* trigaredd. 20 *A* bowyd hir. 21–2 *Cymysgwyd trefn y llau. yn BCD a dynodi*

hynny yn BC ond nid yn D. 21 *F* Mae hwn yn gwâdd ac yn addaw; *D* trugarwdd. 23 *A* nam nych y fun; *C* nycha a fardd; *BD* fun, *G* fron. 24 *EF* nad i, *G* nad fi, *H* nad o i; *G* farw o chwaith; *F* ychwaith. 25 *G* edrychais lloer wen drachvl; *BCDH* rwy i yn drachvl. 26 *G* am y gâd; *D* gad i yn; *A* yn hawdd. 28 *A* miligad, *G* mvlgad, *H* milgaid; *C* Mwlgnwn. 29 *BCD* *A* fo. 30 *D* [yn]; *F* y gwelai. 31 *BCD* *Dau* (*C* dan) lygad y ddyn glaerwen. 32 *BCD* *Am* lladdodd pan im gwelodd; *A* peryglod. 33 *BCDGH* raddav; *BCD* *Gwryddion*, *E* gwryddon. 34 *ABCDGH* wr. 35 *AE* ywr hyd, *BCD* y mryd, *F* yw hyd, *H* ynghyd; *BCD* hâ. 36 *AG* oi; *BCD* Sinkia. 38 *H* somiad; *G* nis mynnyd. 39 *EF* gwynof. 40 *EF* gof. 41 *BCD* Os; *BCD* ddyn. 42 *H* ymhwylllo i rwy; *A* ymhell; *CD* o'r ol. 43 *BCD* mae yn benyd maith; *H* mar. 45 *A* falch y, *BCDGH* balch y. 46 *H* goed. 48 *H* lloer. 49 *GH* ddown i o; *BCDGH* a henwi. 51 *G* benydiowr. 52 *G* tvll; *BCDFG* [ei]. 53 *BCD* medair, *F* Meidin, *H* meder; *BCDG* ar; *BCD* cowir. 54 *BCD* irwen. 55 *A* [Er]; *BCD* *Da* maes ar dwyn; *F* da'n y maes, *GH* da maes. 56 *D* [o]. 57 *H* mwy i carwn; *B* curawdd, *C* curodd. 58 *G* ym gwrid. 59 *H* ddown i o ben. 60 *A-DH* rhaid marw.

Teitl

A Cowydd i ferch, *BCH* Cywydd merch, *D* Syppyn Cyfeiliog An. 1400 neu Ddauyd bach ap Madog wladaidd Co: Merch allan o L: R: M.; *EF* kywydd merch o waith Syppyn kyfeiliog.

Olnod

ABC Syppyn kyfeiliog ai kant, *D* diwedd, *EFGH* Syppyn kyfeiliog ai kant.

Trefn y llinellau

AEFH 1–60.

BC 1–36, [37–8], 39–60.

D 1–36, [37–8], 39–60.

G [1–16], 17–60.

Cywydd serch

Bwriais serch heb ei erchi,
 Bwriad mawr, mae'n brid i mi,
 Ar wen fwyn, arian fenig,
 4 A'r wybr o aur ar ei brig,
 F'anrhaith, nid gweniaith ond gwir,
 Fynwes dlos fain ystlysir.
 Mae y drem heb ddim o dro,
 8 Mae gwên wen i'm gwenwyno.
 Meddylwyf lle bwyf heb wg,
 Mi a'i gwelaf i'm golwg.
 Meddyliais, briwiais heb raid,
 12 Am fun megis am f'enaid,
 A'm lladd, llyna amwyll hy,
 Fy hun, gwae fi o hynny!
 Er nad wyf iach, nid af i
 16 Hyd awr angau i drengi,
 Yr wyf o haint ar fy hyd
 Ym mhoen fal ancor ym mhenyd.
 Gei o Warwic gywirwas
 20 A fu'n y glyn ar faen glas.
 Cymryd ei benyd y bu
 Deiroes gwerin dros garu.
 Wrth ei gur y tosturiwn,
 24 Un haint wyf finnau â hwn!
 Er y fun yr wyf wannach,
 Beth a wnaif heb wythen iach?
 Fy ngofal sydd i'm calon,
 28 Fal rhwyd y dyfelir hon.
 Tra chul wyf fal trychiolaeth
 Ers mis, nid er eisiau maeth.
 Oerni a chur, ar wan na chaid
 32 Y baich hwn heb uchenaid!
 Gweddiwyf er gwedd ewyn,
 O Dduw nef, a ddaw fy nyn?
 O Fair wen, o fawr annerch,
 36 A wŷr y saint wewyr serch?
 Nis gŵyr y fun esgeirwen
 Na'm pwynt na'm cwynfan o'm pen.

40

Nychais heb glais a heb glwyf,
 Ni chred mai nychu'r ydwyf.
 Os gwn arwain gofeiliaint,
 Ys gwypo honno fy haint!

Ffynonellau

A—BL Add 31058, 65^v B—LIGC 17114B [= Gwysanau 25], 383 C—Pen 93, 110

Ymranna'r testunau yn ddau ddsbarth, sef AC a B. Codwyd amrywiadau o bob un. (Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod 211–19.)

Amrywiadau

3 *A* wenn fun. 4 *A* ag wybyr; *A* [o]; *C* [ar]. 5 *B* gwemaith; *AC* y gwir. 7 *A* mae iddi drem, *C* y mae drem. 8 *B* gwen vn im. 10 *C* a mi. 13 *A* llymma. 16 *B* ango y dringi. 18 *A* fym henyd. 20 *A* fu mewn glyn, *B* fv yn glyn; *A* o faen. 22 *B* gwernig. 25 *B* er y -vn *a'r llythyren gyntaf yn aneglur*; *B* rwy yn wanach. 26 *A* beth ni wn af byth yn iach, *B* beth awn a byth yn iach. 27 *A* fydd. 28 *A* dyferir. 30 *A* nid [er]. 31 *A* oerach iw arwain na, *B* oerach yw ar wen na. 33 *A* gweddio ar y gwedd, *B* gweddw er gwedd. 37 *B* vyny. 39 *B* ni nychais; *B* [a]. 41 *A* gofoliaint, *B* govalaint. 42 *A* na wypo.

Teitl

A kowydd merch, *C* i Ferch.

Olnod

A nis gwn pwy ai kant, *B* llywelyn ap moel or pantri, *C* llewelin moel or pantri ai kant.

Trefn y llinellau

AB 1–42.

C 1–36, [37–8], 39–42.

7
Englyn

A fo pur fel dur mae'n dirion,—mewn dameg
Fal dyma'i atebion:
Coeliwch mai glendid calon
4 A wna beunydd yn brudd bron.

Ffynonellau

A—Card 1.2 [= RWM 12], 2^v B—J 138 [= RWM 16], 52^v C—LIGC
3039B, 346

Perthyn testunau BC yn agos iawn i'w gilydd a dichon fod y naill (? C) yn gopi o'r llall. Gwahanol iddynt, ar y llaw arall, yw A. (Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod 211–19.)

Amrywiadau

1 *A* []v bvr; *A* dvrion ir gobaith. 2 *A* ar gwbbw oi. 4 *A* bair bevnydd.

Teitl

BC Glendid kalon a wna bronn yn brvdd.

Olnod

A Sypyn Cyfeliog, *B* Sippyn kyfelioc ai kant.

Atodiad i

Cywydd serch

- 4 Cyfarfod, hir gydfod hwyr,
A wneuthum â bun neithiwyr.
Cyfarch gwell dan ddail celli,
Da ferch nid adwaenai fi.
Gofynnodd ym, rym ryfydr,
Pwy oeddwn, a fedrwn fydr.
- 8 'Minnau, mau urddau ordderch,
Dengyn moel diangen merch.'
- 12 Heb y wen o ben bonedd,
'Ow âb, drwg ydwyd o wedd,
Pa beth a wnaeth yt fethu?
Gynt mi a'th welais yn gynt.'
- 16 'Ceisio, diweddglwm casoer,
Dala fy adeilad, dioer,
Ceisio arfod priodas
A grynial o'm gwâl a'm gwas.
Dilyd y bugail dilesg'
(O lid wrth y forwyn lesg),
20 'Porthi ci, pesgi pasgwch,
A rhoi diodydd i'r hwch,
Dwyn cunogau o'r ddeuoed,
Gostwng gwar, mynd â'r car i'r coed,
Tynnu to, teilo talar,
24 Blocyn chwerw, prynu erw âr,
Wel dyna'r dôn aflonydd,
Y sawl brif gampau y sydd.'
- 28 'Gwell yt o'th fodd hel rhoddion
Ymysg dy genedl ym Môn
Na bachu mewn bwth bychan
A fo heb no tho na thân.
Dewis, berchennog deuoen,
32 Ai mi ai'r bwth mawr ei boen.'

‘Di, myn Mair, da y mynna’, ’myd,
Wenferch, onid wy’n ynfyd.’

36

‘Dyred, paid â’th ymdaeru,
I’r coed lle buost, w’r cu.’

‘Minnau a ddof, naws Mai’n dda,
Esgud wyf os gad Efa’!

Ffynonellau

A—BL Add 15016, 21^v B—BL Add 31058, 103^r

Hyd y gellir barnu, y mae’r ddau destun hyn yn tarddu o ffynonellau annibynnol. Y mae rhai bylchau yn nhestun B oherwydd traul, ac ni nodwyd y rhain oni bai bod lle i gredu y gallasai’r darlenniadau fod yn wahanol i eiddo’r testun golygedig pe bai’n gyflawn. (Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 211–19.)

Amrywiadau

4 *B* Da i ferch. 5 *A* Gofynnod. 9 *A* un gwenn. 10 *A* O drwg; *A* ydwyd di o. 13 *A* diwedd cwlwn. 15 *A* ardfod, *B* ry dfod. 16 *A* grymial. 21 *AB* brinogau. 22 *A* [mynd]. 23 *B* bo; *A* teclo talar. 24 *B* bod [] prynü; *A* Blodyn; *B* erw o âr. 25 *B* fol [] dôn. 26 *A* [y] sydd. 27 *AB* ferch gwell. 31 *B* barchenog; *B* ddüoen. 33 *A* da’i mynna ny, *B* da i mynamyd. 34 *B* wenserch; *A* onid wynfyd. 37 *A* os mau’n dda, *B* os maü dda; (*B*) naws mai dda *yna* os maiddia.

Teitl

A Cywydd Merch, *B* kywydd i ferch o waith Sypyn cyfeiliog.

Olnod

AB Sypyn Cyfeiliog Alias david (*A* Dafydd) bach ap Madog wladaidd ai cant.

Atodiad ii

Englyn gan Ruffudd Unbais

Gair teg ychwaneg diachwynion—gwedy
A geidw pawb yn fodlon;
Gair annoeth dig uwch brig bron,
Garw, a bair geiriau byrion.

4

Ffynonellau

A—Llst 165, 194 B—Pen 93, 74

O'r ddau destun, B a rydd y darlleniadau gorau a dichon fod testun A yn tarddu ohono. (Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 211–19.)

Amrywiadau

1 *B* diachwinwn. 2 *A* bawb. 3 *A* a Gair gorddig. 4 *A* gair a.

Olnod

B Gw. yr englyn nesaf.

Atodiad iii

Englyn gan Ruffudd Unbais i Ddafydd

Di-dŷ, dilety, di-lais,—Dafydd,
A difwyd y'th welais;
Ac yno'r bu yn ei bais,
Oer newyn, ar fy nwyais.

4

Ffynhonnell

Pen 93, 74

(Ymhellach ar y llawysgrif, gw. isod tt. 211–19.)

Olnod

B Grvffydd oi vnbaus ai kant.

Nodiadau

1

Yr awdl enwog ac afieithus hon yw'r unig awdl a ddiogelwyd o waith Sypyn Cyfeiliog.¹ Dengys y mynych amrywio yn nhrefn ei llinellau a'r mân amrywiadau geiriol niferus ei bod yn boblogaidd iawn ar lafar. Fe'i gelwir mewn rhai llawysgrifau yn 'awdl unnos' a cheir gan John Jones, Gellilyfdy, yn ei raglith i destun Pen 113, yr esboniad canlynol ar yr enw:

yr Oudyl unnos o foliant i Dafyd ap Cadwaladyr o Vaçeldre yn sir Drefaldwyn ap [darllener *ac*] yr aços y gelwid hi yr Oudyl unnos oed: yr audyd a doet ar nos Nadolic neu ar nos Galan, i blas Dafyd ap Cadwaladyr, a [darllener *ar*] ode cadu pet oi wilie yno, ond ef a doeteu yno lawer o brydydion a çowyde moliant i Dd: ap Cad: ac ynteu yn dyfod yno heb un cowyd moliant ido; or aços y bu edifar ganto ei dyfodiad yno: ag yn esgus a dywedod urt Dd ap Cad: na doeteu ef yno ar fedyr aros dim ond galu urt fyned heibio ar ei fford yn myned i Ednop at Gruffud unbais (yr hunn oed ysguier o gorff y tussog lewelyn ap Gruffud ap Len:) ag a necaod dario yno, ag a gymert ei gennad, ac aet part ag Ednop, ag ar ei fford yn myned tu ag Ednop yn agos i Domen esgob, yr oed y towyd mor aru ag mor dymhestlog, gann wynt, ood [darllener *od*] a lluç fal y collod ef ei fford ag y metod ganto fyned i Ednop, or aços y gorfu arno droi yn ei ol, a dyfod i Vaçeldre ar west at Dafyd ap Cadwaladyr lle y gurtodasseu ef dario ar wahod, ag yno, yn ol adrod ei damwain a diguydasseu ido, y damunod ef gael aros yno y nosson honno a çael stafell ido ei hunan a çanhuyllle a losgei ony vae dyd drannoet: yr hynn oll a ganiatawyd ido: ag ynteu a ymrodes y nosson honno i fyfyrion cerd foliant i Dafyd ap Cadwaladyr, ac y gwnaet yr Oudyl honn (syd yn dylyn) y nosson honno yr hynn ni wnaeteu neb erioed gerd oi mat meun cynn vyrred o amser: or aços y gelwid hi yr Oudyl unnos am ei gwneutur yn un noswait: a pann dadcanwyd hi drannoet ar ginio i Dd: ap Cadwaladr ar osteg yr oed muy clod iu houdyr hi, a muy rod a gafas nog ir holl brydydion eraill am ei holl Gowydeu moliant, ac ef ai haedod yn da am y vat gerd orçestol a hi.

Dadleuwyd mewn man arall fod y stori hon yn wir yn ei hanfod,² ac y

¹ Cyhoeddwyd testun o'r gerdd, a'i phriodoli i Ddeio ab Ieuan Du, yn *Gorchestion Beirdd Cymru*, gol. Rhys Jones (Amwythig, 1773), 168–71, ac yn BI B XIV 136–7.

² R.I. Daniel, 'Rhaglith i Gerdd gan Sypyn Cyfeiliog: Dogfen Hanesyddol?', *Dwned*, i (1995), 55–66.

mae'n fwy na thebyg fod adlais ohoni yn llinellau 9–12 o'r gerdd.³ Y mae'n bosibl hefyd mai i amgylchiadau anarferol ei chyfansoddi y mae priodoli sylmler arddull a chynganeddiad yr awdl o'i chymharu ag awdlau eraill y cyfnod yn gyffredinol (er y dylid cofio hefyd mai bardd cymharol hawdd ei arddull yw Sypyn Cyfeiliog).⁴

Ychydig iawn a ysgrifennwyd am wrthrych y gerdd, Dafydd ap Cadwaladr o Fachelltref ym mhlwyf yr Ystog (S. *Churchstoke*), yn sir Drefaldwyn, nid nepell o Glawdd Offa. Ceir yr enw Dafydd ap Cadwaladr yn nhair o achresi Bartrum, dan dylwythau Bowdler⁵ ac William o Elbeth o sir Drefaldwyn,⁶ a Gruffudd Chwith o swydd Amwythig,⁷ ond gellir diystyru'r olaf. O gymharu'r ddwy achres berthnasol â ffynonellau eraill, ymddengys mai achau Bowdler sydd gywiraf o ran disgynyddion Dafydd ap Cadwaladr, eithr achau William o Elbeth o ran ei ragflaenwyr cyn Cadwaladr.⁸ Felly yn ôl y gyntaf, Thomas Bowdler a John Bowdler oedd hendaidd a thaid Dafydd, ond yn ôl yr ail, Syr Robert o Brompton a Meurig.⁹ Am y taid, y mae'r cyfeiriad yng ngherdd Sypyn Cyfeiliog at *hil Feurig* (ll. 20) yn ddigon o reswm dros ddal mai Meurig oedd gwir daid Dafydd. Am yr hendaidd, yn 1225 gorchmynnodd y Brenin Harri III i Godescal de Maghelines, Beili Trefaldwyn ar y pryd, drosglwyddo i Owen ap Robert ap Madog yr holl diroedd hynny o eiddo tad Owen a oedd yn nwylo'r brenin, eithr gan adael i Feurig ap Robert (ei frawd, i bob golwg) gadw *Stretforten*—sef Ffordun, y mae'n debyg¹⁰ (rhwng Trefaldwyn a'r Trallwng)—yr oedd eisoes wedi ei hawlio, a Bachelltref.¹¹ Awgryma'r cysylltiad rhwng Meurig a Bachelltref mai taid Dafydd ap Cadwaladr oedd y Meurig ap Robert hwn ac mai gŵr o'r enw Robert, gan hynny, nid Thomas Bowdler, oedd hendaidd Dafydd.

Ar y llaw arall, pan edrychir ar ddisgynyddion Dafydd, yr enwau yn ôl achau Bowdler yw Hywel o Fachelltref, Gruffudd, gŵr Margred ferch Ieuan ab Owain, a Hywel Gethin, ac yn ôl achau Wiliam o Elbeth, Dafydd Fychan, Gruffudd Ffordun, gŵr Mawd ferch Ralph de Stafford, a Gruffudd Ffordun

³ *Ib.* 58–9.

⁴ *Ib.* 59–60.

⁵ P.C. Bartrum: WG1 'Bowdler'.

⁶ *Ib.* 'William of Elbeth' 4.

⁷ *Ib.* 'Gruffudd Chwith'.

⁸ Ni chrybwylla Eurys Rolant yr ach hon wrth drafod llinach Gruffudd ap Hywel, wŷr Dafydd ap Cadwaladr, yn GOLIM 64–5. Gw. hefyd *id.*, 'Owain ap Llywelyn ab y Moel' yn YB ix (1976), 109.

⁹ *Ib.* 'William of Elbeth' 1.

¹⁰ Dichon mai cyfeiriad at y ffordd Rufeinig yw'r elfen *stret*. Bu caer Rufeinig tra phwysig yn Ffordun trwy gydol cyfnod y Rhufeiniaid yng Nghymru.

¹¹ Gw. R.W. Eyton, *Antiquities of Shropshire* (London, 1854–60), xi, 86. Yn ôl J.C. Davies, *The Welsh Assize Roll, 1277–1284* (Cardiff, 1940), 303, hawliodd Henry ap Philip of Kinton a'i dri brawd hanner 'vill' Bachelltref yn erbyn Robert ap Meurig (mab Meurig ap Robert) o Fachelltref a'i frodyr Cadwgan, Cadwaladr a William yn 1280, eithr yn ofer.

yr Ieuangaf;¹² eithr dengys tystiolaeth gyfoes cywyddau a ganwyd gan Lewys Glyn Cothi ac Owain ap Llywelyn ab y Moel yn y bymthegfed ganrif i Ruffudd ap Hywel ap Dafydd ap Cadwaladr a'i fab Hywel,¹³ mai Hywel, Gruffudd a Hywel oedd y wir linach.¹⁴ Yn achau Bowdler,¹⁵ gwraig Dafydd ap Cadwaladr oedd Jane ferch Gruffudd Ddwn o linach Elystan Glodrydd ac ategir hyn gan y cyfeiriad yn llinell 2 at *hil Elystan Glodrydd* (ni nodir ei wraig yn achau William o Elbeth).¹⁶ Yn ôl yr un achau, yr oedd ganddo ddau fab, Hywel o Fachelltref a Dafydd Llwyd o Fachelltref, a thebyg mai atynt hwy y cyfeirir yn llinell 4 (yn achau William o Elbeth, un mab yn unig, Dafydd Fychan, oedd ganddo a thair merch).

Deallwn oddi wrth linell 52 mai Bachelltref oedd prif lys Dafydd, ac ymddengys oddi wrth writ Harri III a grybwyllwyd uchod fod y lle yn eiddo i'r teulu ers cenedlaethau. Denglys llinell 57, fodd bynnag, fod gan Ddafydd fwy nag un llys a'r tebyg yw mai llys Brontyn (*Brompton*), tua hanner milltir o Fachelltref wrth ochr ddwyreiniol Clawdd Offa, oedd y llys arall, oherwydd, yn ôl yr achau, yr oedd amryw o hynafiaid Dafydd yn gysylltiedig â'r lle.¹⁷ Â llys Brontyn yn ddiweddarach hefyd y cysylltir wŷr Dafydd, Gruffudd ap Hywel, a'i feibion gan Owain ap Llywelyn ab y Moel.¹⁸

Gellir casglu oddi wrth gerdd Sypyn Cyfeiliog fod Dafydd ap Cadwaladr, fel noddwr beirdd, yn cadw llys tra chroesawus, hael, diwylliedig a moethus. Darlun tebyg iawn yn hyn o beth a geir gan Lywelyn Goch ap Meurig Hen a ganodd, yntau, awdl i Ddafydd¹⁹—yr unig gerdd arall iddo sydd ar gadw— a'r tebyg yw fod dylanwad un ohonynt ar y llall. Tystia Llywelyn Goch hefyd i boblogrwydd ei noddwr pan gyfeiria at ei lys fel *Lle cyson beirddion ynghylch byrddau*.²⁰

Gellir dysgu rhagor am droeon gyrfa Dafydd o rai cofnodion swyddogol. Yn 1332 ymunodd *David ap Kadewaladre centenario* ('canwriad') a'i fyddin o *Kaus* (rhwng Worthen a Westbury, swydd Amwythig) â lluoedd Edward II yn ei ymgyrch seithug yn erbyn yr Alban,²¹ a chan fod Bachelltref yn perthyn i arglwyddiaeth Cawres (*Caus*),²² y tebyg yw mai'r un gŵr

¹² P.C. Bartrum: WG1 'William of Elbeth' 4.

¹³ GLGC 449–50 (cerdd 206), GOLIM 11–14 (cerddi 6 a 7), 17–18 (cerdd 9).

¹⁴ Mewn marwnad gan Owain ap Llywelyn ab y Moel, *ib.* 15–16, gelwir gwraig Gruffudd ap Hywel yn Elen, merch Gruffudd ap Siancyn o Ednob yn ôl yr achau, *ib.* 67, 69, nid Margred, a theg tybio, felly, i Ruffudd briodi ddwywaith.

¹⁵ Gw. P.C. Bartrum: WG1 'Bowdler' ac 'Elystan Glodrydd' 28.

¹⁶ Yn ôl yr un achau, priododd ei dad, yntau, ferch o'r llinach hon, gw. *l.c.*

¹⁷ Gw. P.C. Bartrum: WG1 'William of Elbeth' 1–2.

¹⁸ Cf. hefyd GLGC 450 (206.43–4) *Mae yt briflys, mae yt ddwylys dda, / Gruffydd, i dan Gaer Offa*.

¹⁹ GLIG cerdd 1.

²⁰ *ib.* 1.36.

²¹ N. Fryde, 'Welsh Troops in the Scottish Campaign of 1322', B xxvi (1974–6), 87.

²² Gw. G (yr Atodiad rhwng tt. 192 a 193).

oedd y Dafydd ap Cadwaladr hwn â gwrthrych y gerdd. Tua 1326 derbyniodd *Dauit* mab *Kadwaladr de Basaltref* (h.y. Bachellltref) gan Hugo de Arreleye, Fforestydd Corndon, a phump o dystion yn bresennol, rodd o dir a thŷ yn Nhrefaldwyn y dywedir eu prynu gan Philip de Midelton.²³ Yn 1338 yr oedd dyn o'r enw Dafydd ap Cadwaladr, rhaglaw (*ragelot*) castell Cawres, yn dyst i rodd o dir yn Thornbury²⁴ (rhwng Trefaldwyn a Ffordun), ac yn wyneb y cysylltiad rhwng Bachellltref a Chawres, odid nad yr un gŵr oedd hwn â Dafydd ap Cadwaladr y cofnod blaenorol. Dylid cydio'r cyfeiriad at ei raglawiaeth wrth *lluosog geyrydd* (ll. 58) a *llywiawdr ardal*²⁵ awdl Llywelyn Goch. Y mae'n amlwg ei fod yn dal swyddi pwysig yng nghostyll y Saeson ar y Gororau,²⁶ a dwy genhedlaeth yn nes ymlaen gwelir ei ŵyr—yr *unben o Lutenont*, chwedl Lewys Glyn Cothi—mewn sefyllfa debyg.²⁷

Ar 21 Mawrth, 1404, apwyntiwyd comisiwn ynglŷn â theyrnfradwriaeth a throsteddau eraill *John Moill* a *David Cadwaladour* a ddisgrifir fel dilynwy'r i'r bradwr Owain Glyndŵr;²⁸ ac yn nes ymlaen yn y flwyddyn, yn ôl yr un ffynhonnell, rhoddwyd tiroedd a meddiannau eraill yn nhrefi *Brampton* (*Brompton*), *Ryston* (*Rhiston*) a *Tenebirthe* (*Timbirth*) a fuasai hyd yn ddiweddar yn eiddo *David ap Cadewaladre* i John Brigge, aelod o siambr y Brenin, 13 Medi.²⁹ Naturiol tybio mai'r un gŵr a grybwyllir yn y ddau gofnod, ac yr oedd y tiroedd y cyfeirir atynt yn agos i Fachellltref tua'r gogledd. Fodd bynnag, os oedd Dafydd ap Cadwaladr o Fachellltref yn bennaeth byddin yn 1322 (gw. uchod), rhaid ei fod dros ei gant oed i gymryd rhan yng ngwrthryfel Owain Glyndŵr, ac ymddengys, felly, mai at ryw Ddafydd ap Cadwaladr arall y cyfeirir.³⁰

I grynhoi, gellir dweud bod Dafydd ap Cadwaladr yn uchelwr tiriog a chefnog, yn noddwr beirdd hael a phoblogaidd, ac yn ddiprwy i'r Saeson yn y gwaith o gadw trefn ar boblogaeth Gymreig arglwyddiaeth Cawres ar y Gororau. Yn y swyddogaeth ddyblyg hon yr oedd yn nodweddiadol o lawer o weinyddwyr y bedwaredd ganrif ar ddeg yng Nghymru—pobl fel Syr

²³ *Glamorgan Record Office Cardiff Library Deeds*, Series I, no. 3248. Yr wyf yn ddyledus i Mr Richard H. Morgan, Caerdydd, am dynnu fy sylw at y cofnod hwn a'r rhai canlynol.

²⁴ B.G. Charles, 'A Schedule of Powis Castle Deeds and Documents Deposited by the Right Honourable George Charles Herbert 4th Earl of Powis' (cyfrol anghyhoeddedig, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, 1971), i, rhif 12016.

²⁵ GLIG 1.6

²⁶ Cyfeiria Llywelyn Goch ap Meurig Hen ato hefyd fel *Lloegrllad lyw*, *ib.* 1.9, ond y tebyg yw mai consensiwn llenyddol yw hyn, cf. GIG 222 a GLIBH 109.

²⁷ GLGC 449–50 (cerdd 206), GOLIM 11–16 (cerddi 6, 7, 8).

²⁸ *Calendar of the Patent Rolls 1401–5* (London, 1891–), 426.

²⁹ *Ib.* 420.

³⁰ Uniaethir y Dafydd ap Cadwaladr hwn â Dafydd ap Cadwaladr o Fachellldref gan E. Rowlands, 'Owain ap Llywelyn ab y Moel', *art.cit.* 109, GOLIM 64; cf. hefyd E.P. Roberts, 'Gwehelyth', *Mont Coll* ix (1967–8), 63. Diddorol sylw mai Dafydd ap Cadwaladr Ddu oedd enw gŵr o Uwchaled yn arglwyddiaeth Dinbych a dderbyniodd bardwn brenhinol ynghyd â dirwy am ei gefnogaeth i'r Gwrthryfel o 1400 hyd 1407, gw. R.R. Davies, *The Revolt of Owain Glyn Dŵr* (Oxford, 1995), 304.

Rhys ap Gruffudd a Syr Gruffudd Llwyd, ac enwi'r amlycaf—a oedd yn gefn i'r Goron ond hefyd i'r diwylliant brodorol. Ar sail y ffaith i Lewys Glyn Cothi, a oedd yn ei flodau tua chanol y bymthegfed ganrif, ganu i wŷr Dafydd ap Cadwaladr, Gruffudd, dadleuodd Ifor Williams (gan gyfrif 30 mlynedd i genhedlaeth) mai tua 1390 oedd adeg Dafydd.³¹ Ond os oedd taid Dafydd ap Cadwaladr, Meurig ap Robert, yn fyw yn 1225 a Dafydd yn ail chwarter y bedwaredd ganrif y ddeg, ni ellir rhoi ei gyfnod fawr diwedd-arach nag ail hanner y ganrif honno.

Ni ellir, wrth reswm, amseru'r gerdd ychwaith yn ddiweddarach. Ffaith sy'n ategu hyn yw adnabyddiaeth Sypyn Cyfeiliog o Ruffudd Unbais a grybwyllir yn rhaglith John Jones uchod, oherwydd os oedd Gruffudd yn *ysgwiwr o gorff* i Lywelyn ap Gruffudd yn ystod ei ryfeloedd yn erbyn Edward I (1277–82), o'r braidd y buasai'n fyw yn hwyrach na chanol y bedwaredd ganrif ar ddeg fan bellaf.³² Rhwng popeth, y tebyg yw mai rhywbryd yn ail chwarter y bedwaredd ganrif ar ddeg—efallai yn ei phedwardegau—y canwyd yr awdl, pan oedd Sypyn Cyfeiliog yn gymharol ifanc, ac awgryma llinell 18 mai adeg y Nadolig y bu hynny.

Dechreuau'r awdl â thri englyn unodl union, yna ceir gyfres o gyhydeddau hir (llau. 13–56) a chloir yr awdl ag englyn unodl union arall. Cysylltir y tair rhan â chyrch-gymeriad. Pur amrywiol yw'r cynganeddiad, a thrawiadol yw nifer y cynganeddion braidd gyffwrdd, traws pengoll, a llinellau digynganedd yng nghyhydeddau'r gerdd.

- 1 **Mab cadr Cadwaladr** Cf. disgrifiad Llywelyn Goch ap Meurig Hen ohono fel *Cadrfab ... Cadwaladr*, GLIG 1.3–4.
heolydd Mewn ystyr ffigurol, gw. GPC 1854. Yr ystyr yw fod rhwydd hynt i'r llys i bawb.
- 2 **Elystan Glodrydd** Brenin Rhwng Gwy a Hafren yn yr 11g. a sefydlwr y pumed o lwythau brenhinol Cymru, gw. J.E. Lloyd HW³ 406n31, ByCy 201. Priododd Dafydd a Chadwaladr ferched o Elfael a oedd yn disgyn ohono, gw. y sylwadau rhagarweiniol uchod.
- 4 **meibion** Hywel a Dafydd Llwyd o Fachelltref yn ôl yr achau, gw. y sylwadau rhagarweiniol uchod.
- 6 **dilyn lluosydd** Cyfeiriad, y mae'n debyg, at y niferoedd mawr a fyddai'n ymweld ag aelwyd Dafydd—un llu yn dilyn y llall, megis.
- 7 **cadw wyneb ar rebydd** 'Cynnal anrhydedd arglwydd'. Ar *cadw* a'i ddilyn gan y gwrthrych ac *ar*, gw. Simon Evans, 'Yr arddodiad *ar* a'r ferf', B xvi (1954–6), 4, GPC 380.
- 8 Cf. 2.6 *Ni châr byth na llyth na llwfr*.

³¹ IGE² lxxxii–ii.

³² R.I. Daniel, *art.cit.* 58, 61.

9–12 Ar arwyddocâd y llau. hyn, gw. y sylwadau rhagarweiniol uchod.

- 9 **Na wnaed dengyn ddynd ar ddydd** Ar sail darlleniadau'r llsgrau. eraill gellid hefyd ddarllen *Na fid dengyn dyn mewn dydd—drycinog*. Yn y naill achos neu'r llall, cydier y f. wrth lau. 11–12 *Myned ... Na dyfod*.
- 10 **dros amcanu dedwydd** O dderbyn rhaglith llsgr. j, gellir deall hwn yn gyfeiriad at fwriad da'r bardd i beidio â thramgwyddo ei noddwr trwy aros yn ei dŷ heb gerdd iddo.
- 13–50 Cymharer y disgrifiad hwn o lys Dafydd ap Cadwaladr â llau. 29–56 o gerdd Llywelyn Goch ap Meurig Hen i'r un gwrthrych, GLIG cerdd 1; cf. hefyd y disgrifiadau estynedig o lys Hywel ap Goronwy ap Tudur Hen gan Ruffudd Fychan a Gruffudd ap Maredudd, GSRh 10.49–60, R 1204.19–37.
- 15 **a'r** Gellid ei gydio wrth *mor* yn y ll. flaenorol a darllen *mor lwyd edmyg / Á'r llys ... fel y gwneir yn BI B XIV 136*.
- 15–16 **A'r llys a hoffaf ... / ... mel Celliwig** 'A'r llys a folaf (er lles i'w phennaeth / Nis molaf yn ostyngedig) fel Celliwig.' Ar *hoffi* yn golygu 'canmol, moli', &c., gw. I. Williams, 'hoffi, ymhoffi, hoffedd, gorhoffedd', B ii (1923–5), 40 a cf. GCBM i, 21.81 *Hoffi digonaf a digones—llew, ib. ii, 4.21–2 Keueis-y liaŕs aŕr eur a phali / Gan ureuaŕl rieu er eu hoffi*. Ymhellach ar *Celliwig*, llys traddodiadol Arthur yng Nghernyw a ystyrid gan y beirdd yn ddefnydd o ran llys, gw. GGrG 1.34n.
- 17 **llwyr degwch nef** Cf. disgrifiad Llywelyn Goch ap Meurig Hen o'r un lle, GLIG 1.42 *Lle rhoddes Duw Dad beth o'i radau*. Sylwer bod y ll. yn hir o sillaf oni chywesgir *lle y*. Gellid hefyd ystyried darlleniad llsgrau. ANPRUVb² *yn lle bydd*, ond llsgr K, yr un a ddilyniir yma, yw'r hynaf o lawer.
- 18 **dolef** Ar yr ystyr, gw. hefyd IGE² 410 a GIG 246.
Nadolig Cyfeiria'r beirdd yn dra mynych yn eu cerddi at eu harfer o ymweld â'u noddwyr ar dair gŵyl arbennig, sef y Nadolig, y Pasg, a'r Sulgwyn; gw. hefyd T. Parry, 'Statud Gruffudd ap Cynan', B v (1929–31), 32 (llau. 4–18).
- 19 **tra meddwaint** Gan fod *meddwaint* yn betrus fel a. yn ôl GPC 2399, gellid hefyd ei ddeall yn e. yn golygu '[sy'n] achosi meddwdod mawr'.
- 20 **Meurig** Taid Dafydd ap Cadwaladr, gw. y sylwadau rhagarweiniol uchod.
- 21 **breninllwythau** Cyfeiriad at bum brenhinllwyth Cymru, sef eiddo Gruffudd ap Cynan, Rhys ap Tewdwr, Bleddyn ap Cynfyn, Iestyn ap Gwrgan ac Elystan Glodrydd, gw. T. Parry, *art.cit.* 32 (llau. 32–4). Cf. GTP 34 (20.45–6) *Yn ei llys y cawn win a llysiau, / Yn ei chwrt*

ddarllain breninllwythau.

- 23 **teiriaith ... y gyfraith** Cf. GO 231 (XLII.29–30) *Tair iaith o gyfraith a gaf / Yn i ddethol yn ddoethaf*. Cyfeirir at gyfraith y byd (sef cyfraith Hywel), cyfraith yr Eglwys (neu'r gyfraith ganon) a chyfraith arfau (sef herodraeth ac achyddiaeth), gw. *ib.* 233.

claws Benthyciad o'r S. *clause*, gw. GPC 492 d.g. *claws*¹.

- 24 **growndwal** Cyfeirir yma, y mae'n debyg, at ramadeg, cf. GP 207 (ll. 3) *Gramadec yw mam y kylfyddode oll*.

- 29 **Mêl Ynys** Hen enw am Ynys Prydain, gw. TYP² 231, GPC 2418.

- 30 **tybys** Cf. I. Williams, 'Penityas', B viii (1935–7), 137 (llau. 15–18), *Ot ymgymysgawd a phutein ... neu vn a vei dybyus neu adnabodedic yn glafres*.

llys tebyg Os yw *llys* yma'n eb., dichon y gwelir yma galediad *-s d- > -s t-*. Sylwer hefyd, er ei fod yn odli â *hysthys* a *tybys*, nad yw'n ffurfio cynghanedd sain deirodl.

- 32 **diagwedd-dig** Cf. ll. 42 *diafardig*.

- 37 **cipiaid gafaelion** Hynny yw, y mae'r milgwn yn cipio gafael [yn eu prae].

- 40 **elyrchedig** Ffurf anarferol. Nid ychwanegir terfyniad a. at ffurf l. e. fel rheol, ac er cael *alarchedig* yn llsg. f ac *alarchedog* yn llsgrau. gh, y mae tystiolaeth gyfun y llsgrau. yn llawer cryfach o blaid *elyrch* fel elfen gyntaf y gair. Nid yn fynych ychwaith yr ychwanegir y terfyniad berfol *-edig* at e., ond cf., e.e., *eisiwedig*, *osgledig*, *olewedig* (gw. GPC d.g.). Y mae'n dra phosibl mai ffurf ydyw a ddyfeisiwyd gan y bardd i gyflenwi anghenion y foment (ar amgylchiadau cyfansoddi'r gerdd, gw. y sylwadau rhagarweiniol uchod), sef a. i ddisgrifio'r elyrch ac un a fyddai'n ddigon hir i gyflenwi'r nifer gofynnol o sillafau yn y ll., yw *elyrchedig*. Gellir cynnig mai 'alarchaidd', S. 'swanlike', yw'r ystyr, a'i fod yn cyfeirio at osgeiddrwydd yr elyrch.

- 42 **diafardig** Gair cyfansawdd yn cynnwys y neg. *di-*, *afar* 'tristwch, alaeth' a *dig*, ac yn golygu 'heb fod yn ddig ei dristwch', sef 'llawen, llon'. Cf. ll. 32 *diagwedd-dig*. Nis treiglwyd yn y llsgrau. er ei fod yn goleddfu'r eb. *iaith*. Nid yw'n amhosibl mai'r rheswm am hyn yw mai fel e. y bwriadwyd *llafar*. Fel a. y'i trinnir yn y mwyafrif mawr o'r llsgrau., ond sylwer hefyd ar *llafar* SX er na ddylid pwysu gormod arno.

- 43 **llin** Ar galediad *l-* yn *ll-* yn dilyn *gan*, gw. Treigladau 385–6.

- 44 **llafn ... cig** Cyllell torri cig.

gwaedraedr Cf. R 1318.7–8 *Gwaet raeadyr baladyr gbiwder beli hir* (Gruffudd ap Maredudd).

- coelfeingadr** Daw'r cig yn rhodd hardd, megis, i'r bwytywyr ar ôl ei dorri â'r llafn.
- 46 **llithrig** Dilynir darlleniad llsgr. K a'r ystyr 'llathraidd' (S. '*polished*') a gynigir yn betrus ar ei gyfer yn GPC 2191. Ond y mae'n bosibl mai *lleithig*, darlleniad y mwyafrif o'r llsgrau., sy'n gywir.
- 48–9 **A thrabludd gweision ... / A thrullid trablin a thrallod cegin** Molir darpariaeth y llys ar gyfer gwesteion drwy gyfeirio at y gwaith caled a flinai'r gweision, cf. GLIG 1.53–4 *Lle blin i gegin ac i gogau, / Llafur disegur yn dwyn seigiau*; GO 117 (XVIII. 7–8) *Yno y kawn, lle blin koc, / Ynyd Tuw i enaid tec*.
- 52 **rhyfyg** Mewn ystyr dda, gw. GLILI 1.46. Yn 4.37 isod, ar y llaw arall, yr ystyr fodern sydd iddo.
- 54 **Gydag ... enwedig** Cyfeiriad at y gerdd a ddewisai bardd a ddeuai i lys Dafydd i'w datgan iddo.
- 55 **cymer a welych** Dyma ddarlleniad llsgr. K ond rhydd *croeso pan ddelych* a geir ym mwyafrif mawr y llsgrau. eraill lawn cystal synnwyr hefyd.
- 57 **i'th** Sylwer mai'r ardd. *i* yn golygu 'yn' sydd yma, gw. GMW 199.
llysoedd Ar lysoedd y teulu, gw. y sylwadau rhagarweiniol uchod.
- 58 **ceyrydd** Cyfeiriad, y mae'n debyg, at gestyll Seisnig lle yr oedd Dafydd yn swyddog, gw. y sylwadau rhagarweiniol uchod. Yng nghongl Dafydd o arglwyddiaeth Cawres ceid castell Brontyn yn ogystal â chastell Cawres.
- 59 **tair oes hydd** Digwydd yr ymadrodd, a rhai eraill tebyg, yng ngwaith rhai o'r cywyddwyr oherwydd ystyrid gynt fod yr hydd yn greadur hirhoedlog, gw. GPC 1956.
- 60 **gwledydd** Sef 'ardaloedd, bröydd', yma, gw. GPC 1676. Cf. hefyd Lewys Glyn Cothi am Ruffudd, wŷyr Dafydd, GLGC 449 (206.9) *swydd dy arglwydd ar deirgwlad*, a'r sylwadau rhagarweiniol uchod.

2

Yn ôl Wmffre Dafis, copïwr testun llawysgrif A o'r gerdd hon, y mae darnau ohoni,¹ gan gynnwys ei diwedd, ar goll, a gellir tybio bod ganddo gysail wael ger ei fron. Ei air am bob darn coll yw *pennill*, sef, y mae'n debyg, cwpld o'r cywydd. Yn gyfan gwbl, dywed fod o leiaf 15 o'r 'penillion' hyn yn eisiau, sef 30 o linellau, bron i dri chwarter o'r llinellau a gadwyd, a dylid cadw hynny mewn cof wrth ystyried cynnwys y gerdd

¹ Fe'i golygwyd gan John Rowlands yn 'A Critical Edition and Study of the Welsh Poems Written in Praise of the Salusburies of Llyweni' (D.Phil. Oxford, 1967–8), 101–2.

(rhannwyd y gerdd yn y golygiad yn adrannau sy'n cyfateb i'r bylchau a nodir gan Wmffre Dafis).

Perthynai Harri Salbri a'i wraig, Annes Cwrtes, i deulu Salbrïaid Lleweni,² sir Ddinbych, y teulu hwnnw a hanai'n wreiddiol, y mae'n debyg, o swydd Henffordd ac a ddaethai i Ddyffryn Clwyd i ddal tir â'r yn nhrefgordd Lleweni rywbryd yn sgil Concwest 1282 ond a ymgyfoethogodd wedyn ac ymgymreigio nes mynd, gyda'i amryfal ganghennau, yn un o'r teuluoedd enwocaf a phwysicaf yn hanes llenyddiaeth Gymraeg. Canodd lliaws o feirdd, gan gynnwys Lewys Môn a Thudur Aled,³ gerddi iddynt rhwng ail hanner y bedwaredd ganrif ar ddeg a diwedd yr ail ganrif ar bymtheg, a pherthyn i'r gerdd hon ddiddordeb neilltuol fel y gynharaf ohonynt o lawer sydd ar glawr.

Ychydig iawn a wyddys am y Salbrïaid cyn yr unfed ganrif ar bymtheg—y ganrif y daethant i'w hamlygrwydd mwyaf—ac felly am wrthrychau'r gerdd hon. Ceir eu henwau yn yr achau⁴ a chadarnheir mai'r un bobl ydynt ag a geir yn y gerdd gan y cyfeiriad at Harri Salbri fel *Mab Rawlyn* (ll. 5) ac at linach *Holbwrch Hen* (ll. 20). Yr oedd Harri yn fab i Ralph (neu Rowling) Salusbury a Margaret, merch ac aeres Ieuan ap Cadwgan o linach Llywarch Howlbwrch,⁵ sir Ddinbych, a'r tebyg yw fod yr achau'n gywir hefyd yn nodi William Salusbury, Aelod Seneddol Llanllieni (*Leominster*) yn 1331–2, fel ei daid. Yr oedd ei wraig, Annes, yn ferch ac aeres i John Curteys (neu 'Courtois'), *armiger* ('marchog'), a oedd yn ddisgynydd, yn ddiau, i'r William Curteys hwnnw a ddaliai, yn 1334, bron i 200 erw yn Segrwyd, Archwedlog ac Ystrad, a dwy fwrdeisiaeth yn Llanrwst.⁶ Dichon mai'r un gŵr oedd Harri Salbri â'r Henry de Salesbury hwnnw a benodwyd gan Dywysog Cymru yn siedwr sir y Fflint ar 20 Medi, 1399, ac yn fuan wedyn, ar 2 Tachwedd, yn dderbynydd elw llys, ffeiriau a marchnadoedd tref y Fflint am ddwy flynedd am rent o 100 swllt y flwyddyn.⁷ Os felly, y mae'n amlwg ei fod yn ddigon da ei fyd. Yn llawysgrif Harleian 2129 cyfeirir at arysgrif ar fedd ym mhriordy Carmeliad Dinbych a oedd yn coffâu marwolaeth Henry Salusbury, *armiger*, a'i wraig Agnes, merch John Curteys, a fu farw ill dau yn 1400,⁸ ond yn ôl J.Y.W. Lloyd (sydd hefyd yn crybwyll tystiolaeth llawysgrif Harleian 2129), yr oedd Harri Salbri yn fyw

² Ar y teulu hwn, gw. W.J. Smith, *Calendar of Salusbury Correspondence* (Cardiff, 1954), 1–19 (ac adolygiad R.G. Gruffydd yn THSC, 1955, 127–31), ByCy 844–5, a J. Rowlands, *op.cit.* 10–22.

³ Gw., e.e., DWH i, 135–6.

⁴ Gw. PACF 222.

⁵ *L.c.* Ar ddisgynyddiaeth Margaret o Lywarch Howlbwrch, gw. hefyd P.C. Bartrum: WG1 'Llywarch Howlbwrch' 2.

⁶ W.J. Smith, *art.cit.* 6.

⁷ *Calendar of the Chester Recognisance Rolls*, i (36th Annual Report of the Keeper of the Public Records, 1875), 418; gw. hefyd W.J. Smith, *l.c.*

⁸ Dyfynnir yn Arch Camb, Series 5, iv (1887), 262.

yn 1421,⁹ ac y mae rhyw gymaint o le i amau dilysrwydd y dyddiad a roir yn y llawysgrif.¹⁰ Cadarnheir y teitl *armiger* yn llwyr gan y cyfeiriadau yn y gerdd at wrhydri Harri Salbri ar faes y gad. Yn ogystagl â'r dystiolaeth brin hon, y mae'n bosibl, ar sail rhai cyfeiriadau yn y gerdd, fod Harri wedi dilyn Harri o Grosrwnt neu John o Gaunt ar ymgyrchoedd i'r Cyfandir, gwasanaethu fel milwr yn yr Alban, a'i fod wedi bod yn gysylltiedig â diogelu cestyll yn Nyffryn Clwyd a'r cyffiniau.¹¹

Y mae cefndir a chyfeiriadaeth y gerdd hon ymhell o fod yn eglur,¹² yn bennaf oherwydd prinder ein gwybodaeth am yrfa Harri Salbri. Er hynny, ymddengys mai'r brif elfen yw gwaith Harri Salbri, ac i raddau ei wraig, yn cadw heddwch rhwng Cymry a Saeson yn eu rhan hwy o'r byd o ganlyniad i anghydfod neu ymladd rhwng y ddwy hil, gw. llinellau 7 (*gweryl ymwan*), 10, 26 yn arbennig. Yn wyneb y niferoedd mawr o Saeson a symudasai i Dyffryn Clwyd i fyw a meddiannu tir yn y bedwaredd ganrif ar ddeg, prin, wrth gwrs, y byddai'r cyfryw sefyllfa'n syndod.¹³

Ni ellir dyddio'r gerdd yn fanwl iawn ond, fel y gwelir isod, awgryma llinellau 37–8 *terminus post quem* o c. 1370. Os felly, ac os cywir mai tua 1390 y bu farw Sypyn (gw. uchod td. 6), gellid cynnig tua 1370–1390 fel cyfnod y gerdd.

Y mae llinellau 7, 29 a 35 yn bengoll.

- 3 **ni byddo dien** Deellir 'iddo' ar ei ôl. Ar hepgor ffurf bersonol ardd. mewn cymal perthynol afrywiog fel hyn, gw. J. Morris-Jones: WS 90, GMW 66.
- 4 Cf. GLGC 450 (206.59–60) *Teiroides y bych gaterwen / I dir y Mars draw, amen*.
- 5 **Rawlyn** Ralph (neu Rowling) Salusbury, gw. y sylwadau rhagarweiniol uchod.
- 6 Cf. 1.8 *A chyda llyth byth ni bydd*.
- 10 **Eingl** Gallai olygu Tegeingl hefyd, sef y cantref a ffiniai i'r dwyrain â chantref Dyffryn Clwyd, gw. GIG 268. Ond yn wyneb y presenoldeb Seisnig cryf yn Nyffryn Clwyd, a'r hyn a ddywedir yn ll. 26, y mae'n fwy tebygol mai'r Saeson a olygir.
- 11 **Iarll Lincol** O ystyried cyfnod Sypyn Cyfeiliog a Harri Salbri, y gŵr mwyaf tebygol o fod yn wrthrych y cyferiad hwn yw John o Gaunt, Dug

⁹ HPF iv, 331, 339.

¹⁰ J. Rowlands, *op.cit.* 14.

¹¹ Gw. y nodiadau ar lau. 11, 14, 35, 37–8.

¹² Dymunir diolch i Dr A.D.Carr am gymorth gwerthfawr gydag agweddau ar gefndir y gerdd a drafodir yn y nodiadau.

¹³ Ar hyn, gw. D.H. Owen, 'The Englishry of Denbigh: an English Colony in Medieval Wales', THSC, 1974–5, 57–76 ac R.R. Davies: CCC 370–1.

Caerhirfryn a phedwerydd mab Edward III, a ddaliodd y teitl o 1362 hyd ei farw yn 1399, gw. DNB x, 854–64 ac F.M. Powicke & E.B. Fryde, *Handbook of British Chronology* (second ed.; London, 1961), 436. Gan na fu dim cyswllt rhwng teulu Caerhirfryn ac arglwyddiaeth Dinbych wedi 1332, pryd y dienyddiwyd Thomas, degfed Iarll Caerhirfryn a mab yng nghyfraith Henry de Lacy, nawfed Iarll Lincoln ac Arglwydd cyntaf Dinbych, dichon mai ergyd y ll. hon a'r un ganlynol yw fod Salbri wedi dilyn John o Gaunt ar un o'i ymgyrchoedd niferus i Ffrainc neu'r Ysbaen ac arwain mintai o wŷr o ogledd Cymru mewn cyrch ar ei ran. Ymddengys fod y bardd yn defnyddio'r teitl Iarll Lincoln yma er nad oedd y teulu ei hun yn ei arddel. (Ond rhaid cydnabod y gall y cyfeiriad fod yn un mwy cyffredinol ato fel arweinydd effeithlon ei bobl.)

12 Crych a llyfn.

14 **Câr i'r heniारll a'r iarll** Dichon mai 'cyfaill', neu hyd yn oed 'gynghreiriad' yw ystyr *câr* yma. Efallai mai rhagflaenydd John o Gaunt, Harri o Grosmwnt, Iarll Lincoln o 1349 hyd ei farw yn 1361, a olygir wrth yr *heniarll*, gw. DNB ix, 552–7 ac F.M. Powicke & E.B. Fryde, *l.c.* Fel John o Gaunt, yr oedd yn frwydrwr dygn mewn gwledydd eraill a dichon i Salsbri fod yn ei wasanaeth yntau am gyfnod.

15 **llew'n lle'r hydd** Cynrychiolid arfbais y Salbriaid gan lew gwyn a thair lleuad (cf. ll. 18) ar faes coch, a theulu Llywarch Hwlbwrch, y perthynai Annes Cwrtes iddo o du ei mam, gan hydd, gw. DWH i, 135–6, ii, 338–9, 515–18 a cheir llun ohono yn HPF iv, 330. Deellir 'n lle i olygu '*in the place of*' yn hytrach nag '*instead of*'. Y mae'r syniad o undod rhwng Cymru a Lloegr, gŵr a gwraig, yn flaenllaw yn y cywydd hwn; cf. ll. 20.

17 **Trefynyw** 'Trefynwy'. Ar yw/wy yn ymgyfnawid yn sillaf olaf gair, gw. WG 114 ac R.J. Thomas, 'Enwau Afonydd â'r Ôlddodiad -wy', B x (1935–7), 37–8.

18 **lleuadau** Gw. uchod llau. 15–16n.

19 **syganwyd** Yn ôl DGG² 263 a GDG³ 597, 'sibrwd' yw ystyr *syganu*, ond gallai olygu 'dweud' hefyd, megis yn GTP 20 (12.39) *Syganai osawg Einion* (a gw. *ib.* 154). Cf. hefyd TW lle y digwydd d.g. *dictus, narro, praedicans, refero*, a D lle y rhoddir i *syganai* yr ystyr '*aiebat, inqueibat*'. Cymerir mai'r ystyr yma yw 'sôn am', S. '*noise abroad*'.

eu i a geir yn y llsgrau. Cymerir ei fod yn cyfeirio at *lleuadau* yn y ll. flaenorol.

gwisg onnen Fe'i deellir yn betrus i olygu arfbais, S. '*coat of arms*'. Ar *onn* yn golygu 'gwaywffon', gw. GPC 2649. Y tebyg yw y byddid yn

gweld yr arbais ar arfwisg Harri Salbri wrth iddo farchogaeth, neu (yn fwy penodol) ar ei darian, y faner ar y waywffon, neu ar y gorchudd march a âi gyda hi.

- 20 Gw. ll. 15. Deellir 'arfbais' o flaen *Salbwrch* a *Holbwrch*.

Salbwrch Sef Salzburg yn Awstria. Yn ôl yr achau, rhyw Adam de Salzburg oedd sylfaenydd llinach Llewenni, gw. PACF 222, er mai cwbl ffug yw'r honiad, gw. W.A. Evans, 'The Salusburys of Llewenni and the Carmelite Friary of Denbigh', TCHSDd iv (1955), 13.

Holbwrch Llywarch Howlbwrch, gw. y sylwadau rhagarweiniol uchod ac ymhellach HGK 62.

- 21–6 Cyfeirir at yr hanes am Wrtheyrn yn ceisio codi caer yn Eryri yn ofer gan fod defnyddiau ar ei chyfer yn diflannu'n anesboniadwy yn y nos. Yn y diwedd, datgelwyd yr achos iddo gan y bachgen Emrys, neu Fyrddin yn ôl Sieffre o Fynwy, sef bod draig goch, a gynrychiolai'r Cymry, a draig wen, a gynrychiolai'r Saeson, yn ymladd â'i gilydd, gw. TYP² 345–6, 472. Meddylir am Harri Salbri, megis Myrddin, fel cyfryngwr rhwng Cymro a Sais.

- 22 **i wrthynt** Llsg. A *o wrthynt*, ond nid arferol mo'r cyfuniad *o wrth*, ac ni rydd *syrthiav y nos wrthynt* llsg. B gystal synnwyr â'r diwygiad a gynigir.

- 24 Nid yw Harri Salbri yn colli bywydau (*pennawr*) ei filwyr mwy nag y byddai cawr, trwy ei nerth ymosodol ac amddiffynnol.

- 27 **mydwaledd** Awgryma'r geiriau *hedd hawddgar* sy'n ei ddilyn mai cyfeiriad sydd yma, efallai, at allu geiriol Harri Salbri i ddwyn perswâd ar wahanol bleidiau. Yr oedd Myrddin yn enwog am ei huodledd (cf. llau. 21–6).

- 29 **rhiawdr** Cf. Pen 189, *7 henwau duw dad tri fferson, Ri, Riav, Riawdr*, TW d.g. *dominator* a D '*idem quod Rhi*'.

- 31 **dau faes** Ni wyddys at ba frwydrau y cyfeirir yma.

- 32 Dyfynnir y ll. hon yn TW d.g. *deiectus* a'i phriodoli i Ddafydd Benfras, ond nis ceir yn hynny o waith Dafydd Benfras a gadwyd. Yr ystyr yw na ostyngodd Harri ei waywffon yn y gad, hynny yw, ymladdodd yn ffynig.

- 33 **Cristoffis** Cristoffer Sant a oedd yn ddyn eithriadol fawr a chryf, gw. E. Roberts 'Englynion Cristophis' yn 'Note and Documents', TCHSDd xvi (1967), 149–51.

Maelawr Yr ardal yng ngogledd Powys. Ffiniai ochr ddwyreiniol cantref Dyffryn Clwyd â hi.

- 35 Dengys y ll. ddilynol mai Ynys Manaw a olygir wrth *Manaw*. (Ar y gwahanol diriogaethau a ddynodir gan yr enw, gw. CA 76.) *Â llew*

Prydain, cf. GIG 37 (VIII.55) *Llew Prydain, llaw Peredur* am Owain Glyndŵr, cyfeiriad, y mae'n debyg, at ran Owain yn rhyfeloedd yr Alban yn 1385, gw. *ib.* 224; ar y cymysgu mynych rhwng *Prydain* ('Ynys Prydain') a *Prydyn* ('Yr Alban'), gw. Arm P² 21–2. Y tebyg yw i Harri Salbri fod yn brwydro yn yr Alban. Bu ofn trwy gydol y 14g. y gallai'r Albanwyr ddefnyddio Cymru fel drws cefn i ymosod ar Loegr, ac yn 1381 dug yr Albanwyr gyrch ar Fiwmares, gw. R.R. Davies: CCC 437–8. Awgryma *sy'n llaw* fod Salbri wedi meddiannu Ynys Manaw, neu ran ohoni, am fod yr Albanwyr yn bwriadu ei defnyddio i ymosod ar Gymru. Yn y blynyddoedd cythryblus 1315–17 tybiai llawer y byddent yn ymosod o du Iwerddon, gw. *ib.* 437.

37–8 Yr oedd cestyll pwysig yn Rhuddlan, Dinbych ('Caledfryn'), Rhuthun a Degannwy (os dyna a olygir wrth *Rhos*) ac anodd peidio gweld yn y llau. hyn adlewyrchiad o'r camau a gymerodd Lloegr i atgyfnerthu ei chestyll yng Nghymru yn sgil adnewyddu ei rhyfel â Ffrainc yn 1369 a gweithgareddau Owain Lawgoch, gw. R.R. Davies: CCC 437–8. Dichon fod Salbri'n gyfrifol am warchod y cestyll, neu'r trefi, hyn.

pobl anos Ai Cymry lleol am eu bod wedi mynd yn 'anos' eu trin?

Caledfryn Sef Caledfryn-yn-Rhos, yr hen enw ar Ddinbych.

Rhos Enw un o bedwar cantref y Berfeddwlad, a gynhwysai hefyd Rufoniog, Dyffryn Clwyd a Thegeingl; ond yn wyneb yr enwau trefi eraill a chanddynt gastell, y tebyg yw mai cyfeiriad ydyw at gastell Degannwy-yn-Rhos.

39–42 Ar y symudiadau, cf. GSRh 13.31–3 *O Drehwfa, hwylyfa hir, / Drwy foliant i Drefeilir; / O Drefeilir, wir warant, I Drehwfa, cyrchfa cant* (Llywarch Bentwrch). Yn y ddau, cychwynnir a diweddir yn yr un lle. Cf. hefyd GIG 24 (V.75–88).

39 Y mae'r ll. yn rhy hir o sillaf oni chywesgir *tŷ i'r* yn unsill.

eglwys Y tebyg yw mai eglwys breifat a olygir; cf. disgrifiad Rhys Goch Eryri o hawddgareddau llys Gwilym ap Gruffudd o'r Penrhyn a gynhwysai gapel preifat yn IGE² 311 (llau. 17–22).

40 **dwydref** Ystyr *tref* gynt oedd 'cartref' neu'r tiroedd a berthynai i deulu, gw. I. Williams: ELI 57. Awgryma *tangnef teg sy'n dilyn dwydref* mai'r cyntaf, efallai, a olygir a'i fod yn gyfystyr yma â *tŷ* y ll. flaenorol, megis y mae *llys* hefyd yn ll. 42 i bob golwg. Os felly, ymddengys fod gan Harri Salbri naill ai ddau gartref (*dwydref*) ychwanegol at yr un cyntaf (*tŷ*), neu fod y gair *dwydref* yn cynnwys yr un cyntaf ac un arall, cf. GLGC 450 (206.43–4) *Mae yt briflys, mae yt ddwyls dda, / Gruffydd, i dan Gaer Offa* lle y golygir dau adeilad, y mae'n debyg, nid tri (gw. y sylwadau rhagarweiniol uchod i gerdd 1 ynglŷn â llysoedd Bachelltref a Brontyn).

- 41 **cynefin** Sef llys Harri Salbri. Cf. R.I. Daniel, 'Cywydd Moliant a Brud i Ddafydd Llwyd ap Dafydd ab Einion o'r Drenewydd', *Dwned*, iii (1997), 55 (llau. 7–8), *Fy nghartref, fy nghynefin, / Fu dy gwrt i yfed gwin*.
- 42 **llys Salbri** Sef *cynefin* y ll. flaenorol.
- 43 Cyflenwyd yw er mwyn cael saith sill yn y ll.

3

Un o bedwar cywydd serch a gadwyd o waith Sypyn Cyfeiliog yw'r gerdd nwyfus hon.¹ Megis yn y rhai eraill, nid enwir y ferch ac amhosibl yw gwybod ai'r un ferch yw eu gwrthrych ai peidio. Awgryma'r gair *gwinfaeth* (ll. 45) mai un o deulu bonheddig a gyferchir, ond yn wyneb cefndir Sypyn Cyfeiliog, prin fod hynny'n syndod. Y mae hi wedi mynd â chalon y bardd ond nid yw'n hidio dim am ei ymdrechion i'w denu. Efallai y gellir casglu oddi wrth *gwas* (ll. 23) fod y bardd yn ddyn ifanc ar y pryd, ac ni fyddai hynny'n syndod (ond cf. ll. 25n).

Dywed Dr Huw Meirion Edwards am y gerdd hon a cherdd 4 isod:

[They] ... may be read as parodies of the excesses and the intrinsic artificiality of the courtly love ideal, which, once devoid of its original social and cultural context, was always open to ridicule. These poems are an assembly of hackneyed formulae ...²

Ac fel enghreifftiau o'r ystrydebau hyn rhydd [g]elynes *gwanfardd* (isod ll. 45), anallu'r bardd i gysgu na chwerthin (4.23–4), ei fod yn mynd i'r bedd *Heb friw gan arf* (4.27), ei honiad fod cariad y ferch wedi gwanu ei ochr *fal dagerau* (isod ll. 11), a'r ormodiaith yn y geiriau *Lliw ei grudd oll, fo'i graddiwyd, / Wnâi i lwys fardd lysu'i fwyd* (4.7–8). Teimlir, er hynny, yn y ddwy gerdd, fod y bardd yn wir hoff o'r ferch a cheir rhai disgrifiadau prydfarth ohoni, megis yn llau. 9–10 a llinellau agoriadol cerdd 4.

- 4 **gradd llugyrn** Disgrifiad o'r ferch brydfarth y mae ei harddwch o'r un radd neu safon â *llugyrn*. O ran ffurf, gall *llugyrn* fod yn un. neu l., gw. GPC 2222, ond fe'i deellir yma'n un., cf. *llugorn* BCEG. Ar y defnydd ffigurol o'r gair, gw. GPC *l.c.* a cf. GLIG 12.69–72 *A genais, lugorn Gwynedd, / O eiriau gwawd, eiry ei gwedd, / Llef drioch, llaw fodrwyaur, / Lleucu, moliant fu it, f'aur*.
- 5 **cyngan owdl** Hynny yw, y mae'r gerdd yn gyfaddas i'r ferch, neu y mae'r ferch, hyd yn oed, yn gyfaddas i'r gerdd.
- edlaes** 'Yn gwyro i lawr neu'n ymollwng, yn hongian, yn llusgo, llaes,

¹ Fe'i golygwyd gan I. Williams yn IGE² 213–14 gan ddefnyddio llsg. D uchod yn sail (gw. IGE 208).

² H. Meirion Edwards, *Dafydd ap Gwilym: Influence and Analogues* (Oxford, 1996), 211.

llipa, llac; trist, lleddf, GPC 1165; gw. hefyd GDG³ 490–1 lle y cynigir yr ystyr ‘with drooping eyelids’ ar gyfer *ib.* 155 (58.1–2) *Yr edlaesferch wawr dlofain / Wrm ael, a wisg aur a main.* Posibilrwydd arall yw mai ‘llaes ei gwallt’ a olygir, cf. DN 89 (XXXII.3) *Y gangen lwyswen layswallt.* Sylwer mai *adlaes* yw’r darlleniad a roddir yn IGE² 215 (ll. 5) ar gyfer y ll. hon, ond *odlaes* yw darlleniad llsg. D y codwyd y testun hwnnw ohoni.

6 **cofl aur modd** Brawddeg enwol.

7 **distrych** Yn ffigurol am y ferch, fel isod ll. 14.

8 **hoen ddŵr creigddwr** Cf. y disgrifiadau o ferch yn GIG 101 (XXIV.12) *Llewych dŵr crych ar dor craig*, ac *ib.* ll. 6 *Ceginwrych geirwddwfr crych croyw.* Meddwl yr ydys yn bennaf am wynder berw neu ewyn y dŵr, cf. y nodyn blaenorol.

9 **haul dwyrain** Dull traddodiadol i ddisgrifio prydfferthwch merch, gw. y nodyn yn *Dafydd ap Gwilym: A Selection of Poems*, ed. Rachel Bromwich (third impression with revisions, Llandysul, 1993), 159 ar 40.9–17.

11 Ar thema ‘arfau serch’, gw. y sylwadau rhagarweiniol uchod a H.M. Edwards, *Dafydd ap Gwilym: Influences and Analogues* (Oxford, 1996), 97–9, a cf. hefyd ll. 20, 4.27, 5.14.

11–12 Yn llsg. D yn unig y ceir y llau. hyn, ond gwell yw *dy gariad* fel goddrych *aeth yn llwyr* (ll. 9) nag y byddai *eneth falch* (ll. 10) pe hepgorid y cwpled. Diwygiwyd *ochrau (cywiriad: ochre) fau* y llsg. yn yr *ochr fau* megis yn IGE² 215 (ll. 10). (Cf. hefyd llau. 47–8n.)

13 **propr** Benthyciad o’r H.Ffr. *propre*, o bosibl drwy’r S.C., gw. GPC 2909 d.g. *propor*.

14 Cf. uchod ll. 8n.

distrych Gw. ll. 7n.

16 **llas** Ar thema marwolaeth agos y carwr oherwydd ei wrthod gan ei gariad, gw. H.M. Edwards, *op.cit.* 94 a cf. ll. 19, 4.17, 5.12, 18, 24, 30, 44, 60.

20 **arfau degach** Ar dreiglo a cymharol ar ôl e. ll. mewn brawddeg neg., gw. Treigladau 66–7.

25 **gwas** Gw. y sylwadau rhagarweiniol uchod; cf. hefyd, fodd bynnag, lau. 27–8. Efallai mai’r ergyd yw na fyn y ferch ddyn o radd isel (*gwas*) nac uchel (*unben*).

28 **gofrwysg** Hynny yw, yn feddw o gariad at y ferch.

29 **dwyn testun** ‘Dioddef gwawd’. Ar yr ystyr hon i *testun*, gw. IGE² 375, GDG³ 476.

30 **yn ing** ‘O agos, yn ymyl’, gw. IGE² 425.

- 31 **meddiant** Hynny yw, ni all y bardd feddiannu'r ferch.
- 32 **perhôn** Yn llawn, *pei rhôn* 'hyd yn oed pe bai', S. 'supposing that, (even) if', gw. GWM 243 a GPC 2784–5.
- 35–6 ... **pendefig poen** / ... **gwen ei goroen** Cf. GDG³ 140 (52.9–10) *Na thrig ym, pendefig poen, / Dy gariad, deg ei goroen*. Ystyr *pendefig poen* yw *pendefig sy'n dioddef poen oherwydd y ferch a saif mewn gwrthgyferbyniad â gwen ei goroen* yn y ll. nesaf.
- 44 Y mae'r ll. yn rhy fyr o sillaf fel y saif, oni chyfrifir *dwfr* neu *gogr* yn ddeusill. Byddai darlleniad llawysgrifau BEG, y *dwfr*, yn rhoi sillaf ychwanegol, ond ni cheid cynghanedd ag o *Ddyfi*. Gellid darllen *deifi* gan ddilyn llsgrau. ABCEG, ond nid yw'n debygol mai Afon Teifi a olygir gan fod y bardd wedi rhoi ar ddeall, gyda'r geiriau *i'n ael ni* yn y ll. flaenorol, mai yn ei fro ef, sef Cyfeiliog, yr oedd yr afon, a llif Afon Dyfi drwyddi tra cwyd Afon Teifi yng Ngheredigion.
- 45 **gelynes** Ar thema'r gariadferch fel 'gelyn' y cariadfab, gw. y sylwadau rhagarweiniol uchod a H.M. Edwards, *op.cit.* 95; cf. hefyd 4.14, 5.7.
- 46 **gwialen** Cf. y defnydd o *cangen* am ferch ifanc, uchod ll. 5n.
- 47–8 Yn llsgr. D yn unig y ceir y llau. hyn, ond o ddiwygio ychydig ar l. 48, ymddengys y cwpled yn ddiweddglo priodol i'r gerdd (cf. hefyd llau. 11–12n). Sylwer hefyd ar y gyfatebiaeth rhwng ll. 47 *duon lygaid* a ll. 33 *llygaid llus*.
- 48 **dâl iesin ffriw** Darlleniad y llawysgrif yw *Dal Iesun ffriw* a ddehonglir *Dal Iesu'n ffriw* yn IGE² 216 (ll. 18); ond anodd gweld beth yw ystyr hynny, a cheir ystyr gwbl foddhaol trwy ddiwygio'n *iesin* a deall '[merch a chanddi] wyneb [â] thalcen hardd'. Dichon fod yma hefyd chwarae ar *tâl iesin* ac enw'r bardd Taliesin; hynny yw, meddylia'r bardd amdano'i hun fel Taliesin ac wyneb y ferch fel gwrthrych ei edmygedd. (Am gyfeiriadau at Daliesin fel bardd serch, cf. GDG³ 313 (118.21–4), GIG 153 (XXXIV.3–4), 157 (XXXV.1–4).)
- delw San Ffraid** Ar Sain Ffraid, gw. LBS i, 264–88, Elissa R. Henken, *Traditions of the Welsh Saints* (Cambridge, 1987), 161–7. Dichon hefyd fod yma ensyniad fod y ferch, gan nad yw'n ymddiddori yn y bardd, yn dymuno byw'n ddiwair. (Cf. hefyd y sylwadau rhagarweiniol uchod ynglŷn â cherdd Iolo Goch i ferch.)

4

Ar y gerdd hon,¹ gw. hefyd y sylwadau rhagarweiniol i'r gerdd flaenorol. Tebyg ydyw i honno o ran cywair a thebyg yw'r disgrifiad o'r ferch. Yma,

¹ Fe'i golygydd gan I. Williams yn IGE² 215–16 ar sail testun llsgrau. DE uchod (gw. IGE 207).

fodd bynnag, y mae'r bardd yn cynnal carwriaeth ddirgel â hi (*cariad lladrad*, ll. 28), yn nannedd gwrthwynebiad ei cheraint, fe ymddengys (gw. llau. 33–6n), a chenfigen eraill. Y mae'r bardd, er hynny, yr un mor rhwystredig ag yn y gerdd flaenorol.

3 **tâl** Enghraifft o gydgymeriad, oherwydd nid y pen neu'r talcen yn llythrennol sy'n cynnal y wisg.

4 **mold** Benthyciad o'r H.Ffr. neu o'r S.C. *molde*, GPC 2480; cf. isod 11.6.

difrisg Gellid darllen *tewfrisg* BE hefyd (a *molt* i gael gwell cytseinnedd) a'r ystyr fyddai bod lliw croen pen y ferch fel eiddo haen drwchus o eira ar lwybr, ond ni rydd hynny gystal synnwyr â *difrisg*. Cf. GDG³ 93 (33.17–18) *Na fydd salw, ferch syndalwisg, / Ar dy fryd, hoen eiry di-frisg, ib.* 46 (16.70) *Gwedd eiry frisg wisg wellt, gwawr Fuellt fad.*

7 **oll fo'i** Dyma ddarlleniad llsg. E, cf. llsg. B *oll fai*, sy'n rhagori llawer ar llsg. E *yn lle i*. Ar y gyfatebiaeth rhwng w yn *lliw a f yn fo*, gw. J. Morris-Jones: CD 200.

graddiwyd Hynny yw, perthynai urddas i liw ei grudd.

7–8 Gw. sylwadau rhagarweiniol cerdd 3.

10 **pint** Amrywiad ar *peint*, benthyciad o'r S.C. *pynt(e)* neu o bosibl yn uniongyrchol o H.Ffr., gw. GPC 2717.

11–12 Ni cheir y llau. hyn yn llsgrau. BE ond y mae pob rheswm dros eu hystyried yn waith y bardd.

11 Nid atalnodyn diwedd y ll. hon yn IGE² 213, fel pe bai *llun gwiwlwyr* yn rhagflaenydd cymal perthynol yn dechrau gyda *nid*, ond ceir torcystawen debyg yn y cwpled blaenorol.

12 Hynny yw, yr oedd y ferch yn wyn iawn ei chroen.

14 **gelynes** Gw. 3.45n.

15 Sylwer bod y ll. hon yn rhy hir o sill, ond gellid yn hawdd gywasgu a *gaid*.

16 **diwyno** Amrywiad ar *difwyno*, gw. GPC 987.

17 **lladd** Ar y thema hon, gw. 3.16n.

gradd groywserch 'Cyflwr o serch pur'. Deellir *croywserch* yn a.

18 **maddau i** Gw. GPC 2303.

19 **gwyliwn** Ymddengys mai 'gwylio rhag' yw'r ystyr yma. Yn GPC 1763, 2(b), nodir 1696 fel yr enghraifft gynharaf o *gwylio* a be. yn y gystrawen hon.

yn ein golau Cf. yr ymadrodd *ying ngolau* 'yn agored, yn gyhoeddus', D d.g. *luce a palam*, gw. GPC 1446. Yr oedd y ddau yn cuddio'u serch

- rhag eraill am ei fod yn anghymeradwy gan Dduw (ll. 20). Cf. isod ll. 28 *cariad lledrad fellŷn*.
- 20 Gellir tybio bod Duw'n ddig wrth y ferch am iddi wrthod y bardd, ac yn ddig wrth y bardd am iddo roi ei fryd yn llwyr ar y ferch. (Nid yw'n debygol mai pang o gydwybod euog sydd yma, gan y byddai syniad o'r fath yn ddieithr i ysbryd ac idiom y math hwn ar ganu.)
- 23–4 **heb gysgu ... / ... heb chwerthin** Ar thema anhunedd yng nghydestun serch yng ngwaith y beirdd, gw. sylwadau rhagarweiniol cerdd 3 a H.M. Edwards, *Dafydd ap Gwilym: Influences and Analogues* (Oxford, 1996), 87–8, a cf. 5.9.
- 24 Cf. IGE² 137 (llau. 5–6) *Rhôi hithau, Gwen ruddiau gwin, / Ebwch wrthyf heb chwerthin* (Gruffudd Llwyd).
- 26 **ysmonaith** Ffurf ar *hwsmonaeth*, gw. IGE² 374, GPC 1934. Ar ei arwyddocâd yma, gw. D.J. Bowen, 'Beirdd a Noddwyr y Bymthegfed Ganrif', LICy xviii (1994), 81, 'Y mae'n naturiol ein bod yn meddwl yn bennaf am yr uchelwyr fel gwŷr a oedd yn drigiannol ar eu hystadau ac yn byw bywyd gwledig wrth iddynt ddilyn eu galwedigaeth fel amaethwyr'. Cf. hefyd 5.55 *er da'n maes*.
- chwant** Chwant bwyd.
- 27 Gw. 3.11n.
- heb friw** Cydier wrth *ond cariad* yn y ll. ddilynol. Ar y thema, gw. 3.11n.
- tarf derfyn** 'Marwolaeth frawychus', gan gyfeirio at effaith yr *arf* y cyffelybir y *cariad lladrad* iddi. Ar *tarf* 'gwasgar, dychryn', gw. CA 218, 223, IGE² 423, I. Williams yn 'Nodiadau Cymysg', B xi (1941–4), 78–9.
- 29–30 Ni cheir y llau. hyn yn llsgrau. BE ac nis cynhwyswyd yn IGE² 214.
- 30 **dwedyd** Sillgollir *ddywedyd* llsgr. D er mwyn hyd y ll.
- 32 **di-uthr** Llsgr. D *dieithr*, ond gwell o ran synnwyr yw *di uthr* llawysgrif B ac, yn ôl pob tebyg, E. Gellir deall elfen gyntaf *di-uthr* fel rhagddodiad negyddol, megis y gwneir yn GPC 1053, a'r ystyr felly fyddai 'heb fod yn syndod mawr'.
- doai** Dilynir IGE² 214 (ll. 2) yn dodi ffurf lawn 2 un.amhff.myn. *dyfod* (gw. G 413) am *doe* y llsgrau. er mwyn cael saith sill i'r ll.
- 33–6 Ymddengys fod tylwyth y ferch yn elyniaethus at ei charwriaeth â'r bardd.
- 36 **o'i chael** Y tebyg yw mai 'i'w nôl' a olygir. Ar *o'i* yn amrywiad ar *i'w*, gw. GMW 53.
- 37 **gwŷr ifainc** Dichon mai cyfeirio at y llanciau eraill a oedd yn chwenychu'r ferch a wneir yn hytrach na'r *chwech* a grybwyllir yn y ll. flaenorol.

rhyfyg Mewn ystyr ddrwg, megis heddiw, gthg. uchod 1.52.

- 42 **rhoi yn ... ran o'i** Gwell yw darlenniadau llsgrau. BE yma na *yno roi'n* = *Rh... rannv* llsgr. D. Ystyr y ll. yw fod y merched yn genfigennus am fod y bardd wedi canu ei holl fawl i'w gariad heb roi dim ohono iddynt hwy.
- 44 **nid yw addas** Hynny yw, ni fyddai'n addas canu felly i neb heblaw hi.

5

Ar y gerdd hon, gw. hefyd y sylwadau rhagarweiniol i gerdd 3. Yma cyrraedd y bardd ddyfnderoedd newydd o siomiant a rhwystredigaeth sy'n ei yrru i chwenychu angau. Mwy melodramatig a goddrychol (ac anos o'r herwydd ei chymryd o ddifrif) yw'r gerdd hon na'r ddwy flaenorol, heb gymaint o'r disgrifio prydferth ar y ferch a geir ynddynt, a thebycach ydyw yn hyn o beth i'r gerdd nesaf. Ymddengys oddi wrth linell 52 fod y ferch yn briod. Yn llinellau 23–8 cyflwynir un arall o themâu'r canu serch, sef y bardd yn nychu neu deneuo gan draserch (gw. llau. 25–6n).

- 1 Cf. O. Gruffydd: Gw 75 *Gwae hiloedd pob gwehelyth*.
- 3 **'i eni** Ni cheir y rh. yn yr un o'r llsgrau. ond y mae angen ei gyflenwi.
- 6 **adwen** Rhaid deall rhyw ragenw sy'n cyfeirio at y ferch yn wrthrych y f.
- 7 **gelyn** Gw. 3.45n.
- 9 Ar y thema, gw. 4.23–4n.
- 10 **awr bwyll** 'Awr o iawn bwyll'. Ymddengys mai gwahanol yw ystyr *pwyll* yn isod ll. 12.
- 11 **codes** Deallir y ferch yn oddrych y f.
- 12 **ar** 'Yn perthyn i'. Cydier wrth *golygon* yn y ll. flaenorol.
pwyll 'Natur', ystyr wahanol i'r ystyr yn uchod ll. 10. Cyfeirir at y ferch.
a'm gyr i'r bedd Ar y thema, gw. 3.16n a cf. llau. 18, 24, 30, 44, 60.
- 14 Ar y thema, gw. 3.11n
- 15 **chwai** Llsgrau. *chwi*, ond anfoddhaol yw'r ystyr, ac fe'i diwygir. Y syniad, felly, yw fod yr ael yn symud ac yn cyfleu neges (serch)—ond twyll yw'r cyfan (cf. ll. 54).
- 16 Gair cyntaf y ll. yn y llsgrau. yw *yw*, ond y mae'n taro'n chwithig a gellir ei hepgor yn ddidramgwydd os cedwir y o flaen *drwg*, megis yn llsgrau. BCD, i gael y nifer cywir o sillafau.
bwa Hynny yw, y bwa sy'n rhyddhau *saethau serch* ll. 14.
- 19–21 **A wnêl drugardd ... / ... / Mae** Ceir torcystrawen yma gan mai *i'r*

sawl a wnêl drugardd yr addewir y byd a ddaw, ond eglur yw'r ystyr er hynny.

21 Ni cheir cynghanedd yn y ll. hon.

25–6 Ymddengys mai ystyr y cwpled hwn yw fod y bardd wedi edrych ar ran feinaf ei gorff (*lle rwyf drachul*), sef ei ganol, a sylweddoli ei fod yn feinach neu deneuach na'r arfer (*a'm gad yn gul*). Ar *cul* yn yr ystyr 'tenau' ynglŷn â charu, gw. GPC 629 a cf. 6.29–30 isod, *Tra chul wyf fal trychiolaeth / Ers mis, nid er eisiau maeth*. Ar y ffigur tarddiadol *edrychais ... edrychiad*, cf. *archaf arch, traethu traethawd, &c.* Ond dichon hefyd fod *edrychiad* mewn cyfosodiad; os felly dodder coma ar ôl *drachul*.

27–8 'Edrych (hynny yw, 'golygfa') dymunol [a geir a minnau] yn y cyflwr hwn: [sef] golwg milgi [o eiddo] Maelgwn.' Y mae'r olygfa'n *hawdd* oherwydd y graen ar gŵn Maelgwn, ond eironig yw'r cyfeiriad gan eu bod hefyd, fel y bardd, yn fain am y canol. Posibilrwydd arall, ond nid llai tebygol efallai, fyddai deall y cwpled yn frawddeg enwol (a dileu'r colon ar ddiwedd ll. 17): '[Achlysur] edrych hyfryd (sef golygfa hyfryd) [a minnau] yn y cyflwr hwn fyddai golwg milgi [o eiddo] Maelgwn': y mae'r bardd yn deneuach hyd yn oed nag un o filgwn Maelgwn Gwynedd.

28 **edrychiad** Gwahanol ydyw i'w ystyr yn ll. 26 onis deallir i olygu 'golwg ar'.

milgiad Maelgwn Dyma ddarllenriad y rhan fwyaf o'r llsgrau. (*mylgad* a geir yn G a *milgaid* yn H) ond anodd cael synnwyr ohono yn y cyddestun o'i ddeall fel *milgi* a'r terfyniad *-iad* yn dynodi gweithred neu weithredydd. Cynigir, yn hytrach, mai cyfuniad sydd yma o *milgi* a *huad* (gyda *u* yn troi'n *i* drwy gymathiad) 'milgi hela' neu 'gi hela fel milgi'. Ar Faelgwn Gwynedd a'i filgwn, gw., e.e., GDL1 118 (52.45–6) neu'r rhan o gywydd gofyn Rhisiart Cynwal a ddyfynnir gan E.D. Jones, 'The Brogyntyn Welsh Manuscripts', Cylchg LIGC vi (1949–50), 9, 35, n56 *gwresog win gwŷr sy gennyh / milgwn fal Maelgwn filwr*.

29 **peth fawr** Gellid defnyddio *peth* yn yr ystyr 'person, creadur' i gyfleu anwylded neu ddirmyg, a phan gyfeiriai at ferch fe'i trinnid fel eb., gw. GPC 2789. Deallir *mawr* i olygu 'balch, bonheddig', gw. GPC 2379, (f).

bai Cydier wrth *a fu*, nid *fawr*.

30 **lludd goel** Deallir *coel* yn ffurf ar *cofl* 'mynwes', &c., gw. GPC 537. Y mae *lludd* yn adlewyrchu'r topos o brydferthwch merch yn atal cwsg i'r bardd.

31 Nid atebir *d* ar ddechrau'r ll. a cheir cynghanedd draws wreiddgoll.

33 **gweryddon** Cf. ll. 35 *santes*. Fe'u defnyddir yn ffigurol i gyfleu rhyw

syniad o berffeithrwydd.

- 36 **sinciaf** Benthyciad o'r S. *to sink*, gw. EEW 142. Cf. T.H. Parry-Williams, *Canu Rhydd Cynnar* (Caerdydd, 1932) 81 (25.37–8) *Tonn o anobaith a aeth droso' / Nid oes imi fôdd ond sincio* (Dafydd Llwyd, Sybylltir).
- 38 **somiant** Cf. llau. 52, 54. Ar thema 'twyll' mewn canu serch, gw. H.M. Edwards, *Dafydd Ap Gwilym: Influences and Analogues* (Oxford, 1996), 95.
- 39 **wrth gwyno** Achuba'r blaen ar *cur* yn y ll. nesaf. Cyfeirir at y bardd. Yn llsgrau. EF ceir *gwynof*, ffurf anhysbys ond cf. yr *f* yn *cwynofain*.
- 40 **o** Cydier wrth *cur*.
- go'** *gof* a geir yn llsgrau. EF, ymgais copiwr, efallai, i gael odl â *gwynof* yn y ll. flaenorol (gw. n.).
- 42 **ar ôl** Hynny yw, ar ôl siarad â'r ferch.
- 44 Bai crych a llyfn.
- 48 **eiry** Dyma ddarlleniad y llsgrau., ond efallai y dylid darllen *eira* er mwyn cael saith sillaf.
- 49 **down o ben** Cyfystyr ydyw â *down i ben*, gw. GPC 936. Hefyd isod ll. 59.
- i'w henwi** Achuba'r blaen ar *ei glaned hi* yn y ll. nesaf.
- 50 **glain nod** Yn ffigurol am y ferch, '*illustrious one, person of distinction*', GPC 1399.
- 53 **meidr** Ffurf 3 un.pres.myn y f. *medru*. Dichon yr yngenir hi'n ddeusill er mwyn hyd y ll. (cf. 3.40n).
- 55 **da'n y maes** Cf. 4.26n. Cywasgiad yw *da'n o da yn y*.
- 56 **hyd Geri** Cwmwd ym Mhowys (yn sir Drefaldwyn heddiw) ar y ffin â Lloegr, gw. J.E. Lloyd: HW³ 253, G 136. Cf. GDG³ 233 (85.22–3) *Prydu a chanu ei cherdd / I'r glêr hyd eithaf Ceri*. Fel y dywed R. Bromwich, *Tradition and Innovation in the Poetry of Dafydd ap Gwilym* (Cardiff, 1972), 19, ymddengys mai ffordd o ddweud 'cyn belled â Chlawdd Offa' yw hyn.

6

Yn gyffredinol ar y gerdd hon,¹ gw. hefyd y sylwadau rhagarweiniol i gerdd 3, ac ar ei hawduraeth, gw. uchod td. 9. Tebycach ydyw i'r gerdd flaenorol yn ei direidi a'i heironi a cheir ynddi hefyd, megis yno, thema'r bardd yn newynu o gariad (llau. 29–30, 39–40).

¹ Fe'i golygwyd gan I. Williams yn IGE² 193–4 ar sail testun llsgr. C (gw. IGE 194).

- 5 **ond** Llsgrau. AC *y*, cf. IGE² 193, ond bernir bod darlleniad llsgr. B yn well.
- 7 **mae y** Llsgr. C *y mae*, cf. IGE² 193, ond dilynwyd darlleniad llsgr. B yma drachefn.
- 8 **gwenwyno** Ar *y* thema, gw. 3.16n a cf. llau. 13, 16.
- 19 **Gei o Warwick** ... *Sir Guy of Warwick*, 'arwr cerdd hir yn Saesneg. Ei gariad oedd Felice; ar ôl gwrhydri gorchestol, priododd hi; ond gadawodd hi ymhen deugain niwrnod, a dychwelyd i'r Dwyrain am ysbaid. Yna'n ôl i Loegr; chwaneg o orchestion, ac o'r diwedd byw'n hir fel meudwy mewn ogof ger Warwick, heb ymhysbysu'r i'w wraig, nes ei fod ar ei wely angau', IGE² 371. Gw. hefyd GO 64–5 a GTP 134, n4.
- 29–30 Ar *y* thema hon, gw. 5.25–6n a cf. llau. 39–40.
- 41 Nid oes cynghanedd yn y ll. hon.
- 42 **ys** Geiryn a ddefnyddir yn fynych o flaen ffurf pres.dib. bf. i fynegi dymuniad, gw. GMW 173.

7

Canwyd yr englyn moesegol hwn ar fesur englyn unodl union. Gwahanol iawn yw ei gynnwys i eiddo cerddi eraill Sypyn Cyfeiliog ond ni farnwyd bod hyn yn ddigon o reswm dros ei wrthod. Cf. Atodiad ii.

- 1 **pur** Ar beidio â threiglo'r dibeniad ar ôl y f. *bo*, gw. Treigladau 320.
- 4 **prudd** Ar ei odli â *beunydd*, gw. J. Morris-Jones: CD 245–6.

Atodiad i

Ar awduriaeth y gerdd ysgafn, hunanddychanol a doniol hon, gweler uchod td. 9. Ymddiddan ydyw rhwng y bardd a merch fonheddig o'r enw Efa a fuasai gynt yn ei adnabod. Nid yw hi'n sylweddoli pwy ydyw i ddechrau a chred mai chwant am ei heiddo yw ei reswm dros ei chyfarch. Nid da gan y bardd ei chyhuddiad a phan etyb trwy ddisgrifio iddi orchwylion ei fywyd llwm a chaled, newidia hithau ei hagwedd a gofyn iddo—yn groes braidd i'r drefn arferol lle y gofyn y mab i'r ferch—ddewis rhwng hynny a dod i'r coed i garu gyda hi. Diddorol yw'r cyfeiriadau at y gorchwylion fferm.

- 5 **grym ryfydr** Gall *grym* fod yn a. yn golygu 'grymus' neu'n e. yn dibynnu ar *rhyfydr* (a ddeellir yn gyfuniad o *rhy* a *mydr*). Cyfeirio at ei feistrolaeth fawr ar gerdd dafod y mae'r bardd.
- 7–8 Cynrychiola'r llau. hyn ateb y bardd i'r ferch. Dywed mai gordderchu,

nid mydryddu, yw ei ddiddordeb ac nad oes arno angen merch i ganu ei chlod.

7 **mau urddau ordderch** ‘Fy nghariad urddasol’. Ar *urdd* yn yr ystyr ‘urddas’, gw. GCBM ii, 438.

13–16 Yn y llau. hyn, mynega’r ferch gymhellion y bardd yn ei thyb hi.

13 Nid oes bf. a rhaid deall rhywbeth fel ‘yw dy fwriad’.

15 **arfod** Cynigir y diwygiad hwn yn betrus am *ardfod* llsgr. A a *ry dfod* B a’r ystyr ‘amser cyfaddas, cyfle ...’, gw. GPC 194 d.g. *arfod*².

16 Hynny yw, dietifeddu’r ferch.

grynial Ni nodir y ffurf hon yn GPC ond y tebyg yw mai amrywiad ydyw ar y f. *grynio*, *grynnu* ‘gwthio, gyrru, bwrw neu yrru allan ...’, gw. GPC 1541 d.g. *grynial*^f, ac yn sicr, dyna’r ystyr a ofynnir gan y cyd-destun. Ar ychwanegu’r terfyniad S. *-al*, amrywiad ar *-an*, at ferfau (e.e., *cyfnewidio* / *cyfnewidial*, *mwmio* / *mwmial*, &.), gw. WG 392.

16 **dilyd** Hynny yw, dilyn *ffordd o fyw* y bugail.

21 **cunogau** Llsgrau. *brinogau*, sy’n ffurf anhysbys. Os *bryn ogau* a olygir, rhaid cyfaddef nad â bryniau, fel rheol, y byddir yn cysylltu’r og, ac os yw’r dehongliad o *deuoed* (gw. isod) yn gywir, amhriodol fyddai *bryn ogau*. Ymddengys ll. *cunog*, sef ‘llestr pren at odro, ystên, ystwc, bwced’, GPC 630, yn addas yn y cyd-destun, a hawdd y gellid bod wedi cymysgu *ku* a *br* yn y llsgrau.

deuoed Os cywir darllen *cunogau*, gellir deall hyn yn gyfeiriad at y ddau achlysur yn y dydd pryd y byddir yn godro gwartheg.

22 Y mae’n ll. yn rhy hir o sill.

23 **tynnu to** Dichon mai ‘tywarchen’ yw ystyr *to* gan fod tywarchen megis yn toi’r pridd. *bo* a geir yn llsgr. B. Ystyr *tynnu* felly fyddai ‘codi’.

teilo Cynigir y diwygiad hwn am *teclo* llsgr. A.

24 **blocyn chwerw** Dilynyr darlleniad llsgr. A yma gan fod eiddo B yn ddiffygiol, eithr gan ddiwygio *blodyn*, yn betrus, i *blocyn*. Nid yw’n eglur at beth y byddai *blodyn chwerw* yn cyfeirio (?chwyn) ond o ddarllen *blocyn*, gellir ei ddeall yn sangiad yn cyfeirio at *teilo talar* yn y ll. flaenorol ac yn golygu tom buwch a’i haroglau. Ar ystyron *bloc* / *blocyn*, gw. GPC 287.

27 **gwell** Fe’i rhagflaenir yn y llsgrau. gan *ferch* a diau mai yng nghwr y ddalen yr ydoedd yn wreiddiol er dynodi mai’r ferch sy’n siarad.

hel rhoddion Hynny yw, dilyn ei grefft fel bardd. Efallai hefyd fod y ferch yn ensynio y dylai ei chynnal felly.

28 **Môn** Naturiol credu ar bwys hyn mai un o Fôn oedd y bardd, er y dichon hefyd mai perthnasau eraill a oedd ganddo yno. Gw. hefyd

uchod td. 9.

- 31 **perchennog deuoen** Enghraifft o *meiosis*; ond ystyrier hefyd ddarlleniad llsgr. B *düoen* a allai fod yn wall am *di(h)oen*, sef ‘di-raen’.
- 32 **bwth** Llsgrau. *bwch*, ond hawdd fyddai camgymryd *t* am *c*, a gwell yn y cyd-destun yw *bwth* yn adleisio ll. 29.
- 33 Cywasger *da y i* gael y nifer iawn o sillafau.
- 36 **coed** Sef y *dail celli* (ll. 3) lle y buasai’r bardd yn union cyn iddo gwrdd â’r ferch.
- 37 **naws Mai’n dda** Llsgr. A *os mau’n dda*, B *os maiü dda* ond yng nghwr y ddalen yn B ceir hefyd y darlleniad amrywiol *naws mai dda* y gellir yn hawdd ei ddiwygio’n *naws mai’n dda* er mwyn y gynghanedd (cf. hefyd A) gan roi darlleniad mwy boddhaol ac ystyrlon. Mis cariadon yn anad yr un mis arall, wrth gwrs, oedd mis Mai.

Atodiad ii

Ar Ruffudd Unbais, gweler uchod tt. 4–5. Yn llawysgrif B dilynir yr englyn unodl union hwn gan yr englyn a olygwyd yn Atodiad iii a phriodoli hwnnw i Ruffudd Unbais. Er bod cynnwys a nawys y ddau yn gwbl wahanol, eto cymerir mai Gruffudd Unbais yw awdur yr englyn hwn hefyd. Englyn moesegol ydyw a dylid ei gymharu â cherdd 8.

- 3 **uwch brig bron** Sef o geg y sawl a ddywed y gair.

Atodiad iii

Ar yr englyn hwn, gweler uchod td. 5.

- 1 Y mae’r ll. yn fyr o sill; efallai y dylid darllen *a* ar ôl *dilety*.
- 3 Cynghanedd draws (neu groes) wreiddgoll.
yno’r bu Cywasgiad o *yno yr bu* neu *yno rhy bu*, gyda *rhy/yr* yn eiryn rhagferfol cadarnhaol, gw. GMW 169.

Geirfa

- âb** At.i.10
adain 2.13
adeilad At.i.14
adlais llais 5.39
adnabod *1 un.pres.myn. adwen* 5.6n; *3 un.pres.myn. edwyn* 2.10, 5.51; *3 un.amhff.myn. adwaenai* At.i.4n
adwyth drwg, dinistr 5.34
addas 4.44n
addaw 5.21
ael ael, bro, cymdogaeth 3.43, 4.5, 5.15, 17
aflonydd At.i.25
ail fel, tebyg i 3.14, 4.11
alarch *ll. alarchod* 1.40n
amcanu bwriadu 1.10n
amen 2.4
amhwyllo gwallgofi 5.42
amwyll gwallgofrwydd 6.13
ancr crefyddwr wedi encilio mewn unigedd 6.18
annerch cyfarch 4.33
anodd *cmhr. anos* 2.37n
anrhaith trysor, anwylyd 6.5
anwesog anniddig, anfoddog 4.46
ar 1.7n, 9n, 5.12n
âr tir aredig At.i.24
arf *ll. arfau* 3.20n
arfod At.i.15n
arlost carn gwaywffon 2.32
ar ôl 5.42n
arwain dwyn, cario 6.41
asen *ll. asau* 5.14
aur ardderchog 2.13, 3.6n
awr 5.10n
bachu llechu, ymguddio At.i.29
bai 5.29n
balch urddasol 3.3, 10
bedd 5.12n
blocyn lwmpyn, pentwr At.i.24n
blysig llawn blys, gwancus 1.50
bod *2 un.pres.dib. bych* 1.53; *3 un.pres.dib. byddo* 2.3n
braint rhagorfraint, hawl 1.20
braseirch ceirch mawr 1.35
braswydd gwehelyth urddasol 1.3
brehyres arglwyddes 2.8
brëyr arglwydd, pennaeth 2.7
brenhinllwyth llwyth brenhinol *ll. breninllwythau* 1.21n
brig At.ii.3n
briw 4.27n
briwio cael dolur *1 un.grff.myn. briwiais* 6.11
bron At.ii.3n
brwysgeirch meirch bywiog 1.35
brys prysurdeb 1.3
bwa 5.16n
bwth llety, caban At.i.29, 32n
bwyd *ll. bwydau* 1.27
by pa 1.53
bych gw. **bod**
byd anwylyd At.i.33
byr swta, byrbwyll *ll. byrion* At.ii.4
byw bywiog 2.29
cadr hardd, gwych 1.1n, 2.1
cadw 1.7n
cael 4.36n; *amhrs.pres.myn. cair* 2.8, 3.26; *amhrs.amhff.myn. caid* 3.33, 4.15
caer *ll. ceirydd* 1.58n
cangen *yn ffig.* merch ifanc 3.5, 8

- car** yslêd At.i.22
câr cyfaill, cynghreiriad 2.14n; *ll.*
ceraint 1.19
casoer annymunol iawn At.i.13
ced rhodd, un haelionus 1.5
cegin 1.49n
cellwair ysmaldod, gwawd 5.37
enedl teulu, perthnasau At.i.28
cerddawr datgeiniad, cerddor
 1.45; *ll.* **cerddorion** 1.47
cethlydd canwr 3.13
cig 1.44n
cipiad cipiwr, ysglyfiwr *ll.*
cipiaid 1.37n
clærwen un ddisgleirwen 5.31
claws cymal mewn dogfen
 swyddogol 1.23n
codi 3 *un.grff.myn.* **codes** 5.11n
coel 5.30n
coelfeingadr hardd ei rodd 1.44n
coethloyw gwych a disglair 3.13
co' cof 5.40n
cofl mynwes 3.6n
colli 3 *un.pres.myn.* **cyll** 2.24
coron pencampwr 3.1
creigddwr dŵr sy'n byrlymu
 dros graig 3.8n
croyserch 4.17n
crych byrlymus, tonnog 3.8, 14
cul 5.26n, 6.29
cunog *ll.* **cunogau** At.i.21n
curio nychu 3 *un.amhff.myn.*
curiai 5.4; 3 *un.grff.myn.*
curiawdd 5.57
cwyno 5.39n
cyd er 3.2
cydfod cyfeillach At.i.1
cydwedd gweddus 5.11
cyfannedd cartrefol, dymunol,
 difyr 1.31
cyfarch gwell cyfarch At.i.3
cyfliw yr un lliw â 3.6
cyfraith 1.23n
cyfrwch cyfarfod, cyfathrach
 3.28
cyngan cyfaddas, priodol 3.5n
cyll gw. colli
cymryd 2 *un.grch.* **cymer** 1.55n
cynefin 2.41n
cynheswyn cynnes a disglair 5.47
cynnal 3 *un.pres.myn.* **cynnal** 4.3
cynneddf nodwedd, hynodrwydd
 1.51; *ll.* **cynneddfau** 4.13
cynnydd ffyniant 1.33
cytgerdd cytgan 1.39
cywair parod 5.53
cyweirdab darpariaeth *ll.*
cyweirdabau 1.27
cywirwas gwas ffyddlon 6.19
chwai buan, esgud 5.15n
chwant 4.26n
chwerw At.i.24n
da 5.55n
dala meddiannu At.i.14
dâr derwen 2.28
darllain 1.21
dau 2.31n
dawn rhodd, bendith 5.55
dedwydd 1.10n
dengyn dygn, penderfynol, un
 penderfynol 1.9n, At.i.8
delw llun, ffurf 3.47n
desgant cân 1.41
deuoed dau achlysur At.i.21n
deuoen dau oen At.i.31n
diachwynion heb gwynion
 At.ii.1
diafardig llawen, llon 1.42n
diagwedd-dig llawen, bodlon 1.32n
diangen heb angen At.i.8
didrwh llwyddiannus, dedwydd
 2.25
dien marwolaeth, diwedd 2.3
difrisg di-sathr 4.4n
digardd di-fai 3.20
digrif hyfryd, dymunol 2.43, 44

- dilesg** gweithgar At.i.17
dilwfr dewr, eofn 1.5
dilyn, dilyd dilyn, ymlid 1.6n, 2.5n, At.i.17n
diouer yn sicr, yn wir At.i.14
distrych ewynferw 3.7n, 14n
di-uthr 4.32n
diweddglwm diwedd, diweddglw At.i.13
diwyno difwyno, difetha 4.16n
doai gw. dyfod
doeth gw. dyfod
dolef canu 1.18n
draig gwron *ll. dreigiau* 2.21
dros am, oherwydd 1.10n, 6.22
drych wyneb, gwedd 5.27
du du, trist 3.2; *ll. duon* 3.47
duael du ei haeliau 4.35
dŵr 3.8n
dwyais bron, mynwes At.iii.4
dwydref 2.40n, 41
dwyn 3.29n
dwyrain 3.9n
dwys dyfal, angerddol 3.31, 4.9
dwystraidd yn gwanu'n llym 3.7
dyallus 3.34
dydd 1.9n
dyfalu cyffelybu, cymharu
amhrs.pres.myn. dyfelir 6.28
dyfod 1 *un.amhff.myn./dib.* down 5.49n, 59; 3 *un.amhff.myn./dib.* doai 4.32n; 3 *un.grff.myn.* doeth 5.34; 2 *un.pres.dib.* delych 1.56; 2 *un.grch. dyred* 1.55, At.i.35
dygyfor berw 2.36
dyn 1.9n
dwedyd 4.30n; 3 *un.pres.myn.* dywaid 2.4
ebolfarch ebol, ceffyl ieuanc *ll.* ebolfeirch 1.36
ebwch ochenaid 4.24
edlaes 3.5n
edmyg clodfawr 1.14
edrych 3 *un.grff.myn.* edrychodd 5.27n
edrychiad 5.26, 28n
edwyn gw. adnabod
eglur disglair *cmhr.* eglurach 5.31
eglwys 2.39n
Eingl y Saeson 2.10n
eiry 3.6, 5.48n
eirian disglair 5.54
elyrchedig 1.40n
enbydwaith gwaith arswydus 5.43
encyd ennyd, ysbaid 2.11
enw enwogrwydd 4.43
enwedig 1.54n
enwi 5.49n
esgeirwen a chanddi goesau gwynion 6.37
esgud parod At.i.38
eu 2.19n
fal gw. mal
fal dyma dyma At.ii.2
fellŷn fel hyn 4.28
fo fe 3.16, 4.7n
ffres glân, ir 5.47
ffriw wyneb 3.48n
gadael 3 *un.pres.myn.* gad 5.26n, At.i.38; 2 *un.grch.* gad 5.24
gafael gafael, rheolaeth 2.1 *ll.* gafaelion 1.37n
gelyn 5.7n; *b.* gelynes 3.45n, 4.14n
geni 5.3n
glain 5.50n
glas o ddur 2.30
gloywber disglair a pheraidd 4.9
gloywddu disglair a thywyll 5.18
gloywgalch disglair a channaidd 3.47
gloywles disglair ei lles 2.8
glwys hardd 1.14, 2.39, 4.8, 9
gofalglwyf clwyf pryder 4.45
gofeiliaint gofal, poen 6.41

- gofrwysg** meddw 3.28n
golau 4.19n
golwg golwg, gwedd, edrychiad
 5.7, 15, 45, 46; *ll. golygon* 5.11
gordderch At.i.7n
gorddyfnedig cynefin 1.26
goroen tegwch 3.36n
gosymdeithig â lluniaeth 1.48
gradd safon, natur, cyflwr, urdd
 3.4n, 4.17n; *ll. graddau* 5.33
graddio rhoi urddas i *amhrs.grff.*
myn. graddiwyd 4.7n
growndwal sylfaen 1.24n
grŵn sŵn griddfan 1.39
grym grymus At.i.5n
grynial At.i.16n
gwaedraeadr â gwaed yn llifo fel
 rhaeadr 1.44n
gwan dyn gwan 1.50
gwanas arglwydd 2.30
gwanfardd bardd egwan 3.45
gwas gwas, llanc ifanc 3.25n,
 At.i.16; *ll. gweision* 1.48n
gweithrededig gweithredol 1.24
gweled 2 *un.pres.dib. gwelych*
 1.55n
gwell At.i.3, 27n
gwen 3.36n
gwenferch merch ddisglair 4.21,
 At.i.34
gwenwyno heintio, difetha 6.8n
gwerydd morwyn, gwry *ll.*
gweryddon 5.33n
gwg alarchod S. 'trumpeting of
swans' 1.40
gwialen *yn ffig.* merch ifanc
 3.46n
gwineubleth â gwallt gwinau
 plethedig 3.10
gwinfaeth bonheddig 3.45
gwisg 2.19n
gwiw ardderchog, coeth 1.42
gwiwlwyr ardderchog iawn 4.11
gwlad ardal, bro *ll. gwledydd*
 1.60n
gwneuthur 3 *un.pres.dib. gwnêl*
 5.19n; 3 *un.amhff.myn./dib.*
gwnâi 4.8n; 3 *un.grch. gwnaed*
 1.9n
gŵr *ll. gwŷr* 4.37n
gŵyl gwylaidd, llednais 3.13
gwylan *yn ffig.* merch brydferth 3.46
gwyllo 1 *ll.grch. gwylwiwn* 4.19n
gwyrrlaes wedi ei ostwng 2.32
gwythen gwythïen 6.26
gyda 1.54n
gyrru 3 *un.pres.myn. gyr* 5.12n
hael hael, ucheldras, bonheddig
 2.2, 33, 42
hanes dirgelwch, cyfrinach 3.41
harddwaith hardd ei lun 5.23
haul 3.9n
heb heibio i, heb 1.12, 4.23n,
 24n, 27n
hebu dweud 3 *un.pres.myn. heb*
 At.i.9
hel At.i.27n
heniarll 2.14n
heol *ll. heolydd* 1.1n
hil 1.2, 20; *ll. hilion* 5.1
hoen lliw, disgleirdeb 3.8n
hoffi moli 1 *un.pres.myn. hoffaf*
 1.15n
huad bytheiad *ll. huaid* 1.38
husting sibrwd 3.30
hydd 1.59n, 2.15n
hyf hy 3.46
i ardd. yn i'm 2.9 i'th 1.57n
iachusawl llesol, buddiol 4.41
iarll 2.14n
iesin teg, hardd 3.48n
ifanc *ll. ifainc* 4.37n
ing 3.30n
i wrth 3 *ll. i wrthynt* 2.22n
lladrad dirgel 4.28
lladd 4.17n; *amhrs.grff.myn. llas*

- 3.16n, 19
llaes isel 1.16
lafn 1.44n
lafnwyar gwaedlyd ei lafn 2.30
llaw awdurdod 2.35
llawn cyflawn 2.16
llawr trigfan, ardal, tir 1.17
lle 2.15n
llef sain 1.25
lleferydd siarad, sôn 3.22
lleuad *ll.* **lleuadau** 2.18n
llew gwron 2.15n, 29, 35
llewenydd llawenydd 1.34, 46, 51
llewychu goleuo 1.20
llin llinach 1.21, 43n
llithrig 1.46n
lliwgalch gwyn, gwelw 3.4, 15
lloer *yn ffig.* merch brydferth 4.1, 5.48
ludd rhwystr, llestair 5.30n
llugyrn llusern 3.4n
lluosog poblog 1.33, 58
lluosydd nifer mawr o bobl 1.6n
llwyr cyflawn, llwyr 1.17n
llyn 1.19 diod
llys 1.15n, 30n, 2.42n; *ll.*
llysoedd 1.57n
llysu gwrthod 4.8
llyth un gwael, isel 1.8, 2.6
mab 1.1n; *ll.* **meibion** 1.4n
mabsant sant gwarcheidwol 2.28
maddau gollwng, ymadael â 4.18n
maen *ll.* **main** 2.36, 3.37
maes maes, maes brwydr 2.31n, 3.6, 5.55n
mal, fal, mel fel 1.16n, 3.9, 17, 4.1, 2, 4, 5.14
manawl prydfferth, cywrain 3.37
mangoed 3.24
mau At.i.7n
mawr 5.29n
medru 3 *un.pres.myn.* **meidr** 5.53n; 2 *un.pres.dib.* **metrych** 1.53
meddiant gallu 3.31n
meddu meddiannu 2.15
meddwaint meddwol 1.19
meidr gw. **medru**
meingorff 3.24
mel gw. **mal**
metrych gw. **medru**
methu dirywio At.i.11
milgiad 5.28n
modd ymddangosiad, modd 3.6n, 31
mold ffurf, llun 4.4n
monwes mynwes 4.14
muchudd S. ‘jet’ 3.18
mwyalch 4.6; **mwylachen** 5.45
mwynaid cwrtais, hyfryd 3.7
mwynlas tyner ac ifanc 3.16
mydwaledd iaith, huodledd 2.27n
mygr hardd, ysblennydd 2.27
Nadolig 1.18n
naf arglwydd 2.1
nef 1.17n
nes haws 3.41
ni 2.3n
nod 5.50n
nodi dynodi 2 *un.pres.dib*
nodych 1.54
nychu peri nychu, clafychu 1 *un.grff.myn.* **nychais** 6.39; 2 *un.grch.* **nycha** 5.23
o 4.36n, 42n, 5.49n
ôd eira 4.4
oerni tristwch 6.31
oes 1.59n
oll 4.7n
ond 6.5n
onnen 2.19n
owdl cerdd 3.1, 5n
pais tiwnig, côt At.iii.3
paladr gwaywffon 1.43
parabl ymadrodd 4.9

- parch** anrhydedd 1.31
pared gw. **peri**
pasgwh hwch basgedig At.i.19
pederyn glain o'r llaswyr 3.17
pen 5.49n; *ll.* **pennawr** 2.24
pendefig 3.35n
pennaf pennaeth 1.15
pennawr gw. **pen**
penydio goddef penyd 1
un.grff.myn. **penydiais** 5.6
perchennog At.i.31n
perhôn 3.32n
peri 3 *un.grch.* **pared** 2.23
peth 5.29n
pint llestr yn dal peint 4.10n
pobl 2.37n
poen 3.35n
porthi bwydo, cynnal 1.35,
 At.i.19
prid costus 6.2
priflys llys ardderchog 1.52
proffwyd *yn ffig.* arwr 2.16
propr prydweddol 3.13n
prudd trist, pruddglwyfus, doeth
 4.22, 7.4n
pryd¹ gwedd, prydferthwch 3.40,
 4.2
pryd² adeg 5.35
pur 7.1n
pwyll 5.10n, 12n
pwyllog call, deallus 5.60
pwynt iechyd, cyflwr 6.38
pybyr gloyw, disglair 3.40
'r At.iii.3n
rhag wyneb yn nes ymlaen, rhag
 llaw 3.29
rhan cyfran 4.42n
rhebydd 1.7n
rhiawdr arglwydd 2.29n
rhodd *ll.* **rhoddion** At.i.27n
rhoi 4.42n
rhwysg balchder, urddas 3.27
rhyddlys llys hael 1.29
rhyfalch tra balch 3.27
rhyfydr prydyddiaeth ddisglair
 At.i.5n
rhyfyg urddas, balchder 1.52n,
 4.37n
rhyw natur 2.29
rhywyr rhy hwyr 5.10
sincio 1 *un.pres.myn.* **sinciaf**
 5.36n
sioncwyh bywiog a gwych 5.36
siwgyredig a siwgr arno 1.28
somiant 5.38n
syganu *amhrs.grff.myn.*
syganwyd 2.19n
tair gw. **tri**
tâl¹ taliad 4.45
tâl² talcen 3.48n, 4.3n
tarf 4.27n
tebyg 1.30n
teg *cmhr.* **tegach** 3.20n
tegwh 1.17n
teilo gwasgaru tail ar dir At.i.23n
teiriaith 1.23n
teiroes 6.22
terfyn 4.27n
testun 3.29n
to At.i.23n
tra 1.19n
trablin 1.49n
trabludd 1.48n
trachul tenau iawn 5.25 **tra chul**
 6.29
tradoeth 1.41
trallod 1.49n
tri b. **tair** 1.59n
trigo aros 2 *un.grch.* **trig** 1.56, 57
triliw 1.50
tro rhodiad, digwyddiad 1.47, 5.17
troi 3 *ll.grff.myn.* **troesont** 5.13
trugaredd 5.19n
trulliad 1.49n
trwynfyr *ll.* **trwynfyrion** 1.38
trychiolaeth 6.29

twyllo denu, rhwydo 3.34
tybys tybiedig 1.30n
tynnu At.i.23n
ucheledig dyrchafedig 1.22
ufydd gostyngedig, gwylaidd 1.5;
ll. ufyddion 1.4
unben arglwydd, uchelwr 3.28
urdd *ll. urddau* At.i.7n
uwch At.ii.3n
wel dyna dyna At.i.25

wybr cwmwl 6.4
wyneb 1.7n a gw. **rhag wyneb**
ymwan ymladd 2.7n
yn¹ *ardd.* 4.19n, 42n, 5.27n
yn² *gn. traethiadol* 3.30n
yno At.iii.3n
ys 6.42n
ysmonaith hwsmonaeth 4.26n
ystlysir ac iddo ystlys hir 6.6
yswain ysgwier 2.13

Enwau personau

Annes Cwrtes 2.9	Harri Harri Salsbri 2.2
Cadwaladr 1.1n, 43	Holbwrch 2.20n
Cristoffis 2.33n	Iarll Lincol 2.11n
Dafydd¹ Dafydd ap Cadwaladr 1.12, 52, 57	Maelgwn 5.28
Dafydd² At.iii.1	Mair 5.44, 6.35, At.i.33
Duw 4.20, 6.34	Meurig 1.20n
Efa At.i.38	Rawlyn 2.5n
Elystan Glodrydd 1.2n	Salbri 2.42n
Gei o Warwic 6.19n	Salsbri 2.3
	San Ffraid 3.48n

Enwau lleoedd

Bachelltref 1.17	Mars 2.4
Caledfryn 2.38n	Mêl Ynys Ynys Prydain 1.29n
Celliwig 1.16n	Môn 2.17, At.i.28n
Ceri 5.56n	Prydain 2.35n
Dyfi 3.44	Rhos 2.38n
Dyffryn Clwyd 2.16	Rhuddlan 2.37n
Lleweni 2.2	Rhuthun 2.38n
Maelawr 2.33n	Salbwrch 2.20n
Manaw Ynys Manaw 2.35n	Trefynyw 2.17n

GWAITH LLYWELYN AB Y MOEL

Rhagymadrodd

Bywyd y Bardd

Ei achau

Y mae tystiolaeth gadarn ar gael fod Llywelyn ap Moel y Pantri¹ yn fab i fardd a elwid gan feirdd eraill ‘Y Moel’ neu ‘Moel y Pantri’.² Yn achresi P.C. Bartrum, nid olrheinir achau Llywelyn yn ôl ymhellach na’i dad;³ ond yn llawysgrif Wy 143–4, copi a wnaethpwyd gan Joseph Morris yn 1832 o’r llyfr achau pwysig a grynhowyd gan Owen Salusbury a John Salusbury rhwng 1630 a 1677 cyn ei losgi yn nhân Wynnstay,⁴ gwelir ar dudalennau 876–8 fod ‘Llewelyn Moel of the Pantri’ yn fab i Faredudd Benwyn, Llanwnnog, o gyff Brochwel Ysgithrog,⁵ ac adleisir y cysylltiad gan Guto’r Glyn yn ei farwnad i Lywelyn, lle y cyfeiria at *Benwyn hil*.⁶ Y mae’n amlwg oddi wrth y Saesneg ‘Llewelyn Moel of the Pantri’ fod yr enw ‘Llywelyn Moel y Pantri’ wedi ei ddehongli i ddynodi un dyn, nid mab a tad, ac fe ellid yn hawdd, felly, gael gwared ar yr anghysondeb rhwng y ffaith fod Llywelyn yn fab i Foel y Pantri yn y naill dystiolaeth ond i Faredudd Benwyn yn y llall, trwy wneud Moel y Pantri, ac nid Llywelyn, yn fab i Faredudd Benwyn. Os cywir hyn, nid yw’r cyswllt rhwng Llywelyn a llinach Maredudd Benwyn yn destun syndod gan y gwyddys bod gan Llywelyn yntau gysylltiadau â Llanwnnog (gw. isod).

Am fam Llywelyn, Lleucu, i ddyfynnu Mr Eurys Rowlands, ‘Yr oedd hi’n ferch i Ddeio ap Llywelyn o Ddolobran, ac felly’n disgyn yn uniongyrchol drwy ei thad o Aleth frenin Dyfed; a thrwy ei mam, Meddefus Fechan ferch Gruffudd Fychan o Ddeuddwr, yn disgyn o Gynan Garwyn ap Brochwel

¹ Ac eithrio pan nodir yn amgen, seiliwyd llawer o’r hyn a ddywedir yn y rhagymadrodd hwn yn gryno ar y sylwadau rhagarweiniol ar gerddi Llywelyn ab y Moel isod a dylid ymgynghori â’r rheini am wybodaeth bellach.

² Gw. IGE² liv. Ychwaneger hefyd gyfeiriad Llywelyn ap Gutun yn ei gywydd gofyn i Syr Siôn Mechain at Owain ap Llywelyn ab y Moel fel *wyr y Moel*, GOLIM 52 (Atodiad.6); ac eiddo Gwilym ab Ieuan Hen yn ei gywydd i Faredudd Fychan o Linwent at Lywelyn fel [*m*]ab teg ... / *Y Moel*, GDID 93 (XII.23–4). Ceir esboniad ar y llysenw yn IGE² 163 (llau. 5–6) *Pwyllfab Moel, berw ferw fawredd*, / *Pwyntiwr mawl, Pantri y medd* (Rhys Goch Eryri).

³ P.C. Bartrum: WG1 ‘Moel y Pantri’.

⁴ Graham C.G. Thomas, ‘Wynnstay 143–4. Index to Pedigrees’ (cyfrol anghyhoeddedig, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, 1992), ii.

⁵ Gw. hefyd P.C. Bartrum: WG1 ‘Bod Hen’ 1, 2. Diolchir i Mr Cledwyn Fychan am dynnu fy sylw at achlen llsgr. Wy 143–4.

⁶ GGI² 14 (V.19).

Ysgithrog, y brenin o Bowys y canodd Taliesin iddo.’⁷

Nid enwir gwraig i Lywelyn ab y Moel yn yr achau, ond ymddengys, er hynny, iddo fod yn dad i bedwar o blant, sef Owain, Jonet, Llywelyn Goch ac Isabel.⁸ Yr enwocaf o’r rhain oedd Owain a brifiodd yntau yn fardd o bwys.

Ei fro

Fel y gwelwyd, cyfeiria Guto’r Glyn yn ei farwnad i Lywelyn at *Benwyn hil*, tylwyth a oedd â’i wreiddiau yn Llanwnnog, a dywed yn nes ymlaen, *Ni chyrch nac eos na chog / O Lwyn-onn i Lan Wnnog*.⁹ Yn ôl J.E. Lloyd, ‘Yr oedd lle o’r enw Llyn Onn ym mhlwyf Llanwnnog, ac felly naturiol yw tybied, gyda *Montgomeryshire Worthies* (1894), td. 186, mai dyma gartref Llywelyn ap y Moel’.¹⁰ Ychwaneger at hyn ddisgrifiad Gwilym ab Ieuan Hen ohono fel *eurwr mawl Arwystl*,¹¹ a dyna ddigon o le i gredu mai un a fagwyd yn ardal Llanwnnog ydoedd Llywelyn ac mai Arwystli oedd ei brif gynefin. Diddorol hefyd yw sylwi ar gytundeb dyddiedig 28 Awst 1596 oddi wrth Edward ap Hywel o Dynymoel (Tyddyn-y-moel) ym mhlwyf Llandinam am y ffin â Llanwnnog.¹²

Yr oedd gan Lywelyn hefyd, fodd bynnag, gysylltiadau â chwr arall o Bowys oherwydd dywed Guto yn ei farwnad, *Cŵyn mawr acw yn y Main / A mwy uchod ym Mechain / Benwyn hil am na bai’n hen / Eos eilwaith o Sulien*.¹³ Fel y dywed Dr Enid Roberts, gellir uniaethu *Y Main* â’r dref-dddegwm o’r enw hwnnw ym mhlwyf Meifod yng nghwmwd Mechain. Awgrymodd hi ymhellach mai at Sulien ap Brochwel, gŵr o’r chweched ganrif a chanddo gysylltiad â’r plwyf, y cyfeirir yma;¹⁴ ond y mae’n fwy tebygol, fel y dywed Mr Eurys Rowlands, fod Guto’n cyfeirio at gyswllt achyddol anolrheiniadwy â Sulien ap Caradog, archddiagon Powys yn y ddeuddegfed ganrif, a oedd yntau’n gysylltiedig â’r plwyf.¹⁵ Nid nepell

⁷ GOLIM x, a gw. P.C. Bartrum: WG1 ‘Aleth’ 6, ‘Gwyn ap Gruffudd’ 3.

⁸ *Ib.* ‘Moel y Pantri’. Yn llsgr. Wy 143–4, 878–9, nodir tri o blant, Owen, Gitto Moel a Sabel.

⁹ GGI² 15 (V.27–8).

¹⁰ J.E. Lloyd, ‘Gwaith Guto’r Glyn’, B x (1939–41), 126.

¹¹ GDID 93 (XII.24).

¹² Gw. E. Hamer, ‘Ancient Arwystli’, Mont Coll ii (1869), 65–6.

¹³ GGI² 14 (V.17–20).

¹⁴ E.P. Roberts, ‘Cywydd Marwnad Llywelyn ap y Moel’, B xvii (1956–8), 182–3. Seiliodd Dr Roberts ei barn ar ei diwygiad o’r cwpled cyntaf o’r dyfyniad fel yr ymddangosodd yn GGI 14 (V.17–18) *Cŵyn mawr acw yn y main / A mwy uchod mae ochain*. Cf. hefyd gywydd moliant Lewys Glyn Cothi i Feredudd ap Hywel a Thref Croesoswallt, GLGC 454 (208.59–60) *Maen gwerthfawr mawr hyd ym Main / a muchudd yw ym Mechain*.

¹⁵ GOLIM ix. Bellach y mae Dr Roberts hithau o’r farn mai Sulien ap Caradog a olygir. Mewn llythyr ataf, dyddiedig 3 Rhagfyr 1996, tyn sylw at ach ‘Evan ap David ... Ednyfed ap Sulien ap Cariadoc ap Collwyn, of Meyvod ...’ yn L. Dwnn: HV i, 316 dan ‘Llan Wnog, in Arwystle’ a dywed: ‘O’r un cyff y daw teulu Neuadd Wen, Llanerfyl. Yn ôl marwnad Rhys Goch Eryri yn llaw’r serchog Ruffudd Llwyd yr aeth Llywelyn i baradwys. Gŵr o Langadfan, y plwyf agosaf i Lanerfyl, oedd Gruffudd Llwyd, yn canu i deulu’r Neuadd Wen. Troer eto at L. Dwnn[: HV] i, 299 a 305, lle

hefyd, yng Nghegidfa am y ffin â Meifod, y claddwyd Llywelyn yn Abaty Ystrad Marchell.

Naturiol yw cysylltiad Llywelyn ab y Moel â'r gornel hon o Bowys oherwydd yr oedd ei fam, fel y nodwyd, yn ferch i Ddeio ap Llywelyn o Ddolobran ym Meifod a Meddefus Fechan ferch Gruffudd Fychan o Ddeuddwr, cwmwd a ffiniai ag ochr ddeheuol Mechain. At hyn, yn ôl y stent o arglwyddiaeth Croesoswallt, 1393, yr oedd perthnasau iddo yn dal tiroedd yn ardal y Graig Lwyd ger Llanymynech.¹⁶ Yr oedd hefyd amryw o fân blastai yn yr ardal lle y câi groeso efallai.¹⁷

Os cywir honni mai Arwystli oedd prif gynefin Llywelyn,¹⁸ y mae'n amlwg fod ganddo wreiddiau dwfn hefyd yn yr ardal ffiniol honno rhwng siroedd Trefaldwyn ac Amwythig, a diddorol sylwi, fel y dangosodd Mr Eurys Rowlands,¹⁹ mai yn yr olaf, fe ymddengys, yr ymsefydlodd ei fab Owain a disgynyddion eraill i Foel y Pantri.

Ei ddyddiadau

Dadleuodd Ifor Williams ar seiliau tra chadarn mai 1395–1400 hyd Chwefror 1440 oedd blynyddoedd Llywelyn.²⁰ Ni chafwyd unrhyw le i anghydweld â'i farn ac ateg i adeg ei eni yw geiriau'r bardd ei hun pan oedd ar herw yng Nghoed y Graig Lwyd na chawsai ond ychydig iawn o amser i ddilyn yr alwedigaeth farddol—*Eres, bychan anianawl, / Ydoedd i mi oed dydd mawl* (10.51–2)—sy'n awgrymu nad ymhell cyn gwrthryfel Glyndŵr y ganwyd ef. Gwelir iddo farw cyn ei amser, a chyfeiria Guto'r Glyn at hyn yn ei farwnad.²¹

Y mae Dr Enid Roberts wedi cynnig mai 1385–90—deng mlynedd yn gynharach—oedd adeg geni Llywelyn.²² Ei phrif reswm yw ei hamseriadau

dywedir i Ales ferch Sulien ap Cariadog o Feifod briodi Gruffudd ap Gwen o Lanwnnog'.

¹⁶ Gw. E.P. Roberts, 'Uchelwyr y Beirdd', TCHSDd xxiv (1975), 71.

¹⁷ *L.c.*

¹⁸ Wrth ystyried gwreiddiau Moel y Pantri dywed E. Rowlands, GOLIM x, am ddisgrifiad Gruffudd Llwyd ohono yn 'Cywydd y Cwest' fel *eryr cain* (IGE² 117 (ll. 18)), 'Y mae'n fwy na thebyg, er yn amhroffadwy, y dylid darllen "eryr Cain", ac os felly dyna awgrymu bod Moel y Pantri yntau yn gysylltiedig rywffodd â Mechain, ond y mae'n hollol bosibl wrth gwrs nad oedd cyswllt felly'n bod cyn ei briodas.' Ond ni chyfeiria at achlen llsg. Wy 143–4, a hyd yn oed os oedd Moel y Pantri yn gysylltiedig â Mechain cyn ei briodas, nid effeithiai hynny ar gysylltiadau cryf Llywelyn ag Arwystli.

¹⁹ Gw. 'Owain ap Llywelyn ab y Moel' yn YB ix (1976), 100–1 a GOLIM x–xi.

²⁰ IGE² lvii–viii. Hefyd, yn yr adran ar awduron Brytaneg ac adeg eu blodeuo yn D, rhydd John Davies, Mallwyd, 1400 ar gyfer *Llywelyn moel y pantri*.

²¹ GG1² 14 (V.19) *Benwyn hil am na bai'n hen*. Cf. geiriau Casnodyn yn ei farwnad i Fadog Fychan o Dir Iarll, R 1242.9 *Rydranc ieuanc iabn. daon diwattwar*; Iolo Goch yn ei farwnad i Ddafydd ap Gwilym, GIG 90 (XXI.2) *Hoyw o ddyn pe hwy fai'i ddydd*; a Madog Benfras yn ei farwnad yntau iddo, DGG² 127 (LXXI.43–4, 7) *Och na bai hir, goetir ged, / Oes Dafydd, eos Dyfed ... Rhywfo hoed, ni ryfu hen*.

²² E.P. Roberts, *art.cit.* 73.

ar gyfer cerdd 9 yn 1405, a cherddi 10 ac 11 yn 1403.²³ Dadleuir isod, fodd bynnag, fod y cerddi hyn yn ddiweddarach.

Ei hail reswm—rheswm sydd mewn gwirionedd yn hwyluso'r cyntaf—yw ei chred y gallai cymysgu fod wedi digwydd rhwng enwau Llywelyn a'i dad gyda'r canlyniad mai'r tad oedd gwir awdur y cerddi uchod:

Problem anodd iawn ei datrys yw ai'r un gŵr yw Llywelyn Moel y Pantri a Llywelyn ap Moel y Pantri. Os tad a mab ydynt, yna a fu cymysgu awduron, a pha un o'r ddau a ganodd y cywyddau hyn? Awgryma Syr Ifor Williams ... 1395–1400 'fel amcan am adeg geni Llywelyn' (ab y Moel). Pe cynigid 1385–90 byddai'n ddiagon hen i fod ar herw yn 1403, ac i Iunio cywydd.²⁴

Ymddengys fod Dr Roberts yn credu y gall yr elfen *Moel yn Llywelyn Moel y Pantri* fod yn rhan o enw *Llywelyn*, nid yn dalfyriad o enw'r tad, a bod *Moel yn Llywelyn ap Moel y Pantri* yn dalfyriad o *Llywelyn Moel y Pantri*, hynny yw, mai *Llywelyn ap Llywelyn Moel y Pantri* fuasai enw llawn y mab. Ond yn wyneb arfer gyson y beirdd o gyfeiro at y tad fel *Moel y Pantri*, y mae'n llawer mwy tebygol mai cyfystyron yw *Llywelyn Moel y Pantri* a *Llywelyn ap Moel y Pantri*, ac o'r tri amrywiad ar ddeg ar enw'r bardd²⁵ a welwyd yn y llawysgrifau—gan gynnwys, sylwer, hwnnw yn Llyfr Gwyn Rhydderch lle y ceir cerdd ganddo a gopiwyd yn hanner cyntaf y bymthegfed ganrif—nid yw'r un ohonynt yn ategu dadl Dr Roberts mai dynion gwahanol, o bosibl, a ddynodir ganddynt. Dylid nodi hefyd mai llawer mwy cyffredin yn yr achau yw ffurf dreigledig *moel* ar ôl y ffurf *Llywelyn* yn hytrach na'r gysefin.²⁶

Ei yrfa

Y ffaith gyntaf y gellir ei sefydlu am yrfa Llywelyn ab y Moel yw fod ganddo, fel y dangosodd Ifor Williams,²⁷ athro barddol oedrannus o'r enw Rhys ap Dafydd ab Iorwerth pan ganodd gywydd yn beirniadu Rhys Goch Eryri tua 1425 (cerdd 14), ac y mae'n deg tybio mai'r un athro a'i hyfforddodd o'r cychwyn i fod yn brydydd.

Rhywbryd yn gynnar yn ei yrfa farddol ymunodd â rhengoedd Owain Glyndŵr, oherwydd y mae'n ddiau mai dyna pwy oedd yr Owain hwnnw y cyfeiria'r bardd ato deirgwaith yn ei gerddi ac y cyfeiriodd Guto'r Glyn ato

²³ *L.c.*

²⁴ *L.c.*

²⁵ Dyma hwy: *Llywelyn Moel*, *Llywelyn ap Moel*, *Llywelyn ab y Moel*, *Llywelyn fab y Moel*, *Llywelyn Moel Pantri*, *Llywelyn Moel o'r Pantri*, *Llywelyn Moel y Pantri*, *Llywelyn ap Moel Pantri*, *Llywelyn ap Moel o'r Pantri*, *Llywelyn ap Moel y Pantri*, *Llywelyn ab y Moel o'r Pantri*, *Llywelyn ab y Moel y Pantri*, *Llywelyn fab Moel y Pantri*.

²⁶ Gw., e.e., fynegai P.C. Bartrum: WG1. Yr unig enghraifft o'r gysefin y sylwyd arni yno yw *Llywelyn Moel ap Hywel ap Tegward Fychan*; cf. hefyd *ib. Cynwrig Moel ap Cadwgon ab Einion a Cynwrig Foel ap Cynwrig ap Llywarch a Treigladau* 116–19.

²⁷ Gw. sylwadau rhagarweiniol cerdd 14 ac *ib. llau*. 58–60n.

yn ei farwnad i Lywelyn pan ddisgrifiodd ef fel *bronfraith Owain*.²⁸ Y gerdd gynharaf o bosibl lle y gwelir ef yn milwra yw ei gywydd 'I frwydr Waun Gaseg' (cerdd 9), disgrifiad byw o ysgarmes nid nepell o Abaty Cwm-hir pryd y trechwyd ef ac aelodau eraill mintai o Gymry gan lu o filwyr o Frynbuga. Y mae'n bosibl eu bod yn disgwyl i Owain ei hun ddod i'w helpu i ymosod ar yr abaty gan ei fod y pryd hwnnw'n orsaf i filwyr Brynbuga. Anodd gwybod pa bryd yn union y bu hyn ond efallai mai tua 1410 pan nad oedd Owain eto wedi ymgilio'n llwyr. Fe ddichon mai yn y cywydd 'I Goed y Graig Lwyd' (cerdd 10), a gyfansoddwyd tua 1416, y ceir y cip nesaf ar Lywelyn. Yma gwelir herwr profiadol gyda llu o ddilynwyr eraill [i] Glyndŵr yn ymhyfrydu yn niogelwch a harddwch canolfan gwylliaid enwog Craig Llanymynech.

Bu farw Owain Glyndŵr tua'r flwyddyn 1416 ond p'un ai a wyddai Llywelyn hynny ai peidio,²⁹ ni pheidiodd â bod yn herwr. Yn y cywydd 'I'r pwrw' (cerdd 11), a gyfansoddwyd yn ddiâu yn y cyfnod pan oedd gwrthryfel Glyndŵr wedi chwythu ei blwch a'i gynyrfiadau mawr olaf yn araf ddis-tewi—tua 1419–21, dyweder—gwelwn y bardd wedi cefnu ar Goed y Graig Lwyd ac ar ysbeilio'r Un-dref-ar-ddeg (sef Ruyton XI Towns), yn ddi-gyflog, yn ddigeiniog, a diangor yn datgan wrth ei bwrs fel y canlyn:

Awn i le ni'n olrhëir
 Ein dau parth â'r deau dir
 Am ddeddf, mawr o ymddiddan,
 Ac yn ôl aur egin lân.
 Oddyno awn, wiw ddawn ddydd,
 I flaen hoywfro Faelienydd,
 Lle digroniad penadur,
 Lle da perchen llaw a dur.
 Mwnai dud, mae yno, dos,
 Gant a'th eurant i'th aros.³⁰

Ni wyddys at bwy yn y *deau dir* y bwriadai Llywelyn fynd i ymlenwi o aur. Yn ddiweddarach, tua 1433, fe ganodd i Wiliam ap Tomas o Raglan (cerdd 16) ond a fyddai wedi canu i'r swyddog hwnnw, a gynhaliai'r drefn Seisnig, mor gynnar ag adeg cyfansoddi 'I'r pwrw' (cerdd 11) pan nad oedd y gwrthryfel eto wedi llwyr ddirwyn i ben? Cred Mr Cledwyn Fychan³¹ fod y cwpled *Awn i le ni'n olrhëir / Ein dau parth â'r deau dir* yn awgrymu bod y bardd yn bwriadu symud o'i guddfan yng Nghoed y Graig Lwyd i guddfan

²⁸ Gw. sylwadau rhagarweiniol cerdd 8.

²⁹ Cf. y cronicl o hanes gwrthryfel Glyndŵr a gynhwyswyd yn J.E. Lloyd, *Owen Glendower*, (Oxford, 1931), 154, *MCCCXv yddaeth owain mewn difant y gwyl vathe yn y kynhayaf o hynny allan ni wybwyd i ddifant rrann vawr a ddywaid i varw y brudwyr a ddywedant na bv*. Cf. J.R. Phillips, 'When did Owain Glyn Dŵr die?', B xxiv (1970–2), 59–77.

³⁰ 11.55–64.

³¹ Cledwyn Fychan, 'Llywelyn ab y Moel a'r Canolbarth', LICy xv (1984–8), 289–90.

arall heb fod ymhell iawn o Faelienydd lle y gallai gael y nawdd y byddai'n rhaid i herwr wrtho: byddai unrhyw symudiad tua'r de yn mynd ag ef yn nes i'w gynefin yn Arwystli, a cheid traddodiadau llafar gynt yn nhiroedd Elenid a Buellt am ysbeiliwr pen ffordd o'r enw Lewsyn ap Moelyn, yr un gŵr, yn ôl damcaniaeth Mr Fychan, â Llywelyn ab y Moel. Fodd bynnag, dengys y cwpled nesaf—*Am ddeddf, mawr o ymddiddan, / Ac yn ôl aur egin lân*—a'r geiriau sy'n ei ddilyn—*Oddyno awn ... / I ... Faelienydd*—yn eglur fod y bardd yn meddwl mynd i'r de cyn mynd i Faelienydd, ac ni ellir dal, felly, o'r hyn lleiaf ar sail yr hyn a ddywed ef ei hun, mai am guddfan rywle yn niffeithwch Elenid a Buellt a oedd yn ddigon agos i Faelienydd yr oedd yn meddwl ar ddechrau'r dyfyniad uchod.³² Ond os yw hi'n ansicr gan bwy y gobeithiai gael nawdd yn y deheudir, nid felly yn achos Maelienydd. Diau, fel y dywed Mr Fychan,³³ mai'r bobl yr oedd Llywelyn yn meddwl amdanynt oedd disgynyddion amlganhennog Phylip Dorddu o gyff Elystan Glodrydd ym mlaenau Maelienydd, nythaid o uchelwyr grymus yr oedd Iolo Goch³⁴ genhedlaeth neu ddwy ynghynt wedi eu canmol yn anad yr un tylwyth arall yn y gymdogaeth. Mewn cywydd o eiddo Gwilym ab Ieuan Hen i Faredudd Fychan ap Maredudd ap Hywel ap Phylip Dorddu o Arddfaelog, Llanbister, mydrydda'r bardd enwau'r beirdd a ganodd i Faredudd o'i flaen ef, a'r cyntaf a enwir yw Llywelyn ab y Moel (gw. isod), prawf eglur fod Llywelyn wedi canu i'r teulu hwn ym Maelienydd.³⁵ Y mae'n bosibl, yn wir, fel yr awgryma Mr Fychan,³⁶ mai un o'r ddau Feredudd hyn—Maredudd Fychan, ond odid, gan mai iddo ef y canodd Llywelyn³⁷—yw'r Maredudd hwnnw y cyfeiria Guto'r Glyn ato yn ei farwnad i Lywelyn pan eilw Lywelyn yn *awdur Meredudd*³⁸ er nad dyna'r unig bosibilrwydd (gw. isod). Cwbl naturiol fyddai i'r bardd droi at y tylwyth hwn oherwydd awgryma rhai cyfeiriadau gan y beirdd, er enghraifft Lewys Glyn Cothi, eu bod yn gefnogol i achos Glyndŵr ac yn ymwneud â herwyr.³⁹

Y mae Mr Cledwyn Fychan wedi dadlau⁴⁰ ei bod yn bosibl fod Llywelyn

³² Nid yw'n dilyn oddi wrth hyn, wrth gwrs, na allai Llywelyn fod wedi bod ar herw yn nhiroedd Elenid a Buellt ac nad Lewsyn ap Moelyn mohono, ond rhaid tybio mai ar ryw adeg arall y buasai hynny (er enghraifft, pan aeth i Faelienydd).

³³ Cledwyn Fychan, *art.cit.* 290–1.

³⁴ GIG 65 (XIV.35–8).

³⁵ Cledwyn Fychan, *art.cit.* 291–2.

³⁶ *Ib.* 292.

³⁷ Dywed Mr Cledwyn Fychan, *l.c.*, na wyddys ai Maredudd Fychan ynteu Maredudd ap Hywel ei dad oedd y penteulu yng Ngarddfaelog yn nyddiau Llywelyn, ond ymddengys i mi mai i'r mab y canodd Gwilym ab Ieuan Hen; cf. yn arbennig GDID 93 (XII.19–22) *Hi* [sef y bais] *a luniwyd, hil Ynyr, / Wrth dy gorff, warth deg o wŷr. / Llywelyn, ganeidwyn gnawd, / A'i lluniodd, wellau iawnwawd.*

³⁸ GGI² 15 (V.37).

³⁹ Cledwyn Fychan, *art.cit.* 291.

⁴⁰ *Ib.* 304.

wedi dilyn Maredudd, mab Owain Glyndŵr, hyd 1421 pryd yr ildiodd Maredudd, a chan fod Guto'r Glyn yn galw Llywelyn yn *bronfraith Owain* ac yn *awdur Meredudd* bron ar yr un gwynt, efallai mai'r Maredudd hwn yn hytrach na Maredudd Fychan o Arddfaelog a olygir. Ni fyddai'r ymlyniad hwn yn syndod o gwbl. Awgryma Mr Fychan hefyd⁴¹ y gall fod mantell Glyndŵr wedi syrthio ar ysgwyddau'r uchelwr Phylip ap Rhys ap Phylip Fychan o Genarth yng Ngwerthrynion yn sgil gwrthgiliad Maredudd, ac i Lywelyn ab y Moel, heblaw derbyn nawdd ganddo, fod yn gyd-herwr ag ef ar diroedd Elenid; ond er mor ddeniadol yw'r rhan hon o'i ddadl, y mae'n rhaid cydnabod mai damcaniaeth ydyw.

Anodd, onid amhosibl, yw gwybod am ba hyd yn union y parhaodd Llywelyn yn herwr, ond fel bardd yn unig y clywn amdano o hyn allan. Tua 1425 fe gyfansoddodd gywydd (cerdd 14) yn cwyno wrth ei athro barddol Rhys ap Dafydd ab Iorwerth am 'sen' a fwriasai Rhys Goch Eryri yn ei farwnad i'r bardd Gruffudd Llwyd, sef nad oedd neb ym Mhowys yn gwerthfawrogi awen Gruffudd. Ond ei gamarwain a gawsai gan rywrai nas enwir a oedd wedi hepgor cwpled allweddol o farwnad Rhys, ac yn ei gywydd nesaf (cerdd 15) fe'i cawn yn esbonio ac yn ymddiheuro i Rys Goch ac yn ceisio cymod. Yn olaf (cerdd 16), fe'i gwelir yn canu cywydd i Syr Wiliam ap Tomas o Raglan yn 1433 neu'n fuan wedyn lle y mynega edmygedd o wregys aur a roesai Syr Wiliam i Rys Goch gan fynegi'n gynnwl ei ddymuniad am rodd debyg ei hun. Y mae'r cywydd hwn yn arwyddocaol oherwydd awgryma fod yr herwr gwydn, Llywelyn, trwy fynd ar ofyn un o gynheiliaid y drefn Seisinig yng Nghymru, wedi dygymod i ryw raddau â'r Gymru a oedd ohoni wedi methiant y gwrthryfel. Er hynny, y mae arwyddion ddigon yn y gerdd nad oedd ysbryd y gwron wedi pylu dim.⁴²

Bu farw, fel y tystia marwnadau Rhys Goch Eryri a Guto'r Glyn, ym mynachlog Sistersaidd Ystrad Marchell⁴³ yn ardal teulu ei fam, gyda'r Tad Griffri (yr abad neu un o'r mynaich) yn gweinyddu'r sagrafen olaf iddo, a'i gladdu yn y fynwent *rhwng arghwyddi*. Ar sail y farwnad, fe ymddengys, awgrymir iddo fynd yn fynach tua diwedd ei oes⁴⁴ ond ni ddywed Guto fwy am ei gysylltiad â'r fynachlog na'i fod wedi marw a'i gladdu yno.

Euron

Fel Dafydd ap Gwilym, bu gan Lywelyn ab y Moel yntau ei Forfudd neu ei Ddyddgu, sef Euron, merch o Fôn.⁴⁵ Cyfeiria ati'n serchog mewn tair o'i

⁴¹ *Ib.* 302–3.

⁴² Gw. 16.56–72.

⁴³ Gw. IGE² 324–6 (CVII), ac yn arbennig 325 (llau. 7–8), a GGI² 14–16 (V), ac yn arbennig 14.1–2, ac ymlaen. Cf. hefyd y rhestr o'r manau lle y claddwyd y beirdd yn LIGC 3029B [= Mos 110], 188.

⁴⁴ CLC² 477, 'Trodd at grefydd tua diwedd ei oes, a chladdwyd ef ym mynachlog Ystrad Marchell.'

⁴⁵ Gw. isod 8.42n.

gerddi ac yn un ohonynt (cerdd 13) disgrifia achlysur pan oeddynt yn cadw oed ac y cafodd hi ei chrafu gan ei farf a sorri'n ddirfawr wrtho. Y tebyg yw mai amdani hi hefyd yr oedd yn meddwl yng Nghoed y Graig Lwyd (10.41–52).⁴⁶ Y mae'n amlwg fod iddi le pwysig iawn yn ei fywyd a'i feddyliau a chyfeiria at eu carwriaeth fel *mordwy serch* (12.50). Y mae'n amlwg hefyd fod eu carwriaeth yn dra hysbys yng Nghymru, fel y tystia geiriau Guto'r Glyn, *Clywed y mae merched Môn / Cloi derw am serch clod Euron*.⁴⁷ Y tebyg yw mai merch fonheddig oedd Euron (cf. 14.46n); ni fyddai hynny'n syndod o gofio mai uchelwr neu fân uchelwr, megis ei gyd-feirdd yn gyffredinol, fuasai Llywelyn ab y Moel. Tybed ai hi hefyd oedd mam plant Llywelyn a grybwyllir yn yr achau, Llywelyn Goch, Owain, Jonet ac Isabel⁴⁸ (neu rai ohonynt)?

Cyfeiriadau ato

Sylwyd ar y cyfeiriadau canlynol at Lywelyn ab y Moel, pob un gan feirdd eraill o'r un cyfnod yn fras.

1. Rhys Goch Eryri (*fl. c.* 1385–1448).⁴⁹ Ceir y cyfeiriadau cynharaf yn ei ddau gywydd ymryson â Llywelyn⁵⁰ a ganwyd yn 1425 neu'n fuan wedyn. Os eir heibio i'r hyn a ddywed Rhys am Lywelyn a oedd yn ffrwyth camddealltwriaeth⁵¹ a heb fod yn nodweddiadol felly o Lywelyn, gwelir mai fel brwydrwr glew a bardd coeth a dysgedig o dras yr ystyriai Rhys ef yn bennaf yn ei ateb cyntaf:

Llew brwydr fal llaw Beredur,
Llywelyn derwyn â dur,
Faer cerdd, a fu eurog coeth
Fwyn ddegddysg foneddigdoeth,
Pwyllfab Moel, berw ferw fawredd,
Pwyntiwr mawl, Pantri y medd.⁵²

A cheir cyfeiriad at ei haelioni yn y geiriau *crair gwingost cryf* (IGE² 165 (ll. 33)). Yr un darlun a geir yn ail ateb Rhys, a cheir agwedd arall fwy hoffus ar ei bersonoliaeth pan eilw Rhys ef yn *walch o wên* (*ib.* 169 (ll. 19)).⁵³

Yn ddiweddarach, pan fu farw Llywelyn yn 1440, canodd Rhys farwnad angerddol a diffuant iddo,⁵⁴ a'r un priodoleddau a welir ynddi, ond bod mwy

⁴⁶ Cf. hefyd isod 11.12n.

⁴⁷ GGI² 15 (V.31–2). Gw. hefyd gywydd dychan Ieuan Brydydd Hir i Dudur Penllyn lle y sonia am ei gariad fel *cyfliw Euron*, GTP 93 (At. II.13) a gw. *ib.* 144.

⁴⁸ P.C. Bartrum: WG1 'Moel y Pantri'. Cf. hefyd lsg. Wy 143–4, 878.

⁴⁹ ByCy 792.

⁵⁰ IGE² 163–5 (LV), 169–72 (LVII).

⁵¹ Gw. sylwadau rhagarweiniol cerdd 14.

⁵² IGE² 163 (llau. 1–6).

⁵³ Cf. geiriau Guto'r Glyn amdano isod, *a threio gwên*. Y mae'n bosibl, er hynny, mai cyfeiriad sydd yma at un o hynafiaid Llywelyn, gw. troednodyn 15 uchod.

⁵⁴ IGE² 324–6 (CVII).

o sôn am ei ddoniau prydyddol. Yr oedd yn *Em wawr brwydr* (ib. 324 (ll. 14)); *Dewr a chryf durwayw awch wraidd* (ib. (ll. 22)); *pencerdd erddrym, / Dewr hael coeth, digrifddoeth grym* (ib. (llau. 9–10)); [p]enrhaith barddwaith byrddwir (ib. (ll. 19)); *Doeth ... a theuluaidd* (ib. (ll. 21)); *doctor y cerddorion / Pan oedd fyw o Fynyw i Fôn; / Ac un a wyddiad ganu / Cerdd â'i fin, ail Ferddin fu, / A Thaliesin y gwin gwyn, / ... tir Cynfyn* (ib. (llau. 23–8)); *Disiomgar ... wrth chwarae* (ib. 325 (ll. 21)); *pencerdd ... / Gwynedd a Phowys* (ib. (llau. 3–4)) ac yn *coeth bencerdd feistr, a'n câr* (ib. (ll. 14)). Yn fwy penodol, cyfeiria ato hefyd fel bardd serch pan sonia am y *serchog Ruffudd Llwyd* (a oedd yntau'n enwog fel bardd serch) yn ei arwain, *Brydydd merch, i baradwys* (ib. 325 ((llau. 20, 22)). Pan â i'r nef bydd hefyd yn gweld Dafydd ap Gwilym, Madog Benfras, Gruffudd Gryg, Dafydd Llwyd (ei athro barddol), Iolo Goch ac Ithel Ddu. Diwedda Rhys, *A'r hiraeth, cywyddiaeth cof, / Draig Wynedd, a drig ynof* (326 (ib. 9–10)).

2. Guto'r Glyn (fl. c. 1432–5–c. 1493).⁵⁵ Tua'r un pryd fe ganodd Guto'r Glyn yntau farwnad ddwys a diffuant, ond tawelach a mwy myfyriol ei hysbryd na'r eiddo Rhys Goch, i Lywelyn,⁵⁶ marwnad y cyfeiriwyd ati sawl gwaith eisoes. Megis Rhys, sonia am ddewredd Llywelyn a'i awen farddol—*A chledd, dewredd dihareb, / A cherdd ...* (GGI² 14 (V.5–6)); ond ar yr ail y mae'r holl bwyslais. Geilw ef yn *Dewin cerdd* (ib. V.11); *eos gwawd* (ib. V.14); *bwa gwawd Bowys* (ib. V.24); *gordd berw ac urddas / Awen* (ib. V.33–4); *bronfraith Owain ac awdur Meredudd* (ib. V.35, 36 a gw. uchod); *canllaw awen* (ib. V.39); *Athro gwawd* (ib. V.40); *Ail Iolo* (ib. V.41); *Ail Ruffudd neu Ddafydd* (ib. V.42);⁵⁷ *Awdur cywyddau* (ib. V.43); *Edn o nef i'r dynion* (ib. V.44); *Pab Rhufain llyfr pob prifardd* (ib. V.48); *priawd cerdd dafawd hy / A'r awdurdod* (ib. llau. 51–2); ac meddir, *Naddai bob awenyddair / Fal mêl, neu afalau Mair* (ib. llau. 45–6). Cyfeirir ato hefyd fel bardd serch a natur: *Ac yn honno [yr arch] gann hannerch, / A saith gelfyddyd y serch* (ib. llau. 3–4); *Llyfr annerch llawforynion* (ib. V.10); *Drych ac eurych i gariad* (ib. V.12); *Gweddw arwestl y gwýdd irion, / Gweddw yw serch egwyddor sôn* (ib. V.25–6); *serch clod Euron* (ib. V.32). Gellir tybio hefyd oddi wrth y geiriau *gann hannerch* ei fod yn fardd toreithiog, ac y mae digon o dystiolaeth i hynny yn ei gywydd i'r tafod. Prydera Guto am hynt cerdd dant ym Mhowys wedi marw'r fath awenydd: *Mawr yw anaf cerdd dafawd, / Mawr, os gwir marw eos gwawd* (ib. V.13–14); *Pwy biau gwawd tafawd hardd, Pab Rhufain llyfr pob prifardd? P'le ceir ungair o'i angerdd? / P'le gwedda gwra i'r gerdd?* (ib. V.47–50). Ar nodyn mwy personol, dywed amdano, *Nid byw cariad taladwy, / Nid balch ceiliog mwyalch mwy* (ib. V.29–30) ac fel Rhys Goch sonia hefyd am ei wên—*a threio gwên* (ib. V.40). Mawr oedd y galar ym Môn a Mechain am yr aelod hwn o *Benwyn hil am na bai'n hen* (ib. V.19).

⁵⁵ Gw. ByCy 303, GGI² xvii–viii, CLC² 295.

⁵⁶ GGI² 14–16 (V).

⁵⁷ Sef Gruffudd Llwyd a Dafydd ap Gwilym.

3. Gwilym ab Ieuan Hen (*fl.* 1440–80).⁵⁸ Yn ei gywydd y cyfeiriwyd ato oesoedd i Faredudd Fychan ap Maredudd ap Hywel ap Phylip Dorddu o Arddfaelog, Llanbister,⁵⁹ enwa Lywelyn ab y Moel fel y cyntaf o dri bardd o'i flaen a fu'n teilwrio pais, hynny yw yn adeiladu clod, Maredudd:

Llywelyn, ganeidwyn gnawd,
A'i lluniodd, wellau iawnwawd,
Fab teg, ar osteg, aur wystl,
Y Moel, eurwr mawl Arwystl.⁶⁰

Diddorol hefyd yw'r disgrifiad *ganeidwyn gnawd* o'i gorff. Ai at hyn y mae Rhys Goch Eryri yn cyfeirio pan eilw Lywelyn ddwywaith yn *Llywelyn wyn wych*?⁶¹

Afraid dweud bod llawer o'r ystrydebau mawl arferol i'w gweld yng ngherddi Rhys Goch Eryri a Guto'r Glyn. Er hynny, dangosant yn ddigamsyniol mai fel gŵr a edmygent yn fawr am ei wrhydri milwrol gwlatgar, ac fel cywyddwr coeth, campus, a thoreithiog—efallai, yn wir, fel cywyddwr blaenaf ei genhedlaeth ym Mhowys—a bardd serch, yr adwaenent Lywelyn ab y Moel yn bennaf; a diau eu bod yn hyn o beth yn adlewyrchu i raddau farn beirdd a boneddigion eraill. Ceir ambell awgrym ganddynt hefyd ei fod yn gymeriad hael, direidus a hoffus ddigon, a hawdd credu bod ei farw annhymig yn wir loes i laweroedd yng Nghymru. Ac er byrred cyfeiriad Gwilym ab Ieuan Hen ac er mai am englynion Llywelyn y sonia, nid oes dim ynddo sy'n anghyson â'r darlun hwn.

Ei waith

Nid oes ar gadw o waith Llywelyn ab y Moel ond deg o gerddi y gellir yn hyderus eu cyfrif yn rhai dilys, sef naw cywydd a chyfres o dri englyn. Y maent er hynny yn amrywiol iawn ac o ansawdd arbennig, ac y maent yn ddigon o gyfiawnhad dros ei ystyried yn un o feirdd gorau ei ddydd ac yn un o gymeriadau mwyaf anghyffredin a diddorol cyfnod y Cywyddwyr.

O fewn y corff hwn gellir gweld dau brif grŵp. Yn gyntaf, ceir pum cerdd (8–12) sy'n hynod oherwydd iddynt, yn ôl pob tebyg, gael eu cyfansoddi yn y cyfnod *c.* 1410–*c.* 1421, sef blynyddoedd gwrthryfel Owain Glyndŵr, gan un a fu'n un o edmygwyr mwyaf Glyndŵr ac yn un o'i frwydrwyr ffyrnicaf. Y mae'r rhain yn gerddi tra phersonol a chofiadwy sy'n codi'n uniongyrchol o rai o brofiadau dwysaf y bardd fel gwrthryfelwr a herwr. Ymglywir ynddynt nid yn unig â'i athrylith unigol ond hefyd â'r cynyrfiadau gwleidyddol a oedd yn ysgwyd Cymru ar y pryd. Yng ngherddi 9–12, sef 'I

⁵⁸ ByCy 306.

⁵⁹ GDID 93–4 (XII).

⁶⁰ *Ib.* llau. 21–4, eithr newidiwyd ychydig ar yr atalnodi yma trwy ddodi coma ar ôl *gosteg*.

⁶¹ Cf. hefyd ddisgrifiad Llywarch ap Llywelyn o Owain ap Gruffudd, brawd Madog ap Gruffudd Maelor, GLILl 27.21 *Duc* [angau] *Ywein wynuein, ny wnn han—a'y hoet*.

frwydr Waun Gaseg', 'I Goed y Graig Lwyd', 'I'r pŵrs' ac 'I'r tafod', ceir llawer o ddeunydd hunangofiannol a hunanbortreadol, ac y mae'r tair olaf, yn neilltuol, yn rhoi syniad go dda am natur bywyd herwr y pryd hynny gyda'i wynfyd a'i wae. Yr unig gerddi eraill y gwyddys eu cyfansoddi yn yr un cyfnod yw'r ddau gywydd dienw i Hywel Coetmor o Nanconwy⁶² a Rhys Gethin o Nanconwy,⁶³ a chywydd gan Fadog ap Gronw Gethin sy'n disgrifio fel y gorlifodd Afon Dyfrdwy ei glannau gan amddiffyn Maelor Gymraeg rhag byddin o Saeson.⁶⁴

Yr ail brif grŵp yw tri chywydd ymryson Llywelyn â Rhys Goch Eryri (cerddi 14–16) sy'n perthyn i gyfnod diweddarach yn ei fywyd. Prif ddiddordeb yr ymryson hwn i ni heddiw yw'r trafod ynddo ar darddiad yr awen, pwnc ac iddo hanes hir yn Ewrop a Chymru fel ei gilydd, ac y mae'n gymar teilwng i'r ymrysonau barddol eraill hynny o gyfnod y Cywyddwyr, megis eiddo Dafydd ap Gwilym a Gruffudd Gryg, lle y trafodir pynciau o ddiddordeb llenyddol neilltuol.⁶⁵

Gellir nodi mai cerdd olaf yr ymryson hwn hefyd yw'r unig gerdd o eiddo Llywelyn y gwyddys pwy oedd ei noddwr, sef Syr Wiliam ap Tomas o Raglan.

Ar eu pennau'u hunain o fewn y corpws hwn, ceir cywydd i'r farf (cerdd 13) a thri englyn proest estynedig i Fair ac Iesu (cerdd 17).

Yn llenyddol, ymysg nodweddion mwyaf trawiadol Llywelyn ab y Moel ceir ei ddisgrifiadau o natur, megis yn 'I'r bedlwyn' (cerdd 8), a'i ddawn i ddyfalu, megis yn y cywyddau i'r tafod a'r farf (cerddi 12 a 13). Yn 'I Goed y Graig Lwyd' (cerdd 10), gwelir y ddau beth yn cydweu'n loyw ddiymdrech. Ni welir dylanwad unrhyw fardd arall arno'n neilltuol—dim ond mân gyfatebiaethau dibwys a diarwyddocâd—mwy nag yn achos y mwyaf-rif o'r Cywyddwyr. O ran arddull gellir dweud bod cerddi Llywelyn ab y Moel tua hanner y ffordd rhwng cywyddau Dafydd ap Gwilym ac Iolo Goch ar eu mwyaf amlgymalog a chymhleth a symlrwydd cypledol Dafydd Nanmor. Dyna, yn fras, a ddisgwylid yn achos bardd o hanner cyntaf y bymthegfed ganrif. O ran cynghanedd, y gynghanedd sain sydd flaenaf gan amlaf, ond yng ngherdd 12 y gynghanedd groes, ac yng ngherdd 13 y draws.⁶⁶ Gellid dadlau efallai fod blaenoriaeth y gynghanedd sain yng ngwaith Llywelyn yn arwydd o ryw geidwadaeth, hynny yw ei fod fel cynganeddwr yn perthyn yn nes i'r bedwaredd ganrif ar ddeg nag i'r bymthegfed. Efallai, yn wir, ond y mae'r un mor bosibl nad yw'r amrywiaeth cynghanedd hwn ond arwydd o fypmwy a chwaeth bardd (nad oes ar

⁶² IGE² 107–8 (XXXVI).

⁶³ *Ib.* 109–10 (XXXVII).

⁶⁴ D.H. Evans, 'An Incident on the Dee during the Glyn Dŵr Rebellion?', TCHSDd xxxvii (1988), 8–12.

⁶⁵ Dywedir yn ByCy 567 i Lywelyn ganu 'nifer o gywyddau ymryson i Guto'r Glyn' ond ni chynigir unrhyw sail i'r honiad.

⁶⁶ Ynglŷn â cherdd 17, gw. y sylwadau rhagarweiniol arni.

gadw, wedi'r cwbl, ond ychydig o'i waith) a oedd yn byw mewn cyfnod lle yr oedd croestynnu rhwng gwahanol dueddiadau.

Dilysrwydd y cerddi

A! druan fawd lydan ledr (cerdd 12)⁶⁷

Priodolir y cywydd hwn i'r tafod i Iolo Goch yn y llawysgrifau⁶⁸, eithr da y dadleuodd Ifor Williams⁶⁹ ar bwys y cyfeiriadau ynddo at Euron, cariad Llywelyn ab y Moel, a Choed y Graig Lwyd na ddichon mai gwaith Iolo Goch ydyw, eithr yn hytrach mai i Lywelyn y dylid ei briodoli. Gellir ychwanegu mai adlewyrchiad o fywyd gerwin a pheryglus un ar herw a geir yn y gerdd hon, peth cwbl wahanol i'r bywyd cymharol ddiogel a chysurus a fwynhâi Iolo Goch.

Af i wledd Gwynedd ac Iâl

John Rowlands, 'A Critical Edition and Study of the Welsh Poems Written in Praise of the Salusburies of Llyweni' (D.Phil. Oxford, 1967–8), 121. Cywydd yn moli Tomas Salbri ap Tomas Salbri Hen ap Harri Salbri o Leweni. Fe'i priodolir yn BL Add 14866 [= RWM 29] i Lewys Môn neu Ddafydd ap Hywel ab Ieuan Fychan; yn Bodewryd 2 i Ddafydd ap Hywel ab Ieuan Fychan; yn Brog (y gyfres gyntaf) 2 a J 101 i Lywelyn ab y Moel; ac yn Pen 221 y mae'n ddiennw. Gan fod gwrthrych y gerdd yn perthyn i ail hanner y bymthegfed ganrif (bu farw yn 1505),⁷⁰ ni all fod yn waith Llywelyn ab y Moel. Ar y llaw arall, yr oedd Dafydd ap Hywel yn ei flodau, 'yn ôl pob tebyg', rhwng 1480 a 1510,⁷¹ a Lewys Môn rhwng c. 1480 a 1527.⁷²

Bwriais serch heb ei erchi (uchod cerdd 6)

Priodolir hwn yn yr holl lawysgrifau i Lywelyn ab y Moel ac fe'i cynhwyswyd ymysg ei gerddi eraill gan Ifor Williams.⁷³ Y mae mor debyg, fodd bynnag, o ran arddull, naws, delweddau, a chynganeddiad i gerddi 3, 4, 6 uchod gan Sypyn Cyfeiliog, ac mor wahanol i waith Llywelyn ab y Moel yn gyffredinol, fel y bernir mai gwaith Sypyn Cyfeiliog ydyw (ac nid efelychiad gan Lywelyn). Ymhellach, gw. uchod tt. 9, 59–60.

⁶⁷ *Mynegai i Farddoniaeth Gaeth y Llawysgrifau* (Y Bwrdd Gwybodau Celtaidd, 1978) a 'Mynegai Cyfrifiadurol y Llyfrgell Genedlaethol i Farddoniaeth Gaeth y Llawysgrifau' yn bennaf a ddefnyddiwyd yn yr arolwg hwn. Wrth ddyfynnu ll. gyntaf cerdd, dyfynnir o'i ffurf olygedig os yw'r gerdd wedi ei golygu.

⁶⁸ Yn Bangor 704, 45, c. 1800, fe'i priodolir i Ddafydd ap Gwilym ond gellir anwybyddu hynny.

⁶⁹ IGE² lxii.

⁷⁰ Gw. PACF 222 a W.J. Smith, *Calendar of Salusbury Correspondence* (Cardiff, 1954), 7.

⁷¹ ByCy 87.

⁷² *Ib.* 512. Nis cynhwyswyd yn GLM.

⁷³ *Ib.* 193–4 (LXIV).

Dafydd Llwyd a fedd y llys

R.I. Daniel, 'Cywydd Moliant a Brud i Ddafydd Llwyd ap Dafydd ab Einion o'r Drenewydd', *Dwned*, iii (1997), 53–61.⁷⁴ Digwydd mewn dwy lawysgrif, y naill yn gopi o'r llall, sef BL Add 14989 a BL Add 31071, a'i briodoli i Lywelyn ab y Moel. Y prif reswm dros wrthod y gerdd hon yw fod cyfnod Dafydd Llwyd,⁷⁵ a oedd yn ŵr o fri yng nghantref Cedewain yng nghanol y bymthegfed ganrif, braidd yn rhy ddiweddar i Lywelyn. Megis yn achos moliant Maredudd ab Ifan o Ystumcegid (gw. isod) hefyd, y mae patrwm y cynganeddiad yn wahanol i eiddo caneuon dilys Llywelyn gyda 53.33% o'r cynganeddion yn groes. Mwy arwyddocaol, efallai, yw cynnwys y gerdd, oherwydd yn wahanol i holl gerddi eraill Llywelyn ab y Moel, cywydd brud yw hwn a rhannau ohono'n dwyn ar gof gerddi darogan yr archfrudiwr hwnnw Dafydd Llwyd o Fathafarn.⁷⁶

Doe'r pryd hwn yr oeddwn i (cerdd 13)

Priodolir y cywydd i'r farf, yntau, i feirdd eraill ond nid i Lywelyn ab y Moel—i Iolo Goch yn bennaf ac yna i Rys Goch Eryri. Ond fel y dywed Ifor Williams,⁷⁷ gan mai cerdd yn ymwneud ag Euron yw hi, diau mai Llywelyn a'i piau; a'r un bersonoliaeth a'r un ffordd o fyw yn union a welir yn y gerdd hon ag yn honno i'r tafod. Y tebyg yw mai am i Iolo Goch a Rhys Goch Eryri hwythau ganu cywydd i'w barfau⁷⁸ y cambriodolwyd cywydd Llywelyn iddynt.

Haerllug ym mrwydr, naf hirllwyd (Atodiad)

Sef cywydd o foliant i Huw Sae o'r Trallwng. Fe'i priodolir yn yr holl lawysgrifau i Lywelyn ab y Moel. Fodd bynnag, yn wyneb hynodrwydd Llywelyn fel herwr yn ystod gwrthryfel Glyndŵr a theymgarwch cyson Huw Sae i'r Goron gydol ei oes, y mae'n anodd—hyd yn oed o gofio am yr holl bardynau a dderbyniodd llawer o'r gwrthryfelwyr (gan gynnwys rhai o'r ffyrnicaf, megis Harri Dwn)—peidio â rhannu amheuaeth Ifor Williams ynglŷn ag awduraeth y gerdd hon.⁷⁹ Dylid ychwanegu bod ei harddull yn symlach a'r brawddegau'n fyrrach nag a ganfyddir yng nghywyddau dilys y bardd, a gwelir ynddi ysbryd dof sy'n gwbl annodweddiadol o Lywelyn. Efallai, fel yr awgryma Ifor Williams yn betrusgar, mai tad Llywelyn, Moel

⁷⁴ Cyhoeddwyd testun yn unig o'r gerdd gan E.I. Rowlands, 'Moliant Dafydd Llwyd o'r Drenewydd a'i Ddisgynyddion', *LICy v* (1958–9), 176–7, 183.

⁷⁵ Arno, gw. *ByCy* 93–4; E.D. Jones, 'Some Fifteenth Century Welsh Poetry relating to Montgomeryshire', *Mont Coll liv* (1955–6), 48–64 *passim*; E.I. Rowlands, *art.cit.* 174–84 *passim*; P.C. Bartrum: *WG1* 'Elystan Glodrydd' 45.

⁷⁶ Gw. R.I. Daniel, *art.cit.* 54.

⁷⁷ *IGE*² 189–90 (LXII).

⁷⁸ *GIG* 105–6 (XXV) a *IGE*² 332–4 (CX).

⁷⁹ *IGE*² lix.

y Pantri, a'i piau. Efallai mai'r unig ffordd y gellid cysoni'r gerdd hon â theithi Llywelyn fyddai trwy ddal mai ymgais gynnar iawn ydyw pan nad oedd eto wedi cael ei draed dano fel bardd.⁸⁰

Pa wrol iôn, pur ei wledd

IGE² 200–2 (LXVII). Cywydd yn moli Maredudd ab Ifan o Ystumcegid. Fe'i cynhwyswyd gan Ifor Williams ymysg cerddi dilys Llywelyn ab y Moel eithr am yr un rhesymau ag yn achos moliant Huw Sae o'r Trallwng, amheua ei awduraeth.⁸¹ Rhydd y mwyafrif mawr o'r llawysgrifau y gerdd i Lawdden ond gan fod tystiolaeth fewnol y gerdd yn dangos mai 1414–21 oedd adeg ei chyfansoddi a'i fod yn credu mai 1450 oedd adeg blodeuo Llawdden, ni fedrai Ifor Williams ei phriodoli i'r bardd hwnnw. Mewn rhai llawysgrifau, fodd bynnag, gelwir Llawdden yn 'Llawdden Hen Brydydd'⁸² ac nid yw'n amhosibl, felly, nad ef, ac yntau'n ddyn ifanc, a ganodd y cywydd. Ni ellir gwadu ychwaith nad oes rhywbeth melodaid iawn yn y gerdd hon, peth sy'n gwbl nodweddiadol o Lawdden. Un peth arall sy'n gryf yn erbyn priodoli'r gerdd i Lywelyn ab y Moel yw ei chynganeddiad. Yng nghywyddau dilys Llywelyn, y gynghanedd sain sydd flaenaf gan amlaf gyda chanran gyfartalog o 36.9%, a'r gynghanedd groes yn ail gyda chanran gyfartalog o 32.3%.⁸³ Ym moliant Maredudd ab Ifan, ar y llaw arall, y mae cyfran y gynghanedd groes yn drawiadol uwch, sef 70.7% a'r sain heb fod ond 17.4%,⁸⁴ peth cwbl wahanol i'r sefyllfa yn y cerddi eraill. Pwy bynnag oedd piau'r gerdd hon, gellir dweud yn bur hyderus nad Llywelyn ydoedd.

Y marchog blodeuog blaid

IGE² 318–19 (CV), GHC 47–9 (XXVII). Cywydd moliant i Syr Gruffudd Fychan o Bowys. Fe'i priodolir i dri bardd gwahanol, sef Rhys Goch Eryri, Llywelyn ab y Moel, a Hywel Cilan. Fe'i cyhoeddwyd gan Ifor Williams fel rhan o waith Rhys Goch ond ymddengys mai Hywel Cilan oedd y gwir awdur.⁸⁵

Y llawysgrifau

Ceir y testun cynharaf o waith gan Lywelyn ab y Moel yn llawysgrif Pen 4 'Llyfr Gwyn Rhydderch' fel ychwanegiad gan law y gellir ei dyddio i

⁸⁰ Am bwynt a allai fod yn arwyddocaol, gw. 16.71n.

⁸¹ IGE² lviii–ix.

⁸² Llawdden, &c.: Gw xvi.

⁸³ Ni chynhwyswyd cerdd 17 (18 ll. o hyd) yn y cyfrifiad hwn gan fod rhannau ohoni yn annarllenadwy fel na ellir canfod y gynghanedd.

⁸⁴ Gw. GOLIM xiv. Yn *ib.* xii gwrthodir y gerdd fel gwaith Llywelyn ond ni ddywedir ar ba sail.

⁸⁵ Gw. GHC xxii–iii.

hanner cyntaf y bymthegfed ganrif. Perthyn yr holl lawysgrifau eraill i'r cyfnod rhwng yr unfed ganrif ar bymtheg a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg.

I'r bedlwyn

Y bedlwyn ir, bodlawn wyf,
 I'th goed rawd, a'th gadw'r ydwyf.
 Â dail hirddail a harddwyd,
 4 Yr haf, o mudaf, ym wyd.
 Glwys dy dwf, glas yw dy do,
 Gwastad tanad yw'r tyno,
 Siderog nen hwylbrenni,
 8 Syllty teg is allt wyt ti,
 Brig wydr belydr mabolaeth,
 Bob un sydd uniawn fel saeth,
 Caead ffawydd dyfiad ffyn,
 12 Cyntedd sylwedd ceseilwyn,
 Cyfrestr ball difwyallfarc,
 Cyrs dail ysbýrs dulas barc.
 Sudaidd iawn y'th osoded,
 16 Seiliau dail glwydau dôl gled,
 Gosodiad, nid treisiad train,
 Gwewyr goreuwyr Owain.
 Wrth edrych breinio'n wych bryd,
 20 Di-boen, cais fwrw dy benyd,
 Tebygach wyd, blymlwyd blas,
 I berth goeg anferth gynfas.
 Fo glyw glych dan dy wych wedd
 24 A fudai gynt, fedw gyntedd.
 Drwg fu'r gaeaf gorddu gwrdd,
 Fawr dew gap, fwrw dy gwpwrdd.
 Pla drwyddo, pleidiwr Eiddig!
 28 Peth a hawl i'th freiniawl frig?
 Cyd boed praff o unoed pris,
 Trwm yt oddef y trimis,
 Bydd, enaid gwýdd yn oed gwaisg,
 32 Lawen hyfryd lwyn hoywfraisg.
 Moel nid wyd, mil nid ydiw,
 Is allt yn aros gwallt gwiw.
 Pan ddél Gwyl Badrig ddigoll
 36 A'r ias oer, ni rewais oll,
 Yna rhyballa rhew bill
 O nen wybr anian Ebrill.

- 40 Awn ar fud i'r blaeneudir,
Yna cadeiria coed ir,
Yno caf, difeiaf dôn,
Yn dy glos aros Euron;
- 44 Tithau llwyn bedw gorhoenus,
Tew glwyd Mawrth, wyd myrr a thus,
A mynny, gweddeidd-dŷ gwiw,
Amod rhwydd â'm mydr heddiw.
- 48 Dinidr dy gariad ynof,
Diau yt gael, daed dy gof.
Dod arnaf, serchocaf swydd,
Dy lawn obr, deilia'n ebrwydd!

Ffynonellau

A—BL Add 31071, 19^r B—Card 2.114 [= RWM 7], 198 C—J 139 [= RWM 14], 375 D—Llst 54, 203^r E—Llst 120, 132 F—Pen 225, 169

Pur debyg i'w gilydd yw'r testunau, ac odid nad ydynt yn tarddu o'r un gynsail. Copi yw A, i bob golwg, o D a cheir perthynas agos rhwng D ac E. Codwyd amrywiadau o'r holl destunau ac eithrio A. (Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 211–19.)

Amrywiadau

3 B–E irddail; B–E arddwyd. 5 B–E dof. 6 B–E tynof. 5 D Glws. 7 B–E silderog. 11 F fawydd. 12 C seilwedd, DE cassylwedd. 14 C kūr; D ysbrys. 18 C gweywyr. 19 C brenniaü wüch brüd, D bryniaw yn wych [bryd]. 20 dŷ boen a llinell drwy goes yr y. 21 BE blwmlwyd, C blw lwyd, D blwmlwyd (cywiriad: blwmlayd), F blinlwyd. 24 BDEF gynt i fedw. 27 C eddig. 29 C bod; CDE [o]; C vnod. 30 BC oddaü. 31 D gwydd ynodd. 32 D llawer; D llwyn. 33 C moel ni wyd; DEF nyd ydwyd. 36 F [oer]. 37 DE rhyw bill. 39 D frud; C blaennüdir, D blaendir. 40 D yna caed eiria coedir. 41 BCD yno i kaf; D ddifeiaf. 42 D glas aras; B aeron (cywiriad: Euron mewn llaw arall), DE aeron. 43 D Hithau llwyn; C gorhwynüs, D gorphenus, F gorloyn[]. 45 BCE gweddeiddü, D gweiddeiddi. 46 C amod arwydd mydr, DE a modd rhwydd. 47 DE dineidr. 48 B–F dayet. 49 DE Dot; BF serchokka.

Teitl

B kowydd moliant ir fedwen, C kowfidd i ganmol i fedwen, E Ir fedwen.

Olnod

B–E llywelyn moel or pantri ai kant, F Llywelyn ap y moel y pantri.

Trefn y llinellau

B-E 1–50.

F [1–10], 11–50.

I frwydr Waun Gaseg

Da 'dd oeddem y dydd heddiw,
 Deulu rhwydd, ar dâl y rhiw,
 Arddyfrwys, pobl aur ddifreg,
 4 Yn cychwyn o fryd tyn teg
 Ar odde cael, arwydd cain,
 Mwya' chwedl am Owain.
 Gwneuthud, cyn pwlfryd apêl,
 8 Fwting cyn cyrchu'r fatel,
 Dodi'n hamcan ar rannu
 Proffid o lleddid y llu;
 Rhoi o bawb o ryw bybyr
 12 Eu cred, cyn gweled y gwŷr,
 Na chilyn', rhyglyddyn' glod,
 O'r maes fyth er ymosod.
 A ni felly gwedy gwawd
 16 Yn dadlau am enw didlawd,
 Nacha', gwelem o'n hemyl
 Ellwng i'n plith (chwith fu'r chwŷl)
 Ar hyd gorlechwedd rhedyn
 20 O feirch mwy no chanmeirch ynn,
 A chyda hwynt, pwynt apêl,
 Awchus leferydd uchel.
 Simwned eurged arwgainc
 24 (Sym brochwart ffromart o Ffrainc,
 Gên âb, yn canu tabwrdd)
 O glariwn uwch no gwn gwrdd.
 Nawd salw, anodus helynt,
 28 Ninnau, wedy'r geiriau gynt,
 Ni bu'n bryd ar hyd y rhos
 Yn yr aer unawr aros,
 Na phraw ar arf, llymdarf llam,
 32 Na phais oni ffoasam.
 Y llu a dducsem ar llid
 Yno'n aml yn ein ymlid,
 Traws yr oeddynt i'n trosi,
 36 Trosasant tros nawnant ni,
 Tresor gwŷr esgor Gaer Wysg,
 Trosiad geifr, trwsiad gofrwysg.

- 40 Twrn girad, traw i'n gorwyf,
Tost oedd ynn weled, tyst wyf,
Ar Waun Gaseg, wen gysellt,
Wewyr ein gwŷr yn y gwellt.
- 44 Minnau, rhagorau girad,
Mawntais a gefais o'r gad,
Cyrchu'n fuan anianol
Ceunant a mawrgant i'm ôl,
A phawb i'm dangos yn ffo
- 48 Dan fy adnabod yno.
Pŵl fydd ar lethr mynydd maith
Peiswen ŵr, anhapuswaith;
Wrth hyn, dyfyn diofwy,
- 52 Delwynt, pan ei mynnwynt, mwy,
Oerfel i mi o'm gwelant
A'r wen bais ar y Waun bant!

Ffynonellau

A—Bangor 704, 109 B—BL Add 14970, 152^r C—BL Add 31071, 11^r
D—Brog (y gyfres gyntaf) 2, 482^r E—J 101 [= RWM 17], 643 F—LIGC
13127A, 281 G—LIGC 16129D, 160 H—Llst 118, 186

Pur debyg i'w gilydd yw'r testunau a'r tebyg yw eu bod i gyd yn tarddu yn y pen draw o'r un ffynhonnell. Ymddengys fod C yn gopi o B, a chopi o D yw E. Tebyg yw F mewn manau i ABC ond cynnwys hefyd rai darlleniadau nas ceir yn yr un o'r testunau eraill. Codwyd amrywiadau o DFGH. Ceir llawer o draul ar linellau 32–44 o destun H, ond ni thynnwyd sylw at ddarlleniadau anghyflawn gan nad oes dim i awgrymu y buasai'r darlleniadau hynny'n wahanol i eiddo'r testun golygedig pe bai'n gyflawn. (Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 211–19.)

Amrywiadau

2 *G* Dau lu. 3 *D* pob; *F* awr. 6 *F* Mwyaf y chwedl. 7 *F* ympêl. 16 *F* dadlu; *D* dadlav duw, *G* dadlau enw. 19 *F* gorllechwedd. 20 *F* fwy. 21 *F* ym pêl. 27 *F* anwydus, *H* nadvs. 28 *F* gwedy'n. 37 *F* esgor gorwysg. 38 *F* geifr yriad. 39 *DGH* girad yw in. 40 *F* ein gweled. 41 *F* gasseg wern. 42 *F* Gwewyr. 49 *G* llethr. 50 *F* gwr. 53 *G* oerfel im mi om. 54 *DH* bais yn.

Teitl / Rhaglith

F Cywydd Brwydr y Waunbant Lle ffoes y Bardd o honi, *G* K. ir maes yr ymladdwyd yn y Wavn lle ir oedd y bardd yn milwrio.

Olnod

DFGH llywelyn moel y pantri ai kant.

I Goed y Graig Lwyd

- Rho Duw, Goed, rhydeg ydwyd,
 Y Graig, Llech Ysgar, grug Llwyd.
 Rhod o ddail, rhawd Wyddelig,
 4 Rhad Duw fry ar hyd dy frig!
 Rhestrog fagadog ydwyd,
 Rhysfa, gwarwyfa gwŷr wyd.
 Rhedynglos diddos dyddyn,
 8 Rhyfedd oedd, yr haf, i ddyn
 (Eurai latai ddiletyb)
 Allel bod hebod i'm tyb.
 Dy gaerau di a gerais
 12 Dan llaw i ransymiau Sais,
 Dy weuad ar dy wiail,
 Dy frynau, mydylau dail,
 Dy ogofau digyfyng,
 16 Dy ddiell gangell rhag yng,
 Dy bur osgedd, dy brysgoed
 I drais a rodiais erioed.
 Gwell o'r hanner no chlera
 20 I ddyn a chwenychai dda
 Dwyn Sais a'i ddiharneisio
 Dan dy frig, dien dy fro.
 Fy mharch diymgel, fy mhwys,
 24 Fy mhôr wyd, fy mharadwys,
 Fy mabsant a'm gwarant gwir
 A'm neuadd-dŷ a'm nodd-dir.
 Fel gwaith, hyder maith, ym wyd,
 28 Am ael rhiw y'm olrhewyd;
 Dinam faeth, da iawn ym fu
 Dy gael i'm diogelu:
 Yn befrglos diddos dudedd,
 32 Yn berth glaeac glynnnerth gled,
 Yn dyno glas i danadd,
 Yn dir mwyn ir a main nadd,
 Yn drwsiad y Tad dien,
 36 Yn dywyll bebyll uwchben,
 Yn ddiogel i'm gwely,
 Yn annhebyg dy frig fry

- 40 I dŷ taeog do tyweirch,
Diwael, wedy cael y ceirch.
Digrifach, deg arofun,
Oedd i fab arab a bun
Ar hynt ar ben yr hwntian
- 44 Orwedd ymysg irwydd mân
A gwrando, y gawr iawndeg,
Coeth lwys dôn cathl eos deg,
A tharfu llid a therfysg,
- 48 A thorri dail (uthr eu dysg!),
Ac edrych, befrddrych y byd,
Ar y sêr eres wryd:
Eres, bychan anianawl,
- 52 Ydoedd i mi oed dydd mawl!
A gwiw olwg y gwelwn
Gaerau'r rhiw o'r goror hwn,
Lle nid rhaid, llonaid rhedyn,
- 56 Llechu'r dydd, lle dichwerw dyn,
Lle dirffyrdd, lle diarffordd,
Lle'r nos ni thramwy llu'r Nordd.
Llydan sercl uwch y berclwyd,
- 60 Llundain gwerin Owain wyd,
Llwyn hirwydd yn llawn herwyr,
Lled no maes lleuad na mŷr.
Llwyr fendith i blith dy blaid,
- 64 Llawn dâl, llu Owain delaid,
Llwyr ystad, lloer ystodiau,
Llwyddid Duw'r llueiddiaid tau!

Ffynonellau

A—Bangor (Mos) 5, 65^r B—BL Add 10313, 125^r C—BL Add 14967 [= RWM 23], 112 D—BL Add 14978, 42^r E—BL Add 31071, 9^r F—Bodley Welsh e 2, 271 G—LIGC 428C, 67 H¹—LIGC 471B, 16^r H²—LIGC 471B, 16^r I—LIGC 1024D, 46 J—LIGC 3049D [= Mos 146], 144 K—LIGC 5269B, 212^r L—LIGC 6499B, 312 M—Pen 221, 181

Ymranna'r testunau'n ddau brif ddosbarth, sef ACDEGH¹IJKL a BFH², a'r ddau yn cynrychioli dau fersiwn gwahanol o'r gerdd y gellir eu galw yma yn fersiynau *f* a *β*. Gellir rhannu ACDEGH¹IJKL ymhellach yn ADIJL a CEGH¹K. Yn ADIJL tebyg iawn i'w gilydd yw AJ a hefyd DIL. Yn CEGH¹K gwelir tebygrwydd cryf rhwng CEK gydag H¹ yn gwahaniaethu mwy ac G yn gopi o C. Am BFH², cynseiliau gwahanol sydd i BH², ac ni chynnwys H² ond yr ugain llinell o'r fersiwn hwn, sef 11–12, 15–18, 41–4,

49–56, 61–2 yn y testun uchod, nas ceir yn y fersiwn arall. Tebyg iawn i'w gilydd yw BF. Nid oes modd gwybod ai i deulu ACDEGH¹I–L ai BFH² y mae M yn perthyn gan mai'r ddwy linell gyntaf ohoni yn unig sydd i'w cael. Codwyd amrywiadau o A–DFH¹H²I–L. (Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 211–19.)

Digwydd testun H² nid fel testun cyflawn o fersiwn β ond fel yr ugain ll. ohono nas ceir yn fersiwn f. Fe'u hychwanegwyd gan law arall wrth ymylon a godreon testun H¹.

Amrywiadau

2 CDKM Ar graic, IL O'r Graig; H¹ llochesgar; A–DFI–L lwyd. 3 ACDH¹I–L rwyd. 5 DIL bagadog. 6 IL Rydfa; AJ gwarevfa, DIL gweryddfa; BF gwar. 7 J dythyn. 8 AJ yw, H¹ wyd. 9 ACDH¹I–L A vai latai di letyb. 10 BF allell, CDH¹IKL Allu; ACDFH¹IJK om tyb. 11 B di Agorais. 12 H² llaw arian symiaw. 14 L Dyffrynau; ADJ vrynav dy dyrav dail, CH¹IK vrynav yn dyrav dail. 15 B ogafau. 16 H² ddichell. 17 B fur; B freisgoed. 19 AJ o lawer, D nor haner. 20 L o chwennychai; AJ chwenycho, H¹ chyidycho. 21 AH¹JK dwyn. 22 B diendw. 23 H¹ harch; AH¹J diogel, CDIKL diangol. 24 CIKL ydwyd; I Mheradwys. 25 K mabsant gwarant y gwir; DI gwarant. 26 ADH¹I–L vy nevadddy vy noddid, C vynevadd dy vynydd dy; BF nevadd=dai. 27 ACDH¹I–L llawer gwaith; BFL hydr, DI hvdr; BF mydr ym. 28 IL Awael Ryw; ACH¹I olrhevwyd, K olrenwyd, L oleurwyd. 29 DIL dynion faeth; D ian yn fo, IL iawn fu. 31 ACDI–L ber glos, H¹ dewglos. 32 ADIL glaer gyngerth, CH¹JK glayar gyngerth. 33 AJ dyno o ddiadanaf; DIL glas ddiadanadd, H¹ oi danadd. 34 AJ naf. 35 AJ drwsa da dien, CK drwsiad yn da di enn, D dyfiad vn da dien, H¹ drwssiad toead tien, IL Dyfied un da dien. 37 AK vyingwely. 38 H¹ dan frig. 39 J tow eiryh. 40 CDH¹IKL Gwael; K kael keirch; J keiryh. 41 H² warafvn. 43 BF o baen ar. 45 F gwrando gawr; ACDH¹JKL ogaer; I gae'r; AH¹J wendeg. 46 ACDI–L koethlais don, H¹ goeth lais don; J kathel; D kaeth le eos, H¹ gathl eos, I Caethle oes. 48 ACDH¹I–L dail athro dysc; BF vthr iw dysc. 51 BF bychan a manawl. 54 BF garv'r rhiw ar. 55 BF llowned. 56 BF lle chwery. 57 F llw dirffyrdd; AJ lladd dieirffyrdd llew, CDIK lladd dierffyrdd llew, H¹ llad orffwys llw, L Lladd diarffyrdd llew; BF diarffos. 58 BF llw'r Nordd nis llwyr dramwy'r nos. 59 A serkel yw dy berklwyd; BDFK vwch y serklwyd, CH¹IL vwch ysterklwyd, J ywch aberclwyd. 61 H² irwydd. 62 H² llevad am wyr. 63 ACDH¹IKL ymhlith ymlaid, J ymhelith ymhelhaid. 64 H¹ llwyn dail lle llawer; ACDIJKL llawen; K dda (*cywiriad*: ddal); C lle; ACDH¹IJ deiliaid; K ddeiliad. 65 ACDH¹I–L llwgwr; ACDH¹I–L lloegr, F Lloegr (*cywiriad*: lloer). 66 C llwydded; BF dw y lle iddaw, C tuw y lledded, D twv ir llvddied, H¹K tfiw y llvdded, IL tòn i'r llvdded.

Teitl / Rhaglith

B Mol. ir Coed y buasai'r Bardd yn ymguddio ynddo ac eraill hefyd yn

Amser Owain Glyndwr, *D* kowydd ir koed, *F* Cyw. mol. ir Coed y bvasai y Bardd yn ymgvddio ynddo ac eraill hefyd yn am [*sic*] Owain Glyndwr, *H²K* ir llwyn dail, *IL* Cywydd i'r Coed.

Olnod

A llywelyn ap moel y pan[], *BDF* Llewelyn Moel y Pantri, *C* lln ap y moel ai kant *ac* owain ap *rhwng* lln ap *ac* y moel *ond a llinell drwyddo*, *H¹* Llywelyn moel or pantri ai kant ir graig llochesgar, *IL* Llywelyn Moel y Pantri ai Cant, *J* Llywelyn ap moel ai Kant, *K* llewelyn ap y Moel ai Kant.

Trefn y llinellau

ADIJL 1–10, [11–12], 13–14, [15–18], 24, 23, 25–6, 29–40, [41–4], 19–22, 47–8, [49–56], 45–6, 27–8, 57–60, [61–2], 65–6, 63–4.

BF 1–66.

CEGH¹K 1–4, [5–6], 7–10, [11–12], 13–14, [15–18], 24, 23, 25–6, 29–40, [41–4], 19–22, 47–8, [49–56], 45–6, 27–8, 57–60, [61–2], 65–6, 63–4.

H² [1–10], 11–12, [13–14], 15–18, [19–40], 41–4, [45–8], 49–56, [57–60], 61–2, [63–6].

11
I'r pwrs

- 4 'Tydi, amner, tew dwymnyth,
ystred yngylion; *EG* draed o yngylion; *BL* draed, *J* trod; *AIPQ* roist, *EGJ* fofd, *L* wesd. 37 *JR* eūrai'r rhod; *AIOPOQ* Evrair, *B* drfai, *DEGN* eūraid, *K* eyrair; *AIKOPQ* od, *BL* fodd, *N* rhod; *BL* gampodd. 38 *D* [a]; *D* awyr. 39 *EG* fflamfyw; *AIQ* gorevlliw, *EG* gororyw, *P* gorvlliw. 40 *AIQ* beirdd, *B* bardd (*cywiriad*: bwrdd), *L* Bwrdd; *B* bwrdd (*cywiriad*: bardd), *L* bardd; *G* i gadair, *P* [y]. 41 *BL* blodevrdd y blaid, *EG* blodaü irwüdd blaid; *J* baid. 42 *E* hael; *BL* gwrthychel, *R* gorvwchel. 44 *L* gan dau. 45 *BL* wydde, *EG* weithiaü. 46 *EG* pün; *DEGKNO* lowrodd. 47 *G* on; *EG* bai ar wawd; *BL* parawd pvr. 48 *APQR* y pwrcaasai'r, *BL* a borkasai r, *DIKNO* i pwrkassai y, *E* y pwrkasswyd y, *G* i pwrkasswyd, *J* y pwrkaswr. 49 *M* a'r pryd angel y nelwch; *BL* ar pvm; *EG* hangel. 50 *B**DIKL*—*OQ* ar, *JR* ne'r; *B* pirian, *L* peirian, *M* pyrian. 51 *ABIPQ* vn, *EG* hen; *DJKNOR* a. 53 *M* Cyfryw rhodd. 54 *M* cafa gwiwdrwyiad gwaed. 55 *B**EGL* downgel, *DJR* downgoeth, *K* downgael, *O* diowngaël. 56 *EGKNO* py; *L* cyfarfyddwn; *D* llei gwn gerdd; *BKLOP* [o], *EJR* y, *G* i. 57 *N* orynaig. 59 *D* enbyd eryd oedd, *KO* enbyd aryd oedd; *E* ar hyd oed rhys, *G* er hüd yw oed rhüs. 60 *EG* [y]; *A* gwegys. 61 *N* brüd amod. 62 *E* gain fry, *G* gani frü; *E* ganol i fron, *G* genol i fron. 63 *EG* [Ac]; *I* y (*cywiriad*: y ond a chroes drwyddi), *R* [y]; *E* llid y llv, *G* llid i llü. 64 *EG* [A]. 65 *B* y ddraic; *BDEGJKNOR* kadr; *N* ddaradr ddyrys. 66 *BL* i rhiw, *M* i rhith. 67 *B* minav charevav chwant, *D* ninav chwarevaü chwant, *EG* minnaü yn chwaraü o chwant, *JLR* minaü chwareüaü chwant, *K* minav chwaray chwant, *N* ninav chwaraü chwant, *O* minav chwaraü (*cywiriad*: chwareav) chwant. 68 *EG* rhylywydd, *IQ* hylwyd. 69 *KO* rwng yrhyd. 71 *EG* myned drwy igein hynüs, *JR* myned y rhwy mwynys; *B* rhwygem ynys; *AIQ* mynwys, *DKNO* mwynys. 72 *G* rhof i a. 73 *BL* Nid oedd dda gerdd morfa mon; *G* nid ta hirlla; *DJN* nid a; *I* da (*cywiriad*: a). 74 *BL* dw gwyr, *N* gwyd gaer; *L* golli'r gwaed. 75 *EG* eithr tro rhyw athro trwch; *I* eith; *DJKNOR* [rhag]; *R* drwch. 76 *E* rrydd a da. 77 *DJKNOR* dey well ywr chwedel a dderyw, *EG* deü well ywr chwedl deüryw, *BL* gwell or haner i deryw. 78 *EG* gwern i feilch; *L* gwr. 79 *P* [A]; *EG* rhy; *ADEGIJKN*—*R* gwyr, *B* gwyr (*cywiriad*: cerdd), *M* beirdd. 80 *K* argwlwyddi. 82 *A* mawrhad, *BL* moled, *EG* mawr hoed; *AIPQ* bam; *BL* mal hyd. 83 *B* yw, *M* a; *M* didwrdd. 84 *M* yth; *E* farchag. 85 *B* ac nid a chwareva chwant, *D* ag nid a chwarea chwant, *E* ag ni da o chwira chwant, *G* ag ni da o chwira chant, *JR* ag nid af chwareüaf chwant, *KO* ag nid a chwaria chwant, *L* ag nid a chwareufa chwant, *N* ag nid a chwerwa chwant. 86 *BL* oi lwyr; *A* foddiant. 87 *BL* hval, *DN* hval, *EG* hael, *JR* hūawl; *EG* [y]; *B* gler a hoew lew, *L* gler a hoywlyw; *EG* hoywliw a glan; *DN* hoywliw, *L* hoywlyw. 89 *AIPQ* doeth ith; *EG* bemwnt. 90 *L* Yny'r gân ym Morganwg.

Teitl

A Atteb Llywelyn ap y Moel, *E* llyma ir kowydd vchod, *I* Atteb ir kowydd or blaen, *L* Cywydd. Atteb i roi'r Gwregys, *O* Cyw: diolch am y gwregys, *P*

kowydd ateb y kowydd vchod, *Q* Atteb llywelyn ap Moel.

Olnod

APQ Llewelyn ap y moel: ai kant, *B* llywelyn moel ai kant, *EGN* llywelyn moel or pantri ai kant, *I* Llewelyn ap y moel ai kant, *J* llywelyn moel y pantri, *K* llywelyn moel pantri ai kant, *LO* Llywelyn Moel y Pantri ai cant, *M* llywelyn moel o'r pantri, *R* Llywelyn Moel y pantri.

Trefn y llinellau

ADIJKN-R 1–12, [13–14], 15–20, [21–2], 23–42, [43–4], 45–52, [53–4], 55–90.

B 1–20, [21–2], 23–62, 71–2, 63–70, 73–90.

EG 1–12, [13–14], 15–20, [21–2], 23–42, [43–4], 45–52, [53–4], 55–60, [61–2], 63–90.

L 1–62, [63–4], 65–90.

I Fair ac Iesu

- 4 Ys da ferch a ordderchodd,
Merch Anna Mair
Cael mab Ei arabedd
Ebryn ai . . .
A'r Mab o'r hil bwygilydd
I'n cas yn lludd . . .
- 8 Beichiog fu'i fam heb achos,
Bucheddol . . .
Baran Gair Duw a beris
Y bolyo ywr . . .
All . . a blin gyfeillach
12 . . lys y bu . . .
- 16 Mab Mair ddewisgrair ddwysgred
A gafas
Wrth Ei ddangos a'i osod
Ar bren croes
Weldyna fab da i dad
Pan Ei rhoes dros bumoes byd.

*Ffynhonnell*Pen 4, 29^r*Olnod*

llewelyn moel ai kant.

Atodiad

Moliant Huw Sae o'r Trallwng

Haerllug ym mrwydr, naf hirllwyd,
Huw Sae, didrahäus wyd;
Huodl ddieiddil filwr,
4 Haeddy dy garu, deg wr;
A'th faswedd yng nghyfeddach,
A'th foesau tirion, iôn iach,
8 A'th bwyll didwyll ond odid,
A'th arfer, Olifer lid.
Aeth yt air ffraeth hyd dir Ffrainc,
Gwir yw, capten gwyr ieuainc;
Egin deg yw, ac nid aeth
12 Heb ei ennil, hoyw bennaeth.
Tydi elwir, o wir ward,
Eryr sawdwyr oes Edward,
Pen hyddgant, blaen gwarant gyrch,
16 Post dewrdorf hydr pais durdyrch.
Dur dy grys, ymwys amwar,
Drud y darparud â'r pâr,
Cleisiog farch, trig ar frigawns,
20 Clais eurfydr i dan wydr dawns.
Da y gwn, ym Duw ac ynni,
Moddau dy gyneddfau di:
Caru'r gwir o'r cywira',
24 Casáu ar dwyll, cysur da,
Casáu'r anwir, cysurna',
Ceisio'r dysg er cysur da,
Caru d'arglwydd hylwyddynt,
28 Caru ei enw hoff, cywrain hynt;
Caredig fu'r llafnddur llym,
Caru gwyr ieuainc hoywrym.
Calennig imp, calon gwalch,
32 Cleudrin wst, cledr yn ustalch,
Llewgad wr, llygad eryr,
Llafur braisg, llywiwr gwaisg gwyr,
Trachwerw goel, trychwr gelyn,
36 Traws blaid i'r gweiniaid, iôr gwyn,

- 40 Dragwn durarf yn arfaes,
Dewr, drud, a mud yn y maes.
Diwyd feistr ym, gwiwrym gwych,
Wyd di, Huw, oed deheuwyd,
A bardd dichwith i chwithau,
Berw didawl, wyf o'r mawl mau.
44 Mair hael i'th gadw, 'r mur hoywlyw,
Marchog aerwyog o ryw.
Llawrodd elw, llariaidd Alun,
Llaw Dduw i'ch cadw, Huw, ei hun!

Ffynonellau

A—BL Add 14901, 12^r B—BL Add 31071, 7^r C—Bodewryd 1, 315 D—Brog (y gyfres gyntaf) 2, 483^v E—CM 12, 443 F—J 101 [= RWM 17], 645 G—Llst 133, 116 H—Pen 100, 365

Ymranna'r testunau yn bedwar grŵp: AEGH, B, C a DF. Copi yw F o D, syrth C rhwng AEGH a DF, a chymysgedd o'r darlleniadau a geir yn y testunau eraill yw B. Codwyd amrywiadau o ACDEGH. (Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 211–19.)

Amrywiadau

1 ACEGH haerllyg ym wyd naf. 3 A hüdol (*cywiriad*: hüodl), G Hudol. 4 ACDEGH haeddv; C i garv. 11 A Egni teg ag nid yw waeth, CEH egni deg ag nid yw waeth, D egni deg ag nid aeth, G Egin teg ac nid yw waeth. 13 G wir waed. 16 CD post ar dorf; G durdrych. 18 C darparyd (*cywiriad*: darparud); E y pâr. 19 C kleisiog farchog frigawns (*cywiriad*: kleisiog farch trig ar frigawns *mewn llaw arall*), D kleisiog farchog frigawns; E Gleisiog. 20 CD evrfydr dan. 21 E [y]; C myn dûw, D nyn dûw. 22 A maddaü. 23 CD ar; ACDGH cywiraf. 24 D kassav'r dwyll; ACDH daf. 25 AC kysûrnaf, E cysura, G cysur nâf, H cyssurnaf (*cywiriad*: cussurna). 26 AC daf. 33 A llengad. 35 E [goel]. 36 D tros blaid y. 41 A ich chwithaü. 42 ADEG [wyf]. 43 CD gadw. 46 G Duw; C a'ch.

Teitl

A Co: hugh sae or Trallwngc, CGH k: i hûw sae or trallwng, E Cywydd i Huw Sae o'r Trallwng. Ll.M.P.

Olnod

ACDEGH llewelyn moel y pantri ai kant.

Trefn y llinellau

ACEH 1–46.

D 1–24, [25–6], 27–46.

G 1–23, 25, 24, 26–46.

Nodiadau

8

Yn y cywydd hwn¹ sylla'r bardd ar fedlwyn noethlwm mewn rhyw *flaeneudir* (ll. 39) yng nghanol oerni mis Mawrth (gw. ll. 44n), gan ddyheu am yr haf pan fydd yn dwyn dail unwaith eto ac yn lle addas iddo ef a'i gariad Euron gyfarfod (gw. ll. 42n). Dyma gyfuno dwy thema a oedd yn gyffredin iawn yng nghanu serch a natur y cyfnod, sef y llwyn yn y coed fel man cyfarfod i gariadon, a diflastod gwirioneddol y gaeaf a'r gwanwyn cynnar o'i wrthyferbynnu â hoen a llawenydd yr haf. Ond clywir hefyd isleisiau eraill sy'n rhoi gwedd fwy difrifol i'r gerdd pan gyffelyba'r bardd y coed bedw i *wewyr goreuwyr Owain* (ll. 18) ac i *blymlwyd blas* (ll. 21), cyfeiriadau sy'n dangos ei fod yn gyfarwydd â golygfeydd rhyfel onid yn rhyfelwr ei hun.² Tebyg yw'r hoffter a ddengys Llywelyn at y bedlwyn i'w fawl i Goed y Graig Lwyd (cerdd 11) ond nid oes unrhyw dystiolaeth yn y gerdd mai mewn cwr o'r coed hwnnw yr oedd y bedlwyn.

Yn y gerdd hon cyfeirir at ŵr o'r enw 'Owain' (ll. 18), felly hefyd yn 'I frwydr Waun Gaseg' (9.6); yn 'I Goed y Graig Lwyd' cyfeirir at *werin a llu Owain* (10.60, 64). Sylwer mai mewn cyswllt milwrol y digwydd yr enw ym mhob achos. Ymataliodd Ifor Williams rhag uniaethu'r Owain hwn ag Owain Glyndŵr,³ ond os 1395–1400 oedd adeg geni Llywelyn, 'y mae', fel y dywed Mr Cledwyn Fychan, 'siawns ... y byddai'n ddigon hen i fod wedi cymryd rhan weithredol o blaid Owain Glyndŵr yn ystod blynyddoedd olaf y gwrthryfel—1410–15, dyweder—a thrwy hynny gyfiawnhau ei alw'n *bronfraith Owain* gan Guto'r Glyn yn ei farwnad adnabyddus iddo.'⁴ Diddorol hefyd, er na ellir dibynnu arni, yw'r rhaglith i destun llawysgrif F (canol yr 17g.) o 'I Goed y Graig Lwyd' (cerdd 11) *Cyw. mol. ir Coed y bvasai y Bardd yn ymgvddio ynddo ac eraill hefyd yn am[ser] Owain Glyndwr* (gw. uchod a cf. hefyd raglith llsg. B yno). Nid oes anhawster, felly, i dderbyn mai Owain Glyndŵr yw 'Owain' Llywelyn ab y Moel, a

¹ Fe'i golygwyd gan I. Williams yn IGE² 189–90 ar sail testun llsg. DEF (gw. IGE *ib.* 191–2). Ceir cywydd i'r fedwen gan Ruffudd ab Adda ap Dafydd yntau yn DGG² 113–15 (LXV).

² Cf. IGE² lxi, 'Hyd yn oed wrth ddisgrifio llwyn bedw ... ni fedr Llywelyn ei ddyfalu heb ei gymharu i wewyr goreuwyr "Owain"'.
³ *ib.* lix.

⁴ Cledwyn Fychan, 'Llywelyn ab y Moel a'r Canolbarth', LICy xv (1984–8), 289. Am gyfeiriad Guto'r Glyn, gw. GGI² 15 (V.35).

chymerir hyn yn ganiataol bellach.

O ran amseriad y gerdd, y mae'n deg tybio ar bwys y cyfeiriad at Owain mai rhywbryd rhwng tua 1410, yr adeg gynharaf y gellid disgwyl i Lywelyn ab y Moel fod yn filwr, ac adeg marw Owain tua 1416 y canwyd hi.

- 1 **bedlwyn** Clwstwr o goed bedw yn hytrach na bedwen unigol a olygir.
- 2 **a'th gadw** Er mwyn dychwelyd yno yn yr haf.
- 3 **hirddail ... harddwyd** Llsgrau. *irddail ... arddwyd*. Gall *arddwyd* fod yn ffurf ar y f. *arddu* 'aredig' neu *garddu* 'dirwasgu, gwringhellu, ysigo, briwo; cyffroi, ysgwyd, crynu; tuchan, grillio', GPC 1381, ond nid yw ystyr y cyntaf yn gweddu ac am yr ail, gan mai meddwl am gyflwr y dail pan fyddant ar eu newydd wedd yn yr haf y mae'r bardd, ymddengys ystyron hwn hefyd yn amhriodol. Diwygiwyd *irddail* yntau er mwyn cael gwell cytseinedd â *harddwyd* a rhydd y diwygiad gystal synnwyr. Er na cheir *hirddail* a *harddwyd* yn yr un o'r llsgrau., eto odid nad ydynt i gyd yn tarddu o'r un gynsail (gw. uchod) lle y gellid yn hawdd fod wedi hepgor *h*.
- 4 **o mudaf** Hynny yw, os symuda o'i drigfan i'r bedlwyn.
- 7 **hwylbrenni** Cyfeirir at goed unigol y bedlwyn.
- 8 **syllty** IGE² 423 'siop' (o *swllt* a *tŷ*), ond gallai olygu 'trysordy' hefyd, gw. D lle y ceir '*fiscus, gazophylacium*'. Cf. y ffordd y defnyddia Dafydd ap Gwilym *swllt* 'trysor' am ferch, GDG³ 141 (52.39–40) *Swllt hoywfardd, syll di hefyd / Maint fu drugaredd, fy myd, ib.* 153 (57.9–10) *Fy swllt tan futres ellyydd, / Fy serch ar hon fwyfwy sydd*.
- 9 **brig wydr** Deellir hwn yn gyfansoddair llac 'gloyw eu brig', cf. GGI² 106 (XL.1) *Y llwyn gwyrdr yn Llangedwyn*.
pelydr IGE² 420 '*stems*'.
- mabolaeth** Ai cyfeiriad at ieuengrwydd y coed neu'r bardd sydd yma?
- 10 Cynghanedd braidd gyffwrdd, er y gellid hefyd ei hystyried yn draws wreiddgoll, cf. ll. 35.
- 11 **ffawydd dyfiad** Deellir hwn yn gyfansoddair llac 'o dyfiad ffawydd'. Gellid hefyd ddodi coma ar ôl *ffawydd* a deall *dyfiad ffyn* yn sangiad ond i'r un fan y deuai hynny.
- 12 **ceseilwyn** Cyfeiriad yw *gwyn* at liw'r fedwen.
- 14 **ysbŷrs** Ar deipysgrif heb ei golygu ar gyfer GPC cynigir mai ll. *ysbŷr* ydyw, sef benthyciad o'r S. *spur*. Cyfeiria yma at y 'brigynnau'.
- 17 **treisiad** IGE² 424, yn betrus, 'treisiwr'. Gallai *treisiad* olygu 'treisiwr, gorthrechwr, gŵr traws', gw. GLIL1 340, ond ymddengys, yn wyneb *gosodiad* sy'n cyfateb yn amlwg iddo, mai'r terfyniad yn dynodi gweithred yw *-iad* yma—'gweithred o drais'.

- train** Benthyciad o'r S. *train*, yn ôl teipysgrif heb ei golygu ar gyfer GPC.
- 18 **gwewyr** Nid 'poen, ing', ond 'gwaywffyn', ll. *gwayw*, gw. GPC 1606 a cf. hefyd 9.42. Y tebyg yw fod Llywelyn yn synio am goed fel gwaywffyn yn 10.13 hefyd (gw. *ib.n*).
- Owain** Owain Glyndŵr, gw. y sylwadau rhagarweiniol uchod.
- 19 **breinio'n wych bryd** Cyfeiriad at yr harddwch a fydd yn dod i'r llwyn maes o law.
- 20 **penyd** Noethni a llymder presennol y llwyn.
- 21 **plymlwyd blas** Hynny yw, yr oedd golwg megis ar ôl brwydr ar y lle.
- 22 **perth goeg anferth gynfas** IGE² 370 'llwyn tywyll a chynfas hagr arni'.
- 23 **clyw** Y goddrych yw *perth* yn y ll. flaenorol.
clych Amrywiol seiniau hygryw yr haf, fe ymddengys.
- 24 **a fudai** Hynny yw, a oedd wedi mynd ac felly ddistewi.
- 25 **bu'r** Cywasgiad o *bu i'r*.
- 26 **mawr dew gap** Sef eira'r gaeaf.
bwrw dy gwpwrdd Gwagio'r cwpwrdd, hynny yw, y mae'r bedlwyn yn amddifad o bob moeth a thlyzni (sef ei dail).
- 27 **pleidiwr Eiddig** Cyfeirir at y gaeaf, sydd yn nhyb y bardd yn bleidiwr i Eiddig am ei fod yn dinoethi'r bedlwyn o'i ddail, gan beri nad oes lloches i'r cariadon.
- 28 **peth** Cywasgiad o 'pa beth'.
- 29 'Er mai mawr, oherwydd un cyfnod, yw'r gwerth'. Ar *praff* ynglŷn â phris, cf. GLGC 362 (163.55–6) *Mae'r ail, myn Mair, i Elis, / â'r we yn braff o'r un bris*. Yn IGE² 190 dodir coma ar ôl *boed* a'i gydio wrth *trist* yn y ll. nesaf gan adael sangiad chwithig ei gystrawen, *praff o unoed pris*.
- 30 **y trimis** Misoedd y gaeaf neu fisoedd y gwanwyn.
- 33 **mil** A ddylid darllen *mul* 'trist' (gw. GPC 2501)?
- 34 **gwallt** Cf. disgrifiad Dafydd ap Gwilym o'r fedwen haf, GDG³ 70 (24.13–14), *Gweled mor hardd, mi chwarddaf, / Gwallt ar ben hoyw fedwen haf*.
- 35 **Gŵyl Badrig** 17 Mawrth. Gw. hefyd ll. 44n.
digoll Hynny yw, yn ddi-feth, gw. GPC 998.
- 37 **pill** Gw. GDG³ 494.
- 39 **blaeneudir** Fel y dengys llau. 41–2, yno yr oedd y bedlwyn.
Nid oes cynghanedd yn y ll. hon.

- 42 **Euron** Cariad Llywelyn ab y Moel. Cyfeirir ati hefyd yn 12.49, 13.3, 16.62, 70, ac ymddengys oddi wrth gyfeiriad Guto'r Glyn ati yn ei farwnad i Llywelyn, GGI² 15 (V.31–2), mai merch o Fôn ydoedd.
- 43 Sylwer ar y gynghanedd lusg rhwng *llwyn a gorhoenus*. Yr oedd y deuseiniaid *wy* ac *oe* yn ymdebygu ac ymgyfnewid yn y cyfnod, gw. GMW 4, ond anghyffredin, er hynny, yw eu hodli mewn cynghanedd lusg.
- 44 **Mawrth** Ymddengys mai dyma'r adeg y canodd y bardd y cywydd. Os felly, dengys ll. 35 mai cyn 17 Mawrth y bu hynny.
- 46–50 Ystyr y llau. hyn yw fod y bardd yn gwneud amod â'r bedlwyn heddiw trwy ganu cerdd iddo, fel y bydd y bedlwyn, sy'n fawr ei gariad ato ac yn cofio'i rodd, yn deilio'n gynnar iddo yn yr haf.
- 46 **mydr** Â gyda *diau yt gael* yn ll. 48.
- 47 Deellir y ll. yn gyfarchiad (yn cyfeirio at y bedlwyn) yn hytrach na brawddeg enwol.
- 48 **daed** Gradd gyfartal *da*, yma'n ffurf unsill.

9

Yn y cywydd hwn¹ disgrifia'r bardd gyrch seithug a thrychinebus a wnaeth ef ac eraill pan oeddynt allan ar y bryniau yn disgwyl *Mwya' chwedl am Owain* (ll. 6), sef Owain Glyndŵr yn ôl pob tebyg (gw. sylwadau rhagarweiniol cerdd 8). Trechwyd hwy'n llwyr gan fyddin Seisnig o Frynbuga (*Caer Wysg*, ll. 37) a ffoes y bardd nerth ei draed o'r gyflafan. Y mae'n bosibl mai ergyd y geiriau *Mwya' chwedl am Owain* yw bod y fintai yn disgwyl i Lyndŵr ymuno â hwy i'w helpu, ond gan na ddaeth, efallai mai dyna sut y collasant y dydd.

Da y galwodd Ifor Williams y gerdd yn 'gywydd eithriadol'.² Fel disgrifiad o frwydr gan lygad-dyst a fu yn ei chanol y mae hi'n dra anghyffredin a'r cymar agosaf iddi yw'r cywydd hwnnw gan Fadog ap Gronw Gethin, a gyfansoddwyd hefyd, ym marn Dr Dafydd Huw Evans, yn ystod gwrthryfel Glyndŵr,³ lle y disgrifir achlysur pryd y gorlifodd Afon Dyfrdwy ei glannau gan rwystro byddin o Saeson dan arweiniad rhywun o'r enw 'Montgomery' rhag ei chroesi ac ymosod ar Faelor Gymraeg.⁴ Diddorol hefyd yw'r cyfeiriad yn llinell 15 at ganu *gwawd* cyn mynd i'r gad.

Ymladdwyd y frwydr mewn man a elwir *Waun Gaseg* (ll. 41). Yr oedd tri lle o'r enw hwn, un yn Llanbadog ger Brynbuga, un arall yn Aber-carn,

¹ Fe'i golygwyd gan I. Williams yn IGE² 191–2 ar sail testun llsgrau. EH (gw. IGE 192).

² *Ib.* lix.

³ D.H. Evans, 'An Incident on the River Dee during the Glyn Dŵr Rebellion?', TCHSDd xxxvii (1988), 14.

⁴ *Ib.* 8–12.

hefyd ym Mynwy, a'r trydydd yng Nghwm-hir ym Maesyfed.⁵ Y mae Dr Enid Roberts wedi dadlau mai'r safle yn Llanbadog a olygir yma oherwydd cred mai disgrifiad yw'r gerdd o frwydr bryn y Pwll Melyn, 1405, pryd yr arweiniodd Gruffudd, mab hynaf Glyndŵr, lu yn erbyn castell Brynbuga a chael ei drechu gan y Saeson, a erlidiodd y Cymry dros Afon Wysg.⁶ Ond yn ogystal â gwthio adeg geni Llywelyn ab y Moel o 1395–1400 (gw. uchod tt. 77–8) i 1385–90,⁷ pair y ddadl hon ofyn dau gwestiwn amlwg: pam y lleolir brwydr y gerdd yn Waun Gaseg, nid ar fryn y Pwll Melyn? A pham nad oes unrhyw sôn yn y gerdd am Ruffudd, yr arweinydd? Beth bynnag am hynny, y mae'n llawer mwy tebygol nad Waun Gaseg Llanbadog a olygir o gwbl, oherwydd, fel y mae Mr Cledwyn Fychan wedi dadlau,⁸ cyfetyb holl nodweddion daearyddol Waun Gaseg a grybwyllir yn y gerdd—[*t*]âl y rhiv (ll. 2), *gorlechweidd rhedyn* (ll. 19), *rhos* (ll. 29), *ceunant* (ll. 46), a [*t*]lethr mynydd maith (ll. 49)—yn burion i lecyn o'r enw ym mlaen Cwmcyncoed, ryw filltir i'r gogledd o Abaty Cwm-hir. Ynglŷn â phresenoldeb milwyr Brynbuga, gellir priodoli hyn i'r posibilrwydd eu bod wedi eu gosod yn y fynachlog gan y Saeson i gadw'r heddwch ym Maelienydd yn ystod gwrthryfel Glyndŵr, yr un modd ag y defnyddiodd brenin Lloegr fynachlog Ystrad-fflur fel gorsaf filwrol i'r un diben,⁹ ac nid yw'r ffaith fod Mr Cledwyn Fychan yn amseru'r gerdd ar ôl marw Glyndŵr (gw. isod) yn effeithio ar ddilysrwydd y ddadl. Nid effeithia ychwaith ar ei awgrym mai ymosod ar Abaty Cwm-hir oedd bwriad Llywelyn a'r milwyr eraill.

Parthed amseriad y gerdd, dengys y geiriau *Ar odde cael ... / Mwy a' chwedl am Owain* (llau. 5–6) fod y milwyr yn gwybod, neu o'r hyn lleiaf yn credu, fod Owain yn fyw, ac y mae'n deg tybio, felly, megis yn achos y gerdd flaenorol, mai rhywbryd rhwng tua 1410 a thua 1416 y canwyd hi.¹⁰ Awgryma'r geiriau [*t*]eulu rhwydd (ll. 2) ac *Arddyfrwys, pobl aur ddifreg* (ll. 3) fod y fintai Gymreig yn uned filitaraidd drefnedig a dichon felly y dylid amseru'r gerdd yn nes i 1410, pryd yr oedd efallai fwy o drefn yn gyffredinol ar filwyr Owain, nag i 1416. Ymddengys fod Mr Cledwyn Fychan yn amseru'r gerdd tua 1421,¹¹ ond yn wyneb y cyfeiriad at Owain bernir mai rhy ddiweddar yw'r dyddiad hwnnw.

⁵ Enid Roberts, 'Uchelwyr y Beirdd', TCHSDd xxiv (1975), 72.

⁶ *L.c.* Gw. hefyd J.E. Lloyd, *Owen Glendower*, (Oxford, 1931), 96, 152.

⁷ E. Roberts, *art.cit.* 73 a gw. uchod tt. 77–8 am drafodaeth am ddyddiadau Llywelyn ab y Moel.

⁸ Cledwyn Fychan, 'Llywelyn ab y Moel a'r Canolbarth', LICy xv (1984–8), 292.

⁹ *L.c.*; gw. hefyd J.E. Lloyd, *op.cit.* 43, 142.

¹⁰ Heblaw amseriad Dr Enid Roberts ar gyfer y gerdd, dylid crybwyll hefyd eiddo E. Rolant, GOLIM xii, sy'n credu mai yn ystod gwrthryfel Glyndŵr y canwyd y gerdd, a D.H. Evans, *art.cit.* 5n6, mai efallai tua 1420 y canwyd hi.

¹¹ Cledwyn Fychan, *art.cit.* 289, 292–3.

- 2 **tâl y rhiw** Gw. y sylwadau rhagarweiniol uchod.
- 6 **chwedl ... Owain** Gw. y sylwadau rhagarweiniol uchod. Sylwer bod y ll. yn rhy fyr o sillaf oni chyfrifir *chwedl* yn ddeusill (gthg. 12.83).
- 7 **gwneuthud** 'Ffur arall ar *gwneuthur*, a roes *gwneud* yn iaith heddiw', IGE² 370.
- pwlfryd** Ai *pŵl* er mwyn osgoi cweryla ar ôl ennill yr ysbail y gobeithid ei chael (gw. y cwpled nesaf)? Digwydd y gair *pŵl* drachefn yn ll. 49.
- apêl** 'Cwyn, achwyn', gw. GDG³ 474, yn hytrach nag 'erfyniad, deisyfiad, ymbil' megis yn GPC 172. Benthyciad yw o'r S.C. *apele*, gw. GPC *l.c.*
- 8 **mwting** Benthyciad o'r S.C. *muting*, GPC 2514.
- batel** Benthyciad o'r S.C. *batayle*, GPC 264.
- 11 **pawb o ryw bybyr** 'Pawb o [rai] pybyr eu natur'.
- 12 **gwÿr** Sef milwyr y gelyn.
- 15 **gwedy gwawd** Ar ôl canu cân i godi ysbryd y milwyr. Dwg hyn ar gof un o ddyletswyddau'r bardd teulu Cymraeg a ddisgrifir yn y Cyfreithiau, sef canu i fintai cyn iddi fynd allan i ysbeilio neu i frwydro, gw., e.e., LIB 22.21–5 *Os bard teulu a gan bardoni y gyt a theulu y brenhin vrth dwyn anreith, y llwdyn goreu o'r anreith a geiff; ac or byd darpar ymlad arnunt, canet y canu a elwir 'Vnbeinyaeth Prydein' racdunt*. Dichon, yn yr achos hwn, mai Llywelyn ab y Moel ei hun a ganodd y gân. Yn ôl J.E.C. Williams, *The Poets of the Princes* (Cardiff, 1994), 12, y mae'n bosibl fod cyfeiriad at yr arfer yn Llyfr Taliesin ond eiddo Llywelyn ab y Moel yw'r unig un diamheuol ynglŷn â'r Cymry y gwyddys amdano, er bod arferion tebyg, wrth gwrs, ymysg cenedloedd eraill, gw., e.e., GIG 85 (XX.37–40) *A'th helm lwys, a thalm o lu / I'th ôl ar feirch, a theulu, / A cherdd o'th flaen o raen rwyf, / A chrydr ar belydr balwyf* (i Rosier Mortimer).
- 16 **am enw** Ni cheir y darlleniad *â'n Duw* a welir yn IGE² 16 yn yr un o'r llsgrau. ac ni rydd gystal synnwyr.
- 19 **gorlechwedd rhedyn** Gw. y sylwadau rhagarweiniol uchod.
- 21 **pwynt apêl** Ar *apêl*, gw. ll. 7n. Ystyr *pwynt apêl* yw 'grounds for complaint or appeal', gw. GPC 2951, hefyd GDG³ 474, a cf. *ib.* 95 (34.3–4) *Ni bu ag wynt, pwynt apêl, / Un organ mor annirgel*.
- 22 **awchus leferydd** Rhyfelgri'r Saeson wrth iddynt ddod ar warthaf y Cymry.
- 23 **simwned** Ni wyddys am enghraifft arall o'r ffurf a'r un yw darlleniad yr holl lsgrau. Yn IGE² 422 ni wneir ond ei nodi yn yr eirfa (gydag *s-*fach). Cynigir mai benthyciad ydyw o un o amrywiol ffurfiau'r f. S.C.

sommen ('*summon*') yn yr ystyr 'gorchymyn', gw. MED S.10, 160, a'r terfyniad amhrs.grff. *-ed* (gw. GMW 126). Yn *Registrum vulgariter nuncupatum* '*The Record of Carnarvon*', ed. H. Ellis (London, 1838), 88, rhestrir *Ieuan ap Dafydd ap Symonet*.

eurbed Gellir ei ddeall yn a. yn golygu 'gwyh o fanteisiol / gynorthwyol' yn cyfeirio at y braw a achosodd *garwgainc* y gelyn i'r gwrthryfelwyr.

- 24 **brochwart** Y tebyg yw mai ystyr ddiifrïol sydd iddo yma. Daw'r ail elfen *gart* o'r S.C. *ward* neu *garde*, EEW 73. Cf. S. *badger-ward*.

ffromart Benthyciad o'r S.C. *frommard*, GPC 1317.

Ffrainc Dichon nad yw hwn i'w ddeall yn llythrennol, ond os ydyw, Ffrancwr neu Norman oedd y milwr a dichon fod eraill o'r fath yn y fyddin.

- 25 **gên âb** Yn IGE² lix, 370, deallir hwn yn gyfeiriad at ganwr y clariwn, ond tabwrdd oedd offeryn y milwr â gên epa ac ni ddywedir pwy a ganodd y clariwn.

tabwrdd Benthyciad o'r Ffr. *tabour*, IGE² 423. Fe'i cenid fel rheol i gyfeiliant pib neu drwmped, ond i gyfeiliant clariwn yma.

- 26 **clariwn** Benthyciad o'r S.C. *claryoun(e)*, GPC 490.

gwn Benthyciad o'r S.C. *gunne*, *gonne*, *ib.* 1687.

- 27 **nawd** 'Perthynas, teulu' yn ôl IGE² 419, a gw. I. Williams, 'Nodiadau Ieithyddol', Beirn vi (1916), 275–6. Dichon fod hyn yn wir, ond byddai'r ystyr 'natur, anianawd', yn cyfeirio at y fintai, yr un mor briodol. (Llai sicr yw'r ystyr gyntaf na'r ail, gw. GPC 2556 d.g. *nawd*¹.)

- 29 **bu'n** Cywasgiad o *bu ein*.

rhos Gw. y sylwadau rhagarweiniol uchod.

- 33 **ducsem ar llid** Ni cheir y darlleniad *dducsen*' a roddir yn IGE² 192 (ll. 5) yn yr un o'r llsgrau. Â *dwyn ar llid*, cf. ymadroddion megis *dwyn ar gof*, *dwyn ar ddeall*, &c., gw. GPC 1130; ac ar galediad *-r l-* yn *-r ll-*, gw. Treigladau 385.

- 37 **Caer Wysg** Brynbuga.

- 38 **trwsiad gofrwysg** Cyfeirir at y Saeson yn eu lifrai milwrol yn ymlid y Cymry yn llawen. Ar *trwsiad* 'gwisg', gw. GDG³ 603 a cf. 10.35 isod. Gthg. yr ystyr yn 16.54.

- 39 **twrn** 'Tro', o'r S. *turn*, EEW 162.

traw Yn F yn unig, sy'n llsgr. ddiweddar, y ceir y darlleniad hwn rhagor *yw* y lleill, ond fel y dywedir yn IGE² 371 (lle na ddefnyddiwyd llsgr. F), dengys y gynghanedd y dylid darllen rhywbeth fel *draw i'n gorwyf*, a gwell o ran cytseinedd a synnwyr yw *traw*. Ar *traw* 'ergyd',

cf. GGD^T 7.28 *Neud traw eu treisiaw am eu trosedd* (Gwilym Ddu o Arfon).

gorwyf Gw. IGE² 371 a GPC 1507 d.g. *gorwyf*² lle yr awgrymir yn betrus mai 'balchder, rhyfyg, gormodedd' yw'r ystyr (o *go-* + *rhwyf*).

41 **Gwaun Gaseg** Gw. y sylwadau rhagarweiniol uchod.

gwen gysellt 'Gorweddaï baich o waywffyn gwynion ar y gwelltglas heb waed ar yr un', IGE² 371. Gwahanol yw ystyr *cysellt* yn 15.7, gw. *ib.n.*

42 **gwewyr** Dichon mai 'gwaywffyn' yw'r ystyr yma, cf. 8.18n, ond gallai hefyd olygu 'ing'.

43 **rhagorau girad** Sylwer ar y gwrtheiriad a cf. 15.10 *mawl hagr*, 17.1 *da ferch a ordderchodd*.

44 **mawntais** Benthyciad o'r S. *vantage*, gw. GPC 2345 (d.g. *mantais*).

46 **ceunant** Gw. y sylwadau rhagarweiniol uchod.

mawrgant Y mae'n debyg mai *cant* 'torf, llu, mintai' yw'r ail elfen, gw. GPC 418 d.g. *cant*³.

47 **pawb i'm dangos** Cyfeiria *pawb* at y Saeson, ystyr *i'm* yw 'yn fy', a bron na ellid deall *dangos* i olygu 'pwytio at'.

48 Hynny yw, gwyddent pwy oedd y gŵr yn y ceunant.

49–54 Ergyd y llau. hyn yw pe bai'r Saeson yn dychwelyd wedyn i edrych am y bardd, na fyddai ef mor hurt (*pw̃l*, ll. 49) â bod ar gyfyl y lle. Ar *pw̃l*, cf. hefyd l.7n.

49 **llethr mynydd maith** Gw. y sylwadau rhagarweiniol uchod.

50 **peiswen** Cymherir hwn yn IGE² 371 â ll. 54 *gwen bais* a gofynnir ai gwyn oedd lifrai milwyr Owain; ond dichon hefyd mai arwyddocâd *gwen*, megis yn ll. 41 *gwen gysellt*, yw 'di-staen, di-waed'.

51 **dyfyn diofwy** Hynny yw, ni fyddai'r bardd yno i'r gelyn ymweld ag ef (*diofwy*) pe gorchmynnid iddynt (*dyfyn*) wneud hynny. Achubir y blaen ar l. 53.

52 **ei** 'Ef' (sef Llywelyn), ffurf sillafog y rh. mewmol ar ôl *pan*, gw. GMW 56. Digwydd hefyd yn 17.18.

mwy Cydier wrth *delwynt*, nid *mynnwynt*.

53 **oerfel i mi** 'Melltith arnaf!', gw. IGE² 371, GPC 2626. Diau mai ymffrostio yn ei allu i osgoi'r gelyn y mae'r bardd yn y ll. hon a'r nesaf yn hytrach na mynegi ei ofn ohonynt.

54 **Waun bant** Y tebyg yw mai pant ar Waun Gaseg (cf. ll. 19 *Ar hyd gorlechwedd rhedyn*) a olygir wrth *waun bant* y llsgrau. yn hytrach nag enw lle, oherwydd enwyd maes y gad eisoes yn ll. 41 a chwithig fyddai defnyddio'r un enw am lecyn gwahanol yn yr un cyffiniau wedyn ar

ddiwedd y gerdd. Cf hefyd y rhaglith i lsg. G, *K. ir maes yr ymladdwyd yn y Wavn lle ir oedd y bardd yn milwrio* (y tebyg yw mai camddehongli gan gopiwr sydd y tu ôl i raglith llsgr. F *Cywydd Brwydr y Waunbant Lle ffoes y Bardd o honi*). Cred Mr Cledwyn Fychan, 'Llywelyn ab y Moel a'r Canolbarth', LICY xv (1984–8), 293, y gall mai enw gweundir tua dwy filltir i'r de o Abaty Cwm-hir ger y ffin rhwng cantrefi Gwerthrynion a Maelienydd oedd y Waun bant, ac awgryma'n betrus mai arwyddocâd llau. 53–4 yw na feiddiai Llywelyn ddangos ei wyneb ar oror Maelienydd i Gymry eraill wedi ei ymddygiad ar Waun Gaseg. Ond llawer mwy cyson â chynnwys a thenor y gerdd yw cymryd *mynwynt a gwelant* llau. 52–3 i olygu'r bobl a grybwyllwyd eisoes, sef y gelyn, yn hytrach na charfan newydd nas enwir, ac nid ystyria Mr Fychan y posibilrwydd mai nodwedd ddaearyddol yw *Waun bant*.

10

Ceir dau fersiwn gwahanol o'r gerdd hon, un a gynrychiolir gan lawysgrifau ACDEGH¹I–M a'r llall gan lawysgrifau BFH² a gelwir hwy yma o ran hwylustod yn fersiynau *f* a β .¹ Golygwyd *f* eisoes gan I. Williams² ond ni olygwyd β o'r blaen, ac nid oedd yn hysbys iddo. Y mae β yn hwy o ugain llinell nag *f* a threfn ei linellau yn wahanol iawn o linell 11 ymlaen. Oni bai mai'r bardd ei hun a oedd yn gyfrifol am y gwahaniaeth rhyngddynt, bernir mai β yw'r fersiwn gwreiddiol, a bod *f* yn gwtogiad diweddarach ohono, er nad yw darlenniadau β yn rhagori bob amser ar eiddo *f*. Fel darn o farddoniaeth, y mae β yn fwy boddhaol ac yn ddyfnach ei hapêl nag *f*; y mae hefyd yn cynnwys cyfeiriadau hunangofiannol newydd (e.e. llau. 17–18, 51–2).

Cân yw'r cywydd hwn i ddiogelwch gwyllt Coed y Graig Lwyd lle yr oedd y bardd, a llawer o rai eraill, ar herw ar y pryd. Craig Llanymynech (S. *Crickheath Hill*) ger pentref Llanymynech, ychydig i'r de o Groesoswallt ar y ffin â Lloegr, yw'r Graig y cyfeirir ati,³ ac yr oedd gynt, megis Carreg y Gwalch (Nanconwy), Ysbyty Ifan, Cefn Digoll (y Trallwng), Gwern-y-gof (Ceri), Cwmystwyth a Mawddwy, ac ati, yn guddfan enwog i herwyr.⁴ Dywed Dr Enid Roberts am y cuddfannau hyn a'r mân uchelwyr a'u defnyddiai ym mhumdegau'r bymthegfed ganrif i ddianc rhag y gyfraith, 'Yno gallent fyw'n gwbl ddiogel a chyfforddus; byddai digon o gyffelyb

¹ Gw. uchod ar y ffynonellau.

² IGE² 198–9.

³ Fel y mae Dr Enid Roberts wedi dangos y tu hwnt i bob amheuaeth yn 'Uchelwyr y Beirdd', TCHSDd (1975), 72.

⁴ *Id.*, 'Dafydd Llwyd o Fathafam a'i Gefndir', Traeth xxxiii (1965), 53. Ar yr herwyr, gw. hefyd R. Richards, *Cymru'r Oesau Canol* (Wrecsam, 1933), 342–6.

fryd a gwaed yn gefn iddynt',⁵ a hawdd cymhwyso'r geiriau hyn at Lywelyn ab y Moel sy'n gwynfydu uwchben cadernid a rhyfeddodau'r fangre, yn ei disgrifio fel [*L*]twyn hirwydd yn llawn herwyr (ll. 61), ac a oedd â pherthnasau yn yr ardal.⁶ Rhydd y cyfeiriadau yn llinellau 60 a 64 at *werin Owain a llu Owain delaid* (sef Owain Glyndŵr, yn ôl pob tebyg, gw. sylwadau rhagarweiniol cerddi 8 a 9) bob lle i gredu mai fel un a oedd yn ymladd ar ochr Glyndŵr yr oedd Llywelyn yn aros yn y Coed ar y pryd.

Yn ei chymysgedd rhyfedd o ryfelgarwch, natur, a serch y mae'r gerdd yn dwyn ar gof orhoffeddau Gwalchmai ap Meilyr a Hywel ab Owain Gwynedd,⁷ ac y mae osgo'r bardd at Goed y Graig Lwyd a'i ddisgrifiad ohoni yn atgoffa dyn mewn manau o gywydd moliant Tudur Penllyn i Ddafydd ap Siancyn, a gadwodd ddyffryn Conwy i'r Lancastriaid, pan oedd ar herw yng Ngharreg y Gwalch.⁸

Amsera Dr Roberts y gerdd yn betrus yn y flwyddyn 1403 oherwydd credu ei bod, ynghyd â'r cywydd 'I'r pwrs', yn ffurfio rhan o ddilyniant amseryddol sy'n cyfateb i ddigwyddiadau hanesyddol neilltuol.⁹ Sylwa ar y sôn yn y cywydd 'I'r Pwrs' am symud i'r de a Maelienydd (11.55–60) ac ar hysbysiad yn y cronicl o hanes Owain Glyndŵr iddo yn 1403 (1402, mewn gwirionedd¹⁰) godi gyda llu mawr o Wynedd, Powys, a Deheubarth a chyrchu Maelienydd.¹¹ Sylwa Dr Roberts wedyn ar y llinell *Llu'r nos ni thramwy llu'r Nordd* yn 'I Goed y Graig Lwyd' (ll. 58) a gofyn ai cyfeiriad sydd yma at frwydr Amwythig, 1403,¹² rhwng gwŷr gogledd Lloegr dan arweiniad Henry Percy, Iarll Northumberland, a'r tywysog Harri, oherwydd ni ddaeth Glyndŵr i gynorthwyo Percy a byddai Coed y Graig Lwyd yn lle addas felly i'w ddilynwyr ymguddio rhag llid gwŷr y Nordd. Yn ôl y ddadl hon, felly, fe adawodd Llywelyn ab y Moel y Graig Lwyd i ymuno ag Owain Glyndŵr a'i luoedd ar eu ffordd i Faelienydd, dychwelyd i ogledd-ddwyrain Cymru neu'r gororau gerllaw, ac yn olaf ailymweld â Choed y Graig Lwyd. Fodd bynnag, heblaw bod yr amseriad hwn, drachefn, megis yn achos 'I frwydr Waun Gaseg', yn golygu gwthio adeg geni Llywelyn ab y Moel yn ôl ddeng mlynedd, os darllenir y cywydd 'I'r pwrs' yn ofalus, fe welir mai *ar ôl* cyfansoddi'r cywydd 'I Goed y Graig Lwyd' y

⁵ E. Roberts, *Dafydd Llwyd o Fathafarn* (Caernarfon, 1981), 11.

⁶ E. Roberts, *art.cit.* 73.

⁷ GMB cerdd 9 a GLIF cerdd 6.

⁸ GTP 3–4 (I). Cf. hefyd ymddiddan Dafydd Gorlech â'r Wyddfa, GDGOR 6.1–16. Am rai enghreifftiau eraill o gywyddau herwrol, gw. GTP 4–6 (cerdd 2) a D.H. Evans, 'Coffâd i Herwr o Gantref Arwystli', YB xxiii (1997), 133–63.

⁹ E. Roberts, *art.cit.* 72.

¹⁰ J.E. Lloyd, *Owen Glendower* (Oxford, 1931), 147; yr achlysur oedd brwydr Bryn Glas. Nid ymddengys i'r Dr Roberts sylwi mai yn 1402, nid 1403, y bu hyn oherwydd dywed, *art.cit.* 73, am adeg geni Llywelyn ab y Moel, 'Pe cynigid 1385–90 byddai'n ddigon hen i fod ar herw yn 1403, ac i lunio cywydd.'

¹¹ J.E. Lloyd, *op.cit.* 151.

¹² E. Roberts, *art.cit.* 69–70.

cyfansoddwyd hwn, nid o'i flaen.¹³ Nid oes sail, gan hynny, i gysylltu'r ddau gywydd yn amseryddol i ddigwyddiadau mawr 1402 a 1403, ac y mae modd esbonio'r cyfeiriadau ynddynt yn amgen (gw. ll. 58n a sylwadau rhagarweiniol cerdd 11). Y mae'n fwy tebygol, yn hytrach, ar sail y cyfeiriadau at *werin Owain* a *llu Owain* (llau. 60, 64) mai tua'r un cyfnod â'r cywyddau 'I'r bedlwyn' ac 'I frwydr Waun Gaseg', sef rhwng oddeutu 1410 ac oddeutu 1416 y canwyd hwn hefyd, 'neu'n ddigon buan', chwedl Mr Cledwyn Fychan, 'wedi marw'r Tywysog [sef Owain] i herwyr y Graig Lwyd fod yn parhau i gael eu hadnabod fel dilynwyr neu "werin Owain"'. Er hynny, yr argraff a geir o ddarllen y gerdd yw fod y bardd yn ymladdwr mwy profiadol na ffoadur cywydd brwydr Waun Gaseg ac odid nad yw hi'n ddiweddarach na'r cywydd hwnnw, ac yn ddiweddarach na'r cywydd i'r bedlwyn hefyd.¹⁴

1 **rho Duw** 'Rhof (rhyngof) a Duw', llw cyffredin, gw. GDG³ 599, GPC 3109.

1–2 **Coed ... / Y Graig ... Llwyd** Sef Craig Llanymynech, gw. y sylwadau rhagarweiniol uchod. Cyfeirir ati hefyd yn 11.26 a 12.54. Sonia Dafydd Gorlech am y lle mewn cywydd brud, GDGor 4.27–8 *Hyd y du dân rhag annwyd / Ac eira a glaw o'r Graig Lwyd*.

2 **Llech Ysgar** Dyma oedd enw un o lysoedd y tywysog Madog ap Maredudd ym Mhowys y canodd Cynddelw Brydydd Mawr iddo tua chanol y 12g., ac ymddengys mai'r un lle ydoedd â'r Graig Lwyd, gw. GCBM i, 2.4n. Cyfeirir ato yn GMB 7.50 (Gwalchmai ap Meilyr) a GBF 52.16 (Bleddyn Fardd). Yn ôl G 489 y gair *esgar / ysgar* 'gelyn, estron, dieithr' yw'r ail elfen, ond tybed hefyd nad y f. *ysgar* 'ysgaru, gwahanu, rhyddhau' ydyw?

3 **Gwyddelig** Yn yr ystyr 'gwyllt', gw. GPC 1755. Cf. 12.65 *Gwyddel*.

6 **rhysfa** Derbynnir yr ystyr 'amddiffynfa' a gynigir ar gyfer yr enghraifft hon yn IGE² 422.

7 Cf. ll. 31 [*p*]efrglos *diddos duded*.

8 **oedd** 'Byddai', sef ffurf amhff.myn. mewn ystyr amodol, gw. GMW 110; felly hefyd 13.35, 16.59.

9 **eurai** Cymerir mai'r bardd yw'r goddrych. Meddylia am Goed y Graig Lwyd fel cariad ffyddlon iddo gan ddweud y byddai'n anfon llatai ato'n

¹³ Y llau. perthnasol yw 10.23–40. Y tebyg yw mai'r cwpled olaf *Gado, ac ymdaro di / Y Graig rhag ofn dy grogi!* yw sail barn Dr Roberts, ond gellir yn hawdd ei ddehongli i olygu 'paid â mynd yno eto'.

¹⁴ Heblaw amseriad Dr Roberts a Mr Cledwyn Fychan, dylid crybwyll hefyd eiddo E. Rolant, GOLIM xii, sy'n credu mai yn ystod gwrthryfel Glyndŵr neu'r 'cyfnod dilynol ... pryd yr oedd o hyd lawer o anhrefn yng Nghymru' y canwyd y gerdd, a D.H. Evans, *art.cit.* 5 (n6), mai efallai oddeutu 1420 y'i canwyd.

hyderus pe bai'n cael ei wahanu oddi wrtho yn yr haf.

- 11 **caerau** Felly hefyd l. 54. Y tebyg yw mai amddiffynfeydd naturiol y Graig Lwyd a'i hamgylchedd a olygir. Cf. cywydd moliant Tudur Penllyn i'r herwr Dafydd ap Siancyn, GTP 3 (I.5–8) *Cryfder a chrafanc Siancyn*, / *Caregog lys, craig y glyn*; / *Dy gastell ydyw'r gelli*, / *Derw dôl yw dy dyrau di*.
- 12 **dan llaw** Cf., e.e., WM col. 416 (llau. 3–5) *yny oed ym odôrd a gogan arnað dan lað gan dylôwyth y llys*; a gw. TW lle y rhestrir yr ymadrodd dan y geiriau *celatim*, *clam*, *clanculum*.
- ransymiaw Sais** Gw. hefyd lau. 19–21, a cf. R.R. Davies, *The Revolt of Owain Glyndŵr* (Oxford, 1995), 233, 'Kidnapping and ransoms, rather than killing or imprisonment, were high on the rebels' agenda and were deliberately and extensively employed as a means of raising that rarest of commodities in Welsh rural society, ready cash.' Ymhellach ar y f., o'r e. *ranswm* sydd yn fenthyciad o'r S.C. *ransom*, *ransoun*, gw. GPC 2974.
- 13 **gwaiail** Ymddengys fod Llywelyn yn meddwl am goed fel gwaywffyn eto yn yr un ffordd ag y geilw'r bedlwyn yn 8.18 yn *Gwewyr goreuwyr Owain*.
- 16 **cangell** Trosiad eglwysig; cf. y disgrifiad o'r bedlwyn fel *cassylwedd* (sef 'casulwedd') yn yr amrywiadau 8.12 *ceseilwyn*.
- 19–22 Gw. ll. 12n.
- 23 **pwys** Awgrymir yn betrus yn IGE² 421 mai 'priod' yw'r ystyr, a byddai hynny'n gweddu'n dda i'r cyd-destun. Cf. y termau *gŵr pwys* a *gwraig bwys* am ŵr neu wraig briod, gw. GPC 1695, 1699. Os felly, dygir ar gof y ffordd y byddai'r beirdd yn cyfeirio at eu noddwyr weithiau fel eu priod; gw. BaTh 157–8 a W.A. Bebb, *Machlud yr Oesoedd Canol* (Abertawe, 1951), 39.
- 27 Seiliwyd darlleniad y ll. hon yn betrus ar *llawer gwaith hyder maith ym wyd* a geir yn llsgrau. ACH¹JK (fersiwn f) a *fal gwaith hydr mydr ym wyd* yn BF (fersiwn ß). Annodweddiadol yw'r cyntaf o gynganeddu Llywelyn gyda'r is-odl rhwng *llawer* a *hyder*, a rhy hir o sillaf. Am yr ail, anfoddfaol braidd yw'r ystyr ac y mae'n rhy fyr o sillaf.
- gwaith** Efallai mai 'caer, amddiffynfa' a olygir, gw. GPC 153.
- 28 **am ael** Y tebyg yw mai 'bro, cymdogaeth' yw ystyr *ael* yma, gw. *ib.* 36. Ceir yr ymadrodd *am ael* yn GLGC 51 (16.136) *Aed iarll i'w dai am ael mis Mai* yn yr ystyr 'about' ynglŷn ag amser, gw. GPC *l.c.*, ond ymddengys mai ystyr leol sydd iddo yma.
- olrhewyd** Cf. 11.55–6 *Awn i le ni'n olrhëir / Ein dau parth â'r deau dir*. Yn y ddau achos cyfeirir at elynion.

- 31 Cf. ll. 7 *Rhedynglos diddos dyddyn*.
- 32 **glynnerth** Fe'i deellir yn fôn y f. *glynu* a *nerth* 'yn cydlynu'n gryf'. Ar beidio â threiglo a. weithiau pan ddêl yn union ar ôl yr orffwysfa, gw. Treigladau 55n *et passim*.
- 34 **main nadd** Carreg galch yw Craig Llanymynech a thebyg yw ei harwyneb i resi lawer o feini mawr sgwâr neu onglog ar bennau ei gilydd. Dichon felly mai wyneb y graig a olygir—neu'n hytrach, gan mai ynghyd â *thir mwyn* yn yr un ll. y sonnir am y meini, y darnau o'r Graig sydd wedi disgyn oddi arni dros yr oesoedd ac a welir yn gorwedd ar y llawr yma ac acw.
- 35 **trwsiad** 'Gwisg', gw. 9.38n.
- 36 **pebyll** Y tebyg yw mai 'mantell, clogyn' (yn drosiadol) a olygir, gw. GPC 2663, lle y gwelir mai ffurf unigol oedd *pebyll* yn wreiddiol.
- 39 **tŷ taelog do tyweirch** Gellid deall y treiglad yn *to* yn effaith sangu, ond gan mai ar nen y coed a nen tŷ taelog y mae'r pwyslais, haws deall *tŷ taelog* yn uned enwol yn dibynnu ar *to tyweirch*, hynny yw, 'to tyweirch tŷ taelog'. Ar gynnwys y ll., cf. GDG³ 107 (39.8) *Teg blas, nid tŷ taelog blwng, ib.* 315 (119.9–10) *Nid tam o ginio amaeth, / Nid fal ynyd ciglyd caeth*. Diau mai dirmyg uchelwr at rengoedd is cymdeithas a geir yma; gwelir yr un agwedd yn 10.49 *Llafuria, bygythia gaith*. Gw. hefyd H.M. Edwards, *Dafydd ap Gwilym: Influences and Analogues* (Oxford, 1996), 59–61.
- 40 **diwael** Cyfeirir at frig y coed.
- ceirch** Sef bara ceirch, gw. ymhellach W.A. Bebb, *op.cit.* 19–20.
- 41 **teg arofun** Ceir yr un ymadrodd yn IGE² 319 (llau. 9–10) *Da gŵyr ef, deg arofun, / Oreuro gwisg eryr gwyn* (awdur ansicr).
- 48 **torri dail** Nid yw'n eglur at beth y cyfeirir, ond y tebyg yw mai ymadrodd talfyredig sydd yma am dorri dail yn wely neu'n wâl ar gyfer y cariadon. Cf. GDG³ 130 (48.9–12) *Py ddrwg i riain feinael / Yng nghoed tywyll dew fy nghael? / Nid oedd gywilydd iddi / Yng ngwâl dail fy ngweled i, ib.* 228 (83.49–50) *Llun ein gwâl dan wial da, / Lle briwddail fal llwybr Adda*; I. Williams, 'Trystan ac Esyllt', B v (1929–31), 116, *Yn y kyfamser yr aeth trysdan ap trallwch ag esyllt gwraig briod march ap meirchion ar herw i goed kylyddon ... a gwely o ddail a wnaethbwyd iddnt*. Posibilrwydd arall, ond un llai tebygol efallai, yw mai'r arfer o dorri dail yn dorch a olygir; cf., e.e., GDG³ 88 (31.1–4) *Anfon a wnaeth rhieinferch / I Fadog, orseddog serch, / Dodrefn cariad hyd adref, / Do dail ir, da y dyl y ef*, a gw. H.M. Edwards, *op.cit.* 95.
- uthr eu dysg** Darlleniad llsgrau. BF yw *vthr iw dysc*, ac eiddo'r gweddill yw *athro dysc*. Heb ddiwygio, gellid darllen *uthr yw dysg* a'i ddeall yn sangiad ar ôl *dail*, ond llac iawn felly fyddai'r cyswllt

rhyngddo a *torri dail*. Yr un modd, gellid darllen *athro dysg* a'i ddeall mewn cyfodiad â *dail*, darlleniad sy'n rhoi gwell synnwyr. Ni raid, fodd bynnag, ond wrth gam bychan i ddiwygio *iw* yn *eu* a chael darlleniad gwell.

dysg Y 'ddysg' a ddaw o dorri'r dail. Bron na ellir ei ddeall i olygu 'profiad' neu 'wers'. Defnyddia Llywelyn y gair drachefn yng nghydestun caru yn 13.21–2, *A'r farf gneifedig, ddig ddysg, / Crin gorbedw fal croen garwbysg*.

- 49 **pefrddrych** Achuba'r blaen ar y *sêr eres wryd* yn y ll. nesaf gyda *pefr* yn cyfeirio at eu disgleiriad. Ar *drych* yn yr ystyr 'llun, ffurf', gw. GPC 1091.
- 51 **bychan anianawl** Llsgr. B *bychan a manawl*, ond nid yw'n gystal darlleniad, a'r tebyg yw mai ymgais ydyw i 'gywiro' y gynghanedd lusk am fod *an-* yn *anianawl* rhwng y ddwy odl. Cf. 9.45 *Cyrchu'n fuan anianol*. Gellir tybio mai'r rheswm y disgrifia'r bardd fel hyn ei *oed dydd mawl* (ll. 52), sef ei oed yn Nghoed y Graig Lwyd â'i gariad (?Euron), oedd y galwadau arno fel milwr.
- 52 Mae *-d-* yn ateb *-d d-* yma.
- 53 **a gwiw olwg** Gwrthrych *gwelwn* yn y safle pwysleisiedig—'yn olygfa wiw y gwelwn ... '. Gellid hefyd ddeall *â gwiw olwg*, ond llai tebygol yw hynny.
- 54 **goror** Efallai mai 'ochr, ffin' a olygir, gw. GPC 1494 a cf. yr hyn a ddywed E. Roberts, *Dafydd Llwyd o Fathafarn* (Caernarfon, 1981), 9, sef mai lleoedd ffiniol oedd cuddfannau'r herwyr rhwng dau awdurdod, rhwng arglwyddiaeth ac arglwyddiaeth, neu rhwng arglwyddiaeth a sir, fel y gallai'r herwyr groesi'n hawdd o diriogaeth lle y cawsent eu herlyn i un arall a oedd yn annibynnol arni. Ar y llaw arall, gall na olygir fawr mwy na 'cwr'.
- 55 Cynghanedd groes ond gydag odl rhwng *rhaid ... llonaid*.
llonaid rhedyn Cf. cywydd Lewys Glyn Cothi i Faredudd ap Maredudd o Drefeglwys pan oedd ar herw lle y sonia amdano'i hun yn *llechu yng ngrug Cwmbuga*, GLGC 418 (191.27).
- 56 Twyll gynghanedd *d*.
- 57 **dirffyrdd** Deallir hwn yn gyfuniad o *dir* yn yr ystyr 'caledi', gw. GPC 1030, a *ffyrdd*. Yr ystyr yw fod y ffyrdd yn anodd i'r gelyn eu tramwyo, cf. y ll. nesaf.
diarffordd Llsgrau. BF *diarffos*, gair anh. Gellid ei ddeall yn gyfuniad o *di* ac *arffos* (cf. *di-arffordd*, *di-arfor*) 'heb fod yn ymyl ffos', cyfeiriad at gadernid naturiol Coed y Graig Lwyd. Os felly, rhaid dilyn darlleniad BF yn y ll. nesaf hefyd er mwyn cael odl ag *-os*, ond ni welwyd enghraifft arall o *arffos*.

- 58 Gellir ystyried hefyd ddarlleniad llsgrau. BF *llu'r Nordd nis llwyr dramwy'r nos* (ond gw. hefyd y nodyn blaenorol), er mai mwy boddhaol at ei gilydd yw darlleniad y llsgrau. eraill.
- llu'r Nordd** Gw. y sylwadau rhagarweiniol uchod. Diau nad oedd Llywelyn ond yn lleisio hen agwedd gyffredin ymysg y Cymry at y bobl hyn. Chwedl E.D. Jones, *Beirdd y Bymthegfed Ganrif a'u Cefndir* (Aberystwyth, 1984), 16, 'O'r Saeson oll y gwaethaf [gan y Cymry] oedd gwŷr y Nordd, trigolion y tu uchaf i afon Drent, ac yn hyn o beth fe gytunai Saeson de-ddwyrain Lloegr â'r beirdd.' Cf. hefyd y dyfyniad o *The History of the University of Oxford*, i, ed. J.I. Catto (Oxford, 1984), 186, a drafodir gan R.G. Gruffydd yn *The Celts and the Renaissance*, ed. G. Williams & R.O. Jones (Cardiff, 1990), 18.
- 59 **Llydan sercl uwch y berclwyd** Cf. GDG³ 301 (114.57–8) *Mawr yw'r sercl yt o berclwyd, / Â bwa a llaw mor bell wyd* (am yr ehedydd). Deallir *sercl* yn *ib.* 530 i olygu 'cylch y ffurfafen', a'r tebyg yw mai'r un yw'r ystyr yma hefyd. Am y *berclwyd*, y *serklwyd* a geir yn llsgrau. BDFH²K, *dy berklwyd* yn A, *ysterklwyd* yn CH¹IL, ac *aberclwyd* yn J. Nid yw y *serclwyd* yn ddarlleniad boddhaol iawn gan ei fod yn ailadrodd *sercl*, ac ni chafwyd unrhyw enghreifftiau o *ysterclwyd* yn slipiau GPC. Yn IGE² 199 (ll. 13) darllenir *aberclwyd*, ond anodd esbonio'r *a-* ac awgryma *dy berklwyd* llsgr. A mai gwall ydyw *aberclwyd* am y *berclwyd* (cf. hefyd G 150) ac mai dyna oedd y darlleniad gwreiddiol, megis yn y ll. uchod gan Ddafydd ap Gwilym. Yn ôl DGG² 194, ystyr *perclwyd* yw 'clwyd, *cage*' a'i elfennau yw'r cyfystyron *perc* (o'r S. *perch*) a *clwyd*. Rhydd GPC 2768 yr ystyron 'clwyd adar, esgynbren, cawell, hefyd yn *ffig.*' ond petrusa ynglŷn â hwy a tharddiad y gair. Efallai mai 'gorweddfan' a olygir megis yr awgrymir ar gyfer *aberclwyd* yn IGE² 427.
- sercl** Benthyciad o S.C. *cercle*, EEW 119.
- 60 **Llundain gwerin Owain** Cf. y ffordd y gelwid Croesoswallt, ychydig i'r gogledd o Lanymynech yn 'Llundain' Cymru gan y Cywyddwyr ar gyfrif ei dymunoldeb a'i helaethrwydd, gw. W.A. Bebb, *op.cit.* 31–2, D.J. Bowen 'Beirdd a Noddwyr y Bymthegfed Ganrif', LICy xviii (1994–5) 61, R.R. Davies, *The Revolt of Owain Glyndŵr* (Oxford, 1995), 6; a geilw Guto'r Glyn hi yn *Llundain gwlad Owain* [Glyndŵr] *a'i dir*, GGI² 183 (LXIX.21). Ystyr 'Llundain' yn y cysylltiadau hyn yw canolfan fawr yr heidiai pobl iddi.
- Owain** Gw. y sylwadau rhagarweiniol uchod. Hefyd ll. 64.
- 62 **lled no ... lleuad** Cf. TA 418 (CVII.37–8) *Lled o'i ôl, yn lle dyly, / Lled i frest no'r lleuad fry* (i ofyn march).
- 63 **i blith dy blaid** Gellir ystyried hefyd ddarlleniad llsgrau. ACDH¹IKL *ymlhith ymlaid* (sef 'y (= fy) *mhlaid*), ond cf. ll. 66 lle y cyfeiria'r bardd at y *lloeiddiaid* fel eiddo Coed y Graig Lwyd. Diffinnir *plaid* yn y ll.

nesaf fel *llu Owain delaid*.

- 64 **llawn dâl** Nid oedd y bardd yn brin o arian fel herwr yng Nghoed y Graig Lwyd. Gthg. hyn â'i sefyllfa yn y cywydd nesaf i'w bwrs.

Owain Gw. ll. 60n.

- 65 **llwyr ystad** Hynny yw, yr oedd gan y bardd bopeth a ddymunai yng Nghoed y Graig Lwyd.

lloer ystodiau 'Rhediadau, cyrsiau'r lleuad'. Ll. *ystod* (D '*stadium, curriculum*') yw *ystodiau*. Gan y cymer y lleuad fis i gwblhau un cylchdro, dichon mai ffordd arall sydd yma o ddweud 'misoedd' gyda'r ergyd y gallai'r bardd aros yn y Coed yn ddiogel am yn hir. Neu ai cyfeiriad arall ydyw at brydferthwch natur?

- 66 **llwyddid** Ffurf 3 un.grch. y f. *llwyddo*; am y terfyniad, gw. GMW 129.

llueiddiaid Derbynir *llveiddied* llsg. J yma.

11

Ymgom rhwng y bardd a'i bwrs yw'r cywydd hwn,¹ ac megis yn achos ei gywydd ymddiddan arall rhyngddo a'i dafod (cerdd 12), ceir yn hwn ddeunydd hunangofiannol a hunanbortreadol pwysig. Bellach y mae tro mawr ar fyd wedi dod i Gymru (llau. 10, 15–22), y mae'r bardd ar grwydr, yn ddiangor ac, yn wahanol i'w sefyllfa ddedwydd gynt (llau. 15–18), yn wag ei bwrs. Ceisia'r pwrs llwglyd ei berswadio i ddychwelyd i Goed y Graig Lwyd i wella'i fyd ond gwrthyd y bardd y cyngor peryglus hwn. Yn y diwedd, cynghora'r pwrs ef, yn hytrach, i fynd i'r de ac yna i Faelienydd lle y caiff ddiogelwch a llond ei wala o arian.

Ceir cywyddau i'r pwrs gan Siôn Cent,² Guto'r Glyn³ (eithr nid yw'r rhain ar ffurf ymddiddan) ac, yn ddiweddarach, gan Syr Dafydd Llwyd tua diwedd yr unfed ganrif ar bymtheg.⁴ Dwg yr olaf ar gof gywydd Llywelyn, os nad ei gywydd i'r tafod hefyd. Fe ddichon fod y math hwn o gywydd yn tarddu o'r traddodiad is-lenyddol hwnnw y cyfeiria Dr Rachel Bromwich ato mewn cysylltiad â barddoniaeth Dafydd ap Gwilym.⁵ Dichon hefyd mai estyniad ydyw o'r cywydd gofyn traddodiadol.⁶

Dywedwyd digon uchod wrth drafod amseriad y cywydd 'I Goed y Graig Lwyd' i ddangos na ellir derbyn amseriad Dr Enid Roberts, sef 1403, ar

¹ Fe'i golygwyd gan I. Williams yn IGE² 195–7 ar sail testun llsgrau. HJLM (gw. IGE 196).

² IGE² 259–61 (LXXXVI). Gall hefyd, fodd bynnag, mai gwaith Syr Phylip Emlyn ydyw, gw. *ib.* LXIX.

³ GGI² 68–70 (XXV).

⁴ A.T.E. Matonis, 'Cywydd y Pwrs', B xxix (1980–2), 447–52.

⁵ *ib.* 444; R. Bromwich, 'Y Traddodiad Islenyddol', yn *Dafydd ap Gwilym a Chanu Serch yr Oesoedd Canol*, gol. J. Rowlands (Caerdydd, 1975), 43–57.

⁶ A.T.E. Matonis, *l.c.*

gyfer y gerdd hon. Y mae'n eglur mai ar ôl y cywydd i Goed y Graig Lwyd y'i canwyd ac awgryma Mr Cledwyn Fychan mai i'r cyfnod rhwng 1419, pryd yr oedd rhai o gefnogwyr selocaf gwrthryfel Glyndŵr yng ngogledd Powys wedi llaesu dwylo a derbyn pardwn, a 1421 pryd yr ildiodd Maredudd, mab Glyndŵr, i'r Brenin Harri V, y mae'r cywydd yn perthyn.⁷ Efallai, felly, mai tua 1421 y'i canwyd, yn yr haf (llau. 16–17, 21–2).

- 1 **amner** Benthyciad o'r S.C. *aumener*, *amner* o'r H.Ffr. *aumonière*, gw. IGE² 402, GPC 97.
- 4 **fal y'th welais** Sef pan oedd y pwrs yn arfer bod yn llawn.
- 6 **mold** Gw. uchod 4.4n.
gildiwr Benthyciad o'r S. (*to*) *gild*, gw. GPC 1398.
- 7 **ni'th fendithiodd neb** Hynny yw, ni roddwyd dim arian yn y pwrs ers tro.
- 8 Sylwer bod yn y ll. gynghanedd groes a chynghanedd sain.
- 10 Gw. y sylwadau rhagarweiniol uchod.
- 14 **marw ... am aur** Y tebyg yw bod *double entendre* yma oherwydd, fel y nodir yn IGE² 371, defnyddid aur at ddibenion meddygol gynt.
- 16–17 ... **bob Myhefin haf / Aur a gawn ...** Gthg. llau. 21–2 *Arwain sorod a nodwydd / A gaf drimis haf i'm swydd*. Gan mai yn ystod tri mis yr haf y byddid yn rhyfela yn yr Oesoedd Canol, gw. D.J. Bowen, 'Beirdd a Noddwyr y Bedwaredd Ganrif ar Ddeg', LICy xvii (1992–3), 100, 101, ymddengys mai cyfeiriad sydd yma at adeg ym mywyd y bardd pan gâi ei gyflogi'n rheolaidd fel milwr, cf. y *llawn dâl* y cyfeirir ato yn 10.64.
- 17 **mawrddawn** Sef y ffaith fod ei berchennog yn ennill llawer.
- 19 **sothach** Gw. ll. 35n a cf. ll. 21 *sorod*.
- 21 **sorod** Cf. ll. 19 *sothach*.
nodwydd Dynoda beth di-werth yma megis yn 14.40, gw. GPC 2590.
- 22 **trimis haf** Gw. llau. 16–17n.
- 25 **godech** Gall fod yn e. 'cuddfan, ymguddiad', megis yn GPC 1421, neu'n un o ffurfiau'r be. *godechu*, 'ymguddio', megis yn IGE² 413.
- 25–6 **Coed ... / Y Graig Lwyd** Craig Llanymynech, gw. sylwadau rhagarweiniol cerdd 10.
- 26 **Carreg Lech** Cf. 10.2 *Llech Ysgar*, yr un lle, fe ymddengys, â'r Graig

⁷ Cledwyn Fychan, 'Llywelyn ab y Moel a'r Canolbarth', LICy xv (1984–8), 289. Heblaw amseriad Dr Roberts a Mr Cledwyn Fychan, dylid crybwyll hefyd eiddo E. Rolant, GOLIM xii, sy'n credu mai yn ystod gwrthryfel Glyndŵr neu'r 'cyfnod dilynol ... pryd yr oedd o hyd lawer o anhrefn yng Nghymru' y canwyd y gerdd, a D.H. Evans, *art.cit.* 5n6, mai efallai oddeutu 1420.

- Lwyd (*ib.n*); eithr cyfeirir at y Garreg Lech yma megis pe bai'n fangre wahanol yn yr un cylch, ac yn ll. 31 fe'i gelwir y *Garreg*, nid y *Graig*. Ai *llech* 'cuddfa, lloches', GPC 2124 d.g. *llech*², sydd yma? Os felly, dichon mai cyfeirio yr ydys at ryw guddfan neilltuol yng nghyffiniau'r Graig Lwyd.
- 31 y **Garreg** Y Garreg Lech, ll. 26, fe ymddengys.
- 32 **Un-dref-ar-dddeg** Ruyton XI Towns i'r gogledd-orllewin o Amwythig. Fel y dywed Enid Roberts, 'Uchelwyr y Beirdd', TCHSDd xxiv (1975), 72, byddai rheswm da dros ysbeilio'r faenor hon oherwydd yr oedd ym meddiant teulu Fitzalan (ieirll Arwndel), cefnogwyr selog i Harri IV.
- 34 **chwaith** Ffurf ar *chwaeth*.
henwaith Hynny yw, gwaith y pwrs gynt o dderbyn arian.
- 35 **ÿs faw** Yn ôl IGE² lx, y llwch a oedd yng nghiliau'r pwrs a olygir wrth *faw*; ond gall hefyd fod yn dalfyriad o *baw diawl* 'devil's dung, *asafoetida*', GPC 265. Cf., e.e., GDG3 204 (75.212) *Bid iddaw yn ei law lwyth / O faw diawl, ef a'i dylwyth*; GIG 168 (XXXVII.91–2) *Yswain morchwain mawrchwaith, / ÿs faw diawl, aswy fu d'iaith*. Os felly, y mae Llywelyn yn dweud wrth y pwrs am fynd i ffwrdd.
- 38 **gwrneidr olwg** Deellir hyn yn gyfansoddair llac ond fe ellid hefyd ddodi coma ar ôl *gwrneidr* gan wneud *ail gwrneidr* yn sangiad arall. Yn IGE² 196 (ll. 12) *gwrnaid* 'naid gŵr', *ib.* 414, a ddarllenir, ond gan mai mynegi ofn cael ei weld gan y gelyn y mae'r bardd, mwy priodol yw ystyr *gwrneidr*, 'sarff, draig', GPC 1711, ac y mae'r mwyafrif o'r llsgrau. o'i blaid. Yn GPC 1711 ystyrir *gwrnaid* IGE² 196 yn ffurf ar *gwrneidr* er nad dyna'r ystyr a roddir yn yr olaf.
- 39 **medelau** Y tebyg yw mai'r ystyr ffigurol sydd yma, sef rhai sy'n lladd mewn brwydr, gw. GPC 2391.
- 40 **drwy lid** 'Yn llidiog'. Ar *drwy* mewn ymadrodd adferfol, gw. GMW 211, a cf. 15.25.
- 41 **gŵr gwlad** 'Gŵr gwladaidd'.
gadaw Llsgrau. *adaw* a ddeellir yn dreigladd o *gadaw*, ond gallai hefyd gynrychioli'r ffurf gysefin, gw. ll. 67n; y ffurf ddiweddarach a geir yno.
- 49 Ar yr agwedd a amlygir yma, gw. 10.39n.
- 50 **mwynwas** Sylwer ar yr elfen *gwas* sy'n awgrymu bod Llywelyn yn ifanc.
- 52 **na bai** Darllenir *o bu* yn IGE² 196 megis yn llsgrau. JLM, ond *na bai* a geir yn y mwyafrif a mwy boddhaol yw'r ystyr.
cyngor degach Eg. yw *cyngor* a threiglir *tegach* am ei fod yn dilyn y neg. *na*, gw. Treigladau 66–7, a cf. 14.66 *Catel well ei secutor*.
- 53–4 **O ... / Na ddiagia** Am enghreifftiau eraill o ddilyn *digio* gan *o*, gw. G

347. Fe ellid, er hynny, ddeall *o* i olygu ‘oherwydd’.
- 53 **osb** Meddylia'r pwrs amdano'i hun fel un sy'n haeddu ymgeledd y bardd.
disbwyll IGE² 196 (ll. 27) *ysbwyll*. Atega darlleniad llsg. F yr awgrym, *ib.* 372, mai *ddisbwyll* y dylid ei ddarllen.
- 55–64 Ar y lleoedd a'r bobl y bwriadai'r bardd ymweld â hwy yn y llau. hyn, gw. uchod td. 79–80.
- 55 **olrhëir** Darlleniad IGE² 197 yw *olrhëir*, ffurf dybiedig o'r f. *olhau*, er cydnabod hefyd y gellid darllen *olrheir*, a geir yn llsg. L. Cf. hefyd GPC 2642 d.g. *olhaf*. Cyfeirir at ymlid gan elynion megis yn 10.28n *Am ael rhiw y'm olrhewyd*.
- 57 **deddf** ‘Defod, rheol’, mewn gwrthgyferbyniad â bywyd presennol peryglus ac ansicr y bardd.
mawr o ymddiddan Yn ôl atalnodiad IGE² 197 (ll. 3), dibynna ar *deddf* ond gwell yw ei gymryd yn sangiad.
yn ôl Hynny yw, ‘i gyrchu’.
- 53–68 Yn IGE² 196 (ll. 27)–197 (ll. 14) rhoddir y llau. hyn i'r bardd ond haws eu cymryd fel ymateb i'r [c]yngor *degach* a ofyn y bardd gan y pwrs yn ll. 52. Hefyd y mae'r sôn am aur yn llau. 58, 63–6 yn fwy cydnaws â'r meddyliau a leferir gan y pwrs yn llau. 14–18, 23–4, 33–4, 50 a go brin y byddai'r bardd yn dweud *dos* wrth y pwrs megis yn ll. 63.
- 58 **aur egin lân** ‘Egin aur lân’, y mae'n debyg, sef ‘digonedd o aur’; cf. disgrifiad Llywelyn o gyfoeth Syr Wiliam ap Tomas yn 16.11 fel *Egin d'aur*. Ai am Syr Wiliam y mae'r bardd yn meddwl yma hefyd?
- 59 **awn, wiw ddawn ddydd** Yn IGE² 197 (ll. 5) ni ddodir coma ar ôl *awn* gyda'r canlyniad bod *wiw ddawn ddydd* yno yn mynd yn ymadrodd amserol, ond gwell ydyw fel sangiad yn edrych ymlaen at lau. 61–6 gyda'r holl sôn yno am aur.
- 60 **hoiwfro Faelienydd** Cantref a oedd yn cyfateb yn fras i ran ogleddol a helaethaf yr hen sir Faesyfed. Yn ll. 66 fe'i gelwir yn Dir Mael. Ar dreiglo e. priod mewn safle genidol ar ôl eb.un., gw. Treigladau 101, a cf. isod 12.12 *nith Fair*, 15.54 *llys Faelgwn*, 16.54 *gwawd Rys*.
- 61–2 Goleddfir *lle* gan a. sydd er hynny yn perthyn yn nes o ran synnwyr i'r e. sy'n ei ddilyn nag i *lle*. Cf., e.e., GDG³ 25 (9.40–1) *Lle y trosaf ran o'm hannerch*, / *Lle dewr mab, lle diwair merch*, *ib.* 316 (119.33–4) *Lle tew lletyau mwyelch*, / *Lle mygr gwÿdd, lle y megir gweilch*.
- 63 **mwnai** Benthyciad o'r Ffr. Lloegr *muneie*, gw. GPC 2509.
- 65–6 Hynny yw, y mae aur ym mhob noddfa a chan bob dyn ym Maelienydd.
- 66 **Tir Mael** Gw. ll. 60n.

- 67 **gado** 2 un.grch. *gadaw*, sef ffurf ddiweddarach *adaw* ‘gadael’, gw. G 7, GPC 13. Yn IGE² 197 (ll. 13) ceir *ac ado*, ond heblaw bod y darlleniad hwnnw’n gwneud y ll. yn rhy hir o sill, *a gado* neu *gado*, nid *ag ado*, a geir yn y llsgrau. Gellid diwygio a darllen *ado*, cf. ll. 41 *adaw*, ond y mae’r ffurfiau ag *g-* yn digwydd mor gynnar â’r 14g.

12

Ymddiddan yw’r cywydd hwn rhwng y bardd a’i dafod¹ a thebyg iawn ydyw o ran naws a’r ffordd y dysgir am y bardd a’i hynt i’r cywydd blaenorol i’w bwrs. Ceir ymgom arall rhwng bardd a’i dafod—sydd hefyd, ond odid, yn dangos dylanwad y gerdd hon (gw. yn arbennig ll. 62n)—gan Uto’r Glyn mewn cywydd i Rys, abad Ystrad-fflur;² eithr mae’n llawer byrrach ac wedi ei gorffori rhwng dechrau a diwedd y gerdd. Ceir hefyd englyn gan Ddeio ab Ieuan Du yntau i’r tafod.³ Un o’r pethau mwyaf diddorol yng nghywydd Llywelyn yw’r cyfeiriadau at arferion cyfansoddi’r bardd (gw. ll. 16n).

Y tebyg yw mai i’r un cyfnod â chywydd y pwrs, sef tua 1421, y perthyn y cywydd hwn, oherwydd, megis yno, y mae’r bardd yn byw bywyd garw, annïogel, a pheryglus a chyfeirir yn ôl at Goed y Graig Lwyd (ll. 54).

- 1 **bawd** Ymysg y pethau eraill y dyfelir y tafod iddynt y mae *aelod fochwal ddiwala* (ll. 13), *hoel* (ll. 38), *henllwy faidd* (ll. 47), *dyflöen aerfen oerful* (ll. 57), *ysbodol* (ll. 63), *meistr dyfrllydrwydd maswdrig* (ll. 73), *misericórs* a *maeser cig* (ll. 74), *llafn mileiniaidd moel* (ll. 78), *rhyw fenybr ir a rhaw fawn bren* (ll. 86).
- 4 **pa ddiawl a wnei** Cf. yr ymadrodd S. ‘*to play / raise hell*’.
- 5 **eithr ynfydrym** Cydier wrth l. 4 *Pa ddiawn a wnei*.
- 6 **dym** Sef ‘dim’, gw. D.J. Bowen, ‘Pynciau cynganedd: odli *i, u ac y*’, LICy xx (1997), 139–40.
- 8 **addail tir** Hynny yw, gwely o ddeiliach a brigau ieuainc ar y ddaear i gysgu’r nos.
- 10 **berw** Y tebyg yw mai ‘baldordd’ a olygir, gw. GPC 275. Cf. ei ystyron yn llau. 17, 24.
ymleferydd Am *lleferydd*, amrywiad ar y be. *llefaru*, gw. GPC 2141. Yr ystyr yma yw ‘cadw trwr ynfyd, siarad yn ffôl’, gw. IGE² 425, GDG³ 605.
- 12 **am** ‘Oherwydd’.

¹ Fe’i golygydd gan I. Williams yn IGE² 208–210 ar sail testun llsgrau. HJKL (gw. IGE 70).

² GGI² 23–4 (IX).

³ GDID 52 (cerdd 23).

nith Fair Ai Euron, cariad y bardd, a olygir, ac yn ll. 14 *merch dynion da?* Enwir Euron yn ll. 49. Ar ystyron ehangach *nith*, gw. GPC 2584. Yr ystyr yma yw ‘perthynas’ neu ‘un debyg’ i’r Forwyn Fair, hynny yw merch brydweiddol iawn. Am y treigladd, gw. uchod ll.60n.

ni thewi fyth Cydier wrth l. 14 *yn sôn*, cf. ll. 16 *Ni thau ... yn nithiaw*
...

13 **bochwal** Yn ôl IGE² 403, ‘â gwâl yn y foch’ ond dichon hefyd mai *gwal* ‘mur’ yw’r ail elfen a’r ystyr ‘a’r bochau yn waliau iddo’.

14 **dynion da** Deellir *dynion* i gyfeirio at bobl yn gyffredinol. Efallai fod arlliw o’r ystyr ‘bonheddig’ i *da* megis yn y ffurf *gwrda* ‘uchelwr’. Fe ellid hefyd, fodd bynnag, eu cymryd gydag *Aelod fochwal ddiwala* y ll. flaenorol er mor agos ydynt at *ferch*.

15–34 Yn y llau. hyn esbonia’r tafod pam na all dewi, sef am ei fod yn cael ei ddefnyddio i farddoni (ll. 16) ac i lefaru pan fo’r bardd yn feddw.

16 Awgryma’r ll. fod y bardd yn barddoni’n fynych ar ei grwydriadau ac y mae’n gyfeiriad diddorol at y proses llafar.

gwynt Gwynt y bardd. Ymddengys mai ‘siarad gwag’ a olygir, cf. ystyr y S. ‘*windbag*’.

nithio gwawd Cyffredin oedd defnyddio geiriau megis *eilio*, *gweu*, *gwnïo*, *naddu*, *nithio*, *plethu* yn ffigurol am y proses o saernïo cerdd, gw. GPC dan y ffurfiau hynny a cf. 14.19 *Difrad o wniad a wni* (am gerdd).

17 **berw** Bwrlwm geiriol yn yr achos hwn. Dengys llau. 19–20, 25–31 mai effaith meddwi yw hyn. Cf. ei ystyr yn llau. 10, 24. Y mae’r ll. yn rhy fyr o sill oni chyfrifir *berw* yn ddeusill; ond fe ellid cyflenwi y megis y ceir yn llsgrau. EGHK.

a ddwg Y goddrych yw *gwynt* yn y ll. flaenorol.

19 **drwg yn wag** Y mae’r bardd yn ddigon tafodrydd pan fo’n sobr, chwaethach pan fo’n feddw.

20 **annwyd** Nid ‘anian, hwyl’ megis yn IGE² 402, ond ‘teimlad’, gw. GPC 146 d.g. *annwyd*¹.

21–24 Yn y llau. hyn cymherir effaith diod yn llifo i fol y bardd â phrofiad morlo ger y creigiau pan fwrir ef gan ymchwydd llanw grymus.

21 **bo** Yn IGE² 208 darllenir *ddêl*, a dyna a geir yn y mwyafrif o’r llsgrau., eithr dilynwyd JL sydd at ei gilydd yn nes at ffurf wreiddiol y gerdd.

hyllt Gall fod yn ffurf 3 un.pres.myn. y f. *holhti*, gyda *llanw* yn oddrych, neu’n ll. *hollt* neu’n a. ‘wedi ei holhti’. Os bf. neu a. sydd yma, rhaid deall bod y llanw yn torri’r tir trwy ei rym; os e., gall fod yma gyfeiriad at agennau yn y graig y cyrraedd y môr atynt a lle y gorwedda’r morlo.

22 **blew** Cyfeiria’r bardd at flew morlo hefyd yn ei gywydd i’r farf, 13.54.

- 24 **briw ferw** Ymddengys mai ewyn mân y môr a olygir yma, gw. GPC 275 a cf. ystyron *berw* yn llau. 10, 17.
- 25 **gwerth** ‘Wedi ei werthu’ neu (yn dibynnu ar y safbwynt) ‘wedi ei brynu’, gw. GPC 1647, 2.
- 25–8 Cf. yr hyn a ddywedir yma am ddiota ac *ymddyfalu* (ll. 27) â GP 6 (llau. 356) *Teir keing a berthynant ar glerwryaeth: ymsennv, ac ymdaualu geir tra geir, a danwaret*, 17 (llau. 13–14) *Tri pheth a dyly prydyd eu gochel: llyнна, a gwrageda, a chlerwryaeth*. Ymddengys fod y tafod yn awgrymu bod Llywelyn yn annheilwng o’i swydd gan ei fod yn ymddwyn fel un o’r glêr, yr haen isaf o feirdd.
- 26 **dan berthi** Er mwyn osgoi cael ei ddal. Cf., e.e., 3.55–6 *Lle nid rhaid, llonaid rhedyn, / Llechu’r dydd, lle dichwerw dyn*.
- 27 **ymddyfalu** Nid ‘ymddisgrifio’ megis yn IGE² 425, ond ‘dychanu’, gw. G 411.
- 28 **cwrw San Ffraid** Cf. cywydd Iorwerth Fynglwyd i San Ffraid yn GIF 94 (43.29–32) *A chwrrw a wnaud, chwaer i Non, / mewn deugawg, mwy no digon, / i beri daioni dwys / dyn wiwglod deunaw eglwys*. Gw. hefyd LBS i, 285.
- 31 **fal bol Iddew** Adlewyrchiad o’r agwedd wrth-Iddewig a oedd yn gyffredin yn yr Oesoedd Canol, gw. H.M. Edwards, *Dafydd ap Gwilym: Influences and Analogues* (Oxford, 1996), 61. Geilw Siôn Cent feirdd ffals cyfoes yn *Iddeon oll*, IGE² 183 (ll. 8).
- 32 Wrth i’r tafod gyffwrdd â’r blew pan fo’r bardd yn uchel ei lais. Sonia Llywelyn ab y Moel am ei farf yng ngherdd 13.
- 33–4 Efallai mai’r rheswm am hyn yw fod dyn hŷn yn eillio’n llai aml na dyn iau neu ei fod yn fwy aflawen. Y mae tinc dihareb i’r cwpled hwn (cf. llau. 81–2n).
- 33 **hen** Cf. llau. 45 *henllwy*, 81 *Gymro henaidd*, 13.27 *blew danas hen*, 13.33 *cleiriach*. Ceir cyfeiriadau tebyg gan Ddafydd ap Gwilym at ei ‘henaint’, e.e. GDG³ 168 (63.35–8) *Mawr yw dy ferw, goeg chwerw gân, / Henwr, wrthyd dy hunan. / Gwell yt, myn Mair air aren, / Garllaw tân, y gŵr llwyd hen* (y biogen wrth Ddafydd). Fodd bynnag, gan i’r ddau fardd, i bob golwg, farw’n gymharol ifanc, ni ddylid deall y cyfeiriadau hyn at eu henaint yn rhy llythrennol, a dichon mai *teimlo’n* hen yr oeddynt. Yn achos Dafydd ap Gwilym, y mae’n fwy na thebyg mai pryderon carwriaethol oedd y rheswm am hyn, gw. *50 o Gywyddau Dafydd ap Gwilym*, gol. A. Llwyd (Abertawe, 1980), 128–9, ac yr oedd Llywelyn ab y Moel yntau yn garwr mawr. Ond yn achos yr olaf hawdd credu bod rheswm ychwanegol hefyd, sef traul mwy na’r cyffredin ar ei gorff oherwydd ei fywyd fel milwr a herwr, cf. ll. 41 *delw welw weflgrach*, 14.69–70 *I guddio’r croen a gwddw crych / A’r ddwyfron*

mor arddufrych.

- 37 **Sylwer** ar yr odl anarferol rhwng *-ai* ac *-âi*.
gad atat beth Ymddengys mai rhywbeth fel ‘ystyria ychydig’ yw’r ystyr.
cadit Ystyr *cadit* yw ‘gweddill, gwarged, yr hyn a adewir ar ôl ...’, GPC 378. Efallai mai’r hyn a olyga’r bardd yma yw’r llifeiriant diweddaraf o eiriau y mae’r tafod wedi eu llefaru—y rheini sydd ‘dros ben’ o’r holl eiriau blaenorol.
- 38 **hoel** Yn IGE² 209 darllenir *hael*, ond nis ceir yn yr un o’r llsgrau. Gellid defnyddio *hoel* yn drosiadol, e.e. am big neu sbigyn planhigyn, gw. GPC 1884, a phriodol ddigon felly fyddai ei ddefnyddio am y tafod, cf. ll. 1n.
- 39 **anrhedud** Amrywiad ar *anwardud*, gw. GPC 163.
- 40 **ar ei ôl** ‘Yn ôl’ y dewin, ‘yn unol ag ef’, sef ‘yn debyg iddo’.
- 41 **delw welw weflgrach** Sef y tafod, sy’n agos iawn i’r gwefusau cramennog.
- 42 **Gwenhwyfar** Deellir *Wenhwyfar* yn wrthrych *chwarae* y ll. flaenorol, yn hytrach nag mewn cyfodiad. Yr ystyr yw fod y tafod, wrth sgwrsio, yn ymddwyn fel Gwenhwyfar, gwraig Arthur (gw. G 660 d.g. *Gwenhwyuar*¹, TYP² 380–5 a CLC² 300–1), yn ymbil (?â’i gŵr). Y tebyg yw fod *bach* yn cyfeirio at faint y tafod yn hytrach nag at *Wenhwyfar* (ar y diffyg treigladd, cf. Treigladau 114). Ymddengys fod yma adlais o ryw draddodiad coll am *Wenhwyfar* fel merch a blediai. Ceir englynion ymddiddan rhwng Melwas, *Gwenhwyfar*, a Chai sydd i bob golwg yn weddillion hen gyfarwyddyd, gw. E.D. Jones, ‘Melwas, *Gwenhwyfar*, a Chai’, B viii (1935–7), 203–8, a dichon fod adlais yma o un o’r sgysiau.
- 43–4 **Dal ... / ... dadl ...** GPC 882 ‘to hold a discussion or disputation; maintain an argument, argue’.
- 44 **hwndrwd** Yn IGE² 209 darllenir *drudwy*, megis yn y mwyafrif o’r llsgrau., eithr *hwndrwd* sydd yn JL. Benthyciad o’r S. *hundred* yn yr ystyr ‘cantref’ yw *hwndrwd* a gallai olygu llys y cantref yn ogystal â’r cantref ei hun, gw. GPC 1931 lle y ceir hefyd enghreifftiau eraill o *dadl*, megis yma, ynglŷn â *hwndrwd*. Hawdd gweld sut y gallai ail hanner y gair, *-drwd*, fod wedi cael ei gamdarllen am *drudwy*.
hir Cydier wrth *dadl*.
- 46 **brad gyfarfod** ‘Brwydr [o ganlyniad i] frad’, ond odid. Ar yr ystyr hon i *cyfarfod*, gw. GPC 682.
- 47 **henllwy** Ar arwyddocâd *hen*, cf. ll. 33n.
- 49–50 ‘Neu os ymorol yr ydwynt am Euron, ... mawr yw dy sôn’.
- 49 **Euron** Gw. 8.42n.

- 50 **mordwy** Yn IGE² 209 darllenir *meudwy*, ond ni rydd yr un o'r llsgrau. y darlenniad. Ar *mordwy* 'Môr (aflonydd) ... tymestl', &c., gw. GPC 2487; fe'i defnyddir yma'n ffigurol am garwriaeth Llywelyn ag Euron.
- 51–2 **Deffro ... / Dy ffrwyn ...** Ymddengys mai ffordd arall yw hyn o ddweud wrth y tafod am ei ffrwyno neu ei atal ei hun.
- 53–6 Yn IGE² 209 rhoddir y llau. hyn i Lywelyn a llau. 57–78 i'r tafod, ond y mae'n amlwg mai Llywelyn piau'r olaf a rhaid felly mai'r tafod piau llau. 53–6. Yn y llau. hyn y mae'r tafod hefyd yn edliw i Lywelyn ei feddwi megis y gwnaethai'n gynharach (gw. llau. 25–31 yn arbennig).
- 54 **Craig lefair Lwyd** Ar y Graig Lwyd, gw. sylwadau rhagarweiniol cerdd 10. Cyfeirir ato yma hefyd fel *craig lefair*, sef 'carreg ateb', gw. GPC 578. O gofio disgrifiad Llywelyn o'r lle fel *gwarwyfa gwŷr a llwyn hirwydd yn llawn herwyr* (9.6, 61), nid yw'n syndod fod adleisiau di-rif wedi atseinio yno dros y blynyddoedd.
- 55 **doed** Yn IGE² 209 darllenir *daed*, ond nis ceir yn y llsgrau. **cof** 'Cof am'. Ar *cof* yn yr ystyr hon, gw. GDG³ 433 a cf. 16.7, 33.
- 55–6 Hynny yw, 'Yr wyt ti'n feddw yn awr yr un fath ag y buost ganwaith gynt.' Nid yw'r tafod yn arbed y bardd.
- 57 **aerfen** Ffurf f. *aerfyn* 'yn cymynu mewn brwydr', GPC 38.
- 59–62 Yn llsgrau. EHK yn unig y ceir y llau. hyn. Gwahanol yw trefn y llau. yn E i'r eiddo HK (gw. uchod) ac nid yw o fawr bwys pa drefn a ddilynir. Dilynwyd E yma yn betrus oherwydd yr holl ansoddeiriau sydd megis parhad o lau. 57–8 ac yn eu 'curo'. Yn IGE² 210 (llau. 5–8) cyfetyb y llau. i lau. 71–4 yma. Yn *l.c.* fe'u trinnir hefyd fel rhan o sgwrs yr un ymddiddanwr, ond awgryma cynnwys y llau. mai i'r ymddiddanwr arall y perthynant, sef yn yr achos hwn—ystyrier yn arbennig y geiriau *trwynsur*—y tafod.
- 60 **treinsiwr** Benthyciad o'r S. *trencheour*, math o gyllell, gw. IGE² 424 (d.g. *traenswr*), GIG 240.
- 61 **merwingoch** Bôn y f. *merwino* yw'r elfen gyntaf, gw. GPC 2438, a chynigir yno'n betrus, eithr gan gredu mai at y tafod y cyfeirir, mai 'coch a brathog: *red and caustic*' yw'r ystyr. Gan mai disgrifio'r bardd a wneir, fodd bynnag, y tebyg yw mai'r ystyr yw fod y bardd yn blino neu'n gofidio'r tafod. Ar yr ystyr hon i *merwino*, gw. *ib.* 2437. Cyfeiria *coch*, wrth gwrs, at flewyn coch y bardd, megis yn y ll. nesaf; cf. hefyd 13.47–8 *Garw yw o beth ar gwr boch / Ei bod fel bargod burgoch*.
- 62 **cleddau cerdd** Ceir yr un ll. yn union gan Uto'r Glyn, GGI² 23 (IX.16) ond ynglŷn â'r tafod. Efallai mai at gyfansoddi cerddi dychan y cyfeirir, neu ddisgrifio Llywelyn, yn groesebol, fel ymladdwr a bardd.
- 63–4 Hynny yw, y mae angen bedydd ar *siarad* y tafod. Gwrthgyferbynnir

hyn â *dan gêl* yn ll. 66.

Gwyddel Mewn ystyr ddifriol, cf. 10.3 *Gwyddelig* ac *ib.n.*

66 **dan gêl** Gan fod y tafod o'r golwg yn y geg.

68 **coch** Cydier wrth *bara*, a cf. *torth goch*.

69 **clicediau** Ll. *cliced*, benthyciad o'r H.Ffr. *cliquet* trwy'r S. *clicket*, gw. GPC 499 a cf. GGI² 23 (IX.15) *Cloc tewfydr, cliced dwyfoch*.

70 **gwern** Oherwydd, y mae'n debyg, nad yw'r pren hwn yn pydru mewn dŵr.

clap breuan gwawd Cyfeiriad at swyddogaeth y tafod yn cyfansoddi barddoniaeth, cf. ll. 16. Y tebyg yw mai am glec y gynghanedd yn bennaf yr ydys yn meddwl. Ar *breuan gwawd* ynglŷn â barddoni, cf. enw y Prydydd Breuan (gw. G 75, GMW xxvii) a'r ymadrodd *melin mawl* megis yn 16.23 am Rys Goch Eryri.

clap Benthyciad o'r S.C. *clappe*, gw. GPC 489.

71 **megaist di, fal myn** Yn IGE² 210 darllenir *megaist fal y myn*, ond yn llsgrau. B ac C (sy'n perthyn i'r 18g.) yn unig y ceir y darlenniad hwn a dilynir yn hytrach lsg. L. Gellid hefyd ystyried *megais di* llsgrau. EGHK ond llai cydnaws â'r cyd-destun fyddai hynny a'r tebyg yw mai bai ydyw am *megaist di*.

72 **mau ofal fod** Hynny yw, 'y mae'n bryder imi dy fod wedi tyfu felly'.

73 **dyfrllydrwydd** Yn IGE² 210 darllenir *dyfrllyd rhwydd*, ond nis ceir yn yr un o'r llsgrau. Y tebyg yw mai'r cyflwr o fod yn ddyfrllyd a olygir yma, ond gallai *dyfrllydrwydd* hefyd olygu 'ffuant, twyll', &c., gw. GPC 1127 a cf. ll. 35 *Gau genau y geg annoeth*.

maswdrig Y tebyg yw mai 'sy'n aros yn feddal' a olygir. Am ystyron *masw*, gw. GPC 2373.

74 **misericórs** Yn ôl GPC 2465 '?Dagr: *misericord (dagger)*', benthyciad o'r Llad.C. neu'r H.Ffr. *misericors*.

maeser '?Pwywr, duliwr, curwr: *masher, beater*', *ib.* 2314, gan ei esbonio'n betrus fel benthyciad o'r S. *masher, l.c.*

77 **'m** Cywasgiad o'r geiryn *ym*, a ddefnyddir fel *myn* mewn llwon, gw. GMW 245–6 a cf. At. 21.

Deinioel Sef Deiniol Sant ap Dunawd ap Pabo, gw. G 296 d.g. *Danyel²*.

80 **tref** Dichon mai cyfeiriad yw hyn at yr Un-dref-ar-ddeg, sef Ruyton XI Towns, y byddai Llywelyn yn ei hysbeilio pan oedd yn aros yng Nghoed y Graig Lwyd, gw. 11.32n (cf. *or dre* a geir yn llsgrau. EGIK).

81 **ti** *ty* a geir yn y mwyafrif o'r llsgrau., ond anodd cael synnwyr ohono yn y cyd-destun, felly diwygir; cf. llsgr. G *dy*. Yn IGE² darllenir *trwy* ac

efallai mai camddarllen *tŵy* llsg. J a barodd hynny. Y mae'n bosibl fod y ddihareb *hanes tŷ*, *hanes coed* a geir, e.e., yn D (Diar.), e.e., wedi dylanwadu ar ddarlleniadau'r llsgrau. yn y ll. hon a'r un ddilynol.

- 81 **tŷ** Yn IGE² 210 darllenir *trwy*, ond nis ceir yn yr un o'r llsgrau. ac efallai mai camddarllen *tŵy* J a oedd yn gyfrifol amdano.

henaidd Gw. ll. 33n.

- 83 **mw y no chydadd** Hynny yw, nid damwain mo'r ffaith bod rhai 'yno' yn credu bod Llywelyn wedi ei ladd. Rhaid ei fod wedi dod mor agos at golli ei fywyd ar ryw achlysur nes i rai gredu mai dyna a fu.

- 83 **'no** Yn IGE² 210 ceir *yno*, ond yn llsg. H yn unig y'i ceir a gwna'r ll. yn rhy hir o sill. Ai at l. 80 *trefy* cyfeirir?

- 84 **nes no'm lles** Cf. yr ymadrodd S. '*too close for comfort*'.

- 86 **menybr** Benthyciad dysgedig o'r Llad. *manibrium*, GPC 2431.

rhaw fawn bren Gw. ll. 47n.

- 88 **oerni byth** 'Melltith a fo byth', gw. 6.31n. Achuba'r blaen ar l. 90 *cael twyll*.

- 89 **ugeinmorc** Ar *morc* (benthyciad o bosibl o'r H.Nor.) 'uned ariannol a darn o arian bath gynt a oedd yn gyfwerth â deuparth punt', gw. GPC 2486.

13

Fel y gwelwyd uchod, ceir dau fersiwn gwahanol o'r cywydd hwn¹ a elwir yn fersiwn *f* a fersiwn *β*. Cynrychiolir *f* gan destun llawysgrifau A–IKN–RVX, a *β* gan JLMSTUW¹W². O'r ddau, fersiwn *f* yw'r gorau. Am *β*, y mae trefn wahanol iawn y llinellau, diffyg rhai o linellau *f*, a rhai llinellau ychwanegol amheus, heb sôn am ragoriaeth darlleniadau *f* yn gyffredinol, yn rhoi lle i dybio mai ffrwyth ymdrech rhyw ddatgeiniad ydyw nad oedd yn iawn gofio union drefn na llawn gynnwys fersiwn gwreiddiol y gerdd, gyda'r canlyniad iddo ddyfeisio rhai llinellau ychwanegol a newid rhai o'r darlleniadau er mwyn cyfadfer ychydig am hynny. Y mae'n werth nodi, er hynny, fod yr amrywio helaeth yn nhrefn llinellau *β* yn awgrymu i'r fersiwn hwn gael mw y gylchrediad na'r llall.

Ceir cywyddau eraill i'r farf² gan Lywelyn Goch ap Meurig Hen,³ Iolo Goch,⁴ Rhys Goch Eryri,⁵ a Lewys Glyn Cothi.⁶ O'r rhain, y tebycaf o

¹ Fe'i golygwyd gan I. Williams yn IGE² 205–7 ar sail testun llsgrau. QUVW² (gw. IGE 6).

² Ar y *genre* a'i gefndir, gw. D. Foster Evans, 'Y Bardd a'i Farf: Y Traddodiad Barfol', *Dwned*, ii (1996), 11–29.

³ GLIG cerdd 3.

⁴ GIG 105–6 (XXV).

⁵ IGE² 332–4 (CX).

ddigon i gywydd Llywelyn ab y Moel yw eiddo Llywelyn Goch. Yn y ddau edrydd y bardd amdano'i hun yn cadw oed â'i gariad a sut y bu iddi sorri pan deimlodd bigau ei farf. Caiff ei geryddu'n llym ganddi a sylweddola y bydd yn rhaid iddo osgoi gwneud yr un peth eto. Yng ngherddi Iolo Goch a Rhys Goch, ymgom a geir rhwng y bardd a'i farf. Gwahanol eto yw cerdd Lewys Glyn Cothi lle y sonia am ei farf yng nghyd-destun pererindod a wnaeth i Rufain ar ran rhywun arall. Hawdd y gellir dychmygu Llywelyn ab y Moel, ac yntau'n ymladdwr ifanc a nwydus, yn cael cywydd Llywelyn Goch yn fwy cydnaws â'i deimladau a'i ffordd o fyw nag ymdrechion mwy syber Iolo Goch a Rhys Goch.

Anodd yw amseru'r gerdd ond dichon fod cyfeiriadau'r bardd at ei gorff wrth sôn am dyfu ei farf, *I guddio'r croen a gwddw crych, / A'r ddwyfron mor arddufrych* (llau. 69–70) yn awgrymu ymladdwr profiadol (cf. 12.33n) ac mai tua'r un adeg felly, yn fras, â'r cywyddau 'I'r pwrs' ac 'I'r tafod' (cerddi 11 a 12), sef tua 1421 neu'n ddiweddarach, y'i canwyd hi.

2 **ymdrafodi** Rhoddir iddo'r ystyr *concerto* yn D, ac fe'i ceir yno hefyd d.g. *degladior, dimico, pugno*. Am enghreifftiau pellach o'r ffurf, cf. GGI² 113 (XLII.43–4) *Dau â chywyddau i chwi / Drwy fydr sy'n ymdrafodi* ('dadlau, cystadlu', *ib.* 376); BD 20.8–9 *Ac y ymdrych yd aeth Corineus a'r cavr, a phob vn onadunt a gymerth gauael ardrvn ar y gylad ac ymdrauodi*. 'Ymladd, ymdrechu' yn ffigurol a olygir yma, cf. ll. 12 *ymwrio*.

3 **Euron** Gw. 8.42n.

4 **gorwyr** Mewn ystyr lac, 'disgynnydd, un o hil'.

Eigr Mam Arthur, gw. G 456, TYP² 366.

6 **gofeg** 'Meddwl, ymadrodd' yn ôl IGE² 413 ond fe'i deallir yn fwy penodol yma i olygu 'serch, trachwant', gw. GPC 1429.

8 **gefyn hael** Cyfeirir at y bardd.

cefn ei hais Y tebyg yw mai 'ymyl ei bron' a olygir. Cf. yr e. lle anhysbys *Cefn yr Ais*, gw. G 122, GDB 6.14n, enw efallai ar fryn tebyg o ran ei ffurf i fynwes merch (yr un syniad a geir, e.e., yn enw'r mynydd *Moel Fama*). Un o ffurfiau ll. *asen* yw *ais* a ddefnyddid yn ffigurol yn yr ystyr 'bron, mynwes, calon', gw. GPC 73.

9 **chwith** 'Â'i llaw / braich chwith'? Neu a oes tinc o 'hiraethus'?

11 **cwlm ysgwthr** Ystyr arferol *ysgwthr* yw 'llun cerfiedig neu baentiedig', gw. IGE² 362, GDG³ 606, ond ansicr yw arwyddocâd *cwlm ysgwthr*. Ceir yr un ymadrodd gan Iolo Goch, GIG 170 (XXXVIII.9) a gofyn D.R. Johnston, *ib.* 374, ai'r clymau cymhleth sydd mor gyffredin

⁶ GLGC 206–7 (cerdd 90).

fel addurn mewn celfyddyd Geltaidd a gyfleir.

11–12 **Ymwasgu ... / Â** Cf. YE 23 (llau. 17–18) *a thitheu y rwg y vreicheu yntev yn ymwascu ac yn ymgaru ac ef.*

12 **aur** coeth Sef Euron.

ymwrio Dyma a ddarllenir yn IGE² 205, ond *ymwyrto* a geir yn yr holl llsgrau. ac eithrio N sy'n ddiweddar. Ceir *ymwyro* yn TW d.g. *inclino* ond nid yw'r ystyr yn gweddu yma. Ceir enghraifft arall yn R 1387.7–8 *a gnaô t oduch trenn trin ymwyrô* (Dafydd Benfras) ond yn GDB 24.72n penderfynir o blaid darlleniad llsgr. LIGC 4973B, *ymwriaw*, ac aralleirio'r frawddeg 'Ac arferol uwchben [Afon] Tren yw gwŷr yn taro yn erbyn ei gilydd [ym] mrwydr.' Ymddengys fod cymysgu tebyg wedi bod yng ngherdd Llywelyn ab y Moel hefyd ac i'r bai gael ei drosglwyddo i bob un bron o'r llsgrau. Ar *ymwrio* 'ymladd, ymdrechu' (D 'concertare, impugnare'), gw. CA 82, IGE² 425. Fe'i deallir yma i olygu 'ymdaro', cf. ll. 2 *ymdrafodi*.

cwthr Meddylir am ben-olau'r ddau yn 'ymwrio' oherwydd, y mae'n debyg, mai o gyfeiriad y pen-ôl yr ymwithr wrth gydgnawdio. Cf. CMOG 30 (2.4) *rhowter hers, rhad Duw ar hon* (cerdd ddiennw i'r gal).

16 **lliwloer** Ar *lloer* am ferch hardd, gw. uchod 4.1, 5.48.

18 **cul** Cf. uchod 5.25–6n.

19 **goglais** Ar yr ystyron, gw. GPC 1436. Y tebyg yw mai'r syniad o grafu sydd flaenaf yma.

20 Cf. GLIG 10.38 *A'th drawswch rawn morwch rhudd* (i'r farf).

21 **dysg** Gw. 10.48n a cf. GIG 105 (XXV.11–12) *Nid llyfnach, ddianach ddysg, / Na chloren gwrwben garwbysg* (i'r farf) a gw. *ib.* 328.

22 **garwbysg** Cf. GIG *l.c.* Dywed D. Foster Evans, 'Y Bardd a'r Farf: Y Traddodiad Barfol', *Dwned*, ii (1996), 16, am y darlun hwn, 'yr hyn sy'n ei wneud mor effeithiol mewn disgrifiad o farf yw'r ffaith y byddai seiri coed yr Oesoedd Canol yn defnyddio croen pysgod o'r teulu hwn fel papur tywod—yr oedd yn ddigon garw, y mae'n amlwg, i lyfnhau pren. Felly, fe welir bod y gair yn cyfleu nid yn unig erwindeb o fath a oedd yn gyfarwydd i bawb, ond hefyd yr ymdeimlad o rwbio a chrafu, heb sôn am y syniad annifyr fod wyneb y bardd fel pysgodyn.'

23 **ceubren gobraff** Cf. GDG³ 76 (26.37–8) *Ni thyn y dydd, crefydd craff, / Ei phen o geubren gobraff* (i'r dylluan).

24 **rhisglo grudd** Fel ellid hefyd ddarllen *rhisglo'r grudd* gyda'r mwyafrif o'r llsgrau. (gydag *r* berfeddgoll).

25 **wt** 'I ffwrdd [â ti]!', cf. S. *hoot* ac *out* a gw. GPC 1935.

eb y Sylwer nad y fannod yw y ond rhan o'r f. *heby*, gw. GMW 154.

26 **poed oer y peitych** Saif *oer* yn y safle pwysleisiedig a mynega'r modd

- dibynnol *peitych* ddymuniad. Dywed Euron wrth Lywelyn am oeri ei waed a rhoi'r gorau i'w phigo.
- 27 **nesa hwnt** Cf. GLIG 10.28 *Cilia di oddi yna, ddyn* (i'r farf).
hen Gw. 12.33n a cf. ll. 33 *cleiriach*.
- 28 **somgar** Cf. GLIG 10.31–2 *Twyllodrus fal to llwydrew, / Tyn o'i wraidd fileiniaidd flew* (i'r farf).
a oes amgen Hynny yw, a oes rhywbeth (anymunol) arall yn fy nisgwyl?
- 31 **yw'r** Gellid hefyd ystyried *fu* llsgrau. JSU.
- 31–4 Ceir yma ddwy frawddeg gyfochrog wedi eu cydblethu, *drudaniaeth, ... I gleiriach ... a Ba ddiawl ... a wnaeth ...Gusanu gwefus sinobl?* Wrth ddatgan y gerdd ger ei gynulleidfa, gallai'r bardd fod wedi amrywio ei oslef i wahaniaethu rhwng y ddwy frawddeg.
- 32–46 Cynrychiola'r llau. hyn naill ai ymson edifeiriol gan Lywelyn am ei annoethineb neu'r geiriau o gerydd a lefarodd Euron wrtho.
- 33 **cleiriach** Gw. ll. 27n.
bwbach Cf. IGE² 332 (llau. 13–14) *Truth wÿll, onid tra'th eilliwyf / Tebygach i fwbach wyf* (Rhys Goch Eryri i'r farf).
- 34 **sinobl** Benthyciad o'r S. *sinople*, gw. EEW 131, 142–3, IGE² 347, GIG 298 (d.g. *sinobr*).
- 35 **oedd** 'Byddai', gw. 10.8n.
- 36 **gwân** IGE² 206 (ll. 8) *wan* (? gan gariad, cf. GEO 59, 63) ond cf. y syniad a fynegir yn llau 2. *ymdrafodi*, 12 *ymwrio*.
- 37 **bagad eithin** Cf. GIG 105 (XXV.28) *Cnwd o egin eithin wyd!* (i'r farf); GLIG 10.25 *Llwyn eithin garw ei olwg* (i'r farf).
- 38 **'fengylu** 'Cusanu'. Datblygodd *efengyl* yr ystyr 'cusan' oherwydd yr arfer o gusanu blwch y pacs gan y gynulleidfa tra darllenid yr *Efengyl*, yn arwydd o gariad brawdol, gw. J.E. Lloyd yn nodyn H. Lewis ar *efengyl* yn 'Etymological and Lexicographical Notes', B ii (1923–5), 103 a GPC 1170.
- 39 **pacs** 'Cusan'. Datblygodd yr ystyr hon am yr un rheswm ag y gwnaeth *efengyl*, gw. y nodyn blaenorol a IGE² 374. Benthyciad dysgedig ydyw o'r Llad. *pax* 'heddwch, tangnefedd', gw. GPC 2665.
- 42 **barbed** 'Rhyfelwrig march yn gorchuddio'r gwddf, y fron a'r crwper; rhan o'r helm yn cuddio'r gwddf', benthyciad o'r S. *barbed*, GPC 257. Nid oedd y ferch, wrth reswm, yn gwisgo barbed na dim tebyg, ond diben y trosiad yw cyfleu egrwch y boen a achosodd gwrych Llywelyn wrth iddynt bigo ei chroen.
- 43 **lamp** Am ddefnyddio *lamp* ynglŷn â merched, cf. GDG³ 103 (37.1–2)

Dyddgu ddiwaradwyddgamp, / Fy nghariad oleuad lamp; DGG² (LXVIII.15–18) Y bydd tebig, hoyw loywbyrd / Bun ymysg merched y byd, / Fyth i'r lamp grair ddisgleirlan / Ymysg y canhwyllau mân (Madog Benfras).

- 46 **gwasgrwym** Yn ôl GPC 1597, 'gwregys, cengl, rhwymyn am y canol, bodis, staes', a nodir yr enghraifft hon. Haws credu, fodd bynnag, mai disgrifiad sydd yma o symudiad corfforol a oedd fel rhwymyn yn gwasgu'n boenus (*tost*), cf. llau. 8 *gefyn*, 11, 17, 18.
- gwisgrudd** Arwydd arall, y mae'n debyg, fod y ferch yn uchel ei statws.
- 47 **garw** 'Chwerw', ond y tebyg yw hefyd fod yma amwysedd bwriadol rhwng yr ystyr hon a gerwinder y farf ei hun.
- 48 **ei bod** Cyfeirir at y foch yn y ll. flaenorol.
- bargod** Oherwydd y ffordd y mae'r blew yn ymwthio allan; *bondo* a geir yn y ll. nesaf.
- 49 **brig perth bendew** Cf. IGE² 332 (ll. 25) *Blodau perth mor anferth wyd* (Rhys Goch Eryri i'r farf).
- 50 **ei** Cyfeirir at l. 17 *boch*.
- 51 'Tin gul epa tenau heb [fawr o] gnawd.' Sylwer ar drefn y geiriau. Meddwl yr ydys am siâp gên flewog y bardd.
- 52 **morfrwyn** 'Mathau o frwyn, yn enwedig rhai sy'n tyfu ger y môr neu ar y morfa; llafrwyn, *Scirpus lacustris*; hefyd yn *dros.*: (*sea-*)*rushes*; *bulrushes ...*', GPC 2490.
- oferfrig** Cf. GLIG 10.13 *Blaen y farf, blin oferedd* (i'r farf).
- 53 **gardiau** Ll. *gard*, sef 'crib wlân, offeryn ar lun crib neu frws caled a ddefnyddir i drin gwlan: *wool-card*', benthyciad o'r *S. card*, gw. GPC 1381 d.g. *gard*¹.
- peithynau** Yn ôl IGE² 420 'cerrig to' yw'r ystyr, ond nid ymddengys hyn yn briodol ynglŷn â *gardiau*. Gallai *peithyn* olygu hefyd 'y ffrâm yng ngwŷdd y gwëydd ac ynddi'r cyrs sy'n gwahanu edafedd yr ystof ac yn gwthio'r anwe'n dynn; gwŷdd, ffrâm (ar gyfer brodwaith &c.)', GPC 2720. Odid felly nad *gardiau* '[ar gyfer] gwyddiau' a olygir. Yno rhoddir yr enghraifft hon dan yr ystyron 'llechen ... ystyllen ...'.
- 54 **rhawn moelrhawn** Cf. 12.20–22.
- ymylhwth** 'Ag ymyl agored', IGE² 425. Ai'r ystyr yw fod ymyl, neu ochr, y morlo heb fod o dan y dŵr?
- 55 **cyloren** Yn ôl IGE² 407 'cneuen ddaear', ond tebycach mai ffurf deirsill ar *cloren* ydyw, sef 'cynffon, llosgwrn, cwtws, bôn cynffon, asgwrn y gynffon, pen ôl, bontin, weithiau'n *ffig*. am rywbeth tebyg i gynffon', &c., GPC 507; cf. y ffurf *coloren*, l.c. Defnyddia Iolo Goch y gair *cloren* ynglŷn â barf, GIG 105 (XXV.11–12) *Nid llyfnach*,

ddianach ddysg, / Na chloren gwrwben garwbysg.

cul Y tebyg mai wrth *aresg* yn hytrach na *cyloren* y dylid ei gydio.

aresg ‘Brwynog, fel hesg’ yn ôl IGE² 402, ond ‘brwyn, hesg’ yn GPC 191. Meddwl yr ydys, wrth gwrs, am arwder y planhigyn.

56 **colion haidd** Cf. Cf. GLIG 10.20 *Trist flew, coel hyddew coly haidd* (i’r farf).

57 **ar ôl medd-dawd** Oherwydd, y mae’n debyg, fod effaith y ddiod yn lleddfu’r boen.

59 IGE² *Ni eill hi, nawell yw hyn* (cf. llsgrau. KNPQV), ond cyfyd y cwestiwn, felly, pam na all Euron eillio’r farf, a mwy boddhaol o lawer yw darlenniad ERW¹. Ergyd *haf* yw mai dyna’r adeg pan fyddai lleiaf o angen barf oherwydd y tes, gthg. ll. 68 *gaeafgnu gên*.

63–4 **Diofryd ... / A roddaf ...** Talfyriad o’r ymadrodd cyfreithiol *rhoddi diofryd brawd* ‘to administer the judicial oath’, gw. GPC 1025, hynny yw ‘tyngu llw’.

66 **cneifiad oen** Cydier wrth *cneifio* ‘marf yn y ll. flaenorol. Yr ystyr yw ‘cneifio fy marf megis cneifio oen’.

cynhaeaf du Meddylir am y farf fel peth sy’n cael ei gynaeafu. Gan y disgrifir hi fel *bargod burgoch* yn ll. 48, ni all *du* fod yn ddisgrifiad o’i lliw yma, a’r tebyg yw mai rhywbeth ‘chwerw’ neu’r cyffelyb a olygir gan nad yw’r bardd am ymadael â’i flew.

67 **dros** ‘Yn lle, yn hytrach na’.

’n draws geden Cydier wrth *I dyfu* y ll. nesaf, nid wrth *gadu*.

68 **gaeafgnu gên** Awgrymir mai er mwyn cadw ei wyneb yn gynnes y tyfai Llywelyn ei farf yn y gaeaf.

69–70 Gw. hefyd y sylwadau rhagarweiniol uchod ar arwyddocâd posibl y llau. hyn.

69 *I guddio croen y gwddw crych* a geir yn IGE² 207, ond nis ategir gan yr un o’r llsgrau. Hefyd, o ddarllen *a gwddw* a chymryd *croen* i olygu croen y wyneb, ceir gwell synnwyr efallai gan mai’r rhan honno o’r corff a orchuddir gan farf yn gyntaf a’r gwddf a’r ddwyfron (os yw’n ddigon hir) wedyn.

Dyma’r cyntaf o dri chywydd gan Lywelyn ab y Moel a gychwynnodd ymryson rhyngddo a Rhys Goch Eryri,¹ ymryson y gellir ei gynnwys

¹ Fe’i golygwyd gan I. Williams yn IGE² 160–2 ar sail testun llsgrau. OPTUWXY (gw. IGE 161). Ar Rys Goch, gw. IGE² xxxviii–liii, ByCy 792, CLC² 651–2. Ar ymdriniaeth ag ymryson Llywelyn a Rhys, gw. Saunders Lewis, *Braslun o Hanes Llenyddiaeth Gymraeg* (Caerdydd, 1932), 95–102.

ymhlith yr ymrysonau barddol enwog eraill hynny o'r cyfnod sydd, a siarad yn gyffredinol, yn troi o gwmpas pwnc o ddi-ddordeb llenyddol arbennig ac y cadwyd enghreifftiau ohonynt rhwng Dafydd ap Gwilym a Gruffudd Gryg, Rhys Goch Eryri a Siôn Cent, ac, yn ddiweddarach, Edmwnd Prys a Wiliam Cynwal.² O dri chywydd Llywelyn ab y Moel, perthyn y cyntaf a'r ail yn llawer nes at ei gilydd o ran cefndir, amser a themâu na'r trydydd (gw. y sylwadau rhagarweiniol i gerddi 15 a 16), ac yn y cyntaf nid ymryson â Rhys Goch a wna Llywelyn, a siarad yn fanwl, eithr cwyno amdano wrth Rys arall, sef Rhys ap Dafydd Llwyd ab Iorwerth, gŵr a oedd, fel y dangosodd Ifor Williams, yn athro barddol i Lywelyn (gw. llau. 58–60n). Hyd y gellir barnu, nid oes unrhyw gywyddau ar goll yng nghyffres cywyddau ymryson Rhys Goch a Llywelyn, ond y mae'n bosibl nad yw'r cywydd dan sylw yma yn cynrychioli ei ffurf derfynol (gw. llau. 67–72n).

Achos y gŵyn oedd rhan o farwnad a ganasai Rhys Goch i'r bardd Gruffudd Llwyd:

Aflawen wyf o flaen neb,
Am nad adwaeniad, rhad Rhên,
O Bowys neb ei awen,
Fardd neitio Fyrddin natur,
Fal yr adwaenwn, gwn gur.³

Gan fod Rhys Goch yn ddisgybl i Ruffudd Llwyd ac yn disgyn o fonedd Gwynedd a Phowys,⁴ efallai mai hon oedd ei ffordd gynnil ef o ddatgan ei gred mai ef oedd yn fwyaf cymwys i fod yn olynnydd teilwng i'w athro. Fodd bynnag, fel y dadleuodd Ifor Williams (gw. llau. 41–4n, 15.23–4n), ymddengys nad oedd dwy linell olaf y dyfyniad wedi eu cynnwys yn y fersiwn o'r gerdd a glywodd neu a ddarllenodd Llywelyn oherwydd eu hatal yn fwrriadol gan rywun; a'r canlyniad fu gwyrddroi yr hyn a oedd yn ddymuniad rhesymol a chwrtais ddigon (er yn sicr hefyd o beri dadlau) yn sarhad ar wŷr Powys. Er na ddywedir pwy a oedd yn gyfrifol am hepgor y cwpled, hawdd fyddai credu mai rhywun o Bowys ydoedd na fynnai weld Gwynedd ar y blaen i'w ranbarth ef ym myd cerdd dafod.⁵ Dadleua Dr

² Ar yr ymryson Cymreig, gw. R. Bromwich, *Tradition and Innovation in the Poetry of Dafydd ap Gwilym* (Cardiff, 1972), 14–17, 21–4; *id.*, *Aspects of the Poetry of Dafydd ap Gwilym* (Cardiff, 1986) 46–50, 68–70; A.T.E. Matonis, 'Late Medieval Poetics and some Welsh Bardic Debates', B xxix (1980–2), 635–65; J. Hunter, 'Cyd-destunoli Ymrysonau'r Cywyddwyr: Cypolwg ar "Yr Ysbaddiad Barddol"', *Dwned*, iii (1997), 33–52.

³ IGE² 157 (llau. 8–12).

⁴ *Ib.* 165 (llau. 11–14), 362.

⁵ Yn ei ateb cyntaf i Lywelyn, ensynia Rhys Goch, yn ddiâu, mai Rhys ap Dafydd ab Iorwerth, athro barddol Llywelyn, a barodd i Lywelyn feimiadu ei gerdd, gw. IGE² 163 (ll. 11) a 361, ond ni wyddai ar y pryd mai diffyg y cwpled oedd gwraidd yr anghydfod, ac nid yw'n debygol y byddai Rhys ap Dafydd ab Iorwerth yn twyllo'i ddisgybl yn y fath fodd. Ymhellach, cyfeiria Llywelyn yn ei ail ateb i Rys Goch at y sawl a oedd yn gyfrifol am yr hepgoriad fel *rhawd fân* (15.8).

A.T.E. Matonis mai achos y ddadl oedd gwahaniaeth barn rhwng Rhys Goch a Llywelyn ynglŷn â rhinweddau barddol Gruffudd Llwyd, gyda'r cyntaf yn meddwl amdano fel bardd serch,⁶ a'r ail fel bardd crefyddol, yn bennaf.⁷ Carn ei dadl yw llinellau 29–34 a welir ganddi fel gwrthlais bwriadol i farn Rhys Goch. Eithr er mor ddiddorol y gwahaniaeth barn, nid yw'r llinellau hyn yn arwyddocáu mwy nag mai'r wedd grefyddol ar ganu Gruffudd a ddenodd fryd Llywelyn wrth farwnadu iddo, a hynny efallai am fod Rhys Goch eisoes wedi sôn, a hynny'n helaeth, am y gweddau eraill. Ni chrybwyll Dr Matonis ychwaith ddadl Ifor Williams ynglŷn â'r cwpled coll, er iddi ddyfynnu'r llinellau uchod.⁸

Ymetyb Llywelyn yn gyntaf i farwnad Rhys Goch trwy ganu ei farwnad ei hun i Ruffudd Llwyd (llau. 1–34). Â yn ei flaen wedyn i gwyno am sylw Rhys Goch nad oedd gwŷr Powys yn gwerthfawrogi awen Gruffudd Llwyd (llau. 35–50), ac y mae'n taro'n ôl trwy roi ei ddadansoddiad cryno ei hun o'i ragoriaethau (llau. 45–50). Gofyn yn nesaf pa fardd ym Mhowys a ddylai etifeddu mantell farddol Gruffudd Llwyd a daw i'r casgliad mai Rhys ap Dafydd ab Iorwerth, ei athro (llau. 51–66). Yn olaf, gofyn Llywelyn i Rys ap Dafydd fwrw golwg dros ei gywydd rhag bod unrhyw beth annheilwng ynddo (llau. 67–72).

Yn llinellau 61–4 sonia Llywelyn am Dduw yn rhoi'r awen i Rys ap Dafydd Llwyd ab Iorwerth pan fu farw Gruffudd Llwyd, a cheir yma egin syniad am darddiad yr awen a ddatblyga Llywelyn yn ei gywydd ymryson nesaf wedi i Rys Goch ei holi ynghylch y pwnc hwnnw (ymhellach gw. llau. 63–4n).

Yn ôl Ifor Williams, canodd Rhys Goch Eryri ei farwnad i Ruffudd Llwyd tua 1425,⁹ ac os cywir hyn, rhaid mai'n fuan wedyn yn yr un flwyddyn neu'r flwyddyn ganlynol y cyfansoddodd Llywelyn ab y Moel ei gerdd yntau.

- 1 'Pam y'm poenir heb awen?' Cyfeiria'r bardd at effeithiau marw Gruffudd Llwyd arno. Cf. GDG³ 53 (19.7–8) *Pam y'm cên awen ewybr, / Pefr orgraff, oleubruff lwybr?*, *ib.* 393 (148.29–30) *Pam y'm cên yr awenydd / Draw i'm diswyddaw y sydd.*

cên Ffurf 3 un.pres.myn. bf. ddiffygiol yn golygu 'poeni, aflonyddu, blino' ac a geir fynychaf yn y ffurf *y'm cên*, megis yma, gw. GPC 461 d.g. *cên*². Fel y dywedir yn DGG² 215, 'Daw i mewn bob amser mewn

⁶ A siarad yn fanwl, fodd bynnag, canmola Rhys Ruffudd fel bardd natur hefyd, gw. *ib.* 157 (ll. 25), 158 (ll. 6).

⁷ A.T.E. Matonis, *art.cit.* 643, 648–50.

⁸ *Ib.* 648.

⁹ IGE² xxxix. Ni ddywed Thomas Richards, *ib.* xiii, fwy am flynyddoedd Gruffudd Llwyd na'i fod yn ei flodau yn y cyfnod 1380–1420. Rhoddir ei *floruit c.* 1380–1410 yn ByCy 294, a 1385–1448 yn CLC² 651.

- cysylltiadau trist, a'r syniad o dristwch neu golled sydd ynddo.' Gellir deall marw Gruffudd Llwyd fel y goddrych.
- 2 **symud** 'Newid', gw. PKM 254, IGE² 423, BD 243. Gallai hefyd olygu 'difa, difodi', gw. GDG³ 448 (d.g. *bro yr hud*).
- 3 **gwaharddwyd** Ffordd dynerach o ddweud bod y bardd wedi marw, cf. ll. 9 *dodi*. Gwrthgyferbynnwr geiriau Llywelyn am Rys Goch Eryri yn 16.81, *Mefl i'r bardd a'i gwaharddo!*
- 5–8 **Fab Dafydd ... / ... fab Einiawn / ... / ... o Heilin hil** Adroddir ach Gruffudd Llwyd. Gw. hefyd IGE² xii. Hefyd, yn ei farwnad i Ruffudd Llwyd, *ib.* 159 (LIII.10), cyfeiria Rhys Goch Eryri ato fel *aer Einion Yrth*.
- 5 **Ofydd** *dofydd* yw darlenniad y mwyafrif o'r llsgrau. ond anghyflawn yw'r gynghanedd felly. O safbwynt y gynghanedd, byddai *ddofydd* llsg. H (felly hefyd IGE² 160) yn gywir, ond haws credu mai *ovydd* llsg. BFM yw'r darlenniad gwreiddiol. Daw *Ofydd* o'r Llad. *Ovidius*, sef y bardd serch Rhufeinig Publius Ovidius Naso (43 C.C.–c. 17 O.C.) a ystyrir yn yr Oesoedd Canol yn ben-meistr canu serch. Ar Ruffudd Llwyd fel bardd serch, gw. y sylwadau rhagarweiniol uchod. Dywed Rhys Goch amdano, IGE² 158 (ll. 7) *Pynciau cof o lyfr Ofydd*. Defnyddia Llywelyn yr ymadrodd [g]air *Ofydd* ynglŷn â Rhys Goch yn 15.42.
- 6 Yn IGE² 160 dodir atalnod llawn ar ôl *Einiawn* ond tyr hyn ar rediad ach Gruffudd Llwyd.
- 8 **Taliesin** Uniaethir Gruffudd Llwyd yma â'r cynfardd Taliesin.
o Yn IGE² 160 darllenir *a*, ond yn llsg. J yn unig y digwydd y darlenniad hwnnw, a rhydd *o* well synnwyr.
- 9 **dodi** Hynny yw, dan y pridd, ei gladdu. Cf. ll. 3n.
- 10 *Tost fyth, hir y tystiaffi* a ddarllenir yn IGE² 160 (cf. llsgrau. INRSTW) ond nid felly yn y mwyafrif o'r llsgrau. a mwy boddhaol o ran synnwyr yw eu darlenniad hwy. Yn IGE² 160 dodir atalnod llawn ar ddiwedd y ll., ond gellir hefyd ei chymryd fel sangiad.
tostur Gallai fod yn e. neu a. gynt; yma a. ydyw yn golygu 'tost, poenus, truenus'.
- 11 **Ystudliw mydr ystadlan** '[Un â] lliw / nodwedd gyson mydryddiaeth deg ei chyflwr [ar ei waith].' Deallir elfen gyntaf *ystudliw* yn amrywiad ar *astud*.
- 12 **ysbord** Y tebyg yw mai 'tafod' y gloch a olygir, gw. IGE² 360, GIG 240–1.
- 13 **hiraethglwyf** Yn IGE² 160 darllenir *hiraethwyf* a dyna yw darlenniad y mwyafrif o'r llsgrau. Chwithig iawn, fodd bynnag, yw *hiraethwyf hoed*,

yn bennaf am mai bg. yw *hiraethu* nas dilynir, felly, gan wrthrych (gw. GPC 1870). Cwbl foddhaol a phriodol, ar y llaw arall, yw *hiraethghwyf* llsgrau. DHMN.

- 14 **pensaergerdd** Ar *pensaer*, gw. ll. 24n.
- 15 **un gwael** Sef Llywelyn.
- 16 **mudwas** Hynny yw, Gruffudd Llwyd; cf. wyth englyn cyntaf marwnad Dafydd ap Gwilym i'w ewythr Llywelyn ap Gwilym, GDG³ 34–5 (13.1–32), lle y cyfeirir ar ddiwedd pob un at yr ymadawedig fel un sy'n 'fud'. Y tebyg yw mai'r S. 'mute' a olygir yma, ond cf. hefyd At.38n.
- fal Cai am Fedwyr** Ar y cyfeillgarwch rhwng y ddau ddilynwr hyn i Arthur, gw. TYP² 280, 304.
- 19 **gwniad** 'Cerdd gywrain'. Ar y defnydd ffigurol hwn o *gwnio*, gw. 12.16n.
- 21 **bwyall y gerdd** Defnyddir *bwyall* yma yn ffigurol am fedr a chelfyddyd farddonol berffeithiedig, gw. GPC 358. Dywedir yno ei bod yn bosibl mai cyfeiriad Guto'r Glyn at Lawdden—*Llawdden â'i fwyell eiddaw / Ni âd gwýdd deunydd lle daw* (GGI² 113 (XLII.47–8))—oedd tarddiad y traddodiad ond ni nodir yr enghraifft hon sy'n gynharach.
- a** Darllenir *ef* yn IGE² 160 ond llsg. Y yn unig a rydd hynny.
- 24 **saer** Hynny yw, 'bardd'; cf. ll. 14 *pensaergerdd*. Ar y defnydd ffigurol hwn, gw. Morgan T. Davies, 'Dafydd ap Gwilym and the Metaphorics of Carpentry', CMCS xxx (Winter 1995), 67–85, a cf. ll. 19n. Defnyddir y ffigur hwn yma oherwydd y cyfeiriad at *fwyall* yn y geiriau dilynol.
- a' i dwg** Sef *bwyall y gerdd* (ll. 21).
- 25 **angerdd** Gair ac iddo amryw ystyron, gw. GPC 50, ac sy'n odli'n fynych iawn â *cerdd*, megis yn yr enghraifft hon. Y tebyg yw mai 'celfyddyd' a olyga yma, gw. GIG 245–5, 350.
- 28 **organ** Yn ffigurol am berseinedd cân y bardd, cf. GDG³ 51 (18.31–4) *Pob dyn disalw a'i galwai / Pendefig mireinfrig Mai, / Ac organ dra diddan draidd, / Ac aur eos garuaidd* (marwnad Gruffudd ab Adda).
- 29 **o'r gadair** Y tebyg yw mai cyfeiriad sydd yma at Ruffudd Llwyd pan oedd yn fardd y gadair, sef bardd a oedd wedi ennill cadair fechan aur neu arian mewn cystadleuaeth farddol, gw. GPC 258 a cf. GO 319 (LXII.7–8) *Yr oedd aur gadair iddaw, / A chlod, heb neb vwch i law, ib. llau. 31–2 Bid gwaeth gwybodav a gair / Beirdd, gwedy bardd y gadair!* Cf. hefyd 16.40n. Ar ragoriaeth Gruffudd Llwyd fel bardd, gw. IGE² xvii–ix, xxi–ii.
- 31 **o'r** Gellir dehongli hwn i olygu 'y Mab [a ddaeth] o'r aberth', hynny yw a ddaeth i achub y ddynoliaeth trwy ei aberthu ei hun; neu efallai y dylid cydio'r ardd. o wrth *prydawdd*, yn yr ystyr 'am, ynghylch', cf.

- hefyd 15.37–40 *Hyllys g ydd wyd i'm holi / ... / ... o'r awen rwydd*. Ceir *a'r* yn amryw o'r llsgrau.
- 32 **cyd certh** Cyfeirir at berthynas yr Ysbryd Glân â dau berson arall y Drindod Fendigaid.
- 33–4 **Prydawdd ... / I'r haul deg ...** Cyfeiriad at gywydd Gruffudd Llwyd i ddanfôn yr haul i annerch Morgannwg, IGE² 144–6 (L). Fe'i priodolir yn y llsgrau. i Iolo Goch ac i Ddafydd ap Gwilym yn ogystal, ond diau mai Gruffudd yw'r gwir awdur, gw. *ib.* xx–xxi.
- 34 **areilied ef** Y goddrych yw *diyngnawdd dangnef* y ll. flaenorol.
- 37 **ar ddifant** Ar farwolaeth Gruffudd Llwyd.
- 38 **Powys bant** Cf. GGI² 303 (CXVIII.23–4) *Wyth ganmil a'th ganmolant / O Frysto i Benfro bant*; hefyd GSC 14.43 *gwlad Bowys bant*.
- 39 **genwair Dôl Gynwal** Gw. y nodyn yn IGE² 361, 'hen enw ardal Ysbyty Ifan, Sir Ddinbych. Os Rhys Goch a feddylir wrth *genwair Dôl Gynwal*, gall mai'r ystyr yw ei fod yn "pysgota" am nawdd gwŷr yr ysbyty. Os Rhys ap Dafydd, a awgrymir ei fod ef o'r ardal honno, gwialen o'r fro?' Gw. hefyd G 386. Anodd yw gwybod at ba Rys y cyfeirir, ond gellir nodi i ferch Rhys Goch, Margred, briodi Ieuan ap Rhys ap Tudur, disgynnydd i Gynwrig ap Llywarch, cyndad teulu pwysig Plas Iolyn yn sir Ddinbych a gŵr y ceir beddfaen iddo a ddyddir c. 1330 yn yr eglwys yn Ysbyty Ifan, gw. C.A. Gresham, 'Nanmor Deudraeth', Cylchg CHSFeir viii (1978), 107, ac *id.*, *Medieval Stone Carvings in North Wales* (Cardiff, 1968), 153–5. Ar yr achau, gw. hefyd P.C. Bartrum: WG1 'Gollwyn' 3, 'Marchweithian' 4.
- 40 **nodwydd a dâl** 'Nid yw'n werth ffeuen'. Ar *nodwydd* am beth diwerth, gw. 11.21n.
- 41–4 Cf. geiriau Rhys Goch yn ei farwnad i Ruffudd Llwyd a ddyfynnwyd yn y sylwadau rhagarweiniol uchod. Nid oes awgrym yng ngeiriau Llywelyn ei fod yn gyfarwydd â'r cwpled olaf, a'r pwynt hwn ynghyd â'r geiriau yn y cywydd nesaf—*A'r gair amddiffyn, aur gof, / Gwedd treigl, a guddiwyd rhagof* (15.23–4)—oedd carn Ifor Williams am ddal na welsai Llywelyn y fersiwn cyflawn o'r farwnad, IGE² lii–iii, 362, er na chyfeiria yno at eiriau Llywelyn yma.
- 42 **dawn mawr** Edrych ymlaen at l. 44 *rhagor gwawd*.
adwaenem ni *Adwaenem-i* yw darlleniad IGE² 161 (cf. llsgrau. BFGJLSTVXY). Nid yw hyn, fodd bynnag, yn gwneud synnwyr gan mai l ll.amhff.myn. *adnabod* yw *adwaenem* tra mai'r rh.pr.s.dib. ategol l un. yw *i*.
- 46 **wrth addef** 'Er mwyn / o ran [ei] gydnabod', hynny yw rhoi i Ruffudd Llwyd ei ddyledus gydnabyddiaeth.

- 47 **dug y blaen** ‘Rhagorodd’, gw. GPC 1130. Goddrych y f. yw *dri nod amlwg* yn y ll. ddilynol.
- heb un draen drwg** Efallai mai ‘heb ddim nodwedd anhyfryd’ (gan gyfeirio at ei farddoniaeth) a olygir; cf. ll. 20 *A diwarth y’i gadawai*.
- 48 **teml** Ar ystyron eraill *teml*, ‘crug, pentwr’, ac yna ‘eisteddfa, gorseddfa’, gw. CA 244–4. Awgrymir yno mai rhywbeth fel ‘cymanfa, gorsedd beirdd’ a olygir yn yr enghraifft hon.
- 51 48–50 Diau bod y *tri nod* a enwir yma yn adleisio patrwm y trioedd cerdd, e.e. GP 17 (llau. 17–18), er nad ailadroddir yr un ohonynt yma.
- 52 **profed** *Profer* a ddarllenir yn IGE² 161 ond *profed* a geir yn y mwyafrif o’r llsgrau. Hefyd, ni ddodir yn IGE² goma ar ei ôl fel pe bai’n llywodraethu a *geidw* sy’n ei ddilyn; ond gwell cydio a *geidw* wrth *pwyl* yn y ll. flaenorol a chymryd *profed* fel sangiad.
- 54 **ysgwîr** Sgwâr y saer wedi ei ddefnyddio yma’n drosiadol i ddynodi safon perffeithrwydd mewn cerdd dafod, gw. GDG³ 606 a cf. ll. 19n.
- 55 **oedd addef** ‘Cydnabyddid [hynny]’.
- 58 *Rhys Goch athro hen* yw darlleniad y mwyafrif o’r llsgrau., ond nid yw’n foddhaol gan fod y ll. yn fyr o sill a’r gynghanedd yn chwithig. Yn bwysicach, dengys cynnwys y gerdd nad i Rys Goch o Wynedd y dymuna Llywelyn ab y Moel i awen Gruffudd Llwyd fynd ond i Rys ap Dafydd ab Iorwerth, ei athro cerdd ym Mhowys (gw. 67–72n). Dilynir, felly, *Rhys ei frawd ef uthr hen* llsgrau. INRSTW.
- brawd** Yn ôl yr achau, yr oedd Gruffudd Llwyd yn fab i Ddafydd fab Einion fab Heilyn, gw. IGE² 161 xii, ac ni allai, felly, fod yn ‘frawd’ yn ystyr lythrennol y gair i Rys ap Dafydd ab Iorwerth. Rhaid, yn hytrach, yw cydio *brawd* yn dyn wrth *uthr hen*—*brawd henaint* oedd Rhys i Ruffudd. Gw. hefyd GPC 311 ar ystyron *brawd*.
- 58–60 **Rhys ... / Fab Dafydd ... / hil Iorwerth** Fel y dangosodd Ifor Williams, IGE² xxxix, lvii, 356, 361, Rhys ap Dafydd Llwyd ab Iorwerth a feddylir, bardd o Bowys a oedd yn gyfoeswr â Gruffudd Llwyd a Rhys Goch Eryri ac yn athro barddol i Lywelyn ab y Moel. Fe’i henwir fel cwesteiwr yng nghywydd enwog Gruffudd Llwyd i’r Cwest a ganwyd c. 1385, a’r tebyg yw mai ef yw’r Rhys ap Dafydd Llwyd y cyfeiria Rhys Goch Eryri ato yn ei farwnad i Lywelyn, *ib.* 325 (llau. 29–30), fel un a oedd wedi marw o flaen Llywelyn ac yn ei groesawu i’r nefoedd. Ceir darn o gywydd gan Rys ap Dafydd yn llsgrau. Pen 50, 132, Pen 113, iii, 65, a Phen 270, 352. Cyhoeddwyd testun Pen 50 gan J.G. Evans, ‘Extracts from Hengwrt MS 34’, *Y Cymmrodor*, ix (1886), 326, a’i atgynhyrchu yn IGE² 361.
- 59–60 Ceir y cwpled hwn yn dilyn ll. 64 yn IGE² 162 ond dilynwyd trefn y mwyafrif o’r llsgrau. yma. Gan mai am Rys arall, ac nid am Rys Goch

Eryri, y mae'r bardd yn sôn yma a bod yn rhaid, felly, egluro hynny, mwy bodddhaol efallai yw diffinio'r Rhys hwn ar unwaith yn hytrach nag yn nes ymlaen, er nad effeithir dim ar y cynnwys na'r ystyr.

59 **saer** Gw. ll. 24n.

61–2 **aeth ... / ... borth Iesu** Enghraifft o ddynodi'r cyrchfan ar ôl bf. yn dynodi symudiad gan dreigladau yn unig, gw. Treigladau 227–8.

62 **iaswr** Ar y defnydd ffigurol, cf. ll. 24n.

63–4 Ar darddiad dwyfol yr awen, gw. sylwadau rhagarweiniol cerdd 15. Rhyfedd, ar un olwg, yw meddwl am Grist yn rhoi awen un bardd i fardd arall os meddylir am awen unigolyn fel peth na all neb ond ef ei hun ei feddu. Fodd bynnag, credai beirdd Cymru yn yr Oesoedd Canol mai rhodd oddi wrth Dduw oedd yr awen, a byddai'n dilyn felly y gallai Duw roi ei awen i ddynion yr un modd ag y rhoddai ei ras; a'r unig wahaniaeth rhwng awen un bardd a'r llall fyddai'r bardd, nid yr awen. Datblygir thema'r awen ymhellach yn 15.45–52.

64 y **Gŵr** Cymerir mai at Grist y cyfeirir, nid Gruffudd Llwyd, oherwydd ni allai hwnnw, hyd yn oed os deellir *awenydd* i olygu 'mantell farddol', fod wedi rhoi ei awen i fardd arall ac yntau eisoes yn farw (llau. 61–2), a dengys ystyr *secutor* yn ll. 66 mai rhywun arall, yn hytrach, a'i rhoddodd. Ar ddefnyddio *gŵr* am Grist, gw. GPC 1694.

66 **catel** 'Eiddo', benthyciad o'r H. Ffr. *catel* neu'r S.C. *catel* 'chattel, cattle', gw. GPC 439. Cyfeirir at awen Gruffudd Llwyd.

gwell Sylwer ar y treigladau. Yn ôl GPC 439, gall *catel* fod yn eb. weithiau, ond treiglid yr a. cymharol ar ôl e. hefyd mewn gofyniad y disgwyliid ateb negyddol iddo, gw. Treigladau 66–7 a cf. GIG 75 (XVI.11–12) *A'r pantler a'r bwiler bach— / F'enaid! A fu ddyn fwynach* (moliant Ieuan, Esgob Llanelwy) ac uchod 11.52 *cyngor degach*.

secutor Yn ôl teipysgrif heb ei golygu ar gyfer GPC, mae'n fenthyciad o'r S. *secutor*, ffurf ar *executor*, sef yn yr achos hwn (yn ffig.) 'gweinyddwr llythyr cymyn', IGE² 422.

67–72 Yn y llau. hyn ymddengys fod Llywelyn yn fonon (ll. 67 *taith*) ei gywydd at ei athro, Rhys ap Dafydd, rhag ofn bod unrhyw beth annheilwng ynddo y dylid ei gywiro (71–2 *Dod ... / Dy nod ...*) cyn iddo ei ganu ar goedd, gw. IGE² 361. Gellid dadlau, felly, gan na ddisgwyliid i fardd ofyn am gymorth bardd arall yn ei gerdd cyn ei chwblhau'n derfynol, nad ffurf derfynol cywydd Llywelyn sydd yn y llsgrau. Dichon hefyd, fodd bynnag, i'r fersiwn hwn, am ryw reswm, ddod i law Rhys Goch Eryri cyn ei newid ac i'r diweddglô, o ganlyniad, aros yn ddigyfnewid.

68 **tâl** Sef yr *awenydd* (ll. 63) a roddodd Crist i Rys.

69 **un gwael** Cyfeiriad at y *sennau* yn y ll. nesaf.

71–2 **Dod arnynt ... / Dy nod ...** A oes yma awgrym mai fersiwn ysgrifenedig o gerdd Llywelyn y byddai Rhys ap Dafydd Llwyd yn ei dderbyn? Ar y beirdd a llythrennedd, gw. E.I. Rowlands, ‘Bardic Law and Education’, B xxxii (1985), 143–55. Cf. hefyd J. Hunter, ‘Cydestunoli Ymrysonau’r Cywyddwyr: Cipolwg ar “Yr Ysbaddiad Barddol”’, *Dwned*, iii (1997), 40, ‘Mae’n bosibl bod rhai o’r ymrysonau cynharach hefyd yn gynnrych rhyw fath o lythyru, naill ai drwy ddanfon testunau ysgrifenedig, neu drwy gyfrwng datgeiniaid yn gweithredu fel negeswyr.’

15

Dyma ail gywydd ymryson Llywelyn ab y Moel â Rhys Goch Eryri.¹ Gan na wyddai Rhys Goch fod y fersiwn o’i farwnad i Ruffudd Llwyd a glywsai Llywelyn yn ddiffygiol ac felly’n gamarweiniol (gw. sylwadau rhagarweiniol cerdd 14), tipyn o ysgytiaid iddo oedd cywydd Llywelyn ac ymetyb fel hen batriarch wedi ei dramgwyddo a’i ddigio. Esbonia mai gair o fawl i Ruffudd Llwyd a’i awen oedd y gair o sen i wŷr Powys y cyhuddasai Llywelyn ef o’i ddweud, a dywed na ddylai Llywelyn, ac yntau mor ifanc, fod mor hy â beirniadu a llesteirio mawl bardd oedrannus fel ef a hanai o fonedd Gwynedd a Phowys. Heria ef hefyd, os yw’n wir fardd, i ddweud wrtho pa fesur y dylid ei ddefnyddio ar gyfer yr awen ac o ba le y daeth honno, gan ychwanegu bod angen bod yn wir gyfarwydd ag un o *odlau* Taliesin a’i *wawd* er mwyn i fardd ennill meistrolaeth ar ei grefft.²

Od wyd ti brifardd, hardd hawl,
 Y byd, a thra gwybodawl,
 Dywed pa fesur dwywaith
 Y sydd ar awen o saith,
 Fflaw cerdd, a pha le y’i cad,
 Diochr yw, ei dechreuad.
 O gwddost fesur gwiwddoeth,
 Cae cerdd, fal henwr cu coeth,
 Un o odlau yn ddidlawd
 O wir Taliesin, a’i wawd,
 Yno y caiff dyn, englyn ongl,
 Deall pynciau a’u deongl.

Yma, yn wir, ymdebyga Rhys Goch i athro barddol yn holi disgybl gyda’r bwriad o roi neu dynnu marciau.

¹ Fe’i golygwyd gan I. Williams yn IGE² 166–8 ar sail testun llsgrau. QRWXZab uchod (gw. IGE 161).

² IGE² 164 (llau. 23–34); nid hawdd yw dehongli llau. 25–6, ond cymerir *dwywaith* gyda *dywed* a’i ddeall i olygu ‘yn sicr’. Gall o *saith* fod yn gyfeiriad at y saith gelfyddyd neu’n ymadrodd ansoddeiriol yn golygu ‘pur, perffaith’.

Ymetyb Llywelyn yn gyntaf trwy syrthio ar ei fai (llau. 1–16) ac esbonio sut y bu iddo gael ei gamarwain (llau. 17–34). Ymgymer, fodd bynnag, â her Rhys Goch iddo ynglŷn â'r awen a Thalesin (llau. 35–64): dywed iddo dderbyn yr awen trwy rasmus helaeth yr Ysbryd Glân a'i rhoes i ddynion ar y Sulgwyn, a'i fod yn gyfarwydd â chyfran o gerdd ymryson fuddugoliaethus Taliesin â beirdd llys Maelgwn Gwynedd a arweiniodd at ryddhau ei feistr Elffin. Yn olaf, er mwyn cloi'r mater yn anrhydeddus, datgan ei fwriad i ymweld â Rhys yn bersonol (llau. 65–88).

Y mae dau beth yn arbennig yn teilyngu sylw yn y cywydd hwn. Un yw'r parch a'r cwrteisi a ddengys Llywelyn ab y Moel bob amser tuag at Rys Goch ('seboni'r hen brydydd yn ddymunol iawn', chwedl Ifor Williams³). Pur wahanol yw hyn, er enghraifft, i gecru plentynnaidd Dafydd ap Gwilym a Gruffudd Gryg, a theimlir bod Llywelyn nid yn unig yn boddio Rhys yn bersonol⁴ ond hefyd yn dilyn rheolau ymddygiad—*etiquette*—cydnabyddedig ymysg uchelwyr ei oes ar gyfer ymwneud beirdd ifainc â beirdd hŷn a mwy profiadol.⁵

Yr ail bwynt o ddi-ddordeb yw'r trafod ar darddiad yr awen farddol a'r adeg y rhoddwyd hi i'r hil ddynol.⁶ Yr oedd pwnc ffynhonnell ysbrydoliaeth y beirdd yn un pwysig ac iddo linach hir yn yr Oesoedd Canol.⁷ Cododd yn wreiddiol o'r angen moesol a deimlai Cristnogion bore i bortreadu gwir awen fel peth Cristnogol a Hebreig ei tharddiad a welid yn yr ysgrythurau er mwyn gwrthweithio dylanwad grymus awen Roegaidd yr hen lenyddiaeth Glasurol a'r gwerthoedd paganaidd a gostrelid ynddi; a dwyseid yr angen gan eu dibyniaeth ar batrymau'r llenyddiaeth honno fel cyfrwng i ddatgan eu cenadwri. Ymgais nodedig i Gristioneiddio'r *Musa* (neu *Musae*) Clasurol oedd cerdd hir y Sbaenwr Gaius Vettius Aquilinus Juvenus, *Immortale nihil mundi compage tenetur*, a ysgrifennodd tua 330 ac sydd ar ei hyd yn dangos arwyddion astudiaeth o waith Fyrsil.⁸

Yng Nghymru gellir canfod dwy farn wrthwynebol sy'n cyfateb—eithr nid yn union⁹—i'r rhaniad hwn o ysbrydoliaeth farddol yn awen baganaidd

³ 'Cywydd Cyfrinach Rhys Goch Eryri', B i (1921–3), 44.

⁴ Gw. IGE² 165 (llau. 5–14).

⁵ Diolchir i Dr Jerry Hunter am ddwyn fy sylw at y pwynt hwn. Gw. hefyd ei erthygl 'The *Ad Hominem* Attacks in Medieval Welsh Ymrysonau' yn *Proceedings of the Harvard Celtic Colloquium*, xiii (1993), 61–2.

⁶ Gw. hefyd A.T.E. Matonis, 'Later Medieval Poetics and some Welsh Bardic Debates', B xxix (1980–2), 651–3.

⁷ Ar hyn, gw. D.M. Lloyd, 'Estheteg yr Oesoedd Canol', LiCy i (1950–1), 225; E.R. Curtius, *European Literature and the Latin Middle Ages* (London, 1953), 235–46; Y Chwaer Bosco, 'Awen y Cynfeirdd a'r Gogynfeirdd' yn BaTh 35.

⁸ ODCC² 758.

⁹ Dwy farn wahanol yn cyfateb i ddwy lenyddiaeth wahanol, sef llenyddiaeth Glasurol a llenyddiaeth Gristnogol, a geid yn Ewrop yn gyffredinol, eithr dwy farn wahanol am yr un lenyddiaeth, sef y traddodiad barddol, a geid yng Nghymru. Yr oedd gan y beirdd Cymraeg eu haven frodorol eu hunain a gysylltid â'r hen dduwies gyn-Gristnogol Ceridwen, ond nid oes unrhyw dystiolaeth eu bod yn meddwl amdani fel grym paganaidd tebyg i *Musa* Groeg a Rhufain a oedd yn

ac awen Gristnogol.¹⁰ Yn ôl un garfan, yr oedd awen y traddodiad barddol Cymraeg a sefydlwyd gan Fyrddin a Thaliesin yn un halog, gelwyddog, ac anghristnogol. Gwelir hyn gyntaf yn ymosodiad deifiol Gildas ar feirdd Maelgwn Gwynedd,¹¹ ac etifeddion iddo yn hyn o beth oedd y Dominicaniad Anian II, esgob Bangor (*ob.* 1293) y dywedir iddo gyfansoddi traethawd o'r enw 'Commentum in Fabulas Poetarum',¹² awdur y gerdd 'Bustl y Beirdd',¹³ Siôn Cent,¹⁴ ac Edmwnd Prys.¹⁵ Diau mai clerigwyr yn bennaf a goleddai'r farn hon.

Yn ôl y garfan arall, gras a roddwyd gan Dduw oedd yr awen hon. Yng ngeiriau Gramadeg y Beirdd, *Kanys kyffran o doethineb anianawl yw prydydyath, ac o'r Yspryt Glan y pan henyw.*¹⁶ Dyma safbwynt Gruffudd Llwyd,¹⁷ Rhys Goch Eryri,¹⁸ Llywelyn ab y Moel, a Wiliam Cynwal,¹⁹ ac y mae'n oblygedig hefyd yng nghyfeiriadau'r beirdd (e.e. Gwalchmai,²⁰ Dafydd ap Gwilym²¹ a Iolo Goch²²) at Ddafydd Frenin—'Dafydd Broffwyd'—fel patrwm cerdd dafod. Odid nad yn yr un goleuni optimistaidd y gwelai'r mwyafrif o'r beirdd eu galwedigaeth.

Y tebyg yw nad dwy awen a oedd, mewn gwirionedd, yn ogymaint â dau ddefnydd gwahanol o'r un peth a hwnnw mor hen â'r ddynoliaeth. Ers cyn cof buasai rhyw ddeuoliaeth mewn barddoniaeth a barai i'r beirdd ddod dan lach beirniaid a meddylwyr o bryd i'w gilydd. Yr enghraifft enwocaf, wrth gwrs, yw beirniadaeth Platon yn 'Y Wladwriaeth' lle y mynnai alltudio'r beirdd o'r gymdeithas ddelfrydol am eu bod, yn ei dyb ef, yn traethu celwyddau. Ac yng Nghymru dyna'r geiriau a lefarwyd wrth awdur 'Ymborth yr Enaid', traethawd cyfriniol a gyfansoddwyd tua chanol y drydedd ganrif ar ddeg, yn ei weledigaeth o Iesu, *A manac y'r prydydyon y*

cynrychioli ffrwd wahanol, wrthwynebus, o ysbrydoliaeth i eiddo Cristnogaeth, ac y mae'r ffaith fod y Cynfeirdd a'r Gogynfeirdd weithiau'n galw ar Dduw a Cheridwen ar yr un gwynt am gymorth i farddoni yn awgrymu bod Ceridwen wedi ei chymathu â Christnogaeth i gryn raddau, os nad yn llwyr. Nid yw hynny'n syndod o gofio mai gwlad Gristnogol fuasai Cymru erioed, ac y mae'r mwyafrif o Feirdd y Tywysogion yn cydnabod Duw fel ffynhonnell eu hathrylith. Gw. Y Chwaer Bosco, *art.cit.* 34–5; Oliver Davies, "'On Divine Love'" from *The Food of the Soul: a Celtic Mystical Paradigm?*, *Mystics Quarterly*, xx, rhan 3 (1994), 92–3; *id.*, *Celtic Christianity in Early Medieval Wales: The Origins of the Welsh Spiritual Tradition* (Cardiff, 1996), 91.

¹⁰ Gw. YEPWC cxxxiv–cliv.

¹¹ *Gildae de Excidio Britanniae*, ed. H. Williams (London, 1899, 1901), 80.

¹² Glanmor Williams, *The Welsh Church from Conquest to Reformation* (Cardiff, 1962), 189.

¹³ MA² 29.

¹⁴ IGE² 181–3 (LX).

¹⁵ YEPWC 1–238 *passim*.

¹⁶ GP 35 (llau. 24–5).

¹⁷ IGE² 119 (ll. 23)–20 (ll. 6).

¹⁸ *Ib.* 170 (ll. 5)–71 (ll. 34); 186 (llau. 21–30).

¹⁹ YEPWC 1–238 *passim*.

²⁰ GMB 12.1–2.

²¹ GDG³ 363 (137.59–60).

²² E.e. GIG 95 (XXII.83–6).

*rodeis i vdunt gyfurann o yspryt vy nigrifuwch i y mae yawnach oed vdunt ymchwelut y'r yspryt hwnnw y'm diwyll i noc y ganmol ynytserch gorwagyon betheu tranghedigyon yn amsserawl,*²³ geiriau sy'n haeddu bod yn fwy adnabyddus o lawer nag ydynt. Serch hynny, gyda'u dirmyg mynych at yr henfyd a'u hoffter nodweddiadol o ddsbarthu clir a threfnus, tueddai ysgolheigion yr Oesoedd Canol i bortreadu'r ddwy awen nid yn annhebyg i'r modd y buasai Manichead yn sôn am y da a'r drwg.²⁴

Gair yn olaf ar yr adeg y rhoddwyd yr awen i'r hil ddynol. Dywed Llywelyn (llau. 49–52) mai ar y Sulgwyn cyntaf y bu hynny. Yn ei ateb i'r cywydd, cytuna Rhys Goch â hyn ond dadleua hefyd mai i dorf (*cant*) y dangoswyd yr awen am y tro cyntaf yr adeg honno, ac i Adda ei derbyn o'r nef gan Dduw 5,200 o flynyddoedd cyn hynny ar ôl ei alltudio o baradwys i Lyn Ebron lle y bu ef y cyntaf o ddynion i farddoni wedi iddo ddychwelyd yno gyda'i rodd.²⁵ Cywir, felly, ond anghyflawn, oedd ateb Llywelyn, a gellir priodoli hyn naill ai i'r ffaith nad oedd cwestiwn Rhys Goch yn ddigon penodol, neu i anwybodaeth bardd ifanc.²⁶

1–2 **Diau fod y cwpled hwn yn adleisio dechrau ateb cyntaf Rhys Goch Eryri i feirniadaeth Llywelyn ab y Moel, IGE² 163 (llau. 1–2) *Llew brwydr fal llaw Beredur, / Llywelyn derwyn â dur.* Sylwer yn arbennig ar y cyfeiriad at Beredur gan fod hwn yn gyfaill i Edlym a enwir yn ll. 2 (gw. n).**

rhos dy liw Fe'i deallir yn frawddeg enwol—'[Eiddo] rhosod yw dy liw' neu '[Fel] rhosod y mae dy liw', ffordd arall o ddweud bod gan Rys flewyn coch. Cyfeirir ato felly er mwyn ei gysylltu â chochni cleddyf Edlym yn y ll. nesaf.

2 **rhuthr Edlym** '[Un a chennynt] ruthr Edlym'. Cyfeirir at Edlym Gleddyf Goch, cyfaill Peredur fab Efrog, gw. G 494. Ceir *Elffin* yn amryw o'r llsgrau. ond ni wedda cystal ac ni rydd gystal odl yn y gynghanedd.

â'i Er mai llsgr. H yn unig a rydd y darlleniad *ai*, a hwnnw'n newidiad gan law arall ar *ail*, barnwyd mai dyma'r darlleniad mwyaf boddhaol. Y mae'r llsgr. hefyd yn un o'r rhai cynharaf. Darlleniad y mwyafrif o'r llsgrau. yw *a*, ond ni cheir unrhyw enghreifftiau o'i ddilyn gan *rh* yn y gair nesaf fel y disgwylid, a dichon mai ymgais i gywiro hynny yw *ail* llsgrau. QUa. Fe ellid, er hynny, ystyried *ail* hefyd, a dyna ddarlleniad IGE² 166.

²³ YE 22 (llau. 203–7).

²⁴ Cf. GP 57 (llau. 1–3) *kanys trech y dily vot molyangerd y prydyd no gogangerd y klerwr kroessan, megys y mae trech y da no'r drwc.*

²⁵ IGE² 170 (llau. 9–34).

²⁶ Dywed A.T.E. Matonis, *art.cit.* 652, am drafodaeth Rhys a Llywelyn ar yr awen, '... it seems fairly certain that the discussion of *awen* is very learned and bookish'.

- 3 **i'th ben gymhendawd** Cf. GDG³ 428 (III.9–10) *Caed o'i ben bob cymhendawd, / Cynddelwaidd ei weddaidd wawd* (Gruffudd Gryg yn ei farwnad i Ddafydd ap Gwilym).
- 4 **rhugl** GDG³ 22 (8.45–6) *Rhugl â cherdd y'i anrhegaf, / Rhagor rhag lfor a gaf.*
- 5 **ar brif ddigrifwch** Cyferbynia â *nid trwy ateb trwch* yn y ll. nesaf.
ar Yr ardd. yn dynodi dull neu gyflwr, cf. *ar dafod, ar weithred, &c.*, a gw. GMW 184.
- 6 **trwy** Yn dynodi dull, megis *ar* yn ll. 5, gw. 11.40n.
- 7 **rhy gysellt** 'Gormod *cysellt*, gormod o *gysellt*', cf. ll. 42 *rhyfab*. Gofynnir yn IGE² 408 ai 'baich' a olyga *cysellt* yma, megis yn 9.41. Heblaw'r ystyr 'baich, sypyn', rhydd GPC 812 hefyd yr ystyron 'rhaff grogi, cebustr'. Pa beth bynnag a olygir, ymddengys mai defnydd ffigurol a wneir o'r gair. Cf. ystyron ffigurol *baich, ib.* 250, 'rhwystr, cyfrifoldeb, gofid'. O gymryd bod yma ddefnydd ffigurol o 'rhaff grogi', gellid cynnig hefyd mai 'malais marwol' neu'r cyffelyb a olygir, ond efallai mai 'rhwystr' neu 'gofid' yw'r ystyr fwyaf tebygol.
- 8 **rhawd fân** 'Ciwed ddi-ddim'. Ni wyddys pwy oedd y garfan hon a oedd yn ceisio gyrru'r ddau fardd yn ben-ben; cf. hefyd ll. 87n.
malltan Y tebyg yw mai 'taranfollt' (yn ffigurol) a olygir, fel y cynigir yn betrus yn IGE² 417; gw. hefyd GPC 2332.
- 9 **maith wg** Cyferbynia â *rhuthr malltan mell*.
â thi Yn IGE² 166 darllenir *a thi*, ond chwithig yw *fy nwyn mi a thi* a ddisgwyliid, yn hytrach, *ein dwyn mi a thi*, megis yn llsgrau. HYa. Trefn fwy arferol y gystrawen fuasai *fy nwyn i ymhalogi, mi â thi*, felly cydier *â* wrth *ymhalogi* yn y ll. nesaf. Gellid dilyn darlleniad HYa ond nid yw y mwyafrif o'r llsgrau. o'i blaid.
- 10 **mawl hagr** Sylwer ar y gwrtheiriad (*oxymoron*) a gw. 9.43n. Beirdd mawl yn bennaf oedd y ddau ond yr oedd perygl i'r mawl gael ei wydroi.
- 13–16 Y gystrawen yw *Ni welaf ... ffordd o'r byd ... i fwrw dychan arnad ...*
- 14 **ffordd o'r byd** 'Ffordd yn y byd'.
- 15 **brad awch** Deellir *brad* yn enidol yn dibynnu ar *awch*—'awydd [am] frad'.
- 16 **ynad** Sef 'gŵr doeth, gwybodus' yn wreiddiol, yn tarddu o wreiddyn yn golygu 'gwybod'; ond mabwysiadwyd y term gan fyd cyfraith am un a ddatganai'r gyfraith ac a roddai ddyfarniad ar achosion cyfreithiol. Dichon mai'r ystyr gyntaf a welir yma, cf. GCBM ii, 16.155 a gw. *ib.* n, 16.79 *penrhaith cerdd*.
- 17–21 Y gystrawen yw *O chenaist un gair dwys, ... goreuraist â'r gair*

- arall ... hwnnw'n gall hyd nad oes ...* Hynny yw, os dywedodd Rhys rywbeth llym, yna y mae ei eiriau eraill wedi gwneud iawn am hynny. Cyfeiria *ni bu gynnwys gennym* at y *gair dwys*—ni fyddai Llywelyn wedi croesawu *gair o'r fath*.
- 20 **honnwn** Anodd gwybod ai 1 ll.pres.myn. ai 1 un.amhff.myn./dib. y f. sydd yma. Cf. GDG³ 99 (35.59–60) *Ond nad rhydd, gynedwydd gân, / Gwir oll, honni'r gair allan*.
- 21 **parabl foes pêr** '[Tydi â] dull ymadrodd melys'.
- 23–4 **A'r gair amddiffyn ... / ... a guddiwyd rhagof** Gw. sylwadau rhagarweiniol cerdd 13 ac *ib.* 41–4n.
- 23 **gair amddiffyn** Y *gair* a fyddai wedi amddiffyn Rhys Goch rhag cael ei gamddeall, fe ymddengys. Awgryma Dr A.T.E. Matonis, 'Later Medieval Poetics and some Welsh Bardic Debates', B xxix (1980–2), 662, mai term cyfreithiol efallai yw *gair amddiffyn* â'r ystyr '*legal defence*'.
- aur gof** '[Un â] meddwl ardderchog', cyfeiriad canmoliaethus at Rys Goch.
- 24 **gwedd treigl** Hynny yw, yr oedd y farwnad wedi mynd ar dreigl cyn i Lywelyn ei chlywed gyda'r canlyniad, yn yr achos hwn, iddi gael ei llygru. Tybed, fodd bynnag, na ddylid darllen *gawdd draigl* (hynny yw, *dreigl*)—'hynt [a barodd] ddigofaint'—a geir yn llsgrau. JPUWZ? Cf. R 1206.4–5 *Treigla6d ka6d kyffro. tr6yr vronn honn heno* (Gruffudd ap Maredudd).
- 26 **trwy lid** Gw. 11.40n.
- fal cyfnewid cu** Edrych ymlaen at *gosod pris* yn y ll. nesaf.
- 27 **gosod pris** Hynny yw, *gosod pris isel*, cf. geiriau ateb cyntaf Rhys Goch, IGE² 163 (llau. 7–10), *Pwy a beris it brisiaw / Fy ngherdd, briawd angerdd braw? / Saethaist wehilion sôn serth / Salwedd mawr mewn iselwerth*. Ymddengys fod yma adlais o ddull y beirdd proffesiynol o werthuso cerdd; cf. y defnydd o'r geiriau *barnu* ynglŷn â cherddi'r prydydd a'r clerwr yn y darn canlynol o Ramadeg y Beirdd, GP 56 (llau. 40–6), *Kanys kreffft prydyd yw kanmawl, a chlotuori, a digrifhau, a gwneuthur molyant a gogonyant a didanwch, a dosparthus yw y gerd, a barnu a ellir arnei; a chreffft y klerwr kroessan yw anghanmawl, ac anglotuori, a goganu, a gwneuthur kywilyd a mefyl ac anglot, a chroessangerd anossparthus yw heb allel barnu arnei, kanys ymboergerd vdyr yw*.
- dewis di** Deellir *pris* yn wrthrych.
- 28 **urddwr** Gallai olygu 'un sy'n rhoi urddas [ar]' (cf. y f. *urddo*), neu 'gŵr urddasol' (ar *urdd* 'urddas; anrhydeddus', gw. GCBM ii, 438).

- awdl** Yn yr ystyr gyffredinol ‘cân, cerdd’ (sef cân ac ynddi *odl*), gw. GPC 239.
- 29–32 Byrdwn y llau. hyn, fel y dywedir yn IGE² 363, yw mai dyma’r unig adeg yn ei fywyd i Lywelyn ab y Moel ‘brisio’ gwaith Rhys Goch.
- 29 **rhôn** Yr ystyr arferol yw ‘gwaywffon’, ond ymddengys mai defnydd ffigurol sydd yma—’gwron’.
Twyll gynghanedd *g*.
- 30 **o’r ganon** ‘Yn unol â rheol / safon’, ymadrodd na pherthyn iddo yma fwy o arwyddocâd na moli Rhys yn gyffredinol, cf. *pen cun cerdd* amdano yn ll. 32. Ar *canon*, gw. GPC 146.
- 31 **iawngais angerdd** Ceir yr un cyfuniad gan Iolo Goch, GIG 56 (XXXII.37–8) *Ni cherais, iawngais angerdd, / Na’i chafn botymog na’i cherdd* (am y delyn ledr); Dafydd ap Gwilym, GDG³ 233 (85.21–3) *Perais o iawngais angerdd / Prydu a chanu ei cherdd / P’r glêr hyd eithaf Ceri, / Eiry mân hoen, er ei mwyn hi; a chan Guto’r Glyn, GGI² 24 (IX.31–2) Ni thraethais, iawngais angerdd, / Air gau wrth euraw ei gerdd*. Yr ystyr yw fod y bardd wedi arfer ei awen yn iawn i’r perwyl. (Ar *angerdd*, gw. 14.25n.)
- 33–6 Y gystrawen yw *Tithau, ... profedigaeth a wnaethost ... Gall tyrfa* (ll. 33) gyfeirio at *Rhawd fân* (ll. 8); neu wŷr Gwynedd a *cyffro* (ll. 34) at [*t*]erfysg (ll. 33) neu *Profedigaeth* (ll. 35). Ystyr *gwna dyrfa derfysg* yw ‘gwna derfysg [ymysg y] dyrfa’.
- 35–6 **Profedigaeth ... a wnaethost / Arnaf ...** ‘Rhoddaist brawf arnaf’. Cyfeirir at sialens Rhys Goch i Lywelyn yn ei ateb cyntaf, IGE² 164 (llau. 23–34), gw. y sylwadau rhagarweiniol uchod.
- 37 **i’r m** ‘Yn fy’.
- 38 Camosodiad *m n* yn ateb *n m*.
ni’r m dawr ‘Ni waeth gennyf’, gw. GMW 150 a cf. 16.28.
- 40 **o’r awen rwydd** Cydier wrth *holi*, ll. 37, a cf. 14.31n.
- 41–2 Cf. IGE² 165 (llau. 6–7) *Rhy fai beth, a rhy fab wyd. / Nid pwyll i neb o’i febyd*.
- 42 **rhyfab** ‘Gormod mab, gormod o fab’, hynny yw, yn rhy ifanc.
gair Ofydd Awgryma hyn fod Rhys Goch hefyd yn fardd serch. Ar *Ofydd*, gw. 14.5n.
- 45–52 Gw. y sylwadau rhagarweiniol uchod a cf. hefyd 14.63–4.
- 47 **iawngyd angerdd** Meddylir am yr Ysbryd Glân fel grym sy’n cydio’i awen wrth gelfyddyd dyn yn y ffordd iawn.
- 49 **rhoes** Y goddrych yw yr Ysbryd Glân.
teilyngfoes dôn ‘Cân arferiad urddasol’; achuba’r blaen ar y ll.

- ddilynol. Cf. GGDT 151 (15.25) *Wrth glywed teced tôn englynion—maith* (Iorwerth Beli).
- 50 Yr ystyr yw ‘gan ddilyn esiampl ddisglair (*golau*) yr angylion’ (sef eu *teilyngfoes dôn*).
- 51 **ar lwybr iaith** Yn IGE² 167 darllenir *lwybr araith* ond bernir mai gwell yw *ar lwybr iaith* y mwyafrif o’r llsgrau. gan mai derbyn yr Ysbryd ar ffurf iaith yw’r union beth a fu ar y Sulgwyn (gw. ll. 52) pan ddechreuodd yr apostolion lefaru â thafodau.
- 53–6 Ar y traddodiad am ymryson Taliesin â beirdd Maelgwn Gwynedd yn Negannwy a arweiniodd at ryddhau ei feistr, Elffin mab Gwyddno Garanhir (ll. 56), gw. ChT, TYP² 510, CLC² 694–5.
- 53 **hanes** Yn IGE² 167 darllenir *armes* megis yn llsgrau. JPQUWa.
llys Faelgwn Ar y treigladd meddal, gw. 11.60n.
- 55 **medrodd mwy** Tra-rhagoriaeth Taliesin yn yr ymryson a feddylir.
Elffin Gw. llau. 53–6n.
- 56 **eurin aerwy** Am y geiriau hyn meddir yn IGE² 363, ‘... cf. Pen. 51 (155), RWM I.401: “Mi yw taliessin benn beirdd gorllewin A ellwng elffin oi hual eurin”—rhan o *Ddyhuddiant Elffin*, gw. MA^[2] 24.’
- 57 Diddorol sylwi bod Lewys Glyn Cothi yn cyfeirio at ei noddwr Dafydd ap Rhys ap Meirig o Dre’rdelyn (ym mhlwyf Pencraig, Llythyfnwg), yn esbonio iddo rannau tywyll o *gywydd Gwiawn* (sef Taliesin), gw. GLGC 349 (157.31–4). Dywed Dr Marged Haycock, *Am y ffin â’r gorffennol* (Llanrwst, 1993), 17, ei bod yn debygol mai pori yn Llyfr Taliesin yr oedd Lewys a Dafydd.
- 58 **heb un chwai lw** Hynny yw, yn gwbl onest.
- 59 **presen** A wrthgyferbynnir awen Taliesin ar y ddaear ag awen yr Ysbryd Glân oddi uchod?
- 60 **tri dadeni dawnus** IGE² 363, ‘yn ôl y chwedl troes Gwion yn ysgyfarnog i osgoi Ceridwen, yna yn bysgodyn, aderyn, gronyn gwenith, ac wedi i’r wrach ei lyncu, ganed ef fel Taliesin. Yn ôl MA^[2] 24a yr un ydoedd Merddin, Taliesin, a Gwion. At goel fel yr olaf y cyfeirir yma.’
- 61 **gwarae gwiwradd** Anodd gwybod ai Rhys Goch a olygir ai swydd yr *awenydd* (ll. 64). Felly hefyd am *enbyd radd* (ll. 62) a *mawl gyrddwaed* (ll. 63).
- 64 **daed** Cywasgiad o *da it*, gw. GPC 1119. Ergyd *dydd daed*, fe ymddengys, yw fod Llywelyn yn cyfarch Rhys Goch fel cyd-awenydd.
- 65 **trafn** Gw. GDG³ 546 lle y gwelir fod iddo sawl ystyr bosibl yn y farddoniaeth, megis ‘ffynhonnell’; ‘trigfa’; ‘un sy’n cyflenwi’; ‘arweinydd, tywysog’; ‘arglwydd, pennaeth’. Yr olaf yw’r ystyr fwyaf

cyffredin ac odid nad dyna a olygir yma hefyd. Cf. GLIBH 4.62n.

traidd Sef bôn y f. *treiddio* ac iddo'r ystyron 'ymweld â, croesi, mynd a dod' mewn Cym.C. yn ogystal â'r ystyr S. 'penetrate', gw. CLIH 210–11. Dengys yr enghreifftiau i *traidd* gael ei ddefnyddio fel e. ac a., ond fel e. yn unig y'i diffinnir yn D gyda'r ystyron '*traiectio, transfixio*' ac fe'i rhestrir yno hefyd d.g. *penetratio*. Ceir enghreifftiau hefyd, fodd bynnag, lle y mae fel petai'n adlewyrchu hen ystyron *treiddio*, e.e. GDG³ 144 (53.41–2) *A geidw ym, drefn erddrym draidd* ['ymweliad'], / *Fy mwythau yn famaethaidd* (am Forfudd); R 1375.2 *Argl6dieid treid* ['[gwrthrych] ymweliad'] *tr6ydet beird kymry* (Dafydd y Coed); IGE² 174 (llau. 23–4) *A'r marchawg rhudd, drumiawg draidd* ['mynediad, cyrchiad'], / *Dramawl aer, drem milwraidd* (Rhys Goch Eryri). Fel a., yr ystyr yw 'treiddgar', e.e. GLIF 397 (24.31) *Rhag Twr Gwallter, blaidd traidd trymder tra niferawg* (Seisyllt Bryffwrch) a cf. GPC 1953 d.g. *hydraidd*. Ag enghraifft Llywelyn ab y Moel dylid cymharu marwnad Dafydd ap Gwilym i Ruffudd ab Adda lle y dywed amdano, *Pob dyn disalw a'i galwai / Pendefig mireinfrig Mai, / Ac organ dra diddan draidd, / Ac aur eos garuaidd, / Gwenwynen gwawd barawdwir, / Gwanwyn doeth Gwenwynwyn dir*, GDG³ 51 (18.31–6). Cyfeirio at felyster sain cerddi Gruffudd ab Adda a wna Dafydd ap Gwilym, a'r tebyg yw mai dyna a wna Llywelyn ab y Moel ynglŷn â Rhys Goch hefyd wrth sôn am ei awen farddonol.

66 **naddwr cerdd** Gw. 12.16n.

68 Ergyd y ll. yw fod Llywelyn yn ei ystyried ei hun yn gystal awenydd â Rhys Goch, ond gan ei fod yn rhy gwrtais i ddweud hynny yn blaen wrth fardd a oedd yn hŷn nag ef ac yn deilwng o'i barch, gofyn am gael sefyll gyda Rhys *eithr y tu ôl iddo*.

69 **ail Lywarch** Ar dreiglo e. ar ôl *ail* pan fo'n e. yn golygu 'rhywun cyfartal (â)', gw. Treigladau 43. Felly hefyd 16.2 *ail Briam*. Llywarch Hen a olygir wrth *Llywarch*.

73–8 A barnu oddi wrth ail ateb Rhys Goch i'r cywydd hwn lle y gwahodda Llywelyn ato yn Eryri, IGE² 169 (llau. 2–12), ymddengys fod Llywelyn yn y llau. hyn yn mynegi awydd i ymweld â Rhys yn bersonol yno er cymodi.

76 **mab** Sef y carw ifainc (*rhydain*).

77–8 Ymddengys mai arwyddocâd y llau. hyn yw na fydd Llywelyn yn cymryd mwy o amser nag y bo'n rhaid wrth deithio i weld Rhys Goch.

77 **egin dir** Sef 'tir ffrwythlon'.

78 **y'i credir** Hynny yw, rhaid yw i Rys Goch ymddiried yn llwyr yng ngair Llywelyn.

84 **syml iawn** Goleddfa *rhoi*.

- 85 **ciliaf** Gallai fod yn f. anghyflawn hefyd, gw. G 140 a GPC 481, ac fe'i dilynir yma gan *pwys* yn ll. 87.
- 87 **pwys gwŷr** Deellir *pwys* yn ffigurol i olygu 'pwysau'. Ai'r *rhawd fân* y cyfeirir atynt yn ll. 8 a feddylir wrth *gwŷr*?

16

Ceir dau fersiwn o'r gerdd hon (gw. uchod). Cyfetyb y cyntaf, a gynrychiolir gan Isgrau. ADEGI-KNO-R, i'r testun a gyhoeddwyd gan Ifor Williams.¹ Eithr y mae'r ail fersiwn, a gynrychiolir gan llawysgrifau BLM, wyth llinell yn hwy (llau. 13-14, 21-2, 43-4, 53-4), ac odid nad rhan gynhenid o'r gerdd wreiddiol oeddynt yn hytrach nag ychwanegiadau diweddarach. Nid yw, er hynny, yn dilyn fod y llawysgrifau hyn yn rhoi gwell darlleniadau bob amser na llawysgrifau'r fersiwn byrrach yn y llinellau sy'n gyffredin iddynt.

Dyma drydydd cywydd ymryson Llywelyn ab y Moel â Rhys Goch Eryri ond gwahanol i eiddo'r ddau arall yw'r amgylchiadau a roes fod iddo a diweddarach o dipyn y dyddiad. Yr oedd Rhys Goch wedi canu cywydd i Syr Wiliam ap Tomas o Raglan yn gofyn iddo am wregys aur yn anrheg.² Cafodd ei ddymuniad gan greu cryn gynnwrf ym Môn (llau. 27-8). Daeth y newydd i glyw Llywelyn, ac fe gyflwynodd yntau gywydd i Syr Wiliam lle y mynega edmygedd ac eiddigedd o wregys Rhys; ac er na ofyn yn uniongyrchol am ddim ei hun a'i fod yn cymryd arno fod yn ddfater (ll. 28 *ni'm dawr*, a cf. llau. 85-6), ymddengys mai derbyn rhodd megis yr eiddo Rhys ar gyfer ei gariad Euron oedd dymuniad ei galon (gw. llau. 60-2). Y mae'r Athro D.J. Bowen wedi dadlau y gallai'r ymryson fod wedi ei ddatgan yn llys Syr Wiliam yn Rhaglan pan oedd Rhys Goch a Llywelyn yn digwydd bod yno, a dichon fod ateg i hyn yn llinell 40.³

Yr oedd Syr Wiliam ap Tomas o Raglan,⁴ y 'Marchog Glas o Went', yn brif ffigwr gwleidyddol de-ddwyrain Cymru yn hanner cyntaf y bymthegfed ganrif ac yn sylfaenydd teulu enwog yr Herbertiaid. Daliodd amryw o swyddi gweinyddol pwysig dan y Goron oddi mewn ac oddi allan i Gymru

¹ IGE² 176-8 ar sail llsgrau. AJKNOPQ uchod (gw. IGE 179). Fe'i golygydd hefyd yn CH i, 19-22; ii, 20-3.

² IGE² 173-5, CH i, 13-18; ii, 16-20.

³ D.J. Bowen, 'B'le bu'r Ymryson rhwng Siôn Cent a Rhys Goch Eryri?', YB xxiii (Dinbych, 1997), 110.

⁴ Arno, gw. yn arbennig R.A. Griffiths: PW i, 147-8. Hefyd G.T. Clark, *Limbus Patrum Morganiae et Glamorgianae* (London, 1886), 280; J.A. Bradney, *A History of Monmouthshire* (4 vols.; London, 1904-33) II, i, 3-7; H.T. Evans, *Wales and the Wars of the Roses* (Cambridge, 1915), 40, 46, 52-3, 74-7, 184n5; DNB xxvi, 218; H. Durant, *Raglan Castle* (Pontypool, 1966), 20-6; CH ii, 4-5; G. Williams, *Recovery, Reorientation and Reformation Wales c.1415-1642* (Oxford, 1987), 168, 176-7, 185; DWH i, 195-7, ii, 226-7. Ceir ei achau yn P.C. Bartrum: WG1 'Godwin' 5, 8.

yn ystod ei oes: bu'n stiward ar sawl achlysur a llwyddodd i gynnull llawer o ystadau yn yr arglwyddiaethau o gwmpas Rhaglan rhwng 1422 a'i farw yn 1445. Heblaw cywyddau Rhys Goch a Llywelyn ab y Moel, y mae ar gadw hefyd gywydd moliant iddo gan Guto'r Glyn,⁵ cywydd gofyn cymod gan Hywel ap Dafydd ab Ieuan ap Rhys,⁶ a chywydd marwnad anghyflawn a dienw.⁷

Y mae'r ffaith fod un o wrthryfelwyr glewaf Owain Glyndŵr wedi mynd ar ofyn un o brif gynheiliaid y drefn Seisnig yng Nghymru, a hwnnw'n fab-yng-nghyfraith—trwy ei ail briodas â Gwladus—i Ddafydd Gam ap Llywelyn ap Hywel Fychan a fuasai'n elyn i Glyndŵr,⁸ yn peri codi'r cwestiwn beth yn union oedd agwedd Llywelyn at y sefyllfa newydd yn sgil methiant y gwrthryfel. Beth bynnag yn union fo'r ateb, y mae'n amlwg na phetrusai Llywelyn rhag mynd ar ofyn Syr Wiliam.⁹

Dadleuodd Ifor Williams yn dra argyhoeddiadol¹⁰ mai at gomed a welwyd yn Ewrop ym misoedd Medi a Hydref, 1433 y cyfeiria Rhys Goch Eryri yn ei gywydd, a gellir casglu, felly, mai cyn diwedd y flwyddyn honno neu yn ystod misoedd cyntaf y flwyddyn ganlynol y canodd Llywelyn ab y Moel ei gywydd ef.

1–2 Cwpled anodd ei ddehongli, ond efallai mai'r hyn a olygir yw 'sathrodd aur [ŵr o'r] gwrhydri pennaf, Syr Wiliam ...' gyda *Syr Wiliam* naill ai mewn cyfosodiad â *seithradd wryd* neu'n cael ei gyfarch. Os felly, beiddgar yw'r dewis o'r f. *sathru*, fel pe bai Syr Wiliam yn boddi mewn aur, ond priodol iawn hefyd, yn ddiau, fel disgrifiad o faint ei gyfoeth, a nodweddiadol o hyfdra Llywelyn, cf. disgrifiad Guto'r Glyn ohono fel *priawd cerdd dafawd hy*, GGI² 15 (V.51), ac At.1n. Chwithig, ac afraid, fyddai deall *seithradd wryd* neu *Syr Wiliam* yn oddrych y f.

1 **sathrodd ... seithradd** Cf. IGE² 336 (ll. 11) *Seithradd draul sathrodd y drin* (Rhys Goch Eryri).

seithradd wryd Cf. hefyd l. 6 *rhi glew yn aer*. Efallai nad oes unrhyw arwyddocâd arbennig i'r dewrder a briodolir i Syr Wiliam yma; buasai, er hynny, yn ymladd ar ochr y Saeson yn Ffrainc, gw. G. Williams, *Recovery, Reorientation and Reformation: Wales c.1415–1642* (Oxford, 1987), 168. Ar *seithradd*, cf. CH i, 9 (2.3–4) *Arglwydd Rhaglan, seithran serch, / Hed yno, hwde annerch* (Hywel ap Dafydd ab Ieuan ap Rhys). Perthynai i'r rhif saith arwyddocâd cyfrin neu gysegredig gan ei fod yn cyfuno'r rhifau pedwar a thri, a ystyrir er cyn cof yn rhifau

⁵ GGI² 126–8, CH i, 4–8; ii, 5–11.

⁶ *Ib.* i, 9–12; ii, 11–16.

⁷ *Ib.* i, 23; ii, 24–5.

⁸ Gw. ByCy 93.

⁹ Gw. hefyd D.J. Bowen, *art.cit.* 113–14.

¹⁰ IGE² x1–li.

ffodus, ac felly'n cryfhau neu'n perffeithio eu rhin. Fe'i gwelir, er enghraifft, yn saith diwrnod y cread, saith diwrnod yr wythnos, y saith rhinwedd &c., gw. ymhellach *Brewer's Dictionary of Phrase and Fable*, ed. I.H. Evans (London, 1970), 984. Gellir deall *seithradd* felly i olygu 'perffeithgwbl' (y tebyg yw mai a. ydyw yma yn hytrach nag e. genidol yn dibynnu ar *gwryd*).

2 **ail Briam bryd** 'Tebyg i bryd Priam', hynny yw, tebyg i Briam o ran ei harddwch. Ar dreiglo *Priam* ar ôl *ail*, gw. uchod 15.69n. Brenin Caerdroea gynt oedd Priam, gw. *The Oxford Classical Dictionary* (Oxford, 1966), 728–9. Ceir disgrifiad ohono yn y chwedl 'Ystoria Dared', RB 13 (llau. 13–14), *Priaf vrenhin troea. gŵr mabr oed. ac byneb tec idaŵ. a llef hynaŵs. a chorff eryr*.

4 **Tomas** Tomas ap Gwilym ap Siancyn, gw. P.C. Bartrum, 'Pedigrees of the Welsh Tribal Patriarchs', Cylchg LIGC xiii (1963–4), 143, a P.C. Bartrum: WG1 'Godwin' 8.

cleddlas Ai oherwydd yr adwaenid Syr Wiliam fel 'Y Marchog Glas o Went'? Gw. y sylwadau rhagarweiniol uchod.

6 **Rhaglan** Canolfan Syr Wiliam. Maenordy Normanaidd ydoedd yn wreiddiol a thrawsnewidiodd Wiliam y lle yn gastell gwyach yn y cyfnod rhwng ugeiniau a deugeiniau'r 15g., gw. H. Durant, *Raglan Castle* (Pontypool, 1966), 20–6, a G. Williams, *op.cit.* 176–7. Geilw Guto'r Glyn ef yn *seiliwr Rhaglan*, GGI² 126 (XLVII.1).

rhi glew yn aer Gw. ll. 1n.

7 **gair** Hynny yw, *gair da*, enw, bri; cf. ll. 28 *gair mawr*.

cof ystyriawl 'Coffa ystyriol *amdanat*', gw. 12.55n; felly hefyd l. 33.

9 **brig** Cydier wrth l. 11 *egin* a deall y *cludir*, *dyfelir dy fawl* (ll. 8) ar ôl hwnnw.

10 **i'th fyw** Hynny yw, 'yn dy fyw, tra byddych byw', gw. GPC 369 a cf. ll. 14 *i'th oes ... i'th ddydd*.

11 **egin d'aur** Gw. 11.58n.

13–14 Yn llsgrau. BL yn unig y ceir y cwpled hwn. Cyfeirir at barodrwydd Wiliam i fod yn rhoddwr hael ac y mae'r cwpled nesaf yn ei ddilyn yn naturiol.

13 **cynnar** Y tebyg yw mai ei arwyddocâd yw i Wiliam ddechrau anrhegu beirdd yn gynnar yn ei yrfa fel noddwr iddynt. Y mae'n bosibl hefyd mai 'di-oed,' S. *'prompt'* a olygir.

14 **rial** Amrywiad ar *reiol* a benthyciad o'r S.C. *reial*, *rial(l)e*, gw. GPC 2979.

15–16 Hynny yw, nid oes gan Wiliam ap Tomas ddim i'w ddweud wrth gybydd-dra oherwydd ei fawr haelioni.

- 17 **Tewdwr** Tad Rhys ap Tewdwr, brenin Deheubarth o 1075 hyd 1093, gw. J.E. Lloyd: HW³ 393n116.
- 19 Dyma ddarlleniad llsgr. L; cf. IGE² 174 (ll. 12) *Am euraid wregys mirain a Sirig a gwregys euraid (ib. ll. 22)*. Y mae hefyd yn osgoi ailadrodd *anrheg* yn ll. 21 (er nad yw hynny'n bwysig felly). *Prynu anrheg wregys* a geir yn IGE².
- 20 **Rhys** Sef Rhys Goch Eryri.
- 21–2 Yn llsgr. L yn unig y ceir y cwpled hwn.
- 21 **undardd** Deellir hwn yn gyfuniad o *un* yn yr ystyr 'arbennig, unigryw', gw. CA 306, a *tardd*, bôn y f. *tarddu*. Yr ystyr felly fyddai 'o darddiad arbennig', cyfeiriad naill ai at y lle y daeth y gwregys ohono yn wreiddiol neu at y ffaith mai Wiliam ap Tomas a'i rhoes.
- 23 **melin mawl** Cf. GDG³ 425 (II.6–7) *Mawlair cerdd, milwr a'i cant, / Melin y glod a'r moliant* (Madog Benfras). Cf. hefyd 11.70 *breuan gwawd* ac *ib.n.*
- 27 **beirdd a phenceirddion** Gwahaniaethir rhwng y beirdd is (eithr nid yr isaf) a'r beirdd uchaf eu statws; cf. WML 33 (llau. 20–1) *Sef uyd penkerd. y bard pan enillo kadeir*.
- 28 **ni'm dawr** Gw. 15.38n.
Môn Gw. ll. 73n.
- 30 **nod** Sef y gwregys.
wedy'r osod Sef *wedy ei yr osod*: y geiryn berfol yr / ry yn rhagflaenu'r be., a'r rh. sy'n wrthrych y be. wedi ei hepgor, gw. GMW 169.
- 31 **er digio rhai** Ni ddywedir pwy oedd y rhain. Efallai mai beirdd eraill o dde-ddwyrain Cymru a oedd yn gweld Rhys Goch fel tresmaswr ar eu tir am iddo dderbyn rhodd gan Wiliam ap Tomas.
- 32 Yn IGE² 176 dodir atalnod llawn ar ddiwedd y ll. hon ond tyr hyn ar rediad y gerdd gan fod llau. 33–4, megis ll. 32, wedi eu hanelu'n uniongyrchol at Wiliam ap Tomas.
dwyn dy lifrai Oherwydd mai glas oedd lliw arfwisg Wiliam ap Tomas, 'y Marchog *Glas* o Went' (gw. y sylwadau rhagarweiniol uchod), a rhan o'r gwregys a gafodd Rhys Goch ganddo (*asur glas* ll. 38, *asur* ll. 48). Ystyr *dwyn* yma yw 'cario', S. 'bear', gw. GPC 1129–30 a gthg. yr ystyr yn ll. 60. Yn ôl Charles Boutell, *English Heraldry* (London, 1899), 136, gwyn a glas oedd lliwiau lifrai ('livery colours') tŷ Lancaster, ac fe ddarlunnir Wiliam ap Tomas ar ei feddfaen yn gwisgo cadwyn SS y Lancastriaid, gw. R.A. Griffiths: PW i, 148. Ai arwyddocáu ei ymlyniad wrth blaid Lancaster, felly, yr oedd lliw glas ei arfwisg? Sylwer hefyd fod y cyntaf a'r pedwerydd chwarter ar arfbais Syr Wiliam, yn ôl DWH ii, 592, yn cynnwys y lliwiau coch, glas, ac

arian—*Per pale Gules and Azure, three lions rampant Argent.*

- 33 **Urien gof** ‘[Un y mae] cof [amdano megis am] Urien.’ Ar *cof*, gw. ll. 7n.
- 34 ‘[Un sy’n wrthrych] cerdd dant enw[ogrwydd] gwych ac anrhydeddus cân.’ Megis yn y ll. flaenorol, cyfeirir at Wiliam ap Tomas.
- arwest** Yn ôl IGE² 366, y gwregys a olygir, megis gan *ystred* hefyd yn y ll. nesaf. Eithr os felly, perthyn ll. 34 yn nes i l. 35 nag i l. 33 o ran synnwyr, a thyr hynny ar berthynas gypledol ll. 34 â ll. 33. Haws credu, yn hytrach, mai ‘tant’ yn yr ystyr ‘cerdd dant, cerddoriaeth’ (gw. GPC 215) a olygir; cf. y term *cerdd arwest* ‘performers of instrumental music; minstrelsy, string music’, GPC 465.
- 35–52 Disgrifio’r gwregys a wneir yn y llau. hyn.
- 35 **ystred** Cymerir bod hwn, ac *ystryd lifnadd*, &c., yn goleddfu *dwyn dy lifrai* yn ll. 32 ac yn wrthrych i *dwyn*.
- 35 **ystryd** Felly yn IGE, *ystrad* yn IGE² 177, ond y mae’n amlwg oddi wrth *ib.* 366, mai cambrintiad sydd yn yr ail argraffiad (cf. hefyd GPC 2179 d.g. *llifnadd*). Ni rydd yr un o’r llsgrau. *ystrad* ychwaith er y byddai’r ystyr, sef ‘lle cyn gwastad, gwaelod dyffryn, dyffryn afon’ (I. Williams: ELI 29), yn taro’n iawn.
- 36 **gwst radd** Yn IGE² 414 rhoddir yr ystyr ‘dioddef’ i *gwst* (ond heb gynnwys yr enghraifft hon), eithr chwithig fyddai’r ystyr honno yma. Ceir *gwst* arall sy’n golygu ‘blas, awydd, tuedd, chwant, archwaeth’, benthyciad o’r S. *gust* neu’r H.Ffr. *goust*, gw. GPC 1743 d.g. *gwst²*, ac er mai enghraifft o’r 16g. yw’r un gynharaf a nodir yno, byddai’r ystyr ‘gradd i’w chwenychu’ neu’r cyffelyb, yn ddigon priodol. Sylwer hefyd, fodd bynnag, ar y gair *gwstyn* ‘disgynnydd neu berthynas yn y seithfed radd’ a nodir yn GPC 1743. Er na therddir y gair yno ac er mai o’r 18g. y daw’r enghreifftiau, ymddengys ei fod yn dod o air, *gwst*, a oedd yn gysylltiedig â’r cysyniad o saith. Os felly, a chan fod i’r rhif saith arwyddocâd arbennig (gw. ll. 1n), efallai mai ystyr *gwst radd* yw ‘gradd / dosbarth o ansawdd pur, perffaith’. Neu ai benthyciad dysgedig o’r Llad. *augustus* (cf. ystyron y S. *august*) sydd yma gyda’r *a-* wedi colli? Rhennid yr angylion yn naw gradd, gw. NCE i, 511–12, ond y tebyg yw mai at yr angylion yn gyffredinol y cyfeirir yma yn hytrach nag at unrhyw ris neilltuol ohonynt.
- 37 **erfai rod** Yn IGE² darlennir *eurai rod*, sydd, fe ymddengys, yn ddiwygiad seiliedig ar *evrai r rhod* llsgr. J (felly hefyd R) ac *Evrair od APQ* (hefyd IO), neu’n gamddarlenniad. Dywedir hefyd, *ib.* 366, y gall *rhod*, a ddeallir i olygu’r gwregys, fod yn oddrych neu wrthrych y f. *eurai* (ar dreiglo’r goddrych ar ôl bf. 3 un.amhff.dib., gw. Treigladau 214): os y goddrych, yr ystyr yw ‘harddai’r gwregys holl gylch y rhod’;

os y gwrthrych, yna ‘canmolai pawb (*compod gwmpas*) y gwregys’. Rhaid cyfaddef, fodd bynnag, fod y ll. yn dra amwys o’i deall felly a’r f. *eurai* yn torri ar batrwm y llif o e. sy’n disgrifio’r gwregys hyd l. 39. Haws credu, yn hytrach, mai *erfai* llsg. L oedd y darlleniad gwreiddiol, ac er mai yno yn unig y’i ceir, dylid cymharu *drfai* B sy’n edrych fel gwall am *erfai*. Hawdd iawn fyddai ysgrifennu *eurai* am *erfai* gan mor debyg yw ffurf y llythrennau *r* ac *u* yn fynych yn y llsgrau. Gellid aralleirio’r ll. felly ‘di-fai amlinell (*cwmpas*) cylch olwyn’, ymgais i ddisgrifio perffeithrwydd ffurf y gwregys.

compod Ar ei ystyron, gw. GPC 549 lle yr esbonnir y ffurf yn fenthciad o’r S. neu’r Llad.Diw. *compotus*.

38 **gloyw** Cydier wrth *asur*, nid *aur*.

asur Ar ei arwyddocâd, gw. ll. 32n.

39 **blaen fflamliw** ‘[Arwydd] fflamliw [o] flaenoriaeth’.

40 ‘Bardd y gadair a geidw bwrdd’. Ar y term *bardd y gadair*, gw. 14.29n. Ai arwyddocâd *cadw bwrdd* yma yw fod Rhys Goch Eryri yn aros yn Rhaglan?

bardd Cydier wrth ll. 39 *blaen fflamliw*. Cyfeirir at Rys Goch Eryri.

41 **o** [‘Wedi ei wneuthur] o’.

plaid ‘Plât metel’, gw. GPC 2815, ond un aur yn yr achos hwn.

42 **pryd** O’r e. *pryd*.

bro tes Ai Gwent neu Forgannwg a olygir, neu ynteu’r ddwy?

43–4 Yn llsgrau. BL yn unig y ceir y cwpled hwn.

43 **tasel** Benthyciad o’r S. *tassel*, gw. EEW 80, eithr mewn ystyr gynharach, sef ‘*a clasp or fibula by which two sides of a cloak or the like are held together*’, OED.

gadel Hynny yw, ‘rhoi, trosglwyddo’ (y gwregys).

45–8 **Pwy ... / ... pwrcaasai** Synnwyr y llau. hyn yw mai dim ond cân mor ardderchog â cherdd Rhys i Wiliam ap Tomas a fyddai wedi teilyngu gwregys mor wych.

46 **gloywrodd** Darlleniir *lawrodd* yn IGE² 177 ond y mae’r mwyafrif o’r llsgrau. o blaid *loywrodd* a gall *lowrodd* DEGKNO gynrychioli *loywrodd* yn hytrach na *lawrodd* gan y ceir y ffurf *glow* yn ogystal â *gloyw*.

pan Yn golygu ‘y’ yma, gw. GMW 79.

cad Yn IGE² 177 nid oes coma ar ei ôl, fel pe bai *oleurad lawrodd* [*sic*] yn wrthrych iddo. Eithr yn ôl Treigladau 229–31, ni threiglir y gwrthrych ar ôl ffurfiau amhersonol y f. yn y cyfnod, ac eithrio yn achos dyrnaid o achosion amheus. Diogelach, felly, yw doddi coma ar ôl *cad* er

mwyn priodoli treiglo *goleurad* i effaith sangiad a gellir deall rh. gwrthrychol sy'n sefyll am *gwregys* ar ôl *cad*; cf. YE 27 (llau. 18–21) *Hwnnw* [sc. *Gabriel*] *a anuonir y'r lle y mynacker dwywawl gedernyt, megys yr anuonet y venegi y Veir Wyry y bot yn gyflawn o gedernyt yr Yspryt Glan* lle ni ddynodir gwrthrych ar ôl *anuonet*; felly hefyd *ib.* 27 (ll. 23).

- 48 **a'i pwrcasai** Ni rydd yr un o'r llsgrau. ddarlleniad sy'n rhoi synnwyr na chynghanedd foddhaol yma ond y mae darlleniad IGE² 177 yn taro'n burion ac fe'i derbynnir.

parc asur Saif hwn mewn cyfosodiad â'r rh.m. yn *a'i* sy'n cyfeirio at y gwregys. Fel y dywedir yn IGE² 367, 'Nid aur oedd y gwregys i gyd, ond sidan glas (*azure*) wedi ei frodio ag aur. Yr oedd fel parc glas ... ' Ar arwyddocâd *asur*, gw. ll. 32n.

- 49–50 **pum angel a welwch / O'r purdan ...** Cyffelybir lliw y gwregys yn awr i liw lluniau o angylion y purdan. Cynigir yn betrus, *l.c.*, mai glas a rhudd ydoedd, ond mwy tebygol efallai yw mai *fflamdan fflwch* ll. 50 a olygir a bod y bardd yn meddwl am ddisgleirdeb tanbaid aur y gwregys mewn gwrthgyferbyniad â'r glas (cf. hefyd y nodyn nesaf ar grybwyll y cyfangorff cyn y rhan). Priodolid llawer o swyddogaethau i angylion dros yr oesoedd a chredid mai un ohonynt oedd hebrwng eneidiau'r ymadawedig i'r byd nesaf, gw. NCE i, 511. Gan fod y purdan yn lle real iawn ym meddyliau'r beirdd Cymraeg (tyst o'u mynych gyfeiriadau yn eu marwnadau), ni fyddai'n syndod pe baent yn credu bod rhai angylion—pump yn yr achos hwn—yn tywys y meirwon yno cyn iddynt, yn nes ymlaen, fynd i'r nefoedd.

- 51–2 **Ychen ... / Hu Gadarn ...** Ymerawdr Caergystennin oedd Hu Gadarn, gw. GIG 340 a YCM² 187 lle y ceir disgrifiad ohono'n aredig. Nid i ychen Hu Gadarn y cyffelybir y gwregys eithr i ran o'u *tid* ('cadwyn'), ll. 52: crybwyllir y cyfangorff cyn rhan ohono.

- 51 **ynn** Y tebyg yw mai gair llanw ydyw yma.

o chynhenid Rhywbeth fel 'pe[*'i*] dywedid', S. '*were it to be said*', a olygir.

- 53–4 Yn llsgrau. BLM yn unig y ceir y cwpled hwn. Yr ystyr yw fod Rhys wedi cael ei anrheg yn gyfnewid am ei gân.

- 53 **unfodd enfys** 'Yr un fath ag enfys'.

- 54 **cafad** Ffurf ddiweddarach ar *caffad* 'cafwyd', gw. WG 344.

trwsiad Gw. 9.38n. Golyga 'gwisg' gan amlaf yng ngwaith y Cywyddwyr, gw. e.e. GDG³ 603, GIG 403, ond ymddengys mai 'addurn', D '*ornatus*', a olygir yma; cf. hefyd ystyron y f. *trwsio* 'llunio, ffurfio, addurno' (D '*ornare, polire*'). Gall gyfeirio at y gwregys neu at *wawd* Rhys.

gwawd Rys Ar y treigladd, gw. 11.60n.

- 55 Cymerir mai at Rys Goch y cyfeirir, cf. 14.25 *Pôr dawngoeth parod angerdd* lle y ceir yr un geiriau bron am Ruffudd Llwyd, eithr golygarrannu ystyr y cwpled. Yn y llau. canlynol, try Llywelyn o edmygu a moli gwregys Rhys Goch i fynegi ei eiddigedd ohono.

dawngoel Dyma'r unig enghraifft hysbys o'r gair. Yn ôl IGE² 367, daw'r ail elfen o *coel* 'baich', amrywiad ar *cofl*, *côl*, gw. GPC 537, a chymer y cyfansoddair i olygu 'â baich o ddawn'. Yn ôl Lloyd-Jones, G 303 (d.g. *dawn*), fodd bynnag, *coel* 'cred, sicrwydd', &c. ydyw ac ystyr y cyfuniad yw 'sicr ei rodd'. Ni nodir y gair yn GPC 906. Dylid sylwi na nodir unrhyw gyfansoddeiriau yn G 158 d.g. *coel*² ('baich') tra ceir digon yno, 157, d.g. *coel*¹, ac odid felly nad 'sicr ei rodd' yw ystyr *dawngoel*. Y mae'n berffaith bosibl, er hynny, mai *dawngoeth* llsgrau. DJR y dylid ei ddarllen megis yn 14.25 (gw. y nodyn blaenorol).

- 56–8 Yn ei gywydd gofyn i Wiliam ap Tomas defnyddia Rhys Goch Eryri ddisgrifiad o gomed a welsai i gynrychioli'r Ddraig Goch a'i hanfon i gyrchu gwregys aur o Raglan, a gafaerir yn yr un syniad gan Lywelyn ab y Moel yma ac yn llau. 65–6.

- 56 **cyrfaswn** Cywasgiad o *cyfarfuaswn*.

gwn o gerdd 'Gwn ar gerdd', arwydd bod Llywelyn yn gyfarwydd â cherdd Rhys Goch y dyfynna ddarnau ohoni yn y ll. nesaf a ll. 61.

- 57 **draig arynaig** Cf. IGE² 173 (llau. 1–2) *Y ddraig bab arynaig bobl*, / *Olau sôn o liw sinobl*.

- 59 **rhyd** Mangre a grybwyllir yn fynych gan y Gogynfeirdd mewn disgrifiadau o frwydrau.

oedd 'Byddai', gw. 10.8n.

- 60 **dwyn y gwregys** Esbonnir yr hyn a fyddai'n *enbyd* (ll. 59), sef dwyn gwregys Rhys gan Lywelyn. Gthg. ystyr *dwyn* yn ll. 32.

- 61 **manod** 'Eira mân' yn llythrennol, ond ymddengys mai defnydd trosiadol a wneir ohono yma—'purdeb, tegwch', cf. GPC 2343.

- 62 **lloer** Gw. 13.16n.

Euron Gw. 8.42n.

- 64 **gorchest** Ar wahanol ystyron *gorchest*, gw. GPC 1463. 'Gwrhydri' a olygir yma.

- 65 **taradr** Cf. IGE² 173 (llau. 15–16) *Rhod elidr fflagl, cerdd fagl cof*, / *Rhyw daradr melll, rhed erof*.

- 66 **melen** Y ddraig *goch* oedd y ddraig a anfonodd Rhys Goch Eryri at Wiliam ap Tomas (IGE² 173 (ll. 14), ond efallai mai lliw'r comed a gyffelybwyd i'r ddraig sydd flaenaf ym meddwl Llywelyn yma.

- 67 **chwant** Chwant ymladd neu chwant am y gwregys.
- 68 **Rholant** Arwr brwydr Roncesvalles yn Chwedlau Siarlymaen.
- 70 **Euron** Gw. ll. 62n.
- 71–2 Hynny yw, rhag i un o'r ddau wron ladd y llall (neu iddynt ladd ei gilydd). Byddai hynny'n peri angof (*myned ... dros gof*) am y gwregys oddi wrth Syr Wiliam y byddent wedi brwydro amdano (*a fu rhof a Rhys*).
- 71 **rhwygae** Yn IGE² 177 darllenir *rhwygau*, ond *-ae* yw'r terfyniad yn y llsgrau. sy'n awgrymu mai *rhwy* a *cae* yw'r elfennau. Perthyn i *rhwy* amryw o ystyron—“*oar*”, pennaeth, gormod, balchder, cynhaeaf”, gw. CA 246–7, DGG² 189. Byddai ‘pennaeth, arglwydd’ yn addas yma a diau mai ‘gwregys’ a olygir gan *cae*. Yr ystyr felly fyddai ‘gwregys [gan] arglwydd’.
- mwynwys** Yn llsg. P yn unig y ceir y darlleniad hwn, ond gwell yw na darlleniadau'r llsgrau. eraill. Dylid nodi hefyd mai dyma ddarlleniad IGE² 177 er nas ceir yn yr un o'r llsgrau. a ddefnyddiwyd yno. Nodir y ffurf yn G 751 d.g. *gwys*² ‘galwad, gorchymyn’ er na roddir ystyr i'r cyfansawdd na chyfeiriadau. Y tebyg yw mai *mwyn* yn yr ystyr ‘cwrtais, bonheddig’—gydag arlliw efallai o ddelfrydaeth neu ddefodaeth sifalri—yw'r elfen gyntaf, a byddai hynny'n cyd-fynd hefyd â'r cwrtaisi di-ffael a ddangosodd Llywelyn at Rys Goch Eryri yn ei ail ateb i'r henwr (cerdd 14); cf. hefyd At.17 *ymwys amwar*. Yr ystyr y tu ôl i *mwynwys*, felly, fyddai i Lywelyn, am iddo chwenychu'r gwregys aur a gawsai Rhys Goch gan Syr Wiliam, wahodd Rhys Goch yn anrhydeddus i ornest (ddychmygol) ag ef.
- 73 **morfa Môn** Nid yw'n eglur pam y mae Llywelyn yn dychmygu morfa ym Môn fel man y gyfranc rhyngddo ef a Rhys Goch gan mai gŵr o Bowys ydoedd ac yn nhueddau Eryri yr oedd Rhys yn byw. Cf. llau. 27–8 *Mae gan feirdd a phenceirddion, / Ni'm dawr, yt air mawr ym Môn*. A oedd Rhys yn derbyn nawdd ym Môn ar y pryd ac ai noddwyr iddo yno a olygir wrth *arglwyddi glân* ll. 80? Cofier hefyd, fodd bynnag, mai un o Fôn oedd cariad Llywelyn, Euron, gw. 8.42n.
- 75 **rhag bod rhyw athrod trwch** Hynny yw, rhag i neb gamddeall hynny o'r gerdd y mae Llywelyn wedi ei chyfansoddi hyd yn hyn a chreu anghydfod, dyma ychwanegu'r llau. sy'n canlyn.
- 76 **i** Sef yr *heddwch*.
- 77 Gellid ystyried hefyd darlleniadau llsgrau. DJKNOR a BL hwythau ar gyfer y ll. hon, er yr ymddengys BL *gwell or haner i deryw* yn wan braidd wrth ochr AIPQ.
- 78 **gwerin feilch** Cf. 10.60 *gwerin Owain*, 64 *llu Owain*. Ai at yr un bobl y cyfeirir (er bod Owain wedi hen farw erbyn hyn), neu ai ystyr fwy

cyffredinol sydd i'r gair—'llu, lliaws'? (Ar ddilyn e. torfol un. gan a. ll., gw. J. Morris-Jones: WS 17).

79 **penrhaith cerdd** Cf. 15.16 *ynad* am Rys Goch yng nghyd-destun cerdd dafod.

cerdd Darllenir *gwŷr* yn IGE² 178, ond gwell yng nghyd-destun y cwpled, lle y mae'r pwyslais ar fawl Rhys Goch, yw *cerdd*, er mai llsgrau. BL yn unig sydd o'i blaid, ond cf. hefyd *beirdd* llsgr. M. Chwithig hefyd yw gweld *gwŷr* yn dilyn mor dynn ar sodlau'r un gair yn y ll. flaenorol ac y mae'n debyg mai ailadrodd yr enghraifft honno ar gam a wnaethpwyd gan ryw gopiwr.

80 **arglwyddi glân** Gw. ll. 73n.

81 **gwaharddo** Gthg. yr ystyr yn 14.3.

82 **mawrhaed** Sylwer bod angen ei drin fel gair deusill er mwyn y mydr; *moled* a geir yn llsgrau. BL.

84 **marchog urddawl gwrdd** Cyferchir Wiliam ap Tomas drachefn.

85–6 Cymerir yn IGE² 367 mai ystyr y cwpled hwn yw 'Nid âi gwal talcen tŷ i lawr er gorfod dal cortyn', eithr nid yw'r gyfeiriadaeth na'r ergyd yn eglur felly, a chynigir yn betrus y dehongliad canlynol, 'Nid ei, gadernid gwariant, i lawr byth o ran llwyr fethiant [mawl] oherwydd ymdaeru.' Y mae'n bosibl hefyd, fodd bynnag, mai fel *âi* y dylid deall *ai* y llsgrau., yn cyfeirio at [*m*]awl y ll. flaenorol. Ymddengys mai ergyd y cwpled yw na fydd anghydfod Llywelyn a Rhys yn effeithio ar eu mawl i Wiliam ap Tomas. Ar yr ymadrodd *dal tant*, gw. GPC 882. Dyfynnir enghraifft ohono mewn llinell ddiennw o gywydd gan Williams Salesbury yn ei draethawd ar retoreg, gw. W.A. Mathias, 'Astudiaeth o weithgarwch llenyddol William Salesbury' (M.A., Cymru [Caerdydd], 1949), 299, *Dala'r tant ir Deilwyd hen* a digwydd yn D d.g. *contendo*.

85 **o lwyr fethiant** 'Gyda methiant llwyr', gan gyfeirio at y *gwal tâl*.

87 **Huail** Huail fab Caw, brawd i Gildas a gwron a laddwyd gan Arthur, gw. TYP² 408–10, GDG³ 453, ac *ib.* 41 (14.39–40) *Dyfodiad, trwsiad, treisiaeth—a gynnail, / Defodau Huail, hail ehelaeth*. Awgrymir yn IGE² 367 y dylid hefyd ei gymharu â'r e. *hual* a thynnir sylw at gywydd Dafydd ap Gwilym i Ifor Hael lle y geilw Ifor yn *caeth y glêr*, GDG³ 19 (7.14); cf. hefyd *ib.*, ll. 12, *cyfaillt a mab aillt y beirdd* (drachefn am Ifor) a DGG² 213, lle y dywedir am y ddwy enghraifft mai'r ystyr yw 'un yn gweini yn ostyngedig ar y beirdd a noddai, er ei gadarned wrth gedyrn'. Ymddengys mai'r awgrym yw y gellid ystyried y posibilrwydd o ddarllen *hual* (unig ffurf l. *hual* a nodir yn GPC 1904 yw *hualau*); cf. *hval* llsgrau. DN.

89–90 **dod ... dwg, / ... ennill ...** Deellir y rhain yn ffurfiau 2 un.grch. Rhaid deall *clod* (ll. 88) o'u blaenau.

90 A oedd dylanwad Syr Wiliam yn ymestyn i'r cyffiniau hyn hefyd?

17

Tri englyn proest chwe llinell¹ i Fair ac Iesu yw'r gerdd hon a'r unig gerdd grefyddol a gadwyd o waith Llywelyn ab y Moel.² Fe'i hychwanegwyd at lawysgrif Pen 4 yn hanner cyntaf y bymthegfed ganrif yn llaw lleygwr,³ a dyma hefyd, felly, y copi cynharaf o waith gan y bardd sydd ar gael. Gwaetha'r modd, y mae rhannau ohono'n annarllenadwy erbyn hyn.

Syml iawn yw iaith y gerdd, fel pe bai wedi ei hanelu at gynulleidfa wahanol iawn i gynulleidfa arferol y bardd. Yn hyn y beth, y mae'n dwyn ar gof gywydd byr Dafydd ap Gwilym 'Da fu'r Drindod'⁴ sydd hefyd yn troi o gwmpas gwaith Duw, Mair, ac Iesu yn dwyn gwardigaeth i'r byd.

Y mae Mr Cledwyn Fychan wedi dadlau ei bod yn bosibl fod Llywelyn ab y Moel wedi canu i Phylip ap Rhys ap Phylip Fychan o Genarth yng Ngwerthrynion, nai i Rydderch ab Ieuan Llwyd o Ddyffryn Aeron, perchennog tybiedig Llyfr Gwyn Rhydderch.⁵ Os do, y mae'n berthnasol gofyn a yw hyn yn esbonio pam y copïwyd yr englynion yn y Llyfr Gwyn.

- 1 **da ferch ... a ordderchodd** Gwrtheiriad (*oxymoron*) trawiadol iawn y tynnodd Mr Daniel Huws sylw ato, gw. 'Llyfr Gwyn Rhydderch', CMCS xxi (Summer 1991), 26. Gan mai gair cnawdol ac anllad ei flas yw *gordderchu* (gw. GPC 1469), beiddgar iawn oedd ei ddefnyddio ynglŷn â beichiogiad Mair, ac nid syn i rywun arall ysgrifennu o dan y gerdd *a chwerddi di vardd* (D. Huws, *l.c.*). Ni chredir, er hynny, y bwriadwyd dim amarch, eithr mai ceisio cyfleu beichiogiad Mair fel y byddai wedi ymddangos o safbwynt *dynol*, nid dwyfol, oedd bwriad y bardd; wedi'r cwbl, ni wyddai neb ond Mair i ddechrau mai Duw oedd achos ei beichiogi. Ategir hyn gan weddill y gerdd sy'n drwyadl uniongred a thraddodiadol ei chynnwys. Yr oedd Llywelyn ab y Moel yn adnabyddus am ei ddewrder a'i hyfdra, ac adlewyrchir hyn yn ei waith (gw. hefyd 16.1–2n). Nid yw'r geiriau hyn ond enghraifft arall, felly, o'r hyfdra hwnnw oddieithr ei fod yn fwy ei argraff ar gyfrif y cyd-destun crefyddol. Ar y gwrtheirio, gw. hefyd 9.43n.
- 3 **.rs ei .rs** y yn y llsg. Dichon mai gweddill *eres*, 'rhyfeddol', GPC 1231, wedi ei gywasgu er mwyn y mesur yw *-rs*. Posiblwydd arall,

¹ Gw. J. Morris-Jones: CD 326 a GSRh 12.83–8.

² Cyhoeddwyd y testun gan D. Huws, 'Llyfr Gwyn Rhydderch', CMCS xxi (Summer 1991), 26.

³ Gw. Cledwyn Fychan, 'Llywelyn ab y Moel a'r Canolbarth', LICy xv (1984–8), 305.

⁴ GDG³ 8 (3).

⁵ *Art.cit.* 302–5.

ond un llai tebygol efallai, fyddai cymryd *-rs* y yn gamraniad a chywasgiad o *eresi* ‘rhyfeddod, syndod’, *l.c.*

arabedd Rhydd GPC 174 yr ystyron ‘peth dibwys, oferedd’ a ‘difyrrwch, digrifwch, cellwair’. Y mae’n amlwg na ellir ystyried y cyntaf ac efallai mai ‘digrifwch, hyfrydwch’ sy’n gweddu orau yma.

4 **ai** Efallai mai *a’i* a gynrychiolir.

5–6 Ffordd arall o ddweud bod Crist wedi marw dros bechodau’r ddynoliaeth.

5 **o’r hil bwygilydd** ‘O un hil i’r llall’, hynny yw, holl genhedloedd y byd.

6 **i’n** Llsgr. *in*.

7 **fu’i** Llsgr. *vv* ond y mae’n amlwg fod angen y rh.

10 **y bolyo** Yn wyneb y cyd-destun, sef beichiogi Mair gan Dduw, a chystrawen y f. *peri* (hynny yw, *peri i*), efallai mai *i’i bolyo* o a gynrychiolir yma.

18 **ei** Ffurf sillafog y rh. mewnol 3 un. ar ôl *pan*, gw. 17.18n.

pumoes GDG³ 434, ‘Rhennid oed y byd cyn dyfod Crist yn bum cyfnod. Dyma un rhaniad: (1) o’r Creu hyd y Dilyw; (2) o’r Dilyw hyd Abraham; (3) o Abraham hyd Ddafydd; (4) o Ddafydd hyd y Gaethglud; (5) o’r Gaethglud hyd ddyfod Crist.’ Gw. hefyd HG Cref 214–15 a cf. GSRh 11.10n, 17n.

Atodiad

Ar fater dilysrwydd y gerdd hon,¹ gw. td. 87, ac ymhellach ar Huw Sae, gw. IGE² lviii, 374. Dichon iddo gael ei eni tua 1350, ac fe’i hynododd ei hun fel milwr yn nheyrnasiad Edward III (*ob.* 1377). Enwir ef fel cwnstabl a chapten castell Y Trallwng yn 1411, 1417, 1418, 1419, 1420 yn ogystal ag fel stiwart Powys. Cyfeirir ato fel *naf hirllwyd* (ll. 1), sy’n awgrymu ei fod mewn cryn oedran adeg canu’r gerdd. Y mae’r ffaith fod y bardd yn cyfeirio ato fel ei *feistr* (ll. 39) yn awgrymu mai rhywbryd yn ystod ei gwnstabliaeth, sef rhwng 1411 a 1420, y dylid dyddio’r gerdd. Molir ef, yn y dull traddodiadol, am ei wrhydri ar faes y gad a’i haelioni, ond ar y cyntaf y mae’r pwyslais.

1 **haerllug** Fe’i gwrthyferbynnir â *didrahäus* yn y ll. nesaf.

hirllwyd Gw. y sylwadau rhagarweiniol uchod.

3 **huodl** Y tebyg yw mai ‘dillyn, coeth’ a olygir, gw. GPC 1905. Dichon

¹ Fe’i golygwyd gan I. Williams yn IGE² 203–4 ar sail testun llsgrau. FGH (gw. IGE 202).

hefyd, fodd bynnag, y gall olygu ‘cyfarwydd, medrus’, ystyr a fyddai’n gweddu yma.

- 8 **Olifer** Un o ryswyr Siarlymaen, gw. YCM² 15 (ll. 9), 44 (ll. .27), &c.
- 9 **hyd dir Ffrainc** Odid na fu Huw yn ymladd gyda lluoedd brenin Lloegr yn Ffrainc.
- 11 **egin deg** Llsgrau. *egni teg, egni deg*, ac *egin teg*, ond y mae angen *d* ar gyfer y gynghanedd, ac *egin* (‘[un] o wehelyth’) a rydd yr ystyr orau. Gallai fod yn eb. yn ogystal ag yn eg., gw. GPC 1175.
- yw ... aeth** Ymddengys mai Huw Sae a olygir. Ar newid o’r ail berson i’r trydydd fel hyn, gw. GIG 285 (d.g. *edryd*).
- 12 **heb ei ennill** Ai at *gair ffraeth* yn ll. 9 y cyfeirir?
- 13 **Tydi elwir** Sylwer ar hepgor yr rh.pth. *a*, gw. Treigladau 174.
- 14 **Edward** Sef Edward III, gw. y sylwadau rhagarweiniol uchod.
- 16 **durdyrch** Ll. *durdorch* ‘torch neu ddolen o ddu mewn llurig neu habrsiwn’, GPC 1099. Ystyr y ll., fel y dywedir yn IGE² 410, yw ‘*linked mail*, arfau modrwyog’.
- 17 **ymwys** Fe’i nodir yn IGE² 425 ond ni roddir ystyr, ac y mae’r llsgrau. i gyd o’i blaid. Dichon mai *ym-* a *gwÿs* ‘galwad, dyfyn, galwad i’r gad’ (gw. GPC 1788 d.g. *gwÿs*²) sydd yma heb fod *ym-* yn ychwanegu dim at yr ystyr. Nodir y ffurf *ymwÿs* yn G 751 (d.g. *gwÿs*²) yn betrus a heb roi cyfeiriad nac ystyr.
- amwar** Nodir hwn hefyd yn IGE² 402 heb roi ystyr ac y mae’r llsgrau. i gyd o’i blaid. Yn ôl GPC 103, sy’n nodi’r enghraifft hon ac un arall—Pen 53, 14 (ll. 13) *tri amwar am gar a ymgerydda*—‘addfwyn iawn, diddan’, o *am-* gyda grym cadarnhaol a *gwâr*, yw’r ystyr, ond nid ymddengys honno’n briodol o fewn y cwpled. Gallai *gwâr*, fodd bynnag, olygu ‘boneddigaidd’, gw. *ib.* 1576, ac efallai mai ‘anrhydeddus, urddasol’, megis ym myd sifalri, a olygir, cf. 16.71 *mwynwys* a n. Ni ellir derbyn yr ystyr ‘dig, garw’, fel pe bai *am-* yn gyfystyr ag *an-*, a roddir yn G 616 (d.g. *gwâr*). Dichon mai’r syniad y tu ôl i *ymwys amwar* yw fod Huw Sae yn gwysio milwr yn foneddigaidd i’r gad.
- 18 **darparud** Paratoi pethau ar gyfer brwydro. RB ii, 29 (llau. 28–9) *A gbedy darparu yr ymlad y deulu a ymlada6d y vr6ydr*.
- 19–20 Efallai mai rhywbeth fel hyn yw’r ystyr: ‘Y mae [ei] farch briwiedig yn sefyll ar lurig [gelyn], [march a chanddo] friw [sy’n destun] cân wiw [ac sydd] o dan arfwisg [marchog a chanddo symudiad megis] dawn.’ Ymgais oruchelgeisiol efallai i fynegi hynt fuddugoliaethus Huw Sae ar faes y gad; cf. ll. 26n.
- 19 **brigawns** ‘Arfogaeth am y corff wedi ei llunio o fodrwyau haearn neu o blatiau a wniwyd rhwng dau drwch o gynfas neu o ledr, math o lurig’,

- benthyciad o'r S.C. *brigandine(s)*, *brigander*, GPC 324 d.g. *brigawn(s)*¹.
- 20 **i dan** Cyflenwyd *i*, er nas ceir yn y llsgrau., er mwyn unioni hyd y ll. Darllenir *o dan* yn IGE² 203, ond ffurf ddiweddarach yw honno, gw. WG 399.
- 21 **y** Nis ceir yn IGE² 203 ond fe'i ceir yn y holl llsgrau., ac eithrio E. Er mwyn cael y nifer cywir o sillafau yn y ll. gellir ei gywasgu â diwedd *da*.
ym 'Myn', gw. 12.77n.
ynni Ar *ynni* 'ynni, grym, nerth' ynglŷn â Duw, cf. LIDC 17 (10.1–4) *Arduireau e. tri / trined in celi. / yssi un a thri. / vned un ynni*; (25–6) *Duu y env. in tri / Duyuuaul y inni*.
- 24 **casáu ar** Anarferol yw dilyn *casáu* gan *ar*; cf. e.e. *aflonyddu ar, craffu ar* &c. a gw. ymhellach D.S. Evans, 'Yr Arddodiad *ar* a'r Ferf mewn Cymraeg Canol', B xv (1952–4), 1–12.
- 25 **Bai crych a llyfn.**
cysurna' *Cysur a naf*.
- 26 **cysur da** Anfodddhaol braidd yw ailadrodd yr un geiriau ag a geir yn ll. 24, cf. 19–20n.
- 27 **d' arglwydd** Y tebyg yw mai Harri IV, a deyrnasodd o 1399 hyd 1413, neu Harri V, 1413–22, a olygir.
- 29 **llafnddur** Hynny yw, Huw Sae trwy gydgymeriad.
- 31 **imp** Y tebyg yw mai 'gwehelyth' a olygir, gw. GPC 2018.
- 32 **cleudrin** *Clau* 'esgud, chwim' a *trin* 'brwydr'. Genidol ydyw yn dibynnu ar *gwst*.
gwst Ar ystyron a tharddiad hwn, gw. 16.36n. 'Poen, dioddefaint' a olygir yma.
cledr Gallai fod yn e. torfol yn golygu 'ffyn' yn ogystal ag yn eb. Y tebyg yw mai 'gwaywffyn' a olygir yma er na roddir yr ystyr honno yn GPC 493. Y meddwl yw fod Huw Sae yn malu gwaywffyn y gelyn yn deilchion (*ustalch*).
- 38 **mud** Ai 'dyfal' am nad oedd yn gwastraffu amser ac egni yn gweiddi? Tebycach, fodd bynnag, mai *bôn* y f. *mudo* sydd yma. Yn ôl GPC 2499, d.g. *mud*², heblaw 'nwyddau tŷ' &c., gall hefyd olygu 'mudiad, symudiad', a'r ystyr felly fyddai bod Huw Sae yn 'symudol', Hynny yw yn brysur, ar y maes. Tybed nad oes mwy o rym a. yma i *mud*?
meistr Gw. y sylwadau rhagarweiniol uchod.
- 41 **chwithau** Newidir i'r ll., cf. ll. 46 *i'ch cadw*. Efallai y cyferchir gwraig Huw Sae hithau, ond cf. hefyd uchod 5.15n.
- 42 **berw** Y cyffro neu'r ysbrydoliaeth farddonol a olygir—'cerddwriaeth,

barddrin', gw. GPC 275 a gthg. 12.10n, 17n, 24n.

- 45 **Alun** Enw sant. Nid oes dystiolaeth ar gadw am unrhyw sant penodol Gymreig o'r enw hwn ond cf. plwyf St. Allen yng Nghernyw, gw. LBS i, 147, a enwyd o bosibl yn ôl IGE² 374 ar ôl sant o'r enw hwn. Cf. hefyd GGI² 11 (IV.15–16) *A pheî delud, ffawd Alun, / I Ffrainc, hwyr yt ffo er un.*
- 46 **i'ch** Ar y ll., gw. ll. 41n.
ei hun Cydier wrth *Duw*.

Geirfa

- âb** epa 9.25n, 13.51
achreth cryndod 12.45
addail deiliach a brigau ieuainc 12.8n
ael 10.28n
aer brwydr 9.30, 16.6n
aerfyn *b.* **aerfen** 12.57n
aerwy cadwyn, hual 15.56n
aerwyog torchog At.44
agwedd modd, gwedd 13.10
anghrwteistraul yn gwario'n anweddus 11.11
ail 16.2n
ais gw. **asen**
am 13.12n
amner pwrs 11.1n
amod amod, cytundeb 8.46
amwar At.17n
anferth hyll, hagr 8.22
angerdd llid, ffyrnigrwydd, celfyddyd 12.61, 14.25n, 15.31n, 47n, 16.55
anhapuswaith digwyddiad anffodus, anap 9.50
anianol tra, tros ben 9.45, 10.51n
anneddfawl di-ddeddf, afreolus, drwg 13.32
anneŷrnaidd anurddasol, anfonheddig 12.48
annwyd teimlad 12.20n
anodus heb golled, heb niwed 9.27
anrhedud dynwared, efelychu 12.39n
anrhygoll heb golled, heb niwed 13.61
apêl 9.7n, 21n
arab llawen, mwyn 10.42, 15.75
arabedd 17.3n
araith iaith, ieithwedd 14.46
arch gw. **erchi**
arddfrych melynnddu, tywyll 13.70
arddyfrwys cadarn, bywiog 9.3
areilio llochesu, ymgeleddu 3 *un.grch.* **areilied** 14.34n
aresg 13.55n
arfaes maes brwydr At.37
arglwyddlyw pennaeth arglwyddaidd 16.4
ar odde gyda'r bwriad 9.5
arofun cais 10.41n
ar ôl 12.40n
aros gwrthsefyll, brwydro 16.70
arwain cario 11.21
arwest 16.34n
ar wŷr ar gyfeiliorn 14.69
arynaig ofn, dychryn 16.57
asen *ll.* **ais** 13.8n
asur 16.38n, 48n
aur aur; gwyach, rhagorol 9.3, 11.14n, 58n, 13.12n, 15.82, 16.11n; *eith.* **euraf** 15.13
awdl 15.28n
awen 15.40n
awenydd awen, bardd, prydydd 14.1, 4, 63, 15.64
awenyddaid barddonol 15.66
bagad sypyn 13.37n
bagadog niferus 10.5
baran nerth 17.9
barbed 13.42n
bargod bondo 13.48n
batel brwydr 9.8n
baw 11.35n
bawd 12.1n

- bedlwyn** 8.1n
berth hardd, gwyh 14.62
berw 12.10n, 17n, 24n, At.42n
blaen blaenoriaeth, rhagoriaeth 16.39n
blaeneudir tir y blaenau, ucheldir, gororau 8.39n
blodeurwydd gwyhder blodeuog, addurn 16.41
bochgern grudd 13.44
bochwal 12.13n
bod 3 *un.amhff.myn.* **oedd** 10.8n, 13.35n, 16.59n; 3 *un.grff.myn.*
bu 8.25n; 3 *un.grch.* **poed** 13.26n
braisg gwyh, nerthol, grymus 13.43, At.34
brau parod, buan 14.22
brawd 14.58n
breferad bref, rhuad 12.24
breinio urddasu 8.19n
breuan melin law 12.70n
brig canghennau uchaf, top, copa 8.9, 28, 10.4, 22, 38, 13.49
brigawns At.19n
brw 12.24n
brochwart ceidwad broch 9.24n
bugunad rhuad, bloedd 12.30
bun 10.42, 13.16, 42
bwbach 13.33n
bwrw 8.26n
bwyall 14.21n
byw 16.10n
cad gw. **cael**
cadair 14.29n
cadeirio tyfu cangau 3 *un.pres.myn.* **cadeiria** 8.40
cadit 12.36n
cadr gwyh, nerthol 16.65
caead gorchudd 8.11
cael 3 *un.grff.myn.* **cafás** 17.14; *amhrs.grff.myn.* **cad** 15.48, 16.46, **cafad** 16.54n
caer amddiffynfa *ll.* **caerau** 10.11n
caeth caethwas *ll.* **caith** 11.49
cafad gw. **cael**
cafás gw. **cael**
cangell 10.16n
caith gw. **caeth**
calennig rhodd, gwobr At.31
callawr pair, crochan 12.18
canmuw can buwch 12.89
canon 15.30n
cap 8.26n
casáu At.24n
catel 14.66n
cathl cân 10.46
ced anrheg 13.35
ceden blewiach 13.67n
cefn 13.8n
ceirch 10.40n
celec ystryw, dichell, twyll 15.25
cell ystorfa 12.68
cên 14.1n
cerdd 12.62n
cerddwr prydydd 16.17
certh iawn, gwir, cywir 14.32n, 59
ceseilwyn gwyn ei gesail 8.12n
ceubren coeden wedi ceuo oddi mewn 13.23n
ceunant 9.46n
ciglau gw. **clywed**
cilio cilio, ffoi 3 *ll.amhff.dib.*
cilyn 9.13
claeare tirion, teg 10.32
clap clep, clec 12.70n
clariwn S. ‘clarion’ 9.26n
cled gw. **clyd**
cledr At.32n
cledd *ll.* **cleddau** 12.62n
cleddlas glas ei gledd 16.4n
cleiriach hen wŷr musgrell 13.33n
clêr beirdd 14.72, 16.87
clera 10.19

- cleudrin** At.32n
clicied *ll.* **cliciediau** 12.69n
cloch *ll.* **clych** 8.23n
clwyd cysgodfa 8.44; *ll.* **clwydau** 8.16
clych gw. **cloch**
clyd cysgodol, sych *b.* **cled** 8.16, 10.32, 11.46
clywed clywed, teimlo 3
un.pres.myn. **clyw**; 3
un.grff.myn. **ciglau** 13.19; 1
un.pres.dib. **clwyf** 14.13
cneifiad 13.66n
coch brown 12.68n
coeg gwael, diffaith 8.22
coel argoel, arwydd At.35
coeth 13.12n
cof 12.55n, 16.7n, 33n
coffr trysorfa 15.34
coly barf ar dywys *yd ll.* **colion** 13.56n
compod cylch 16.37n
corbedw bedw mân 13.22
cors coesyn calaf *ll.* **cyrs** 8.14
crair un annwyl, trysor, peth wedi ei addurno'n wych 15.17, 16.39
cred gair, addewid 9.12
crug bryncyn, twmpath 10.2
cul 13.18n
cun arglwydd, pennaeth 15.32
cwlm 13.11n
cwmpas amlinell, amgylchedd 16.37
cwprdd 8.26n
cwrw 12.28n
cwthr pen-ôl 13.12n
cyd uniad, cydiad 14.32n
cydladd cyd-daro 12.83
cyfarfod¹ 12.46n
cyfarfod² 1 *un.grb.myn.* **cyrfaswn** 16.56n
cyfnewid tro ar fydd;
 marchnadaeth 11.37, 15.26
cyfrestr wedi ei gyd-wau 8.13
cyloren cloren, cynffon 13.55n
cymhendawd doethineb 15.3n
cynanu *amhrs.amhff.dib.* **cynhenid** 16.51n
cynhaeaf 13.66n
cynnar 16.13n
cynnwys croeso 15.18
cyrs: gw. **cors**
cysellt swp 9.41n, 15.7n
cysgod noddfa, lloches 11.65
cysurna' At.25n
cywreilynlyw pennaeth gwych 14.26
chwai buan, anwadal 15.58n
chwaith chwaeth 11.34n
chwarae 3 *un.pres.myn.* **chwery** 13.30
chwedl sôn, hanes 9.6n, 16.77
chwery gw. **chwarae**
chwith 13.9n
chwyl tro, digwyddiad, treigl, hynt 9.18, 15.58
da 12.14n; *cfrit.* **daed** 8.48n
dadeni 15.60n
dadl 12.44n
dadwrdd twrw, sŵn 16.83
daed¹ gw. **da**
daed² 15.64n
dail 10.48n
dal 12.43n, 16.85
damwain digwyddiad 11.24
dan llaw 10.12n
danas 13.27 carw
dangos 9.47n
darparu 2 *un.amhff.myn.* **darparud** At.18n
dawngoel sicr ei rodd 16.55n
dawngoeth gwychddawn 14.25
dawr gw. **dori**
deddf 11.57n
deffro 2 *un.grch.* **deffro** 12.51n

- delw** ffurf, llun 12.41n
delwynt gw. **dyfod**
dewisgrair un annwyl dethol
 17.13
diafar dedwydd, di-loes 16.13
diawl 12.4n
dibechgamp di-fai ei rinwedd
 13.44
dichwerw tirion, melys 10.56
dichwith deheuig, hyfedr At.41
didawl di-dor, dibrin At.42
didrahäus diryfyg, addfwyn At.2
didranc di-baid, diddiwedd 15.70
diell di-fai, perffaith 10.16
dien teg, hardd 10.22
difant marwolaeth 14.37n
difrad didwyll, cywir 14.19
difreg di-fai 9.3
difwyallfarc heb ôl bwyall arno
 8.13
diffryd amddiffyn 12.51
dig chwerw 13.21
digio 2 *un.grch.* **digia** 11.54n
digoll di-feth 8.35n
digonawl dibrin, diamdlawd
 16.24
digri hyfryd, doniol, comig, od
 13.35; *cmhr.* **digrifach** 10.41
digrifwch hyfrydwch,
 dymunoldeb 15.5n
digroeni 1 *un.grff.myn.*
digroenais 13.45
digroniad hael 11.61
digyfyng eang, hael 10.15
diharneisio ysbeilio o ddillad ac
 arfau 10.21
dilesg pybyr, bywiog 11.39
diletib heb fod yn ddrwgdybus
 10.9
di-lwfr dewr, eofn 16.32
dinidr rhwydd, parod 8.47
diofryd 13.63n
diofwy diymweld 9.51n
dirffordd ffordd lawn trais *ll.*
dirffyrdd 10.57n
diriaid erchyll, ofnadwy 13.31
disbwyll pwyll, doethineb 11.53n
diwacsa difrif 13.39
diwael gwych 10.40n
diwarth di-fai, di-gabl 14.20
diwyd ffyddlon At.39
diwŷyr heb wyro 11.30
diyngnawdd eang ei nawdd, hael
 14.33
diymgel hysbys, eglur 10.23
diystyr dirmygedig 13.15
dodi 14.9n
dofydd meistr 14.5n
dogn cyfran, gwala 16.13
dori bod o bwys 3 *un.pres.myn.*
dawr 15.38n, 16.28n
dragwn draig, pennaeth At.37
dros oherwydd, yn gyfnewid am
 13.67, 16.20
drud gwrol 15.54, At.18, 38
drudaniaeth ffyrnigrwydd 13.31
du 13.66n
ducsem gw. **dwyn**
durarf arf o ddur At.37
durdorch ll. **durdyrch** At.16n
dweud 3 *un.grff.myn.* **dywawd**
 14.35
dwyn 16.32n, 60n; 1 *un.grb.*
ducsem 9.33n; 2 *un.grch.* **dwg**
 16.89n
dwys llym, tost 11.43, 15.18
dwysgred taer ei gred 17.13
dy 10.63n
dyfalu cyffelybu, cymharu;
amhrs.pres.myn. **dyfelir** 16.8
dyflöen ysglodyn 12.57
dyfod 3 *ll.pres.dib.* **delwynt** 9.52;
 2 *un.grch.* **dod** 16.89n
dyfrllydrwydd 12.73n
dyfyn 9.51n
dym dim 12.6n

dyn *ll.* **dynion** 12.14n
dyrys call, cyfrwys 16.65
dysg 10.48n, 13.21n
dywawd gw. **dweud**
eb y meddai 13.24n
ebrwydd chwim 8.50
ebryn berw, cyffro 17.4
echrys adwyth, niwed 12.45
efengylu, **'fengylu** 13.38n
egin blagur, gwehelyth 11.58n,
 15.77n, 16.11n, At.11n
ei rh.m. *llafarog* 3 *un.* 9.52n, 17.18n
eiddun dymunol 14.46
eiriach arbed, cadw 16.25
eirian hardd, teg 16.33
eithin 13.37n
eithr 12.5n
ellwng gollwng 9.18
emyl ymyl 9.17
enbyd peryglus 16.59
enfys 16.53n
ennill 2 *un.grch.* **ennill** 16.90n
enw clod, bri 9.16n, 16.34
er oherwydd 15.30
erchi gofyn 2 *un.grch.* **arch**
 12.51
eres rhyfedd 10.51, 16.11
erfai 16.37n
esgor ysgor, caer, amddiffynfa
 9.37
euraf gw. **aur**
euraid gwyth, ardderchog 15.29
eurdlws tlws neu addurn o aur
 16.58
eurged 9.23n
eurin euraid, ardderchog 15.56n
eurner arglwydd ardderchog
 14.71, 15.22
euro cyflenwi ag aur,
 anrhydeddu 3 *ll.pres.myn.*
eurant 11.64; 3 *un.amhff.*
myn./dib. **eurai** 10.9n
eursal budd gwyth 15.52

eurwawd gwyth ei gerdd 14.35
'fengylu gw. **efengylu**
ffawydd 8.11n
fflamdan tân fflamychol 16.50
fflamliw o liw fflam 16.39n
fflwch llwyr, clir 16.50
ffo ffoi 9.47; 1 *ll.grff.myn.*
ffoasam 9.32
ffraeth parod, buan At.9
ffromart atgas 9.24n
ffrwst brys 15.86
ffrwyn 12.52n
ffyrfeiddiwr cryfhawr 15.14
gadael 2 *un.grch.* **gad** 12.36n
gadaw 11.41n 2 *un.grch.* **gado**
 11.67n
gaeafgnu 13.68n
galle gallu 10.10
gard *ll.* **gardiau** 13.53n
garw 13.47n
garbron gerbron 16.70
garwbysg 13.22n
garwgainc tôn gras 9.23
gawr trydar 10.45
gefyn 13.8n
gên 13.68n
genwair 14.39n
gildiwr gwariwr 11.6n
girad chwerw, tost 9.39, 43
glân 11.58n
gleuaden biswail gwartheg sych
 at gynnau tân 11.46
gloywrodd 16.46n
glynnerth 10.32n
gnawd arferol 13.57
gobr gwobr 8.50
gobraff cadarn, mawr 13.23n
gocheliad llechgi, llyfrgi 15.85
godech 11.25n
godde gw. **ar odde**
gofeg serch, trachwant 13.6n
gofrwyg llon, bywiog 9.38n
goganu dychanu 15.88

- goglais** 13.19n
golau disglair 15.50, 67
goleuad goleuni 12.90
goleurad eglur ei fendith 16.46
gorchest 16.64n
gordderchu 3 *un.grff.myn.*
gordderchodd 17.1n
gorddu tywyll iawn 8.25
goreugroyw gorau a melysaf 13.4
goreuro clodfori ar fydr 2
un.grff.myn. **goreuraist** 15.19
goreuryw o'r math gorau 16.39
goreusal mwyaf buddiol 14.67
goreuwaith gorau ei waith, sy'n
 gwneud ei waith orau 15.45
goreuwr pendefig, arwr *ll.*
goreuwyr 8.18
gorflewyn blewyn hir neu arw a
 phigog 12.34
gorhoenus hardd, lliwgar 8.43
gorlechwedd llechwedd, llethr
 9.19n
goroen lliw 13.3
goroff gwych, clodfawr 15.86
goror 10.54n
gorwyf 9.39n
gorwyr 13.4n
gosgedd ffurf, llun 10.17
gosod 15.27n
gosodiad 8.17n
gradd safle 15.62
grodin graeandir 12.43
grym grymus 15.17
gwahardd *amhrs.grff.myn.*
gwaharddwyd 14.3n; 3 *un.*
pres.dib. **gwaharddo** 16.81n
gwaisg gwych 8.31
gwaith 10.27n
gwal cadernid 16.85
gwallt 8.34n
gwân trawiad, hwrdd, brwydr 13.36n
gwarant diogelwch,
 amddiffyniad 10.25, At.15
gward nodded, amddiffyn At.13
gwarwyfa chwareufa 10.6
gwasgrwym 13.46n
gward cerdd, cân 9.15n, 12.16,
 70, 14.44, 54, 15.4, 52, 16.47,
 54
gwardwr bardd, prydydd 16.43
gwayw gwaywffon *ll.* **gwewyr**
 8.18n, 9.42n
gwedd dull, modd 14.50, 15.24
gweddeidd-dŷ tŷ gweddus 8.45
gweddw tlawd 12.65
gweflgrach â gwefusau clafirlyd
 12.41
gwerin llu, byddin 10.60n,
 16.78n
gwern 12.70n
gwerth 12.25n
gweuad gwead 10.13
gwewyr gw. **gwayw**
gwg soriant 15.9
gwialen gwaywffon *ll.* **gwiall** 10.13n
gwirion dibechod, di-fai 16.74
gwisgi buan 11.27
gwisgrudd coch ei wisg 13.46n
gwiwlys llys ardderchog 16.29
gwiwradd urddasol, clodfawr
 15.61n
gwiwrym gwych a grymus At.39
gwlad 11.41n
gwn magnel 9.26n
gwneuthud gwneud 9.7n; 2
un.pres.myn. **gwnei** 12.4n,
gwnei 12.37
gwnïad 14.19n
gŵr gŵr, milwr, ymladdwr
 14.64n, 11.41n; *ll.* **gŵr** 9.12n,
 10.6, 16.78
gwrdd nerthol, gwych 8.25, 9.26,
 15.22, 16.34, 84
gwrneidr 11.38n
gwyrd¹ rhychwant 10.50
gwyrd² dewrder 15.13, 16.1n

- gwst** chwant 16.36n, At.32n
gwybod 3 *un.amhff.myn.*
gwyddiad 16.45
gwyd pechod, drygioni 16.74
gwydr disglair, gloyw, arfwisg
 8.9n, At.20
Gwyddel 12.65n
Gwyddelig 10.3n
gwyddiad gw. **gwybod**
Gŵyl Badrig 8.35n
gwymp hardd 15.4
gŵyr gw. **ar ŵyr**
gwyrennig nerthol, grymus 16.9
gyrddwaed bonedd neu dras
 uchel 15.63
haeddu 2 *un.pres.myn.* **haeddy**
 At.4
haerllug taer, tanbaid At.1
haidd 13.56n
harddu *amhrs.grff.myn.*
harddwyd 8.3n
haul 14.34n
hawl gw. **holi**
helynt cwrs, hynt 9.27
hen 12.33n, 13.27n
henaidd 12.81n
henllwy 12.47n
henwaith 11.34n
hiraethglwyf 14.13n
hirddail 8.3n
hirwydd coed uchelfrig 10.61
hoed tristwch, gofid 14.13
hoel 12.38n
holi holi, hawlio, mynnu 12.38; 3
un.pres.myn. **hawl** 8.28
holltir holl dir neu wlad 12.21
honni cyhoeddi 1 *ll.pres.myn.* / 1
un.amhff.myn./dib. **honnwn**
 15.20n
hoywdeg gwyth a hardd 16.88
hoywfraisg hoyw a phraff 8.32
hoywfro ardal wych 11.60
hoywlew gwyth o ddewr 16.87
hoywnaf arglwydd gwyth 15.43
hoywlyw pennaeth neu fyddin
 wych At.43
hud deniad 11.30
huodl At.3n
hwndrwd 12.44n
hwnt 13.27n
hwntian crwydro hwnt ac yma
 10.43
hwylbren ll. **hwylbrenni** 8.7
hyddgant gyr o geirw At.15
hyd na fel na 15.21
hydr gwrol, nerthol At.16
hylaw hael 16.18
hylwydd llwyddiannus,
 ffyniannus 16.68
hylwyddynt llwyddiannus ei
 hynt At.27
hylysg tanbaid, brwd 15.37
iaswr asiwr 14.62n
iawngais 15.31n
iawngyd 15.47n
i danadd tanodd 10.33
i drais trwy drais 10.18
Iddew 12.31n
imp At.31n
irgoed coed ir 14.14
irwydd coed ir 10.44
lamp 13.43n
llam ymosodiad 9.31
llaw nawdd 11.62 a gw. **dan llaw**
lled gw. **llydan**
llefair 12.54n
lleuad 10.62n
llid 9.33n, 11.40n, 15.26n a gw.
trwy lid
llifaid hogedig, minllym 14.22
llifnadd wedi ei naddu â llif 16.35
lliw 15.1n
lliwloer fel lloer ddisglair 13.16n
llonaid 10.55n
llu 10.58n
llueiddiad milwr *ll.* **llueiddiaid**

- 10.66n
llwybr dull, modd, ffordd 15.51
llwyddo 3 *un.grch.* **llwyddid** 10.66n
llydan *cmhr.* **lled** 10.62n
llygru dinistrio 11.36
llymdarf gwasgar sydyn 9.31
llyn diod 12.25
‘m ym, myn (mewn llw) 12.77n,
 At.21n
mabolaeth 8.9n
mabsant sant gwarcheidiol 10.25
maen *ll.* **main** 10.34n
maeser 12.74n
magod pasgedig 12.71
maidd gleision, S. ‘*whey*’ 12.47
main gw. **maen**
malltan 15.8n
maswdrig sy’n aros yn feddal
 12.73
maswedd miri, llawenydd At.5
mawl 16.23n
mawntais mantais 9.44n
mawrddawn bendith fawr
 11.17n
mawrgant llu mawr 9.46
mawrhau mawrygu, clodfori; 3
un.grch. **mawrhaed** 16.82n
Mawrth 8.44n
medel lladdwr *ll.* **medelau**
 11.39n
medd-dawd 13.57n
mefl cywilydd, gwarth 12.72, 16.81
meinwr gŵr tal, tenau, dyn main
 neu osgeiddig 15.80
melin 16.23n
menybr carn, handlen 12.86n
merwingoch coch ac yn peri
 blinder 12.61n
mil 8.33n
misericórs 12.74n
moelrhawn morlo 12.20, 13.54n
moes moesgarwch, cwrteisi 15.80
mold ffurf, llun 11.6n
môr *ll.* **mŷr** 10.62
mordwy timestl 12.50n
morfa 16.73n
morfrwyn 13.52n
morwch morlo 13.20
mud At.38n
mudo symud 1 *un.pres.myn.*
mudaf 8.4n
mudwas llanc mud 14.16n
murniedig wedi ei ladd 11.13
mwdwl *ll.* **mydylau** 10.14
mwnai arian, cyfoeth 11.63n
mwting trafodaeth, dadl 9.8n
mwyr drachefn 9.52n
mwynwas llanc mwyn 11.50n
mwynwys 16.71n
Myhefin 11.16n
mynnu 2 *un.pres.myn.* **mynny**
 3 *ll.pres.dib.* **mynnwynt** 9.52
mŷr gw. **môr**
nacha’ wele 9.17
nâd cri, cwynfan 12.23
nadd 10.34
nawd 9.27n
nawell naw gwaith gwell 13.59
nen to 8.7
neuadd-dŷ 10.26
nidrwr maglwr 15.39
nith 12.12n
nithio 12.16n
nodwydd 11.21n, 14.40n
o 11.53n, 14.31n, 15.40n
od gwyach, rhyfeddol 15.34
oed 10.52
oen 13.66n
oer 13.26n
oerfel 9.53n
oerful ffôl 12.57
oerni tristwch 12.88
oferfrig diwerth ei flaen 13.52n
ôl gw. **ar ôl**
olrhain dilyn, ymlid
amhrs.pres.myn. **olrhëir**

- 11.55n; *amhrs.grff.myn.*
olrhewyd 10.28n
onest anrhydeddus 16.34n
organ 14.28n
ornair cabl 11.43
osb gwestai 11.53n
pacs 13.39n
pais curas, S. '*cuirass*' (arfwisg ar gyfer rhan uchaf y corff) 9.32, At.16
paladr S. '*stem*' ll. **pelydr** 8.9n
pall pabell 8.13
pan 16.46n
pant ardal, bro 14.38n
pâr gwaywffon At.18
parc 16.48
pebyll 10.36n
pefr gloyw, disglair 15.45
pefrddrych ffurf ddisglair 10.49n
pefrglos llannerch deg 10.31
peidio 2 *un.pres.dib.* **peitych** 13.26n
peiswen 9.50n
peithyn ll. **peithynau** 13.53n
pen genau 15.3n
penadur pennaeth, arglwydd 11.61
pencerdd ll. **penceirddion** 16.27n
penrhaith prif farnwr, arglwydd 16.79n
pensaergerdd 14.14n
penwn baner 16.89
penyd 8.20n
perclwyd 10.59n
perwyl pwrpas 14.51
peth 8.28n
pill cadernid 8.37n
plaid cwmni, torf, cymorth, amddiffyn, plât metel 10.63n, 16.41n, At.36
plas llecyn 8.21n
pleidiwr 8.27n
plith 10.63n
plymlwyd brwydr 8.21n
pôr arglwydd 10.24, 14.25, 16.55
post cynhaliwr, amddiffynnwr 16.18, At.16
praw prawf 9.31
presen byd 15.59n
prif mawr 15.5
pris 15.27n
profedigaeth prawf 15.35n
profi 3 *un.grch.* **profed** 14.52n
proffid budd, ennil 9.10
pryd harddwch 8.19, 16.2, 42n
prysgoed llwyni 10.17
pumoes 17.18n
pur difai 10.17
purdan 16.50n
purffawd bendith bur 15.51
pŵl hurt 9.49
pwlfryd pŵl ei feddwl 9.7n
pwrcasu 3 *un.amhff.myn.* **pwrcasai** 16.48n
pyyll natur 16.18, At.7
pyynt 9.21n
pwys¹ (person sy'n) awdurdod 15.87
pwys² priod 10.23n
pybyr 9.11n
ransymiaw talu pridwerth am 10.12n
rial ysblennydd, helaethwych 16.14n
rhag o flaen 14.43
rhagnyth nyth 12.11
rhagor blaen, rhagoriaeth 14.44, 15.5; ll. **rhagorau** 9.43n
rhagorglaer disglair ei ragoriaeth 16.5
rhaidd gwaywffon 15.2
rhasgl offeryn saer coed at grafu, S. '*spokeshave*' 13.24
rhawd lluosogrwydd, helaethrwydd, llu, ciwed 8.2, 10.3, 15.8n

- rhawn** 13.54n
rhawnir hir ei rawn 16.57
rhedyn 9.19n, 10.55n
rhedynglos llannerch o redyn 10.7
rhegen sofliar, S. *'quail'* 12.11
rheiddfriw wedi ei glwyfo gan waywffon 15.74
rhestrog yn rhesi 10.5
rhi brenin, arglwydd 16.6
rhisglen rhisgl coeden 13.23
rhisglo pilio, digroeni 13.24n
rhiw 9.2n
rho gw. **rhwng**
rhod byd 10.3
rhôn 15.29n
rhuddaur o liw coch ac aur 16.26
rhuddfrych coch a brych ei liw 15.74
rhuddlym gwaedlyd a blaenllym 15.2
rhugl cyflym, ffraeth 15.4n, 16.60
rhus rhwystr 11.9, 15.59
rhuthr 15.2n
rhwng 1 un. **rho** 10.1n
rhydd bendithlon 15.40
rhywgaie 16.71n
rhywysg urddas 14.35
rhyballu pallu, methu, colli 3 un.*pres.myn.* **rhyballa** 8.37; 2 un.*pres.dib.* **rhybellych** 15.72
rhyd 16.59n
rhydain carw ifanc 15.75
rhydeg teg iawn 10.1
rhyddwys tra llym 14.38
rhyfab 15.42n
rhygarw carw gwyh, arwr 14.44
rhyglydd haeddiant 15.4
rhyglyddu haeddu 3 ll.*amhff.dib.* **rhyglyddyn** 9.13
rhysfa 10.6n
rhyw natur 9.11n
rhywiowglyw arglwydd urddasol 16.10
saer 14.24n, 59n
salw gwael 9.27
sathru 3 un.*grff.myn.* **sathrodd** 16.1n
sawdwr milwr; ll. **sawdwyr** At.14
secutor 14.66n
seithradd 16.1n
sercl 10.59n
serthedd iaith serth, S. *'abuse'* 13.29
siderog â ridens, S. *'fringed'* 8.7
simwned 9.23n
sinobl coch 13.34n
sir llawenydd 11.10
sofl S. *'stubble'* 12.22
somgar twyllodrus 13.28n
somi twyllo, gwawdio 3 un.*pres.myn.* **sym** 9.24
sonio gwneud sŵn 12.28
sor digofaint, llid 12.59
sorod 11.21n
sothach 11.19n
sudaidd lluniaidd 8.15
swmwl swmbwl, pigyn 15.84
swydd gweithred, gorchwyl 8.49
syberbwyll balch ei natur 13.42
syllty 8.8n
sym gw. **somi**
syml ffôl 15.84
symud newid 14.2n
sythu gwneud yn stiff 3 un.*grff.myn.* **sythodd** 11.19
tabwrdd drwm 9.25n
taeog 10.39
taer tanbaid 11.28
tâl¹ talcen (tŷ) 9.2n, 16.85
tâl² taliad, gwariant 10.64n, 14.68n, 16.85
talm cyfran 12.9, 15.57
talw haeddu 3 un.*pres.myn.* **tâl** 14.40n
tan o dan 2 un. **tanad** 8.6

- tant** 16.85
taradr offeryn i dyllu coed, S.
 ‘*auger*’ 16.65
tarfu gyrru ymaith 10.47, 13.65
tasel 16.43n
tau gw. **tewi**
teg At.11n
teilyngfoes 15.49n
telaidd hardd 10.64
teml 14.48n
teulu gosgordd 9.2
teuluaidd bonheddig 15.1
tewi 3 *un.pres.myn.* **tau** 12.16
tid cadwyn 16.52
tin 13.51
tir 12.8n
toddaid 14.22
tôn 15.49n
torri 10.48n
tostur tost, truenus 14.10n
trafn 15.65n
traidd 15.65n
train tro 8.17n
trais gw. **i drais**
traw ergyd 9.39n
traws nerthol, cadarn, cryf 9.35,
 13.67, At.36
trawsfab mab nerthol 16.3
trawswch cadernid 13.20
tref 12.80n
treigl 15.24n
treinsiwr 12.60n
treisiad gweithred o drais 8.17n
tresor trysor 9.37
trigo aros, oedi 3 *un.pres.myn.*
 trig At.19n
trimis 8.30n, 11.22n
trin 15.54 brwydr
trosi ymlid, erlid 9.35n;
 3 *ll.grff.myn.* **trosasant** 36
trosiad ymlidiad, erlidiad 9.38
trwch anffodus, ysgeler,
 gwaradwyddus 15.6, 16.75
trwm trist 8.30
trwsiad 9.38n, 10.35n, 16.54n
trwy lid yn lliidiog 11.40n
trychwr lladdwr At.35
tud gwlad, bro 16.24
tudded gorchudd, mantell 10.31
trwn tro 9.39n
twymnyth nyth dwym 11.1
twyn bryncyn 13.52
tyddyn 10.7
tyfiad 8.11n
tyn penderfynol 9.4
tyno maes 8.6, 10.33
tywarch *ll.* **tyweirch** 10.39n
ugeinmorc 12.89n
undardd 16.21n
unfodd 16.53n
urddwr 15.28n
ustalch darnau mân, teilchion
 At.32
uthr aruthr 10.48
weldyna dyna 17.17
wt 13.25n
ychen 16.51n
ying cyfynger 10.16
ymdrafodi ymladd 13.2n
ymddyfalu dychanu 12.27n
ymgusanu cusanu ei gilydd 13.13
ymhalogi ymsennu 15.10
ymleferydd 12.10n
ymwrio 13.12n
ymwys At.17n
ymylrhwth 13.54n
ynad 15.16n
ynfydrym angerdd ynfyd 12.5n
ygni At.21n
ysbodol llwy grochan, lletwad
 12.63
ysbord 14.12n
ysbŷr *ll.* **ysbŷrs** 8.14n
ysglyfio ysglyfaethu, cipio
 1 *un.grff.myn.* **ysglyfiais** 13.39
ysgwîr 14.54n

ysgwthr 13.11n

ysgyfl ysglyfaeth 13.40

ystadlan 14.11n

ystên llestr 11.46

ystod rhediad, cwrs *ll.* **ystodiau**
10.65n

ystred rhes 16.35n

ystryd 16.35n

ystudliw nodwedd gyson 14.11n

ysu 2 *un.grch.* **ÿs** 11.35n

Enwau personau

- Alun** At.45n
Anna 17.2
Bedwyr 14.16n
Cai 14.16n
Dafydd¹ gw. **Gruffudd**
Dafydd² gw. **Rhys¹**
Deinioel 12.77n
Duw 10.1n, 4, 66, 11.53, 12.51,
 77, 90, 15.3, 38, 16.76, 17.9,
 At.21, 46
Edlym 15.2n
Edward At.14n
Eiddig 8.27n
Eigr 13.4n
Einiawn gw. **Gruffudd**
Elffin 15.55n
Euron 8.42n, 12.49n, 13.3n,
 16.62n, 70n
Ffraid gw. **San Ffraid**
Gruffudd ... Llwyd / Fab
Dafydd ... fab Einiawn ... o
Heilin hil 14.4–8n
Gwenhwyfar 12.42n
Heilin gw. **Gruffudd**
Huail 16.87n
Hu Gadarn 16.52n
Huw Sae At.2 **Huw** At.40, 46
Iesu 14.62
Iorwerth gw. **Rhys¹**
Llywarch 15.69n
Maelgwn 15.54n
Mair 12.12n, 29, 54, 14.30, 17.2,
 13, At.43
Ofydd 14.5n, 15.42n
Olifer At.8n
Owain Owain Glyndŵr 8.18n,
 9.6n, 10.60n, 64n
Padrig Padrig Sant 8.35n
Priam 16.2n
Rholant 16.68n
Rhys¹ 14.64 **Rhys ... Fab**
Dafydd ... hil Iorwerth
 14.58–60n
Rhys² 14.67, 15.1, 12, 29, 62, 79,
 16.20, 30, 31, 54, 59, 66, 72, 79
Rhys Goch 14.36
San Ffraid 12.28n
Syr Wiliam ... trawsfab Tomas
 16.2–4
Taliesin 14.8n, 15.53, 16.23
Tewdwr 16.17n
Tomas gw. **Syr Wiliam**
Urien 16.33n
Wiliam gw. **Syr Wiliam**
Ysbryd Glân 14.12, 15.47–8
Ysbryd 14.32, 15.47

Enwau lleoedd

Caer Wysg 9.37n	Gwynedd 14.43, 15.88, 16.24
Coed y Graig Lwyd 10.1–2n, 11.25–6n	Llech Ysgar 10.2n
Dôl Gynwal 14.39n	Lloegr 11.36
Ffrainc 9.24n, At.9n	Llundain 10.60n
Garreg Lech, y 11.26n [y]	Maelienydd 11.60n
Garreg 11.31n	Môn 16.28n, 73n
Graig Lwyd, y 12.54n y Graig 11.68	Morgannwg 16.90
Gwaun Gwaun Gaseg 9.54n	Nordd, y 10.58n
Gwaun Gaseg 9.41n (gw. hefyd Gwaun)	Powys 14.38n, 54, 15.87
	Rhaglan 16.6n, 10
	Tir Mael 11.66n
	Un-dref-ar-ddeg, yr 11.32n

Llawysgrifau

Cynnwys nifer o'r llawysgrifau a restrir waith sawl copiwr. Ceisir dyddio'r rhannau hynny y mae gwaith Sypyn Cyfeiliog a Llywelyn ab y Moel yn digwydd ynddynt yn unig. Yr wyf yn ddyledus i Mr Daniel Huws am unrhyw ddyddiadau neu wybodaeth na chrybwyllir yn y ffynonellau printiedig a nodir.

Llawysgrifau yng nghasgliad Prifysgol Cymru Bangor

Bangor 704: Richard Williams, Machynlleth, diwedd y 18g., gw. 'Catalogue of Bangor MSS. General Collection' (cyfrol anghyhoeddedig Prifysgol Cymru Bangor), dan lawysgrifau 703 a 704.

Bangor 1268: Rowland Lewis, hanner cyntaf yr 17g., gw. *ib.*

Bangor (Mos) 5: llaw gynnar Thomas Wiliems, c. 1570–90, gw. E. Gwynne Jones and A. Giles Jones, 'A Catalogue of the (Bangor) Mostyn Collection' i (cyfrol anghyhoeddedig, Prifysgol Cymru Bangor, 1967).

Llawysgrifau ychwanegol yn y Llyfrgell Brydeinig

BL Add 10313 [= RWM 52]: Dafydd Jones, Trefriw, ail hanner y 18g., gw. CAMBM 1836, 29; ByCy 423; W. Gerallt Harries, 'Un arall o lawysgrifau Dewi Fardd', B xxvi (1974–6), 161–8.

BL Add 12230 [= RWM 52]: Griffith Vaughan, c. 1689, gw. RWM ii, 1136–44.

BL Add 14873 [= RWM 55]: William Morris, 1739, gw. *ib.* 1156–9; Dafydd Wyn Wiliam, *Cofiant Wiliam Morris (1705–63)* (Llangefni, 1995), 170–1.

BL Add 14875 [= RWM 30]: llaw anh., ar ôl 1570, gw. CAMBM 1844, 19; RWM ii, 1039–48.

BL Add 14876: Richard Morris, c. 1722, gw. CAMBM 1844, 19–20.

BL Add 14901: llaw anh., dechrau'r 18g., gw. *ib.* 28–9.

BL Add 14940: sawl llaw, c. 1760, gw. *ib.* 40–1.

BL Add 14964: Owen Jones 'Owain Myfyr', 1768, gw. *ib.* 45.

BL Add 14966: Wiliam Bodwrda, c. 1644–6, gw. *ib.* 46–7; R.G. Gruffydd, 'Llawysgrifau Wiliam Bodwrda o Aberdaron (a briodolwyd i John Price o Fellteyrn)', Cylchg LIGC viii (1953–4), 349–50; D. Ifans, 'Bywyd a Gwaith Wiliam Bodwrda (1593–1660) o Aberdaron' (M.A., Cymru [Aberystwyth], 1974), 266–340; *id.* 'Wiliam Bodwrda (1593–1660)', Cylchg LIGC xix (1975–6), 300–10, *passim*.

- BL AAdd 14967 [= RWM 23]:** llaw anh., 1527–47, gw. RWM ii, 996–1014.
- BL Add 14969:** Thomas Prys, Huw Machno ac eraill, dechrau'r 17g., gw. CAMBM 1844, 48.
- BL Add 14970:** Edward Williams 'Iolo Morganwg', 1800–1, gw. *ib.* 48–9.
- BL Add 14976 [= RWM 22]:** un o gopiwyr Dr John Davies, Mallwyd, c. 1610–20, gw. RWM ii, 986–96.
- BL Add 14978:** sawl llaw anh., c. 1600, gw. CAMBM 1844, 53.
- BL Add 14980:** llaw anh., canol yr 17g., gw. *ib.* 54.
- BL Add 14986:** sawl llaw anh., ail hanner yr 16g., gw. *ib.* 56.
- BL Add 14989:** llaw anh., diwedd yr 16g., gw. *ib.* 57.
- BL Add 14991:** Hugh Maurice, 1773, gw. *ib.* 57–8.
- BL Add 15016:** llaw anh., ail hanner y 18g., gw. *ib.* 67.
- BL Add 15040:** llaw anh., dechrau'r 17g., gw. *ib.* 77.
- BL Add 31058:** sawl llaw anh., dechrau'r 17g., gw. CAMBM 1876–81, 154.
- BL Add 31063:** Hugh Maurice, c. 1800, gw. *l.c.*
- BL Add 31071:** Hugh Maurice, c. 1800, gw. *l.c.*
- BL Add 31080:** Owen Jones 'Owain Myfyr', 19g., gw. *l.c.*
- BL Add 31090:** Owen Jones 'Owain Myfyr', 19g., gw. *l.c.*

Llawysgrifau yng nghasgliad Bodewryd yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru

- Bodewryd 1:** Wmffre Dafis, 1600–35, gw. 'Schedule of Bodewryd Manuscripts and Documents' (cyfrol anghyhoeddedig, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, 1932), 1; E.D. Jones, 'The Brogyntyn Welsh Manuscripts', *Cylchg LIGC v* (1947–8), 258.

Llawysgrifau yng nghasgliad Llyfrgell Bodley, Rhydychen

- Bodley Welsh e 2:** Wiliam Bodwrda, 1644/6–1660, gw. SCWMBLO vi, 53; R.G. Gruffydd, *art.cit.* 350; D. Ifans, *op.cit.* 451; *id.*, *art.cit.* 300–10, *passim*.
- Bodley Welsh f 2:** llaw anh., ail hanner yr 16g., gw. SCWMBLO vi, 54; Garfield H. Hughes, *Iaco ab Dewi* (Caerdydd, 1953), 46–7.
- Bodley Welsh f 4:** Benjamin Simon, c. 1760, gw. SCWMBLO 54.

Llawysgrifau yng nghasgliad Brogyntyn yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru

- Brog (y gyfres gyntaf) 2:** Wmffre Dafis, 1599, gw. 'Catalogue of Brogyntyn Manuscripts and Documents' (cyfrol anghyhoeddedig, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, 1937), i, 3–5; E.D. Jones, 'The Brogyntyn Welsh Manuscripts', *Cylchg LIGC v* (1947–8), 234–6.

Brog (y gyfres gyntaf) 3: llaw anh., canol yr 17g., gw. 'Catalogue of Brogyntyn Manuscripts and Documents' (cyfrol anghyhoeddedig, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, 1937), i, 6–7; E.D. Jones, 'The Brogyntyn Welsh Manuscripts', *Cylchg LIGC* vi (1949–50), 1–42.

Llawysgrifau yn Llyfrgell Ganolog Caerdydd

Card 1.2 [= RWM 12]: Thomas Evans, Hendreforudd, 1600–4, gw. RWM ii, 145–58; G.C.G. Thomas & D. Huws, *Summary Catalogue of the Manuscripts ... commonly referred to as the "Cardiff MSS"* (Aberystwyth, 1994), 1.

Card 2.14: Wiliam Rowland 'or hendu', c. 1720–36 (y rhan fwyaf o'r llawysgrif wedi ei chopïo 1720–4), gw. G.C.G. Thomas & D. Huws, *op.cit.* 75–6.

Card 2.68 [= RWM 19]: llaw anh., c. 1624, gw. RWM ii, 178–93; G.C.G. Thomas & D. Huws, *op.cit.* 82.

Card 2.114 [= RWM 7] 'Llyfr Ficar Wocing': llaw anh., 1564–6, gw. RWM ii, 110–28; G.C.G. Thomas & D. Huws, *op.cit.* 88.

Card 2.617 [=Hafod 3]: Huw Machno ac eraill, c. 1620–25, gw. RWM ii, 302–6; G.C.G. Thomas & D. Huws, *op.cit.* 142.

Card 3.2 [= RWM 27]: llaw anh., 17/18g., gw. RWM ii, 224–9; G.C.G. Thomas & D. Huws, *op.cit.* 222.

Card 3.37 [= RWM 20]: llaw anh., c. 1636, gw. RWM ii, 193–202; G.C.G. Thomas & D. Huws, *op.cit.* 226.

Card 4.9: Wiliam Jones, Llangadfan, 1794, gw. G.C.G. Thomas & D. Huws, *op.cit.* 314–15.

Card 4.10 [= RWM 84]: Dafydd Jones, Trefriw, ail hanner y 18g., gw. RWM ii, 790–3; G.C.G. Thomas & D. Huws, *op.cit.* 315.

Card 5.44: Llywelyn Siôn, cwblhawyd 1613, gw. *ib.* 440.

Llawysgrifau yng nghasgliad Cwrtnawr yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth

CM 5: Ifan Tudur Owen, Dugoed, o bosibl, c. 1600, gw. RWM ii, 878–86; B.G. Owens & R.W. McDonald, 'A Catalogue of the Cwrtnawr Manuscripts', i (cyfrol anghyhoeddedig, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, 1980), 5–6.

CM 10: David Ellis, 1766, gw. RWM ii, 890–5; B.G. Owens & R.W. McDonald, *op.cit.* 11.

CM 11: David Ellis, 1777, gw. RWM ii, 895–900, B.G. Owens & R.W. McDonald, *op.cit.* 12–13.

CM 12: David Ellis, 1794, gw. RWM ii, 900–3, B.G. Owens & R.W. McDonald, *op.cit.* 14–15.

CM 27: David Ellis, 1630, gw. RWM ii, 925–32; B.G. Owens & R.W. McDonald, *op.cit.* 30–1.

CM 40: Robert Williams, Aber-erch, ‘Robin Llys Padrig’, 18/19g., gw. RWM ii, 935; B.G. Owens & R.W. McDonald, *op.cit.* 45–6.

CM 114: llaw anh., 1642–8 o bosibl, gw. *ib.* 145.

CM 312: sawl llaw, gan gynnwys llaw dybiedig Siôn Brwynog, yn ddiweddar yn yr 16g., gw. B.G. Owens, Rh.F. Roberts & R.W. McDonald, *A Catalogue of the Cwrtmawr Manuscripts*, ii (cyfrol anghyhoeddedig, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, 1993), 370; Eurys I. Rowlands, ‘Llaw dybiedig Siôn Brwynog’, *Cylchg LIGC* vii (1951–2), 381.

CM 467: Owen Gruffydd, 1677–92, gw. *ib.* 523.

Llawysgrifau yng nghasgliad Gwyneddon Davies ym Mhrifysgol Cymru Bangor

Gwyn 2: Watkin Lloyd, c. 1600, gw. GSCMB 30.

Gwyn 4: sawl llaw, gan gynnwys Wiliam Midleton (o bosibl), 1594–5, gw. *ib.* 30; I. Williams, ‘Protestaniaeth Wiliam Midleton’, B viii (1935–7), 242–7.

Gwyn 9: Peter Bayly Williams, 1801, gw. GSCMB 30–1.

Llawysgrifau yng nghasgliad Coleg Iesu, Rhydychen

J 101 [= RWM 17]: llaw anh., c. 1630, gw. RWM ii, 68–86; ‘Schedule of Bodewryd Manuscripts and Documents’ (cyfrol anghyhoeddedig, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, 1932), 1; E.D. Jones, ‘The Brogyntyn Welsh Manuscripts’, *Cylchg LIGC* v (1947–8), 234–6, plât rhif 32.

J 111 ‘Llyfr Coch Hergest’ [= RWM 1]: Hywel Fychan, c. 1400, gw. RWM ii, 1–29; G. Charles-Edwards, ‘The Scribes of the Red Book of Hergest’, *Cylchg LIGC* xxi (1979–80), 246–56.

J 138 [= RWM 16]: Robert Davies, Gwysanau, 1628, gw. RWM ii, 64–8.

J 139 [= RWM 14]: llaw anh., dechrau’r 17g., gw. *ib.* 56–7.

Llawysgrif yng nghasgliad J. Glyn Davies yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth

JGD 2: Wiliam Bodwrda, 17g., gw. ‘Schedule of Manuscripts and Papers Deposited by J. Glyn Davies, Esqu., M.A., Llanarth’ (cyfrol anghyhoeddedig, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, [1949]), 32–46; R.G. Gruffydd, *art.cit.* 349–50; D. Ifans, *art.cit.* 300–10, *passim*.

Llawysgrif yng nghasgliad J. Gwenogvryn Evans yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth

JGE II 2: Robert Vaughan, Hengwrt, canol yr 17g., gw. 'Schedule of Manuscripts, Books ... of the late Dr. Gwenogvryn Evans' (cyfrol anghyhoeddedig, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, 1930), 2.

Llawysgrifau yng nghasgliad Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth

LIGC 16B: cynorthwydd Wiliam Bodwrda, canol yr 17g., gw. NLWCM 37–47; R.G. Gruffydd, *art.cit.* 349–50; D. Ifans, *art.cit.* 300–10, *passim*.

LIGC 18B: David Ellis, 1794, gw. *ib.* 50–62.

LIGC 325E: Dafydd Thomas, 'Dafydd Ddu Eryri', yn gynnar yn y 19g., gw. *ib.* 213–19.

LIGC 428C: Howel W. Lloyd, canol y 19g., gw. *ib.* 299–302.

LIGC 471B: llaw anh., 16–17g., gw. HMNLW i, 23.

LIGC 672D: Morgan Davies, c. 1800, gw. *ib.* 47.

LIGC 727D: Huw Machno, 1610–26, gw. *ib.* 53.

LIGC 832E: William Bulkeley, Llanfechell, hanner cyntaf y 18g., gw. *ib.* 63.

LIGC 834B: un o gopïwyr Dr John Davies, Mallwyd, c. 1610–20, gw. *ib.* 64.

LIGC 970E [= Merthyr Tudful]: Llywelyn Siôn, 1613, gw. RWM ii, 372–94; HMNLW i, 77; D.H. Evans, 'Ieuan Du'r Bilwg (*fl.* c. 1471)', B xxxiii (1986), 106.

LIGC 1024D: llaw anh., ail hanner y 18g. (ar ôl 1765), gw. HMNLW i, 82.

LIGC 1247D: Rhys Jones o'r Blaenau, canol y 18g., gw. *ib.* 101.

LIGC 1553A: Roger Morris, Coedytalwrn, 1580–1600, gw. *ib.* 128–9.

LIGC 2025B [= Pant 58]: Evan Evans 'Ieuan Fardd', ail hanner y 18g., gw. RWM ii, 864.

LIGC 3046D [= Mos 143]: llaw anh., ail hanner yr 16g., gw. RWM i, 124–31.

LIGC 3047C [= Mos 144]: William Phylip, ail chwarter yr 17g., gw. *ib.* 131–51.

LIGC 3049D [= Mos 146]: llaw anh., ail hanner yr 16g. (tt. 24, 143, 144), ac Ifan Siôn o Wydir, *fl.* 1613–36 (td. 462), gw. *ib.* 168–79.

LIGC 3050D [= Mos 147]: Edward Kyffin, c. 1577, gw. *ib.* 180–96.

LIGC 3051D [= Mos 148]: llaw anh., ail hanner yr 16g., gw. *ib.* 196–212.

LIGC 3056D [= Mos 160]: Wmffre Dafis, c. 1600, gw. *ib.* 224–42; D. Huws 'The Transmission of a Welsh Classic' yn *Recognitions: essays*

presented to Edmund Fryde, ed. C.R. Richmond and I. Harvey (Aberystwyth, 1996), 194.

- LIGC 3057D [= Mos 161]:** llaw anh., c. 1558–63, gw. RWM i, 243–55.
- LIGC 4710B:** Gwilym Pue, Penrhyn Creuddyn, 1676, gw. HMNLW ii, 36–7.
- LIGC 5269B:** un o gopiŵyr Dr John Davies, Mallwyd, 1610–20, gw. *ib.* 82.
- LIGC 5474A [= Aberdâr 2]:** Benjamin Simon, Abergwili, 1745–51, gw. RWM ii, 395–408; HMNLW ii, 104; GP xv.
- LIGC 6209E:** William Jones, cynorthwydd Edward Lhuyd, 17/18g., gw. HMNLW ii, 158–9; G.H. Hughes, *Iaco ab Dewi 1648–1722* (Caerdydd, 1953) 32–3.
- LIGC 6496C [= copi ffotostat o lsg. Christ Church 184]:** Siôn Mawddwy o bosibl (*ex inf.* Graham Thomas), 16/17g., gw. HMNLW ii, 185.
- LIGC 6499B:** llaw anh., 17g., *ib.* 186.
- LIGC 6681B:** John Jones, Gellilyfdy, hanner cyntaf yr 17g., gw. *ib.* 204–5.
- LIGC 6881B:** David Ellis, 1794, gw. *ib.* 220.
- LIGC 9166B:** llaw anh., canol yr 17g. (os nad ychwanegiad), gw. HMNLW iii, 121.
- LIGC 11115B [= copi ffotostat o Lyfrgell John Rylands, Welsh MS 2]:** llaw anh., yn gynnar yn y 18g., gw. *ib.* 310.
- LIGC 13062B:** Thomas ab Ieuan, 1675–1700, gw. *ib.* iv, 353–4.
- LIGC 13125B:** Edward Williams ‘Iolo Morganwg’, 18/19g., gw. *ib.* 410.
- LIGC 13127A:** Edward Williams ‘Iolo Morganwg’, 18/19g., gw. *ib.* 411–12.
- LIGC 13167B:** Gwilym Pue, Penrhyn Creuddyn, 1674–6, gw. *ib.* 482–3.
- LIGC 16129D [= copi ffotostat o Harvard MS. Welsh 8]:** llaw anh., canol yr 17g., gw. ‘NLW Accessions 16049–18942’ (cyfrol anghyhoeddedig, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth).
- LIGC 17114B [= Gwysanau 25]:** llaw anh., c. 1560, gw. H.D. Emanuel, ‘The Gwysaney Manuscripts’, Cylchg LIGC vii (1952), 339; ‘Catalogue of the Gwysaney MSS’ (cyfrol anghyhoeddedig, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, 1953), 31–45; E. Bachellery, *Études* v (1950–1), 116–18; GO 21–2 (er iddo gamsynied am y dyddiad); BaTh 306.
- LIGC 17121D [= Gwysanau 38]:** llaw anh., canol yr 16g., gw. H.D. Emanuel, *l.c.*
- LIGC 21248D ‘Llyfr Gwyn y Berth-ddu’:** sawl llaw, hanner cyntaf yr 17g., gw. ‘Catalogue of Mostyn MSS purchased in 1974’ (cyfrol anghyhoeddedig, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, 1975), 24–65.

LIGC 21290E [= Iolo Aneurin Williams 4]: Llywelyn Siôn, 16/17g., gw. Rh.F. Roberts, 'A List of Manuscripts from the Collection of Iolo Morganwg among the Family Papers Presented by Mr Iolo Aneurin Williams and Miss H. Ursula Williams, 1953-4' (cyfrol anghyhoeddedig yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, 1978), 3-4.

LIGC Môn Adnau 1206B [= Tanybwlech 1]: llaw anh., c. 1700, gw. 'Schedule of the Contents of a Manuscript Volume of Welsh Poetry known as the Tanybwlech Manuscript' (cyfrol anghyhoeddedig, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, 1932), 1-42.

Llawysgrifau yng nghasgliad Llansteffan yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth

Llst 35: Wmffre Dafis, c. 1620, gw. RWM ii, 478-82; ByCy 117; E.D. Jones, 'The Brogyntyn Welsh Manuscripts', Cylchg LIGC v (1947-8), 234.

Llst 48: Llywelyn Siôn, 16/17g., gw. RWM ii, 523-5.

Llst 53: Siâms Dwnn, c. 1647, gw. *ib.* 534-45.

Llst 55: Siôn Dafydd Rhys (tt. 6, 22) a llaw anh. (td. 265), 1579, gw. *ib.* 549-53.

Llst 118: Wmffre Dafis, c. 1600-20, gw. *ib.* 579-92; E.D. Jones, 'The Brogyntyn Welsh Manuscripts', Cylchg LIGC v (1947-8), 234; ByCy 117.

Llst 123: Wiliam Bodwrda (td. 231) a llaw anh. (tt. 329, 361, 366, 371), ar ôl 1643, gw. RWM ii, 620-34; R.G. Gruffydd, *art.cit.* 350; D. Ifans, *op.cit.* 354.

Llst 124: Wiliam Bodwrda, c. 1648, gw. RWM ii, 634-49; R.G. Gruffydd, *l.c.*; D. Ifans, *op.cit.* 400.

Llst 125: Wiliam Bodwrda a llaw anh., ar ôl 1638, gw. RWM ii, 649-62; R.G. Gruffydd, *l.c.*; D. Ifans, *op.cit.* 376.

Llst 133: Samuel Williams (59, 61, 116, 353) a Iaco ap Dewi (683), yn gynnar yn y 18g., gw. RWM ii, 664-94; G.H. Hughes, *op.cit.* 37-40.

Llst 134 'Llyfr Hir Amwythig': Llywelyn Siôn, 16g./17g., gw. RWM ii, 695-712; CLC² 478-9.

Llst 165: T. Jones, Pennant Melangell, c. 1680, gw. RWM ii, 754.

Llawysgrifau yng nghasgliad Peniarth yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth

Pen 4 'Llyfr Gwyn Rhydderch': llaw anh., hanner cyntaf y 15g., gw. RWM i, 305-6; Daniel Huws, 'Llyfr Gwyn Rhydderch', CMCS xxi (Summer 1991), 36.

- Pen 76:** llaw anh., ail chwarter yr 16g., gw. RWM i, 503–8; *Peniarth 76*, copiwyd gan E. Stanton Roberts a golygwyd gan W.J. Gruffydd (Caerdydd, 1927).
- Pen 77:** llaw gynnar Thomas Williems, 1576 (hanner cyntaf y llsg.), gw. RWM i, 509–18; GP liii.
- Pen 81:** llaw anh., chwarter olaf yr 16g., gw. RWM i, 527–31.
- Pen 86:** llaw anh., ail hanner yr 16g., gw. *ib.* 550–6.
- Pen 90:** Siôn Cain, c. 1641, gw. *ib.* 565–6.
- Pen 93:** llaw anh., diwedd yr 16g., gw. *ib.* 572–8.
- Pen 96:** Lewis Dwnn, c. 1600, gw. *ib.* 592–603.
- Pen 100:** Dr John Davies, Mallwyd, 16/17g. (196, 203), ac un o'i gopiwyd (365), c. 1610–20), gw. *ib.* 624–34.
- Pen 104:** llaw anh., 1624–51, gw. *ib.* 644–54.
- Pen 108:** llaw anh., c. 1625–40, gw. *ib.* 652–4.
- Pen 112:** John Jones, Gellilyfdy, cyn 1610, gw. *ib.* 671–86; N. Lloyd, 'A History of Welsh Scholarship in the First Half of the Seventeenth Century, with Special Reference to the Writings of John Jones, Gellilyfdy' (Oxford, D.Phil., 1970), 28–33.
- Pen 113:** John Jones, Gellilyfdy, 1640, gw. RWM i, 686–9.
- Pen 118:** Siôn Dafydd Rhys a'i gylch, c. 1600, gw. *ib.* 718–25.
- Pen 124:** llaw anh., hanner cyntaf y 18g., ar ôl 1713, gw. *ib.* 754–68.
- Pen 151:** William Maurice, Llansilin, 1638, gw. *ib.* 924–6.
- Pen 152:** Robert Vaughan, canol yr 17g., gw. *ib.* 927–32.
- Pen 181:** llaw anh., canol yr 16g., gw. *ib.* 1001–4.
- Pen 221:** John Jones, Gellilyfdy, ar ôl 1620, gw. *ib.* 1045; N. Lloyd, *op.cit.* 26–7; M.T. Burdett-Jones, 'Trydydd Llyfr Cywyddau John Jones, Gellilyfdy', YB xvi (1990), 127–40.
- Pen 251:** un o gynorthwywyr Edward Lhuyd, c. 1698, gw. RWM i, 1069–70.
- Pen 312:** John Jones, Gellilyfdy, 1610–40, gw. *ib.* 1114–18.

Llawysgrif yng nghasgliad Stowe yn y Llyfrgell Brydeinig, Llundain
Stowe 959 [= RWM 48]: llaw anh., 16/17g., gw. RWM ii, 1110–1126.

Llawysgrifau yng nghasgliad Wynnstay yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth

Wy 1: Thomas Wiliems, c. 1570–90, gw. 'Schedule of the Wynnstay Manuscripts and Documents' (cyfrol anghyhoeddedig, Llyfrgell

Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, 1934–40), 1–2.

Wy 2: un o gynorthwywyr Wiliam Bodwrda, canol yr 17g., gw. *ib.* 2.

Mynegai i'r llinellau cyntaf

	<i>Td.</i>
A fo pur fel dur mae'n dirion,—mewn dameg.....	34
A! druan fawd lydan ledr.....	104
Bwriais serch heb ei erchi.....	32
Coron owdl cywrain ydwyf.....	23
Cyfarfod, hir gydfod hwyr.....	35
Da 'dd oeddem y dydd heddiw.....	94
Di-dŷ, dilety, di-lais,—Dafydd.....	38
Doe'r pryd hwn yr oeddwn i.....	109
Fy lloer a'i gwallt fal lliw'r gwin.....	26
Gair teg ychwaneg diachwynion—gwedy.....	37
Gwae, o hilion gwehelyth.....	29
Haerllug ym mrwydr, naf hirllwyd.....	131
Hir hoedl i'm naf cadr afael.....	21
Mab cadr Cadwaladr, ceidw heolydd—hael.....	13
Pam y'm cên heb awenydd?.....	114
Rho Duw, Goed, rhydeg ydwyd.....	96
Rhos dy liw, Rhys deuluaidd.....	119
Sathrodd aur seithradd wryd.....	125
Tydi amner, tew dwymnyth.....	100
Y bedlwyn ir, bodlawn wyf.....	91
Ys da ferch a ordderchodd.....	130

Mynegai i'r noddwyr a'r gwrthrychau

Cerdd

Annes Cwrtes o Leweni.....	2
barf.....	13
bedlwyn.....	8
Brwydr Waun Gaseg.....	9
Coed y Graig Lwyd.....	10
Dafydd ap Cadwaladr o Fachelltref	1, Atodiad (Sypyn Cyfeiliog) iii
Harri Salsbri o Leweni.....	2
Huw Sae o'r Trallwng.....	Atodiad (Llywelyn ab y Moel)
Iesu.....	17
Mair.....	17
pwr.....	11
Rhys Goch Eryri	14, 15, 16
tafod	12